Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWAITH | | THE EXECUTIVE |
| DYDD LLUN<br>18 CHWEFROR 2019<br>10.00 o'r gloch | | MONDAY<br>18 FEBRUARY 2019<br>10.00 am |
| SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI | | COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

I gyflwyno ar gyfer eu cadarnhau, cofnodion drafft y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2019.

**4 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3. 2018/19** (Tudalennau 7 - 40)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**5 MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 3, 2018/19** (Tudalennau 41 - 50)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**6 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 3, 2018/19** (Tudalennau 51 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7 POLISI CYMORTH DEWISOL TUAG AT DRETH BUSNES** (Tudalennau 59 - 64)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8 FFIOEDD A THALIADAU GWASANAETHAU DI-BRESWYL 2019/20** (Tudalennau 65 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion.

**9 Y FFI SAFONOL AR GYFER CARTREFI GOFAL Y CYNGOR 2019/20** (Tudalennau 73 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion.

**10 FFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL 2019/20** (Tudalennau 77 - 86)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **RHENTI TAI A FFIOEDD AR GYFER GWASANAETHAU TAI 2019/20** (Tudalennau 87 - 94)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Tai.

**12** **DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU** (Tudalennau 95 - 116)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**13** **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB AR GYFER 2019/20** (Tudalennau 117 - 170)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**14** **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2019/20 I 2021/22** (Tudalennau 171 - 192)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**15** **STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2019/20** (Tudalennau 193 - 232)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**16** **CYLLIDEB CYFALAF 2019/20** (Tudalennau 233 - 244)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**17** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 245 - 256)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**18** **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD: 4.5 RHEOLAU GWEITHDREFN SGRIWTINI - 4.5.4 CYNRYCHIOLWYR ADDYSG** (Tudalennau 257 - 262)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**19** **ADRODDIAD CYNNYDD A CHYNLLUN GWEITHREDU ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT** (Tudalennau 263 - 286)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 8)<br>Rheolwr Gwasanaeth Tai (Comisiynu Strategaeth a Pholisi)(ar gyfer eitem 8)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Eric Jones, R. Llewelyn Jones |

---

1. **DATGAN DIDDORDEB**

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2. **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim i'w adrodd.

3. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith ar 17 Rhagfyr, 2019 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr, 2018 fel rhai cywir yn amodol ar nodi fod y Cynghorydd Richard Dew yn bresennol yn y cyfarfod.**

4. **COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd y cofnodion o gyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol ar 10 Rhagfyr, 2018 i'w mabwysiadu.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2018.**

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Chwefror, 2019 i Medi, 2019.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn –

**Eitemau newydd i'r Rhaglen Waith -**

- Eitem 1 – Ymgynghoriad ar y Strategaeth Doiledau. Mae'r penderfyniad wedi'i ddirprwyo i'r Deilydd Portffolio a'r amserlen ar gyfer ei gyhoeddi yw Ionawr/Chwefror, 2019.
- Eitem 7 – Strategaeth Gyfalaf i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror, 2019.
- Eitem 8 – Cyllideb Gyfalaf, 2019/20 i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror, 2019.
- Eitem 14 – Newidiadau i'r Cyfansoddiad (Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini) i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror, 2019.
- Eitem 23 – Polisi Taliadau Tai Dewisol i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth, 2019.
- Eitem 24 – Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth, 2019.
- Eitem 25 – Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth, 2019.
- Eitem 26 – Panel Comisiynu Cefnogi Pobl i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth, 2019.
- Eitem 27 – Moderneiddio Ysgolion (Adroddiad ar wrthwynebiadau i adnewyddu ac ehangu Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed) i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth, 2019.
- Eitem 28 – Moderneiddio Ysgolion (Adroddiad ar wrthwynebiadau i ehangu Ysgol y Graig a chau Ysgol Talwrn) i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth, 2019.
- Eitem 37 – Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2019/20 Chwarter 1 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Medi, 2019.
- Eitem 38 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a Chyfalaf 2019/20, Chwarter 1 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Medi, 2019.

**Newidiadau ers cyhoeddi'r agenda a'r adroddiad uchod** –

- Eitem 17 – Polisi Cludiant Ysgolion, wedi'i ail-raglennu o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror, 2019 i'w gyfarfod ar 25 Mawrth, 2019.
- Eitem 22 – Darpariaeth Hamdden ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – Cais gan y gwasanaeth i ail-raglennu'r eitem o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Mawrth, 2019 i gyfarfod diweddarach ar ddyddiad i'w gadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Chwefror i Fedi, 2019 gyda'r newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

DRAFT

## 6. ADRODDIAD GAN AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (AGC) O'I AROLWG AR Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn crynhoi canlyniad ail-arolwg AGC o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yng Nghyngor Sir Ynys Môn ym mis Hydref, 2018. Cyflwynwyd hefyd gopi o adroddiad ail arolwg AGC.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod adroddiad AGC yn dilyn ei ail arolwg o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn y Cyngor yn adroddiad cadarnhaol sy'n cydnabod y gwelliannau sylweddol a wnaed gan Wasanaethau Plant Ynys Môn mewn nifer o feysydd allweddol ers yr arolwg gwreiddiol ym mis Tachwedd, 2016. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn adnabod meysydd i'w datblygu ymhellach – dyma'r meysydd y bydd y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn canolbwyntio arnynt a byddant wedi eu hamlygu yn y Cynllun Gwasanaeth newydd a fydd yn mynd â'r gwasanaeth yn ei flaen. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod y Gwasanaethau Plant yn gydran hanfodol o ddarpariaeth yr Awdurdod Lleol, ac yn Ynys Môn fel mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, mae'r Gwasanaethau Plant yn wynebu nifer o heriau; roedd Arweinwyr y Cyngor yn cydnabod hyn ac mewn cyfarfod diweddar o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru roeddent wedi rhannu eu pryderon am ddyfodol y Gwasanaethau Plant a'r pwysau ariannol sydd ar gyllidebau'r Cyngor wrth orfod cwrdd â'r galw sy'n tyfu yn y Gwasanaethau Plant. Mae'r gwelliannau y mae Gwasanaethau Plant Ynys Môn wedi eu cyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i Aelodau a Swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd gyda'r bwriad y dylai'r gwelliannau hyn hefyd yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a'u teuluoedd. Mae angen i effeithiau positif gwasanaeth sy'n perfformio'n dda gael eu hadlewyrchu o fewn cymunedau ac ym mywydau plant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd. Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Dros Dro ar y Gwasanaethau Plant am roi'r Cynllun Gwella Gwasanaeth cychwynnol at ei gilydd ar ôl yr arolwg yn 2016, i Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd am fynd â'r Cynllun yn ei flaen ac i'r Prif Weithredwr, y Prif Weithredwr Cynorthwyol / Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol am eu harweiniad a'u cefnogaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn ddiolchgar i AGC am eu gwaith arolygu yn 2016 a 2018 ac am eu cyfraniad at welliant y Gwasanaeth trwy roi anogaeth a chefnogaeth iddo, gan sicrhau bod y Gwasanaeth wedi aros ar y trywydd iawn trwy gydol y broses wella dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Pwysleisiodd y Swyddog fod yna dal waith i'w wneud, a bod gwella'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn broses barhaus. Mae'r meysydd i'w datblygu a nodwyd gan AGC yn rhai y mae'r Gwasanaeth yn cytuno efo nhw ac wedi eu hadnabod, a theimlir bod y Gwasanaeth yn fwy ymwybodol ohono'i hun ac yn gwybod lle y mae, a lle y dymuna fod. Mae'r tabl yn yr adroddiad sy'n dangos safle'r Gwasanaeth ar bob un o'r 14 maes i'w datblygu yn cynrychioli'r sail i'r Cynllun Gwasanaeth Newydd; bydd y Gwasanaeth yn ychwanegu ato yn seiliedig ar ei ddealltwriaeth o'r meysydd y dymuna eu datblygu, er enghraifft y fenter Cartrefi Grŵp Bach ac Ôl-ofal. Bydd y CGG newydd yn cael ei ddatblygu dros yr ychydig fisoedd nesaf cyn ei gyflwyno i'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant ac wedi hynny i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac i'r Pwyllgor Gwaith. Dywedodd y Swyddog ei bod yn hanfodol fod y Gwasanaeth yn cynnal momentwm y gwelliant a gyflawnwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a'i fod yn parhau i gydweithio gydag Aelodau a phartneriaid i wella gwasanaethau ymhellach. Diolchodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant, y Tîm Arweinyddiaeth Strategol ac i bartneriaid y Gwasanaeth am iddynt oll gyfrannu at y broses wella, a dywedodd bod y diolch mwyaf yn mynd i staff y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Thîm Rheoli'r Gwasanaeth.



DRAFT

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 17 Ionawr, 2019 lle rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Ail Arolwg AGC ar Wasanaethau Plant Ynys Môn. Amlinellodd gasgliadau'r Pwyllgor Sgriwtini yn seiliedig ar grynodeb y Rheolwr Sgriwtini o drafodaethau'r Pwyllgor fel a ganlyn –

- Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon gyda chasgliadau AGC yn ei adroddiad o'r ail arolwg gan nodi bod y prif negeseuon yn cyd-fynd â dealltwriaeth yr Awdurdod o'r Gwasanaeth.
- Nad yw adroddiad AGC yn dweud unrhyw beth nad yw'r Rheolwyr ac Aelodau Etholedig yn ymwybodol ohono eisoes.
- Bod AGC wedi cadarnhau yn y cyfarfod fod yr holl gyfrifoldebau statudol o fewn y Gwasanaethau Plant yn cael eu cyflawni ac ar adeg yr arolwg, nid oedd unrhyw feysydd o bryder oedd angen eu cyfeirio'n uwch.
- Bod AGC wedi cadarnhau bod y CGG amlinellol yn gadarn ac yn ymgorffori'r holl feysydd i'w datblygu a nodwyd.
- Bod AGC wedi cadarnhau fod gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant rôl i'w chwarae o hyd wrth fonitro a goruchwylio'r broses wella sy'n parhau.
- Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cydnabod bod angen cynnal momentwm y gwelliant er mwyn sicrhau gwelliant parhaus ac fe sicrhaodd AGC mai dyma fyddai'n digwydd. Bydd y Pwyllgor yn cadw llygad agos ar y gwaith hwn.
- Roedd y Pwyllgor Sgriwtini yn llongyfarch pawb a fu ynghlwm â'r siwrnai wella hyd yma, sy'n cynnwys Aelodau Etholedig, Rheolwyr a staff y Gwasanaeth ac, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r cyflwyniad gan AGC, roedd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad AGC a safle'r Gwasanaeth o ran y camau y bydd yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd i'w datblygu, ac roedd yn argymell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn falch o'r gwelliannau a bod adroddiad AGC yn dyst iddynt. Diolchodd i staff y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd am eu gwaith caled a oedd wedi creu'r gwelliannau hyn ac roedd yn hyderus y byddai'r lefel uchel o ymroddiad yn cael ei gynnal gan wybod bod gwaith pellach angen ei wneud.

Fe wnaeth y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – na fu'n bresennol am y rhan gyntaf o'r eitem hon – ategu ymroddiad y Pwyllgor Sgriwtini i sicrhau gwelliannau pellach yn y Gwasanaethau Plant gan nodi fod y siwrnai wella yn un barhaus; ei gydnabyddiaeth o'r cyfraniad a wnaed gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a'r rôl barhaus sydd gan y Panel i'w chwarae o hyd wrth gefnogi gwelliannau i'r dyfodol, a'i werthfawrogiad i waith y staff mewn amgylchedd sy'n gallu bod yn heriol ond yn ysbrydoledig hefyd. Diolchodd i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol am ei harweinyddiaeth a'i chyfarwyddyd yn ystod y cyfnod gwella.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod y gwaith caled a fu'n sail i'r gwelliannau sylweddol yn y Gwasanaethau Plant, fel roedd AGC yn ei gydnabod. Wrth groesawu'r adroddiad, pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith fod rhaid cynnal y momentwm; i'r perwyl hwnnw cynigiodd y dylai'r Pwyllgor Gwaith barhau i dderbyn yr adroddiadau cynnydd chwarterol ar welliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sydd wedi ffurfio rhan o'r broses adrodd ar siwrnai wella y Gwasanaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf – byddai hynny'n galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gadw llygad ar raddau a chyflymder y cynnydd.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar eu harolygiad o Wasanaethau Plant Ynys Môn.**



DRAFT

- **Derbyn a chytuno â safiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi sylw i'r meysydd hynny y mae hangen eu datblygu.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn parhau i dderbyn adroddiadau diweddaru cynnydd chwarterol ar welliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

## 7. ADRODDIAD ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN – RHEOLI TRYSORLYS 2018/19

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn ymgorffori adolygiad o'r sefyllfa a gweithgarwch Rheoli Trysorlys hanner ffordd trwy flwyddyn ariannol 2018/19.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod yr adroddiad adolygiad canol-blwyddyn ar weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor wedi cael ei baratoi yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys; bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn o dan delerau Cyfansoddiad y Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant wedi ystyried a derbyn yr adroddiad heb unrhyw sylwadau ychwanegol. Gellir crynhoi'r prif bwyntiau fel a ganlyn –

- Roedd y Cyngor yn dal gwerth £6.089m o fuddsoddiadau ar 30 Medi, 2018 a cheir manylion amdanynt yn Atodiad 4 yr adroddiad. Mae'r perfformiad am y flwyddyn hyd yma o ran yr arian a ddychwelwyd ar fuddsoddiadau sef £0.023m yn uwch na'r swm o £0.017m a gynhwyswyd yn y gyllideb, a'r rheswm am hyn oedd y cynnydd yn y gyfradd banc o 0.5% i 0.75% yn Awst, 2018.
- Mae'r gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) a ragamcannir ar gyfer 2018/19 yn £142m. Mae hyn yn pennu angen gwaelodol y Cyngor i fenthyca er mwyn ariannu gwariant cyfalaf a chaiff ei gyllido trwy fenthyca allanol - £125.6m a hefyd fenthyca mewnol - £16.4m sy'n dod o falensau arian parod y Cyngor. Ym mis Ionawr, 2019 fe wnaeth benthyciad gan y PWLB (£5m) aeddfedu ac fe'i talwyd yn ôl ynghyd â benthyciad gan Gyngor Sir Gogledd Swydd Efrog (hefyd yn £5m); rhoddodd hyn gyfle i ailstrwythuro benthyciadau'r Cyngor a arweiniodd at fenthyciad o £15m ac roedd hynny'n cynnwys £5m i dalu'n ôl i PWLB; £5m i dalu'n ôl i Gyngor Sir Gogledd Swydd Efrog a £5m i ail-gydbwyso'r gyfran o fenthyca mewnol o gymharu â benthyca allanol er mwyn cynyddu balansau arian parod y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn gosod Dangosyddion Darbodus fel rhan o'i Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod; caiff y rhain eu dylunio i reoli benthyca'r Cyngor gan sicrhau nad yw'n benthyca ar lefel sy'n anghynaladwy yn y tymor hir. Cyfeirir at y dangosyddion yn rhan 7 yr adroddiad. Ni ragwelir y ceir unrhyw anhawster cydymffurfio gyda'r dangosyddion yn y flwyddyn gyfredol. Mae Tabl 7.5.1 yr adroddiad yn dangos y balans rhwng benthyca allanol a mewnol gyda chyfanswm y benthyca mewnol wedi cael ei adolygu i lawr o'r amcangyfrif gwreiddiol o £27.467m i £16.409m o ganlyniad ostyngiad yn y gwariant cyfalaf a'r ailstrwythuro y cyfeiriwyd ato'n flaenorol.

**Penderfynwyd cymeradwyo adroddiad adolygu canol blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2018/19 a'i anfon ymlaen i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylw pellach.**

## 8. STRATEGAETH LEOL CYFRANOGIAID TENANTIAID 2018-23

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ymgorffori'r Strategaeth Leol Cyfranogiad Tenantiaid am y cyfnod 2018-23 er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Landlordiaid Cymdeithasol gytuno ar a chyhoeddi Strategaeth Gyfranogiad ar gyfer Gwasanaethau Tai. Drwy ddarparu strategaeth sy'n cynnig amrediad o ffyrdd o gymryd rhan,



DRAFT

gall denantiaid ddewis sut a phryd y maent yn dymuno cyfranogi. Dywedodd yr Aelod Portffolio ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cymeradwyo Cyfranogiad Tenantiaid fel strategaeth o bwys.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) bod cyfranogiad Tenantiaid yn cael ei ystyried fel rhywbeth pwysig gan y Gwasanaeth Tai. Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio amrediad o ddulliau i ymgysylltu gyda thenantiaid ar wahanol lefelau. Dywedodd y Swyddog y gwnaed cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf tuag at sicrhau cyfranogiad tenantiaid bywiog.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 CHWEFROR 2019** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASNAETH** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **BETHAN HUGHES-OWEN / CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>02148 752663 / 751865<br>clkfi@ynysmongov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1.** Ym mis Chwefror 2018, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2018/19 gyda gwariant net y gwasanaethau, swm o £130.870m i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Cymeradwywyd swm ychwanegol o £0.075m ar gyfer ei wario ar eitemau nas cynlluniwyd ar eu cyfer. Yn dilyn hyn, fe ostyngwyd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor gan £0.045m. Felly, mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2018/19 yn £130.900m.

**2.** Roedd y gyllideb am 2018/19 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £2.522m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y (tan) / gorwariant a ddangosir. Tra bod angen arbedion sylweddol unwaith eto i gydbwyso'r gyllideb, dyrannwyd swm ychwanegol o £0.707m i ddelio gyda'r pwysau ychwanegol ar y gyllideb.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 3 ac mae'n cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Rhagfyr 2018. Ceir crynodeb hefyd o'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2018/19, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £1.589m. Mae hyn cyfateb i 1.21% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2018/19. Mae hyn i'w briodoli i bwysau cyllidebol tebyg i'r rhai a brofwyd yn 2017/18, yn arbennig felly cost y gwasanaethau statudol i blant.

**5.** Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2018/19;
**(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2018/19 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
**(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
**(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2018/19 yn Atodiad D;
**(v)** Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2018/19 yn Atodiadau DD ac E.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

| D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? | | |
|---|---|---|
| Ydi | | |

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae'r UDA yn derbyn diweddariadau misol ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac maent yn cytuno hefo cynnwys yr adroddiad yma. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | D/B – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r UDA ac heb sylwadau pellach i'w gwneud. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylwadau |
| 5 | **Eiddo** | D/B |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | D/B |
| 7 | **Sgriwtini** | Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Sgriwtini Cyllid sy'n llawn ymwybodol o sefyllfa ariannol y Cyngor. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | D/B |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | D/B |

| E - | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Angylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2018/19
- Atodiad B – Tabl o'r Alldro Refeniw a ragamcenir ar gyfer 2018/19
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau Wrth Gefn 2018/19
- Atodiad CH – Adolygiad o'r Prosiectau Buddsoddi i Arbed 2018/19
- Atodiad D – Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2018/19
- Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2018/19
- Atodiad E – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2018/19

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2018/19 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 19 Chwefror 2018 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2018).

**ATODIAD A**

**MONITRO'R CYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3 2018/19**

## 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan y Cyngor falans terfynol archwiliedig o £7.601m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £1.869m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Roedd balans terfynol archwiliedig y gronfa wrth gefn yn £6.899m ar ôl gwneud addasiadau yn dilyn yr archwiliad.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr eitemau canlynol ar gyfer eu hariannu o'r Gronfa Gyffredinol yn 2018/19:-

| Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith | Swm £ 000 | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | -6,899 | Y gronfa wrth gefn archwiliedig derfynol ar 31 Mawrth 2018 |
| 6 Tachwedd 2017 | 125 | Cyllido'r tîm Ynys Ynni. |
| 30 Ebrill 2018 | 42 | Cyllideb i gyllido'r costau o redeg Melin Llynnon yn 2018, i'w gyllido o'r Gronfa wrth gefn Gyffredinol. |
| 21 Mai 2018 | 268 | I'r cyllid hwn gael ei ryddhau o gronfeydd wrth gefn y Cyngor er mwyn cyllido gweithwyr cymdeithasol asiantaeth profiadol am 12 mis er mwyn cefnogi a mentora 7 o weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. |
| Pwerau Dirprwyedig y Swyddog Adran 151 | 24 | Trosglwyddo cyllid i'r Gronfa Gyfalaf Wrth Gefn ar gyfer Maes Parcio Mill Bank. |
| Pwerau Dirprwyedig y Swyddog Adran 151 | 131 | Diwygio'r modd y caiff cronfa wrth gefn y CRT ei drin ar gyfer Lwmp Swm Pensiynau. |
| **Cronfa Gyffredinol Ddiwygiedig y Cyngor** | **-6,309** | **Fel y soniwyd uchod, gall hyn newid yn dilyn unrhyw addasiadau ar ôl archwiliad.** |

Amcangyfrifir y bydd yr alldro rhagamcanedig ar gyfer 2018/19 yn orwariant o £1.589m. Mae hyn yn llawer gwell na'r gorwariant rhagamcanedig o £2.66m yn Chwarter 2. Os bydd y duedd hon yn parhau yn unol â'r rhagolygon ar gyfer Chwarter 3, bydd cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn debygol o ostwng i £4.720m erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn ymhell islaw isafswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol, sydd wedi'i osod ar £6.5m, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018.

## 2. Perfformiad Ariannol Rhagamcanedig fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig ar gyfer pob un wedi'i nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £2.972m (2.61%) ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £3.561m yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Yn Rhagfyr 2018, gydag awdurdod yr UDA, anfonodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nodyn briffio at Benaethiaid Gwasanaeth yn sôn am y sefyllfa ariannol gyfredol a'r angen i wneud arbedion. Awgrymwyd nifer o fesurau yr oedd angen eu cymryd i leihau gwariant/cynyddu incwm erbyn diwedd y flwyddyn, megis oedi cyn recriwtio i swyddi gweigion, cyfyngu gor-amser, cynyddu ffioedd yn gynt ac ati. Mae'n beth i'w ganmol bod yr awgrymiadau hyn wedi cael eu gwneud a bod y Penaethiaid Gwasanaeth wedi gweithredu ar y cyngor hwn o ran y gwariant sydd dan eu rheolaeth. Dyma ran o'r rheswm dros y gostyngiad yng ngorwariant y gwasanaethau. Rhagamcenir tanwariant o £1.21m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir gwarged o o £173k mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor ac, o hwnnw, mae £218k i'w briodoli i warged ar Bremiwm y Dreth Gyngor. Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd gorwariant o £1.589m yn y gyllideb refeniw yn ei chyfanrwydd ar gyfer 2018/19, sef 1.21% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu uwch). Nid yw'r rhagolygon yn cymryd i ystyriaeth unrhyw bwysau ychwanegol a all godi os ceir tywydd garw dros y gaeaf (costau cynnal a chadw priffyrdd dros y gaeaf, costau gofal cymdeithasol). Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol ar y Cyngor yn parhau i fod y costau Rhiantu Corfforaethol. Disgwylir i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd orwario £ 2.009m. Gwasanaeth statudol a arweinir gan y galw yw hwn ac ychydig o reolaeth sydd gennym drosto.

| **Crynodeb o'r Amrywiadau Rhagamcanedig ar 31 Mawrth 2019 yn seiliedig ar y wybodaeth ariannol a oedd ar gael ar 31 Rhagfyr 2018** | |
|---|---|
| | **(Tan) / Gorwariant £000** |
| Dysgu | 489 |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 2,009 |
| Oedolion | 1,035 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | (328) |
| Rheoleiddio ac Economaidd | (169) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (138) |
| Costau nad oes modd eu rheoli – dyledion drwg, yswiriant a chostau cyfala pensiwn | 200 |
| Cyllid Corfforaethol | (1,210) |
| Y Dreth Gyngor, gan gynnwys y Premiwm Dreth Gyngor | (173) |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau sy'n llai na £100k) | (126) |
| **Cyfanswm Amrywiad y gor / (tan) wariant)** | **1,589** |

## 3. Esboniad o Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gorwariant o £540k (12.42%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd Chwarter 3. Rhagamcenir y bydd gorwariant o £589k (13.74%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sydd yn £38k yn well na'r gorwariant o £627k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 2.

**3.1.1.2** Rhagwelir nifer o danwariannau ar draws y Gwasanaeth. Y pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yw: Cludiant Ysgol – Tacsis ble rhagwelir gorwariant o £304k, sydd ychydig yn uwch na'r costau a ragwelwyd yn ystod Chwarter 2 (£296k). Disgwylir gorwariant o £117k ar Gyd-Strategaeth AAA Ynys Môn a Gwynedd oherwydd methiant i gynhyrchu'r incwm gofynnol, costau rheolau prosiect ar gyfer cam 2 y strategaeth a chostau canolog ychwanegol i Wynedd am letya'r gwasanaeth ar y cyd. Mae hyn £10k yn well na Chwarter 2. Parheir i ragweld y bydd gorwariant mewn perthynas â chostau statudol integreiddiad uwchradd ond mae wedi gostwng gan £42k i £38k o gymharu â Chwarter 2 (£80k).  Mae'r sefyllfa o ran cyfanswm y gorwariant ar brydau ysgol wedi gwella gyda gorwariant llai o £28k a gostyngiad o £50k o gymharu â'r gorwariant o £78k a ragwelwyd yn Chwarter 2. Rhagwelir y bydd costau Addysg Bellach yn cynyddu o orwariant o £31k yn Chwarter 2 i £67k yn Chwarter 3.

### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd tanwariant o £53k (4.7%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £100k (7.57%). Mae hyn yn ostyngiad bychan o £13k o gymharu â'r tanwariant a ragwelwyd yn ystod Chwarter 2. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r tanwariant, £50k, yn y Gwasanaeth Llyfrgell oherwydd swyddi gweigion. Rhagwelir tanwariant o £40k ar Amgueddfeydd ac Orielau oherwydd bod Oriel Ynys Môn wedi perfformio'n well. Rhagwelir y bydd tanwariant o £20k ar Talnet. Rhagwelir y bydd gorwariant o £10k ar yr Archifau ac y bydd y gwasanaeth yn cael costau o £5k nas cyllidebwyd ar eu cyfer mewn perthynas â chostau cyfreithiol yn dilyn dwyn y brydles ar Ynys Lawd i ben.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £1,339k (7.41%) yn y gwasanaeth am y cyfnod hwn a rhagwelir y bydd yr alldro am y flwyddyn yn ei chyfanrwydd yn orwariant o £1,035k (4.21%). Mae hyn yn adlewyrchu tuedd barhaus o gostau cynyddol. Mae'r gorwariant £169k yn uwch na'r gorwariant o £866k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 2. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd yn nifer y cleientiaid yn y Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed a Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

**3.2.2** Roedd yr elfennau o ran yr amrywiad yn yr alldro a ragamcanwyd fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: rhagwelir gorwariant o £460k, cynnydd mawr o gymharu â'r gorwariant o £52k yn Chwarter 2. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd yn nifer y cleientiaid mewn lleoliadau Nyrsio a Phreswyl ac mae £183k yn ymwneud â chostau cynyddol yn Hafan Cefni a Phenucheldre oherwydd bod mwy o unigolion gydag anghenion cymhleth yn cael gofal pedair awr ar hugain.
- Anableddau Corfforol (AC): rhagwelir gorwariant o £363k, sy'n well na'r gorwariant o £426k a ragwelwyd yn Chwarter 2. Mae'r gorwariant rhagamcanedig wedi gostwng oherwydd bod cyllideb wedi cael ei throsglwyddo (£45k) a gostyngiad o £19k yng nghostau lleoliadau preswyl.
- Anableddau Dysgu (AD): rhagwelir gorwariant o £82k, gwelliant mawr arall o gymharu â'r gorwariant o £478k a ragwelwyd yn Chwarter 2. Mae'r gwelliant hwn i'w briodoli i'r Grant ychwanegol ar gyfer Cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a gafwyd gan Lywodraeth Cymru (£233k) a throsglwyddo costau Grant Byw'n Annibynnol Cymru (GBAC) i'r gwasanaethau perthnasol (£313k). Mae Taliadau Uniongyrchol wedi cynyddu yn bennaf oherwydd trosglwyddo celientiaid GBAC i Daliadau Uniongyrchol.
- Iechyd Meddwl (IM): rhagwelir gorwariant o £237k, cynnydd o £93k o gymharu â'r gorwariant o £144k a ragwelwyd yn Chwarter 2. Mae hyn oherwydd cleient newydd a chynnydd yng nghost lleoliad.
- Uned Ddarparu: rhagwelir tanwariant o (£32k). Mae hyn yn is o lawer na'r tanwariant o £160k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2, a hynny oherwydd trosglwyddo cyllid i'r Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed.
- Rheoli a Chefnodaeth: rhagwelir tanwariant o (£75k).

**3.2.5** Mae tua 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn cael ei harwain gan alw. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i geisio rhagamcan costau'r dyfodol y gyllideb hon a arweinir gan y galw. Mae rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn a wneir ar ddiwedd bob mis yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar bob lleoliad i oedolion. Mae hyn yn golygu bod rhagamcan y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn gyfan yn hynod o anodd ac yn gallu amrywio'n fawr iawn o un cyfnod i'r llall.

**3.2.6** Mae alldro'r trydydd chwarter yn dangos cynnydd yn y galw o fewn y meysydd sy'n ymwneud â Gwasanaethau i'r Henoed. Mae'r galw am leoliadau Anableddau Dysgu yn parhau i fod yn uchel er mae costau hyn wedi cael eu lliniaru oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu grant ychwanegol i Wasanaethau Anableddau Dysgu. Bydd asesiad pellach o'r meysydd hyn yn cael ei gynnal er mwyn ystyried unrhyw gamau posibl i reoli gwariant dros y flwyddyn.

### 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd gorwariant o £1,893k (27.83%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn a rhagwelir y bydd gorwariant o £2,009k (24.15%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn ostyngiad o £23k ers Chwarter 2. Mae hyn yn cynnwys gorwariant rhagamcanedig o £2,150k ar Blant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Mae'r holl adeiniau eraill yn y Gwasanaethau Plant yn tanwario ac eithrio gorwariant rhagamcanedig o £15k ar wasanaethau eraill i Blant a Theuluoedd. O'r herwydd, costau rhiantu corfforaethol sy'n parhau i roi'r pwysau mwyaf ar y gwasanaeth a'r Cyngor. Dylid nodi bod cyllid ychwanegol o £268k wedi cael ei ddarparu o Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor er mwyn i'r gwasanaeth fedru ymestyn contractau gweithwyr cymdeithasol asiantaeth i gefnogi a mentora gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso.

**3.3.2** Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar:-

- rhagdybiaeth achos gwaethaf mewn perthynas â'r galw am / costau'r gwasanaethau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) yn seiliedig ar gostau'r gwasanaeth / y galw / y galw tebygol yn y dyfodol;

- rhagdybiaethau sy'n ymwneud â phenderfyniadau / datblygiadau mewn perthynas ag achosion. Mae'n anodd iawn rhagweld y rhain a gall amgylchiadau unigol newid, ac maent yn newid. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r rhagdybiaethau sy'n ymwneud â phenderfyniadau / datblygiadau o ran achosion, gwnaethpwyd y rhagamcan gorau sy'n bosibl. Mae cost PDG oherwydd natur y gwasanaeth, yn dibynnu ar y galw a gall amrywio rhwng £3k a £10k yr wythnos mewn darpariaeth arbenigol.

**3.3.3** Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwrdd â chostau ymyriadau a gyfeirir gan y llys e.e. asesiadau o lety preswyl / llety â chymorth ar gyfer rhieni a phlant, cyswllt dan oruchwyliaeth ac asesiadau arbenigol eraill, sydd hefyd yn anodd i'w rhagweld ac yn cael eu harwain gan y galw. Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol bod yr asesiadau hyn wedi cael eu cynnal cyn yr achosion, sydd yn rhoi pwysau ar gyllidebau'r tîm.

### 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd tanwariant o £128k (8.33%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Disgwylir y bydd tanwariant o £45k (4.28%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn welliant o £30k o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £15k yn ystod Chwarter 2. Mae'r pwysau cyllidebol o ddarparu llety Gwely a Brecwast ar gyfer y Digartref yn parhau a rhagamcenir y bydd gorwariant o £60k ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd swyddi gweigion (£90k) a grant ychwanegol (£15k) yn cyllido'r gorwariant ar Ddigartrefedd.

### 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

#### 3.5.1 Economaidd a'r Gymuned (yn cynnwys Arforol a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £137k (8.04%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd Chwarter 3. Rhagwelir y bydd tanwariant o £119k (6.87%) yn y gwasanaeth erbyn 31 Mawrth 2019. Yn ystod Chwarter 2, rhagwelwyd y byddai tanwariant o £50k yn y gwasanaeth.

**3.5.1.2** Rhagwelir y bydd tanwariant o £48k yn yr elfen Datblygu Economaidd o'r gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn o gymharu â'r gyllideb gytbwys a ragwelwyd yn ystod Chwarter 2. Mae hyn oherwydd swyddi gweigion a fydd yn creu arbedion effeithlonrwydd yn 2019/20. Nid oes gan y gwasanaeth gynlluniau i ddefnyddio'r tanwariant hwn oherwydd sefyllfa ariannol anodd y Cyngor.

**3.5.1.3** Rhagwelir tanwariant o £71k yn yr Adain Arforol. Mae hyn o gymharu â'r gyllideb gytbwys a ragwelwyd yn ystod Chwarter 2. Mae'r adain yn bwriadu gohirio'r gwaith o baentio Pier Biwmares tan 2019/20 oherwydd sefyllfa ariannol anodd y Cyngor yn 2018/19.

**3.5.1.4** Rhagwelir y bydd gan yr Adain Hamdden gyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn o gymharu â'r tanwariant o £50k a ragwelwyd yn y Chwarter 2.

#### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £176k (11.46%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Yr alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £50k (2.56%). Mae hyn yn welliant o £95k o gymharu â'r gorwariant o £45k a ragamcanwyd yn ystod Chwarter 2.

**3.5.2.2** Mae'r Adain Gwarchod y Cyhoedd yn rhagweld gorwariant o £10k sy'n llai na'r gorwariant o £45k a rhagamcanwyd yn ystod Chwarter 2. Mae gorwariannau bychan ar nifer o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Adain Gwarchod y Cyhoedd. Mae'r gorwariant ar Iechyd yr Amgylchedd wedi gostwng o £40k i £20k a disgwylir tanwariant o £24k yn awr ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, o gymharu â'r gyllideb gytbwys a ragamcanwyd yn ystod Chwarter 2. Mae hyn oherwydd swyddi gweigion nad oes bwriad i recriwtio iddynt tan 2019/20 er mwyn helpu gyda gorwariant cyffredinol y Cyngor yn 2018/19.

**3.5.2.3** Rhagwelir y bydd tanwariant o £60k yn yr Adain Gynllunio ar gyfer 2018/19. Roedd disgwyl yn flaenorol i'r adain fod â chyllideb gytbwys. Disgwylir i'r holl adeiniau yn yr Adain Gynllunio danwario yn awr, ac eithrio'r gorwariant o £35k ar yr hen Grant Cynllunio a'r Amgylchedd (PEG).

### 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

#### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gorwariant o £315k (5.35%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod ond rhagamcenir y bydd tanwariant o £107k (1.69%) erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys effaith y gwaith cynnal a chadw y bydd angen ei wneud dros y gaeaf oherwydd mae'n rhy gynnar yn y flwyddyn i asesu hyn. Mae hyn yn welliant o £23k o gymharu â'r tanrwariant a ragamcanwyd yn ystod Chwarter 2.

**3.6.1.2** Mae yna nifer or a thanwariannau sy'n gwrthbwyso a'r gorwariant mwyaf arwyddocaol yw'r swm o £70k ar Ddylunio Gwaith Cynnal a Chadw a £100k ar y gyllideb waith. Mae'r tanwariant mwyaf i'w weld yn yr Adain Gwaith Stryd ble rhagwelir tanwariant o £230k. Mae cost o £50k nad oes cyllideb ar ei chyfer wedi codi mewn perthynas â Phrosiectau Mawr oherwydd y risg na fydd modd adennill mwyafrif o'r costau hyn gan drydydd partïon.

**3.6.2 Gwastraff**

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £422k (7.37%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar ddiwedd y chwarter hwn a rhagwelir tanwariant o £257k (3.43%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o £260k o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £3k yn Chwarter 2.

**3.6.2.2** Mae yna nifer o or a thanwariannau sy'n gwrthbwyso. Mae rhagolygon y chwarter hwn yn cynnwys y rhagolygon ar gyfer y Safle Cynhyrchu Trydan a fydd, fe dybir, yn gorwario gan £35k. Gall hyn wella yn y dyfodol pan ddaw buddion y peiriannau cynhyrchu trydan newydd yn amlycach. Mae Rheoli Gwastraff wedi ymateb yn bositif i'r cais Corfforaethol i ohirio gwario ble bynnag y mae hynny'n bosibl a chynyddu ffioedd yn gynt. Amcangyfrifir y bydd y camau hyn yn arwain at danwariant o £260k ar ailgylchu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd eto yn y dyfodol oherwydd gostyngiad yn y grantiau gan Lywodraeth Cymru ac effaith bosibl gwaith trin Gogledd Cymru y disgwylir iddo fod yn weithredol yn y flwyddyn ariannol newydd.

**3.6.3 Eiddo**

**3.6.3.1** Roedd gorwariant o £37k (4.27%) yn y gwasanaethau Eiddo ar 31 Rhagfyr 2018 a rhagwelir y bydd gorwariant tebyg ar ddiwedd y flwyddyn, sef £36k (3.68%). Mae hyn yn welliant o gymharu â'r gorwariant o £70k a ragamcanwyd ar gyfer Chwarter 2.

**3.6.3.2** Rhagwelir y bydd gorwariant o £38k ar y Gwasanaeth Glanhau oherwydd salwch, taliadau goramser a staff wrth gefn. Disgwylir y bydd y gorwariant ar drwsio a chynnal a chadw adeiladau'r Cyngor yn gostwng i £25k o'r gorwariant o £63k a ddisgwyliwyd yn ystod Chwarter 2. Mae hyn oherwydd nad yw'r gwasanaeth ond yn cwblhau gwaith brys ar gyfer gweddill y flwyddyn oherwydd gorwariant mawr y Cyngor a ragamcenir ar gyfer 2018/19. Mae yna fân or a thanwariannau eraill.

**3.7 Trawsnewid**

**3.7.1** Roedd gorwariant o £35k (1%) yn y swyddogaeth Trawsnewid yn ystod y cyfnod. Disgwylir y bydd y cyfanswm y tanwariant yn Trawsnewid yn £58k (1%). Mae hyn yn well o lawer (£186k) na'r gorwariant rhagamcanedig o £128k yn Chwarter 2.

**3.7.1.1 1**Amcangyfrifir y bydd gorwariant o £112k yn yr Adain TGCh, sy'n llai na'r gorwariant o £247k a ragamcanwyd yn Chwarter 2. Mae'r holl gyllidebau ar gyfer meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, ac eithrio rhai'r ysgolion, wedi'u canoli ac yn cael eu rheoli bellach o fewn y, Adain TGCh. Credir nad yw'r cyllidebau meddalwedd yn ddigonol yn hanesyddol ond, unwaith y bydd y broses o'u canoli wedi ei sefydlu'n llawn, disgwylir gostyngiad yn y costau hyn. Rhagwelir gorwariant o £173k ar feddalwedd. Mae'r swyddogaeth yn rhagamcan y bydd y gorwariant disgwyliedig ar Cysylltu Môn yn gostwng o £70k yn Chwarter 2 i £10k yn Chwarter 3. Mae incwm o £42k o'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer System Orchard ac incwm o £29k o archebion mewnol hefyd wedi helpu i ostwng gorwariant TGCh.

**3.7.1.2** Mae'r swyddogaeth AD yn rhagweld tanwariant o £15k ar gyfer y flwyddyn a hynny ar gostau staffio yn bennaf.

**3.7.1.3** Rhaglweir y bydd y swyddogaeth Trawsnewid Corfforaethol â thanwariant o £155k erbyn diwedd y flwyddyn, cynnydd o £44k o gymharu â'r tanwariant o £111k a ragamcanwyd yn ystod Chwarter 2. Mae'r prif danwariannau ar staffio a rhagwelir yn awr y bydd tanwariant o £80k ar Bartneriaeth Ynys Môn Gwynedd.

**3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)**

**3.8.1** Roedd tanwariant o £136k (5.71%) yng nghyllideb y swyddogaeth Adnoddau erbyn diwedd y cyfnod. Rhagwelir y bydd tanwariant o £34k (1.2%) yn y swyddogaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn welliant o £15k o gymharu â'r tanwariant a ragamcanwyd yn Chwarter 2.

**3.8.2** Rhagwelir y bydd Refeniw a Budd-daliadau â gorwariant o £127k. Mae hyn yn gynnydd o £52k o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £75k yr adroddwyd arno ar gyfer Chwarter 2. Y prif orwariannau yw £31k ar staffio, £59k ar feddalwedd a chostau gweinyddol a diffyg o £50k yn yr incwm o gostau llys. Mae'r Adain Archwilio'n rhagweld tanwariant o £41k, sy'n uwch na'r tanwariant o £28k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Mae hyn oherwydd nifer o swyddi gweigion, fodd bynnag, mae'r swyddi hyn bellach wedi cael eu llenwi. Rhagwelir y bydd tanwariant o £5k yn yr Adain Gyfrifeg erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o £14k a ragamcanwyd yn Chwarter 2. Y gost fwyaf sylweddol yn yr Adain Gyfrifeg yw taliadau banc a disgwylir y bydd gorwariant o £25k mewn perthynas â'r rhain. Mae costau ymgynghorwyr Civica hefyd yn rhoi pwysau ar y gyllideb a rhagwelir gorwariant o £20k. Mae ad-daliad o £40k ar gardiau credyd ac ad-daliadau grant o £14k o gymorth i gyllido gorwariant yn yr Adain Gyfrifeg. Rhagwelir y bydd tanwariant o £115k yn yr Adain Gaffael, sy'n uwch na'r tanwariant o £75k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Mae hyn oherwydd yr arbedion parhaus o gyllidebau sydd wedi eu canoli.

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd tanwariant o £39k (3.54%) yn y swyddogaeth ar 31 Rhagfyr 2018 a disgwylir tanwariant o £4k (0.26%) ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn well o lawer na'r gorwariant o £181k yn ystod 2017/18.

**3.9.2** Yn y Gwasanaethau Cyfreithol mae'r gorwariant mwyaf sylweddol (£21k) yn yr Adain Busnes y Cyngor. Disgwylir y bydd y Gwasanaethau Cyfreithol â gorwariant o £26k ar gostau asiantaeth. Caiff y costau hyn eu gwrthbwyso gan danwariant o £25k yn y Gwasanaethau Democratiadd, yn bennaf oherwydd gwarged ar setliad terfynol Etholiad 2017.

**3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd gorwariant o £152k (4.82%) yn y swyddogaeth hon yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, rhagamcenir tanwariant o £138k (4%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.10.2** Y ddau brif beth sy'n rhoi pwysau ar gyllideb y swyddogaeth yw costau cwnsela staff, y disgwylir gorwariant o £26k yn ei gylch a ffioedd crwner sy'n £33k. Fodd bynnag, mae tanwariant mewn nifer o feysydd. Mae tanwariant hanesyddol o £56k ar yr addasiad ar gyfer pensiynau. Mae tanwariant o £56k hefyd ar y cyfraniadau pensiwn i Wynedd. Rhagamcenir tanwariant o £67k hefyd oherwydd ad-dalu costau pensiwn i'r CRT.

**3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Roedd gorwariant o £11k (2.19%) ar y swyddogaeth hon ar ddiwedd y Chwarter hwn. Disgwylir gorwariant o £15k ar Reolaeth Gorfforaethol.

**3.12 Amcangyfrif o effaith Costau Gwasanaeth sydd y tu allan i Reolaeth Penaethiaid Gwasanaethau**

**3.12.1** Bob blwyddyn, ceir costau sydd y tu hwnt i reolaeth Penaethiaid Gwasanaethau. Mae'r costau hyn yn dueddol o gynnwys: darpariaethau dyledwyr drwg o ran mân-ddyledwyr nad oes cyllideb ar eu cyfer, costau yswiriant a chostau cyfalaf pensiynau. Rhagamcenir gorwariant o £ 200k ar y costau hyn na ellir eu rheoli. Nid yw'r costau hyn wedi'u dangos yn erbyn y gwasanaethau unigol gan mai dim ond y costau sydd o fewn rheolaeth y Penaethiaid Gwasanaethau sy'n cael eu hadrodd arnynt yn erbyn llinellau gwasanaeth unigol.

**4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)**

**4.1** Disgwylir i Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, fod â thanwariant o £1,210k (7.19%) ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir i Fudd-daliadau a RoddwydMae hyn yn cynnwys tanwariant o £152k ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a thanwariant o £2k ar Daliadau Tai Dewisol. Mae gorwariant o £90k ar fudd-daliadau tai oherwydd y galw cynyddol am lety Gwely a Brecwast nad oes modd ei adennill yn llawn drwy'r cymhorthdal Budd-dal Tai. Rhagamcenir tanwariant o £1,056k hefyd ar gostau cyllido cyfalaf oherwydd arbedion a wneir yn sgil benthyca'n fewnol, gohirio ail-gyllido benthyciadau a dewis yr opsiynau benthyca isaf sy'n cydymffurfio â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â Chwarter 2 oherwydd gweithredu'r Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) newydd yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad gyda'r Archwilwyr Allanol. Bydd hyn yn arbed £574k yn ychwanegol ar daliadau DRE yn 2018/19.

**4.2** Mae Atodiad C yn crynhoi'r sefyllfa ariannol o ran cyllidebau wrth gefn ar ddiwedd y chwarter hwn. Cymeradwywyd cyllideb wrth gefn a oedd werth cyfanswm £1.789m fel rhan o gyllideb 2018/19. Mae £785k net wedi cael ei drosglwyddo i / o wasanaethau i gyllido prosiectau penodol, materion cyllidebol neu i ryddhau arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol. Mae £1.203m wedi'i ymrwymo o'r arian wrth gefn. Mae pwysau cynyddol ar y gronfa wrth gefn ar gyfer tâl a graddfeydd oherwydd nifer y diswyddiadau, ac mae'r diffyg eisoes yn £318k. Mae'n bosibl hefyd y ceir £211k ychwanegol o gostau diswyddo. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2018, i'r diffyg cael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn tâl cyfartal ar gyfer hyn ynghyd ag unrhyw gostau diswyddo pellach ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol. O'r herwydd, ni fydd y gorwariant ar dâl a graddfeydd yn cael effaith ar alldro'r gyllideb refeniw. Amcangyfrifir y bydd y tanwariant ar y cyllidebau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl yn £93k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn oherwydd tanwariant ar y prosiect Trothwy Gofal. Mae'r prosiect yn parhau i fynd yn ei flaen ond yn lle derbyn cyllideb o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl, mae'r Gwasanaethau Plant wedi derbyn cyllideb graidd fel rhan o'r broses o osod cyllideb 2019/20.

**5. Casglu'r Dreth Gyngor**

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r rhagamcan o'r ddyled y gellir ei gasglu ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, a hynny'n seiliedig ar y ffigwr a osodwyd ar gyfer sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2017. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau i bobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Ar hyn o bryd, rhagamcenir y bydd Cronfa'r Dreth Gyngor £45k yn brin o'i ffigwr targed. Yn ychwanegol at hyn, efallai y bydd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef taliad Dreth Gyngor ychwanegol a godir ar ail gartrefi ar Ynys Môn (ers 1 Ebrill 2017), £218k yn uwch na'r targed a osodwyd. Yn gyffredinol, felly, rhagwelir y bydd gwarged o £173k ar gasglu'r Dreth Gyngor. Mae hyn yn ostyngiad o £175k o gymharu â'r gwarged incwm rhagamcanedig yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Mae hyn oherwydd y casglwyd llai o Dreth Gyngor a bod cynnydd yn y ddarpariaeth dyledion drwg.

**6. Arbedion Cyllidebol 2018/19**

**6.1** Tynnwyd arbedion cyllidebol o £2.522m o gyllidebau'r gwasanaeth ar gyfer 2018/19. Rhagwelir y bydd gwerth £ 2.262m o arbedion wedi cael eu cyflawni, neu y byddant wedi cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, efallai na fydd modd cyflawni £260k. Disgwylir y bydd y diffyg mwyaf o safbwynt arbedion yn y Gwasanaeth Oedolion, rhagwelir y bydd £130k yn brin o'r targed oherwydd pwysau cynyddol. Rhagwelir y bydd Gwasanaeth Dysgu £80k yn fyr o'r targed arbedion oherwydd oedi i ail-dendro contractau a methiant i gynhyrchu'r lefelau disgwyliedig o incwm o'r clybiau gofal bore ysgolion. Gwelir dadansoddiad manwl ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

**7. Buddsoddi i Arbed**

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17 ac fe neilltuwyd £983k i brosiectau unigol. Y balans agoriadol gweddilliol ar 1 Ebrill 2018 oedd £652k a fe neilltwyd £522k o'r swm hwn i'w wario yn 2018/19. Hyd yma, mae £218k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r dyraniad hwn yn ystod 2018/19. Gwnaed cynnydd amrywiol ar yr holl brosiectau ac mae rhai'n agosach at gael eu cwblhau nag eraill. Ceir manylion llawn am y gwariant a'r cynnydd ar bob prosiect yn Atodiad CH. Yn achos prosiectau nad ydynt wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddant yn parhau i 2019/20 a bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael o fewn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

**8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr**

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £786k ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, cafodd y rhain eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio am eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, roedd £521k yn gysylltiedig â staff llanw yn y Gwasanaethau Plant tra mae'r gwasanaeth yn cael ei ailstrwythuro. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £151k ar asiantiaid safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn ar gael yn Atodiad DD.

**8.2** Yn ystod Chwarter 3, gwariwyd £694k ar ymgynghorwyr a chafodd £528k o'r swm hwn ei gyllido'n allanol drwy grantiau neu gyfraniadau. Mae cyfanswm y gwariant hyd yma yn £1,770k, er y bydd rhan helaeth o'r swm hwn yn cael ei gyllido'n allanol. Mae nifer o resymau dros ddefnyddio ymgynghorwyr, felly, mae crynodeb o'r gwariant fesul gwasanaeth a manylion ychwanegol am y gwariant ar gael yn Atodiad E.

**9. Casgliad**

**9.1** Rhagwelir gorwariant o £1.589m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019, gwelliant sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £2.660m a ragamcanwyd yn Chwarter 2. Mae £2.972m o'r gorwariant rhagamcanedig ar gyfer 2018/19 i'w briodoli i gyllidebau'r gwasanaeth sydd wedi eu gwneud i fyny o nifer o or a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i wynebu pwysau sylweddol ar eu cyllidebau'n debyg i 2017/18 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae cyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion hefyd dan bwysau oherwydd galw cynyddol. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn gweithio i leihau lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir tanwariant o £1.210m mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol a disgwylir i'r Dreth Gyngor, sy'n cynnwys y Premiwm Dreth Gyngor, gasglu gwarged o £0.173m. Bydd hynny'n gostwng cyfanswm y gorwariant i £1.589m. Mae lefel ragamcanedig y gorwariant yn 1.21% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynghylch effaith y lefel hon o orwariant ar y balansau cyffredinol os bydd yn digwydd mewn gwirionedd.

**9.2** Mae'r gorwariant a ragwelir yn welliant ar Chwarter 2 ond ni ddylid colli bod gorwariant rhagweledig o £3.5m ar 3 prif wasanaeth y Cyngor (Addysg, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion) ac mae angen gweithredu i ddelio â'r diffyg mewn cronfeydd, cost darparu'r gwasanaeth a rheoli'r galw am wasanaethau. Mae'r rheolwyr yn ymwybodol o'r materion ac maent yn gweithio i gau'r bwlch rhwng y gyllideb a'r gwariant, drwy gynyddu'r gyllideb a ddyrennir yn 2019/20, cynyddu'r gallu i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd amgen a llai costus, a cheisio lleihau'r galw am wasanaethau.

**9.3** Er gellir cyllido'r lefel hon o orwariant o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2018/19, bydd yn erydu'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i lefel sydd ymhell islaw'r isafswm derbyniol. Yn ystod y broses o osod y gyllideb am 2019/20 neu 2020/21, bydd angen cyllido'r gorwariant a chychwyn y broses o geisio rhoi cyllid yn ôl yn y balansau cyffredinol. Dyma ymagwedd ddarbodus sy'n angenrheidiol i warchod hyfywedd ariannol y Cyngor yn y tymor hir.

**9.4** Gall rhagolygon newid wrth i wybodaeth newydd ddod i law. Fodd bynnag, gyda chraffu rheolaidd yr UDA ac os bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau i unioni'r sefyllfa, bydd hynny o gymorth i wasanaethau rheoli'r cyllidebau hynny y mae ganddynt reolaeth drostynt.

**ATODIADX B**

## Alldro Refeniw Rhagamcanol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2019 – Chwarter 3

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch3 2018/19 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 2018/19 Amrywiant | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 Amcan-gyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 | Rhagamcanion Gor / (tan)wariant fel % o Gyllideb Gyfan 2018/19 yn Ch2 | Alldro Rhagamcanedig 31 Mawrth 2019 – gor/tanwariant yn Ch1 | 2018/19 Gor/Tanwariant Rhagamcanedig ac fel % o'r Gyllideb Gyfan | Gor/ Tanwariant Drafft y Flwyddyn Ddiethaf 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion | 43,129 | 32,845 | 32,845 | (0) | 0.00% | 43,129 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Ganolog | 4,285 | 4,347 | 4,887 | 540 | 12.42% | 4,874 | 589 | 627 | 540 | 13.74% | 893 |
| Diwylliant | 1,321 | 1,131 | 1,078 | (53) | -4.70% | 1,221 | (100) | (113) | (70) | -7.57% | (147) |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 24,599 | 18,068 | 19,407 | 1,339 | 7.41% | 25,634 | 1,035 | 866 | 112 | 4.21% | 215 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,318 | 6,802 | 8,696 | 1,893 | 27.83% | 10,327 | 2,009 | 2,032 | 1,283 | 24.15% | 1,778 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Tai** | 1,052 | 1,538 | 1,410 | (128) | -8.33% | 1,007 | (45) | (15) | 25 | -4.28% | 7 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,340 | 5,891 | 6,206 | 315 | 5.35% | 6,233 | (107) | (84) | 5 | -1.69% | (100) |
| Eiddo | 978 | 869 | 906 | 37 | 4.27% | 1,014 | 36 | 70 | 142 | 3.68% | 55 |
| Gwastraff | 7,490 | 5,727 | 5,305 | (422) | -7.37% | 7,233 | (257) | 3 | 20 | -3.43% | (63) |
| | | | | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,733 | 1,700 | 1,563 | (137) | -8.04% | 1,614 | (119) | (50) | 0 | -6.87% | (10) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 1,950 | 1,534 | 1,358 | (176) | -11.46% | 1,900 | (50) | 45 | 46 | -2.56% | 9 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,251 | 959 | 943 | (16) | -1.64% | 1,236 | (15) | (8) | 0 | -1.20% | (61) |
| TGCh | 2,354 | 1,751 | 1,872 | 121 | 6.91% | 2,466 | 112 | 247 | 327 | 4.76% | 45 |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch3 2018/19 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 2018/19 Amrywiant | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 Amcan-gyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 | Rhagamcanion Gor / (tan)wariant fel % o Gyllideb Gyfan 2018/19 yn Ch2 | Alldro Rhagamcanedig 31 Mawrth 2019 – gor/tanwariant yn Ch1 | 2018/19 Gor/Tanwariant Rhagamcanedig ac fel % o'r Gyllideb Gyfan | Gor/ Tanwariant Drafft y Flwyddyn Ddiethaf 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 826 | 487 | 417 | (70) | -14.36% | 671 | (155) | (111) | (89) | -18.76% | (158) |
| | | | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** | 2,840 | 2,380 | 2,244 | (136) | -5.71% | 2,806 | (34) | (19) | 29 | -1.20% | (3) |
| | | | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 1,528 | 1,091 | 1,052 | (39) | -3.54% | 1,524 | (4) | (6) | 28 | -0.26% | 181 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 3,430 | 3,152 | 3,304 | 152 | 4.82% | 3,292 | (138) | (137) | (144) | -4.02% | (103) |
| | | | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 657 | 492 | 503 | 11 | 2.19% | 672 | 15 | 14 | 0 | 2.28% | (81) |
| | | | | | | | | | | | |
| **Effaith Ragamcanedig y Costau na fedrir eu rheoli** | | | | | | | 200 | 200 | 200 | | 159 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | 114,082 | 90,764 | 93,996 | 3,232 | 3.56% | 117,054 | 2,972 | 3,561 | 2,454 | 2.61% | 2,616 |
| | | | | | | | | | | | |
| Ardollau | 3,361 | 3,361 | 3,361 | 0 | 0.00% | 3,361 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (2) |
| Gostyngiadau Dewisol yn y Dreth | 60 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 62 | 2 | 3 | 3 | 4.16% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,541 | 3,359 | 2,981 | (378) | 0.00% | 6,485 | (1,056) | (461) | (331) | -14.00% | (449) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1,004 | 1,004 | 1,203 | 199 | 19.80% | 911 | (93) | 0 | 0 | -9.26% | 106 |
| Cyfraniad y Gwasanaethau Cefnogaeth i'r CRT | (693) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (693) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (82) |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,546 | 698 | 765 | 68 | 9.68% | 5,482 | (63) | (95) | (84) | -1.14% | (849) |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 16,819 | 8,421 | 8,310 | (111) | -1.32% | 15,609 | (1,210) | (553) | (412) | -7.19% | (1,276) |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm 2018/19** | **130,900** | **99,186** | **102,306** | **3,120** | **3.15%** | **132,662** | **1,762** | **3,008** | **2,042** | **1.35%** | **1,340** |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch3 2018/19 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 2018/19 Amrywiant | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 Amcan-gyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 | Rhagamcanion Gor / (tan)wariant fel % o Gyllideb Gyfan 2018/19 yn Ch2 | Alldro Rhagamcanedig 31 Mawrth 2019 – gor/tanwariant yn Ch1 | 2018/19 Gor/Tanwariant Rhagamcanedig ac fel % o'r Gyllideb Gyfan | Gor/ Tanwariant Drafft y Flwyddyn Ddiethaf 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| | | | | | | | | | | | |
| **<u>Cyllido</u>** | | | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (22,574) | (17,365) | (17,365) | (0) | 0.00% | (22,574) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (34,440) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (34,395) | 45 | (101) | (55) | -0.13% | 116 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (648) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (866) | (218) | (247) | (243) | 33.54% | 0 |
| Grant Cymorth Refeniw | (73,238) | (56,337) | (56,337) | (0) | 0.00% | (73,238) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2018/19** | **(130,900)** | **(73,701)** | **(73,701)** | **(0)** | **0.00%** | **(131,073)** | **(173)** | **(348)** | **(298)** | **0.00%** | **116** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr Alldro gan gynnwys effaith cyllido** | **0** | **25,484** | **28,605** | **3,120** | **12.24%** | **1,590** | **1,589** | **2,660** | **1,744** | **1.21%** | **1,456** |

**Crynodeb o'r sefyllfa ariannol ar gyllidebau wrth gefn 2018/19 fel yn Chwarter 3**

| | Y Gyllideb Wreiddiol £ | Trosglwyddiadau £ | Y Gyllideb Ddiwygiedig hyd yma £ | Ymrwymiad hyd yma £ | Cyfredol heb ei ymrwymo £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol | 359,166 | (47,960) | 311,206 | 73,760 | 237,446 |
| Tâl a Graddfeydd | 300,000 | (618,140) | (318,140) | 211,130 | (529,270) |
| Trothwy Gofal | 240,000 | 0 | 240,000 | 147,000 | 93,000 |
| Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi | 739,890 | (119,000) | 620,890 | 620,890 | 0 |
| Chwyddiant Cyflogau | 150,000 | 0 | 150,000 | 150,000 | 0 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | 1,789,056 | (785,100) | 1,003,956 | 1,202,780 | (198,824) |

Bydd y gorwariant ar y gronfa wrth gefn tâl a graddfeydd yn cael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn ar gyfer Tâl Cyfartal ac ni fydd yn cael effaith ar gronfa wrth gefn cyffredinol y Cyngor

## Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2018/19

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwr £ | Swm a ddyrannwyd (cyfanswm – nid Blwyddyn 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2018 £ | Balans ar 1 Ebrill 2018 £ | Dyraniad ar gyfer 2018/19 £ | Gwariant hyd yma 2018/19 £ | Cyllideb sy'n weddill 2018/19 £ | Diweddariad am y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | System rheoli dogfennau electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Darparu datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 170,000 | 127,856 | 42,144 | 42,144 | 37,877 | 4,268 | Mae'r system wedi mynd yn fyw ers 1 Awst ar gyfer sganio ac adfer ynghyd â llif gwaith. Nid yw'r prosesau awtomatig yn gweithio'n iawn eto ac mae angen rhoi sylw i hyn. |
| **T.G.** | Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 10,800 | 15,261 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cwblhawyd y prosiect yn 2017/18. Roedd gorwariant o £4.5k ar y prosiect a gyllidwyd o refeniw. |
| **T.G. / Trawsnewid** | System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) | Prynu a gweithredu system CRM | 255,000 | 255,000 | 33,597 | 221,276 | 221,276 | 68,988 | 152,288 | Mae'r datrysiad Rheoli Gwastraff yn fyw ynghyd â nifer o wasanaethau eraill ar-lein. Y gwasanaethau wedi cael hyfforddiant a rhagor o integreiddiadau ar y gweill. Mae'r dechnoleg graidd bellach yn ei lle sy'n golygu y gellir ychwanegu mwy o wasanaethau ar-lein ac mae gwasanaethau megis Iechyd yr Amgylchedd a Thai yn dangos diddordeb brwd. |
| **T.G. / Adnoddau** | Porth Talu | Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn galluogi taliadau i gael eu derbyn drwy'r Ap | 27,000 | 27,000 | 6,000 | 21,000 | 21,000 | 7,418 | 13,583 | Y gwaith o integreiddio'r Porth Taliadau wedi ei gwblhau o safbwynt CRM ac Ap Môn, oedi ar ochr Capita yn dal y prosiect yn ôl. |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | Gwella Gwydnwch y Systemau Cynllunio | Systemau cynllunio awtomataidd newydd | 118,000 | 118,000 | 40,464 | 77,536 | 77,536 | 57,912 | 19,624 | Mae'r Prosiect Rheoli Adeiladu bellach wedi cychwyn a bwriedir iddo gael ei gwblhau rhwng Mawrth a Mehefin 2019. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwr £ | Swm a ddyrannwyd (cyfanswm – nid Blwyddyn 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2018 £ | Balans ar 1 Ebrill 2018 £ | Dyraniad ar gyfer 2018/19 £ | Gwariant hyd yma 2018/19 £ | Cyllideb sy’n weddill 2018/19 £ | Diweddariad am y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | Gwella systemau casglu incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu â'r ffrydiau incwm presennol ac sy'n caniatáu dulliau newydd o gasglu incwm (ApMôn ac ati) i gysylltu i mewn i’r system rheoli arain | 150,000 | 150,000 | 59,078 | 90,922 | 90,922 | 24,982 | 65,940 | Mae gwaith i gaffael y system ddiweddaredig Capita Cash Management wedi cael ei gwblhau. Mae cynllun prosiect wedi cael ei ddatblygu a fydd yn arwain at weithredu modiwlau newydd a cyflwyno gwelliannau i’r system rheoli arian yn ystod 2018/19. |
| **Dysgu Gydol Oes** | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformio | Gweithredu modiwlau sydd heb eu defnyddio yn y system gwybodaeth ONE Management | 72,000 | 72,000 | 52,529 | 19,471 | 19,471 | 21,263 | -1,792 | Cwblhawyd y prosiect hwn yn Ionawr 2019. Disgwylir y bydd gwariant ychwanegol o llai na £1k . Bydd y gorwariant yn cael ei gyllido o gyllideb Buddsoddi i Arbed yr Oriel. |
| **Dysgu Gydol Oes** | Moderneiddio Busnes | Gwefan ar gyfer yr Oriel | 15,000 | 15,000 | 0 | 15,000 | 15,000 | 0 | 15,000 | Mae’r gwaith hwn yn gysylltiedig â’r prosiect ehangach ar y wefan gorfforaethol. Disgwylir iddi gael ei ddefnyddio’n llawn yn ystod 2018/19 – mae gwaith wedi’i ohirio hyd oni fydd y prosiect System ONE wedi’i gwblhau ac y bydd swm y gyllideb sy’n weddill yn hysbys. |
| **T.G. / Trawsnewid** | Digidol yn gyntaf / digidol yn ddiofyn | Cyflogi Swyddog Arweiniol Digidol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 yn ystod blwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 120,000 | 0 | 120,000 | 70,000 | 0 | 70,000 | Dim gwariant hyd yma oherwydd mae’r broses o recriwtio Arweinydd Digidol wedi cael ei gohirio hyd oni fydd y System Rheoli Cynnwys y We yn weithredol er mwyn alinio’r holl Lwyfannau Digidol a chael y gorau o’r 2 flynedd o gyllid ar gyfer y swyddi dros dro. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwr £ | Swm a ddyrannwyd (cyfanswm – nid Blwyddyn 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2018 £ | Balans ar 1 Ebrill 2018 £ | Dyraniad ar gyfer 2018/19 £ | Gwariant hyd yma 2018/19 £ | Cyllideb sy'n weddill 2018/19 £ | Diweddariad am y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchod y Cyhoedd** | Cysylltedd digidol gwell o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system ar sail cwmwl i gofnodi ymweliadau arolygu. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan ac mae wedi'i gaffael drwy gyfrwng cytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 Cyngor yng Nghymru | £10,000 y flwyddyn am 4.5 blwyddyn | 45,000 | 0 | 45,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | Datgelodd prawf meddal y farchnad gychwynnol a gwblhawyd yn ystod y Gwanwyn eleni na allai unrhyw un o'r darparwyr meddalwedd cyfredol gwrdd â'n manyleb defnyddwyr a darparu datrysiad newydd ar gyfer y swyddfa gefn ac/neu ddatrysiad symudol. Ymhellach, ni fyddai'r gronfa I2S yn cyllido costau cychwynnol y drwydded a'r ffi gynnal a chadw flynyddol. Gwnaed penderfyniad gan y Bwrdd Prosiect i gyflwyno Achos Busnes newydd a fyddai'n ymchwilio i fanteision tapio i mewn i'r system CRM Gorfforaethol a gwerthuso'r opsiynau i gaffael datrysiad symudol y gellid ei ychwanegu at y system honno. Bydd yr Achos Busnes yn amlinellu costau'r prosiect a'r nod yw defnyddio rhywfaint o'r gronfa I2S cyn diwedd y flwyddyn ariannol. |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | **982,800** | **334,785** | **652,349** | **567,349** | **218,439** | **348,910** | |

**ATODIAD D**

## Adolygiad o Arbedion EffeithIonrwydd 2018/19

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Arbedion Cyllideb 2018/19 £'000 | Cyraeddadwy 2018/19 £'000 | Posibilrwydd o beidio â bod yn gyraeddadwy 2018/19 £'000 | Ni chyflawnir hyn o gwbl £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | 358 | 278 | 80 | 0 | Mae'n debyg y bydd y cynnig arbedion ar gyfer gostwng costau rheoli gwersi cerdd yn cyflawni £64k o'r arbediad arfaethedig o £79k, oherwydd disgwylir i'r arbediad gael ei wneud o fis Medi ymlaen. Ni fu modd i'r gwasanaeth ail-dendro'r contractau torri gwair ar gyfer ysgolion tan yn hwyrach na'r disgwyliad, gan arwain at ddisgwyliad y byddai diffyg yn yr arbedion. Mae'r contract allan i dendr ar hyn o bryd a'r dyddiad cau yw dechrau mis Tachwedd 2018. Casglwyd llawer llai o incwm na'r disgwyl mewn perthynas â'r clwb gofal bore yn 2017/18 ac, er bydd yr incwm a gesglir hyd at Ch3 2018/19 efallai'n uwch nag yr oedd yn Ch3 2017/18, mae dal yn debygol o fod yn sylweddol is na'r gyllideb. Ysgolion sy'n gyfrifol am gasglu'r incwm hwn ac, yn 2017/18, trafododd y fforwm ysgolion y posibilrwydd o ddirprwyo'r gyllideb hon. Penderfynodd y fforwm beidio â dirprwyo'r cyllideb am y tro a rhoi i ysgolion gyfnod o flwyddyn i gynyddu'r incwm a gesglir. Oherwydd nad yw'r gwelliant wedi bod yn ddigonol yn yr holl ysgolion, mae cyfarfod wedi cael ei drefnu ar gyfer 28/01/19 i drafod y posibilrwydd o ddirprwyo'r gyllideb yn 2019/20. |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | 125 | 120 | 5 | 0 | Ni fu modd i'r Awdurdod allanoli'r Caffi, felly, bydd yn symud tuag at wasanaeth peiriannau gwerthu yn unig. Mae'n annhebygol y bydd incwm net o £5k yn cael ei gasglu yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd angen monitro'r incwm a gesglir yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf er mwyn gweld a fydd modd gwneud yr arbediad yn y blynyddoedd nesaf. |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | 366 | 336 | 30 | 0 | Mae gorwariant wedi codi yn y ganolfan gost ar gyfer Toiledau Cyhoeddus oherwydd ni fu modd i'r Gwasanaeth gyrraedd ei darged arbedion oherwydd ei fod yn disgwyl am benderfyniad Pwyllgor ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol. Fel y cytuwnud, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn ceisio trosglwyddo'r cyfrifoldeb am redeg Toiledau Cyhoeddus i'r trydydd sector am y tair blynedd ddiwethaf ac, er y trosglwyddwyd rhai, ychydig iawn o ddiddordeb a ddangoswyd yn y lleill ac mae rhai a oedd wedi cael eu trosglwyddo wedi cael eu dychwelyd yn ôl i ofal yr Awdurdod. Mae'r Adain Eiddo yn parhau i geisio hwyluso'r broses o allanoli'r Toiledau Cyhoeddus. |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Arbedion Cyllideb 2018/19 £'000 | Cyraeddadwy 2018/19 £'000 | Posibilrwydd o beidio â bod yn gyraeddadwy 2018/19 £'000 | Ni chyflawnir hyn o gwbl £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Oedolion** | 350 | 220 | 130 | 0 | Mae'r model Gofal Cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gefnogi pobl i gadw eu hannibyniaeth a chyda ffocws mwy ar eu hasedau'n parhau i gael ei weithredu drwy'r timau gwaith cymdeithasol. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd Ch3 yn nodi bod pwysau o ran y galw am y gwasanaeth yn golygu nad yw'r ymdrechion i ostwng y costau cyffredinol yn gwbl llwyddiannus. Felly, mae'n bosibl na fydd £130k yn cael ei gyflawni ac mae hynny'n cynnwys cynigion gwerth £92k, a fydd yn galluogi cleientiaid i gael cymorth yn eu cartrefi eu hunain neu mewn darpariaeth gofal ychwanegol yn hytrach na gorfod mynd i ofal preswyl, a £38k, drwy hyrwyddo mwy o rwydweithiau cymorth cymunedol a phersonol i alluogi pobl i aros yn annibynnol. Mae grantiau gaeaf Llywodraeth Cymru yn ein cynorthwyo i reoli rhai o'r costau hyn. Er gwaethaf oedi gydag agor Hafan Cefni, sydd bellach wedi bod ar agor ers dechrau mis Hydref, mae'r ffocws a roddwyd ar sicrhau mai'r bobl hynny a fyddai fel arall fod wedi bod angen lleoliad neu ofal sy'n cael eu derbyn ar gyfer y fflatiau, yn golygu bod y gwasanaeth yn parhau i gredu y bydd modd gwneud yr arbedion. Ar hyn o bryd, mae 10 o fflatiau gwag yno ond rydym yn gweithio i sicrhau bod unigolion priodol yn symud i mewn iddynt cyn gynted ag sy'n bosibl. |
| **Tai** | 23 | 19 | 4 | 0 | Mae'r aelod o staff sy'n gyfrifol am y gwaith mewn perthynas â chynyddu'r ffi ar gyfer gwaith EPC wedi cyflwyno cais am ddiswyddiad gwirfoddol, felly, mae'n anodd iawn cadarnhau a fydd modd sicrhau'r arbediad hwn. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi lliniaru'r diffyg hwn drwy sicrhau mwy o arbedion na'r disgwyl o safbwynt codi ffioedd rheoli ynghylch grantiau gyda gweithgareddau statudol. |
| **Trawsnewid** | 40 | 29 | 11 | 0 | Yn dilyn Sioe Môn, mae gorwariant yn awr o £3k, sy'n golygu ei bod yn annebygol y bydd yr arbediad o £2k mewn perthynas â phresenoldeb yn y sioe yn debygol o gael ei wireddu. Nid oes unrhyw incwm wedi cael ei greu hyd yma drwy werthu gofod hysbysebu ar wefan y Cyngor ac ymddengys ei fod yn annhebygol o ddigwydd eleni. Nid oes unrhyw incwm ychwaith wedi cael ei gynhyrchu drwy waith ymgynghoriaeth allanol, felly, mae'n annhebygol o gyflawni'r arbediad o £1k eleni. Mae gorwariant o £3k mewn perthynas â lwfansau teithio AD ar hyn o bryd, sy'n golygu nad yw'r arbedion a gynigiwyd yn debygol o gael eu gwireddu eleni. Bydd angen chwilio am arbedion mewn rhannau eraill o gyllideb y gwasanaeth i liniaru'r rhain. |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Arbedion Cyllideb 2018/19 £'000 | Cyraeddadwy 2018/19 £'000 | Posibilrwydd o beidio â bod yn gyraeddadwy 2018/19 £'000 | Ni chyflawnir hyn o gwbl £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | 1236 | 1236 | 0 | 0 | Mae cyllidebau perthnasol wedi cael eu dileu ac mae gwariant ar hyn o bryd o fewn y gyllideb ac mae'r gwasanaeth ar darged i sicrhau'r arbedion. Mae'r arbedion y bwriedir eu sicrhau o ganlyniad i'r adolygiad o'r polisi MRP yn debygol o gael eu cyflawni yn ôl ymgynghorwyr. |
| Adnoddau | 24 | 24 | 0 | 0 | Gwnaed i ffwrdd â'r gyllideb ac yn gyffredinol, mae cyllidebau'n tanwario. |
| **Cyfanswm** | **2,522** | **2,262** | **260** | **0** | |

## Costau Asiantaeth Ebrill i Rhagfyr 2018

| | Swm £ | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Rheswm pam fod angen staff asiantaeth |
|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | 4,213 | Craidd (cyllidwyd o danwariant blaenorol) | Cwrdd â gofynion mewn perthynas ag archwiliadau glendid bwyd |
| | 3,269 | Craidd | Cwrdd â gofynion mewn perthynas ag archwiliadau glendid bwyd |
| | **7,483** | | |
| **Ysgolion** | 3,826 | | Llanw ar gyfer staff |
| | **3,826** | | |
| **Gwastraff** | 8,652 | Cyllideb Graidd Benodol | Swydd Wag – Cyflogaeth wedi dod i ben |
| | 662 | Cyllideb Graidd Benodol | Gwaith penodol – unwaith ac am byth |
| | 53,529 | Cyllideb Graidd Benodol | Tasgau ychwanegol yr oedd angen eu gwneud am gyfnod tymor byr dros yr Haf. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | 64,371 | Cyllideb Graidd Benodol / Grant / Cyfraniad Allanol | Tasgau ychwanegol yr oedd angen eu gwneud am gyfnod tymor byr dros yr Haf. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | 24,410 | Cyllideb Graidd Benodol / Grant / Cyfraniad Allanol | Tasgau ychwanegol yr oedd angen eu gwneud am gyfnod tymor byr dros yr Haf. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | **151,624** | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 520,510 | Cyllideb Graidd, Cyllideb Staffio a oedd heb ei defnyddio ac arian wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Llanw ar gyfer swyddi gweigion tra bo'r ailstrwythuro'n digwydd |
| | **520,510** | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 34,610 | Cyllideb Graidd | Llanw ar gyfer swyddi gweigion |
| | 46,910 | | |
| | 10,075 | Cyllid Grant | Gweithio ar brosiect penodol |
| | **91,595** | | |
| **Trawsnewid** | 11,073 | Cyllideb staffio | Methu llenwi swydd wag |
| | **11,073** | | |
| **Cyfanswm** | **786,111** | | |

| Crynodeb Gwariant Ymgynghorwyr Ch1 – 3 Fesul Adran | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ch1 (£)** | **Ch2 (£)** | **Ch3 (£)** | **Cyfanswm (£)** |
| Addysg Ganolog | 8,133 | 16,111 | 41,971 | 66,215 |
| Diwylliant | 6,070 | 2,686 | 5,350 | 14,106 |
| Economaidd ac Adfywio | 286,501 | 534,864 | 535,549 | 1,356,914 |
| Eiddo | 640 | 0 | 0 | 640 |
| Priffyrdd | 20,289 | 6,263 | 24,482 | 51,034 |
| Ysgolion | 0 | 490 | 1,500 | 1,990 |
| Gwastraff | 7,911 | 23,819 | 16,378 | 48,108 |
| Tai | 0 | 14,303 | 0 | 14,303 |
| CRT | 9,215 | 7,440 | 555 | 17,210 |
| Gwasanaethau Oedolion | 3,400 | 2,450 | 594 | 6,444 |
| Gwasanaethau Plant | 0 | 19,032 | 6,896 | 25,928 |
| Trawsnewid | 2,136 | 18,360 | 7,172 | 27,668 |
| Busnes y Cyngor | 10,711 | 19,129 | 1,026 | 30,866 |
| Adnoddau | 45,911 | 9,459 | 53,400 | 108,770 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **400,917** | **674,406** | **694,872** | **1,770,195** |

A more detailed breakdown of this is provided below.

**Manylion am Gostau Ymgynghorwyr Chwarter 3 2018/19**

| | | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Swm Ch3 (£)** | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth** | **Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei defnyddio / Grantiau / Cyfraniad Allanol/Arian wrth gefn** | **Disgrifiad o'r gwaith a wnaed** |
| **Cyfanswm Ch1 – Ebrill i Mehefin** | **400,917** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch2 – Groffennaf i Medi** | **674,406** | | | | | |
| **Addysg Ganolog** | 1,400 | | | ✓ | Arian wrth gefn | Cynghori ysgolion ar sut i wneud arbedion |
| | 10,850 | ✓ | | ✓ | Craidd | Ffioedd Proffesiynol fel Swyddog Addysg |
| | 3,300 | | | ✓ | Craidd | Ymchwilio |
| | 8,600 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Caffael Gwaith Cynnal a Chadw Tiroedd |
| | 10,026 | | | ✓ | Craidd | Gwasanaethau Ymchwiliol mewn perthynas ag honiadau |
| | 2,450 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Adolygu Addysg Ôl-16 |
| | 4,165 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Datblygu ar y safle a rhoi prawf ar y system cludiant ysgol CAPITA One |
| | 1,180 | ✓ | | | Grant | Dylunio a chreu gwefan |
| **Cyfanswm Addysg Ganolog** | **41,971** | | | | | |
| **Diwylliant** | 4,594 | | | ✓ | Cronfa wrth Gefn Ganolog | Gwasanaethau mewn perthynas â thir yn Ynys Lawd |
| | 78 | ✓ | | | Craidd | Modelu ar gyfer dosbarth Bywluniadu |
| | 250 | ✓ | | | Craidd | Gweithdy Criw Celf |
| | 130 | | | ✓ | Craidd | Gweithdai Beatbox a Rap |
| | 298 | ✓ | | | Craidd | Dosbarthiadau Modelu Bywluniadu |
| **Cyfanswm Diwylliant** | **5,350** | | | | | |

| | Swm Ch3 (£) | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei defnyddio / Grantiau / Cyfraniad Allanol/Arian wrth gefn | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
| **Economaidd ac Adfywio** | 27,815 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Ffioedd Proffesiynol – prosiect Wylfa Newydd |
| | 8,168 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth Strategaeth – Cefnogaeth Tirlunio - Gorchymyn Caniatâd Datblygu |
| | 196,611 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Ffioedd Proffesiynol – Gorchymyn Caniatâd Datblygu |
| | 645 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth QGIS GIS CSYM |
| | 11,538 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Gwaith monitro curadurol |
| | 5,694 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth Ymgynghoriaeth Priffyrdd CSYM – Cefnogaeth gyda'r GCD |
| | 44,941 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Prosiect Wylfa Newydd - SPC a A5025 TCPA yr A5025 |
| | 1,320 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth Strategaeth – Cefnogaeth Tirlunio TCPA |
| | 1,990 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Partneriaeth Gogledd Ynys Môn |
| | 22,868 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig – Wylfa Newydd |
| | 2,698 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | SPG JR |
| | 2,167 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth Strategaeth – Drafftio'r adroddiad llesiant |
| | 9,329 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Pecyn Gwaith 1 |

| | Swm Ch3 (£) | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei defnyddio / Grantiau / Cyfraniad Allanol/Arian wrth gefn | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
| | 4,771 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth gyda'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu |
| | 15,944 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Datblygu a Drafftio Adroddiadau Asesiad Effaith Lleol |
| | 960 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Amser Craidd SAGE |
| | 4,420 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Asesiad Effaith Amgylcheddol – Goleuadau Wylfa Newydd |
| | 24,357 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth LIR Gorchymyn Caniatâd Datblygu |
| | 28,192 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Asesiad Tai Ynys Môn |
| | 3,557 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Ymgynghoriaeth – Prosiect Grid Cenedlaethol |
| | 26,079 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Ffioedd Proffesiynol – Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru |
| | 83,625 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru CSYM |
| | 1,575 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Gwaith Archeolegol Wylfa i Pentir |
| | 240 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Amser Craidd SAGE |
| | 6,124 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Cynllun Lle Gogledd Ynys Môn |
| | 4,838 | ✓ | | | Arian Wrth Gefn | Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru CSYM |
| | 4,580 | ✓ | | | Arian Wrth Gefn | Gwasanaethau mewn perthynas â'r Asesiad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

| | | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Swm Ch3 (£) | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei defnyddio / Grantiau / Cyfraniad Allanol/Arian wrth gefn | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
| | 2,124 | ✓ | | | Arian Wrth Gefn | Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru |
| | 500 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Cyngor ar ganiatâd ac Adran 106 Penrhos |
| | 726 | ✓ | | | Arian Wrth Gefn | Ymgynghoriaeth – Prosiect Cysylltiad y Grid Cenedlaethol |
| | 10,651 | ✓ | | | Arian Wrth Gefn | Diweddariad SPG |
| | 4,950 | | | ✓ | Allanol (HLF) | Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi |
| | -44,785 | | | ✓ | Grant Allanol (ERDF) | Unedau Pen yr Orsedd Anfoneb 5,6 &7 – Rheoli a Chynllunio |
| | 8,045 | | | ✓ | Craidd | Ymgynghoriaeth a Rheoli Prosiect TG |
| | 1,107 | ✓ | | | Craidd | Cymorth Rheoli Datblygu |
| | 300 | ✓ | | | Craidd | Gwasanaethau mewn perthynas ag Annedd Menter Wledig yn Ty'n y Buarth, Dothan |
| | 338 | ✓ | | | Craidd | Gwaith Peirianneg |
| | -167 | | | ✓ | Craidd | Cyfraniad – astudiaeth Pysgod Cregyn Y Fenai |
| | 45 | ✓ | | | Craidd | Clirio Mynedfa gyda Cherbyd |
| | 506 | | | ✓ | Craidd | Paratoi un adroddiad ansawdd aer |
| | 30 | ✓ | | | Craidd | Taliad Isafswm Defnydd |
| | 135 | | | ✓ | Craidd | Dadansoddi samplau |
| | 2,150 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Drafftio a chyflwyno papurau cyfreithiol ar gyfer achos llys |
| | 3,000 | ✓ | | | Craidd | Cyfraniad at ddadansoddydd gwybodaeth |
| | 500 | | | ✓ | Grant | Goruchwylio athrawon gwersi nofio |
| | 350 | | | ✓ | Grant | Hyfforddi a Mentora |
| **Cyfanswm Economaidd ac Adfywio** | **535,549** | | | | | |

| | Swm Ch3 (£) | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei defnyddio / Grantiau / Cyfraniad Allanol/Arian wrth gefn | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
| **Priffyrdd** | 1,482 | | | ✓ | Craidd | Ffioedd mewn perthynas â Rhybuddion Dirwy Sefydlog |
| | 3,170 | ✓ | | | Craidd | Arolwg Traffig |
| | 17,356 | ✓ | | | Craidd | Arolwg SCRIM |
| | 100 | | | ✓ | Grant | Hawddfraint – draen hidlo yn Nant Heilyn, Llangoed |
| | 2,374 | | | ✓ | Grant | Gwarchod eiddo rhag llifogydd |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | **24,482** | | | | | |
| **Ysgolion** | 1,500 | | | ✓ | Craidd | Cymorth proffesiynol i'r ysgolion |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **1,500** | | | | | |
| **Gwastraff** | 45 | ✓ | | Gwaith penodol | Cyllideb graidd benodol | 'Duos offtake' yn unig |
| | 85 | ✓ | | Gwaith penodol | Cyllideb graidd benodol | Ffi Mesurydd a Setliad |
| | 2,887 | ✓ | | Gwaith penodol | Cyllideb graidd benodol | Cymorth technegol – nwy safle tirlenwi |
| | 2,031 | ✓ | | Gwaith penodol | Cyllideb graidd benodol | Cymorth Technegol ar gyfer adnewyddu injan nwy ym Mhenhesgyn |
| | 2,100 | ✓ | | Gwaith penodol | Cyllideb graidd benodol | Rhedeg a Rheoli Safle Tirlenwi Penhesgyn |
| | 2,300 | | | | | Cyfran Partneriaeth o Waith Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru |
| | 6,330 | ✓ | | Gwaith penodol | Cyllideb graidd benodol | Gwaith Adfer Sêl Safle Tirlenwi – Cynllun CQA a Gwaith Dylunio |
| | 600 | ✓ | | Gwaith penodol | Cyllideb graidd benodol / Grant / Cyfraniad Allanol | Gwaith a wnaed yn IVC Penhesgyn |

| | Swm Ch3 (£) | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei defnyddio / Grantiau / Cyfraniad Allanol/Arian wrth gefn | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth | | |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **16,378** | | | | | |
| **CRT** | 555 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Gwasanaethau Ymgynghori ar safle |
| **Cyfanswm CRT** | **555** | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 594 | | | ✓ | Grant | Aelod o'r Panel |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **594** | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 1,500 | | | Prosiect unwaith ac am byth | Cyllideb Graidd | Adroddiad Gwerthuso IFSS |
| | 4,000 | | | Prosiect unwaith ac am byth | Cyllideb Graidd | Dadansoddiad ac Astudiaeth Achos ar gyfer IFSS |
| | 1,396 | | | Prosiect unwaith ac am byth | Cyllideb Graidd | Archwilio achosion a dilyn i fyny adolygiadau rheoli |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Plant** | **6,896** | | | | | |
| Trawsnewid | 4,322 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Trwsio a Gosod Cysylltiadau Radio & HD |
| | 2,850 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Adfer offer radio o nifer o safleoedd |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **7,172** | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 1,026 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Sesiynau mentora iaith Gymraeg |
| **Cyfanswm Busnes y Cyngor** | **1,026** | | | | | |

| | | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Swm Ch3 (£)** | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth** | **Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei defnyddio / Grantiau / Cyfraniad Allanol/Arian wrth gefn** | **Disgrifiad o'r gwaith a wnaed** |
| Adnoddau | 1,500 | ✓ | | | Cyllideb Graidd | Gwasanaeth Ymgynghori TAW |
| | 7,100 | ✓ | | | Cyllideb Graidd | Gwasanaethau Trysorlys - Contractau |
| | 10,213 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Dyddiau Ymgynghori CIVICA |
| | 400 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Teithio a Chostau - Martin Houlden |
| | 26,600 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Adolygiad o Fodel Rheolaeth Ariannol CLlLC. Caiff ei gyllido'n llawn gan CLlLC |
| | 7,588 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Costau Rheoli Prosiect TG |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **53,400** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch2 – Gorffennaf i Medi** | **694,872** | | | | | |
| **Cyfanswm cronnol – Ebrill i Medi** | **1,770,195** | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 CHWEFROR 2019** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 3 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir y dylai'r Pwyllgor Gwaith nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb cyfalaf 2018/19 yn Chwarter 3.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf am drydydd chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | d/b – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb – Chwarter 3 2018/19
Atodiad B – Crynodeb o'r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn.

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2018/19 fel y'i hargymhellwyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018;
- Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 17 Medi 2018;
- Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 26 Tachwedd 2018;
- Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2017/18, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 18 Mehefin 2018; ac
- Adroddiad ar Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 2019/20, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 12 Tachwedd 2018.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad ar fonitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Chwefror 2018, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf o £37.017m ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai ar gyfer 2018/19 a Rhaglen Gyfalaf o £12.417m ar gyfer y CRT. Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2018, caniataodd y Cyngor i Lithriad Cyfalaf o £9.348m gael ei ddwyn ymlaen o 2017/18. Ers gosod y gyllideb, mae cynlluniau eraill wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau ac yn werth £4.097m i gyd ac fe adolygwyd rhai cyllidebau ac arweiniodd hynny at ostyngiad o £0.959m. Daw hyn â chyfanswm y Gyllideb Cyfalaf ar gyfer 2018/19 i £61.920m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2018/19

**2.1** Isod mae tabl sy'n crynhoi'r gwariant Cyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2018, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 31 Rhagfyr 2018 a'r cyllid gwreiddiol ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf yn 2018/19.

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwir Wariant £'000 | Gwariant Ymrwymedig £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % Cyllideb Flynyddol a Wariwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai - Cronfa Gyffredinol | **3,611** | **1,085** | **511** | **-** | **511** | **47** | **14** |
| Tai - CRT | **16,360** | **9,502** | **5,238** | **142** | **5,380** | **57** | **33** |
| Dysgu Gydol Oes | **12,177** | **3,512** | **4,626** | **82** | **4,708** | **134** | **39** |
| Economaidd a Rheoleiddio | **6,604** | **3,464** | **3,216** | **323** | **3,539** | **102** | **54** |
| Priffyrdd | **17,703** | **4,002** | **2,885** | **28** | **2,913** | **73** | **16** |
| Rheoli Gwastraff | **86** | **84** | **84** | **-** | **84** | **100** | **98** |
| Eiddo | **864** | **394** | **323** | **2** | **325** | **83** | **38** |
| Trawsnewid | **535** | **483** | **385** | **62** | **447** | **93** | **84** |
| Cynllunio | **2,225** | **1,225** | **1,119** | **-** | **1,119** | **91** | **50** |
| Gwasanaethau Oedolion | **1,755** | **18** | **13** | **4** | **17** | **90** | **1** |
| **Cyfanswm** | **61,920** | **23,769** | **18,400** | **643** | **19,043** | **80** | **30** |
| Grant Cyfalaf | **33,834** | | | | | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | **1,304** | | | | | | |
| Benthyca â | **5,064** | | | | | | |
| Chefnogaeth | **5,999** | | | | | | |
| Benthyca | **13,691** | | | | | | |
| Digefnogaeth | **644** | | | | | | |
| Cyfraniad Refeniw | **374** | | | | | | |
| Arian Wrth Gefn | **1,010** | | | | | | |
| Benthyciad | | | | | | | |
| Tanwariant o 2017/18 | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | **61,920** | | | | | | |

**2.2** Roedd 96% o'r gyllideb a broffiliwyd wedi ei gwario hyd at ddiwedd yr ail chwarter, fodd bynnag, dim ond 30% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi cael ei gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod y cyllid ar gyfer nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn cael ei wario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, rhagwelir y byddant yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf neu ni fyddant yn cael eu gwireddu o gwbl. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn ers tro, gyda'r mwyafrif o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer Chwarter 3 wedi cael ei gwario ac, mewn rhai achosion, mae'r gwariant yn uwch na'r proffil, megis prosiect Isadeiladedd Strategol Llangefni, adnewyddu adeiladau Addysg a'r cae 3G ym Mhlas Arthur. Mae rhai cynlluniau cyfalaf eto i gychwyn, ond mae cyllidebau'r rheini wedi'u proffilio ar gyfer rhan olaf y flwyddyn ariannol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys Ail-wynebu Ffyrdd, cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares a Grant y Gronfa Gofal Canolradd. Rhagwelir y bydd rhai o'r cynlluniau'n llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf, a chyfran yn unig o'u cyllideb fydd yn cael ei gwario eleni. Bydd y cyllid ar eu cyfer hefyd yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf ac un enghraifft o hyn yw'r Grant ar gyfer darparu Cyfleusterau i'r Anabl. Gohiriwyd gwaith ar un cynllun mawr, y Brifffordd Newydd i Wylfa Newydd, ac roedd cyllideb o £12.000m ar gyfer y gwaith yn 2018/19, y cyfan yn cael ei cyllido o ffynonellau allanol. Gweler yr holl gynlluniau cyfalaf a'u proffiliau yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2018/19 a cheir diweddariad ar y rhain yn adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae 57% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai wedi cael ei wario, ond dim ond 33% o'r gyllideb flynyddol. Fodd bynnag, amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd 54% o'r gyllideb flynyddol wedi cael ei gwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a rhagwelir y bydd tanwariant sylweddol o ran prynu eiddo cyfredol a datblygu eiddo newydd. Fodd bynnag, bydd y cynllun hwn, a'r cyllid ar ei gyfer, yn llithro i 2019/20. Yn ystod Chwarter 3, cyhoeddwyd tendr ar gyfer y cynllun cyfalaf olaf a chafodd y contract ei ddyfarnu ac mae hynny yn ymrwymo'r gyllideb cynnal a chadw cynlluniedig yn llawn ar gyfer 2018/19.

**2.4** Cafodd y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau, a gyllidir o'r derbyniadau cyfalaf clustnodedig a geir yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm rhenti, ei chwblhau yn ystod 2016/17. Fodd bynnag, roedd gwaith ar ôl i'w wneud yn 2017/18. Ar ddiwedd 2017/18, roedd diffyg o £0.078m ar y rhaglen, i'w gyllido drwy werthu Mân-ddaliadau eraill yn 2018/19. Cyfanswm y gwerthiant oedd £0.285m, gan olygu fod gwarged o £0.207m. Bydd gwaith cyfalaf pellach gwerth £0.207m yn cael ei wneud yn 2018/19 ac yn cael ei gyllido o'r gwarged hwn. Ar ddiwedd 2018/19, disgwylir y bydd gan y rhaglen gyllideb gytbwys. Daw hyn â'r rhaglen atgyweirio sylweddol i ben a bydd unrhyw waith dilynol yn cael ei gyllido o'r cyllid refeniw a fydd ar gael.

## 3. <u>CYLLIDO</u>

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae yna nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt ac, isod, ceir diweddariad byr ar y cynlluniau:-

- Ffordd Gyswllt Llangefni – Parhaodd y gwaith ar Ran 3 y cynllun yn ystod Chwarter 3 a chwblhawyd y gwaith wynebu. Mae rhywfaint o waith tirlunio angen ei gwblhau ym mis Ionawr yn ogystal â phaentio llinellau a gosod arwyddion. Bydd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (Ken Skates AC) yn agor y ffordd y swyddogol ar 7 Chwefror 2019.

- Isadeiledd Strategol Llangefni - Mae'r cynllun yn un i godi 5 (pump) o unedau diwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r swyddfeydd yn y Ganolfan Fusnes ar gyfer eu gosod i'r sector preifat. Cychwynnodd gwaith ar y ddau safle yn ystod rhan olaf 2017/18, parhawyd gyda'r gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y ddau safle. Hyd at ddiwedd Chwarter 3 2018/19, roedd £2.935m wedi cael ei wario a'i ymrwymo, fydd yn cael ei gyllido drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Cwblhawyd yr unedau diwydiannol newydd yn ystod Chwarter 3, ac mae pob un o'r pum uned ddiwydiannol wedi cael eu gosod. Cwblhawyd yr estyniad i'r swyddfeydd yn y Ganolfan Fusnes yn ystod y trydydd chwarter, a bydd y gwaith mewnol yn cael ei gwblhau yn ystod Chwarter 4.

- Ysgolion yr 21ain Ganrif – Mae'r cyllid ar gyfer Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan wedi cael ei dynnu i lawr yn llwyr fel rhan o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a bydd unrhyw waith ychwanegol ar yr ysgolion hyn, gan gynnwys talu unrhyw symiau cadw sy'n weddill, yn cael ei gyllido drwy fenthyca ac o adnoddau'r Cyngor fel rhan o gyfraniad 50% y Cyngor tuag at y prosiect. Mae gwaith wedi parhau ar yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Santes Dwynwen yn ystod y chwarter ac roedd y grant wedi cael ei dynnu i lawr yn llwyr yn Chwarter 2. Bydd unrhyw wariant ychwanegol yn cael ei gyllido gan y Cyngor fel rhan o'i gyllid cyfatebol. Mae'r gwaith ar Ysgol Brynsiencyn wedi cael ei gwblhau yn awr. Roedd y rhaglen ar gyfer Band A i fod i gael ei chwblhau yn 2020, fodd bynnag, bydd yr Ysgol Newydd ar gyfer Llangefni, y bwriedir ei chwblhau yn 2022 yn cael ei chadw fel rhan o raglen Band A.

- Neuadd y Farchnad Caergybi – Mae'r prosiect wedi cychwyn ers 26 wythnos bellach ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda. Mae problemau a gafwyd ar ddechrau'r prosiect, lle'r oedd ceisiadau am daliad gan y contractwr ychydig yn is nag a nodwyd yn rhagolygon llif arian gwreiddiol y contractwr wedi cael eu datrys, ac mae gwariant yn cynyddu. Parheir i roi blaenoriaeth i fonitro hyn yn ystod y cyfarfodydd misol ar y safle. Mae'r contractwr wedi gwneud cais ffurfiol am estyniad o 8 wythnos i'r contract oherwydd oedi a ragwelwyd yn flaenorol. Mae'r Pensaer yn dal i ystyried y cais ac yn disgwyl am fwy o gyfiawnhad cyn penderfynu caniatáu estyniad.

- Lliniaru Llifogydd ym Miwmares - Erbyn hyn mae LlC wedi derbyn yr Adroddiad Asesu Tendr ac wedi cymeradwyo cost lawn y cynllun, oddeutu £1.700m, a dyfarnwyd y contract ar gyfer y gwaith. Mae'r contractwr ar y safle erbyn hyn a rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn mis Mai/Mehefin 2019.

- Porth Ymwelwyr – Mae Prosiect Cyrchfan Denu Twristiaid (TAD) (Tourism Attractor Destination) Porth Ymwelwyr Ynys Gybi yn becyn o brosiectau a gyllidir yn bennaf o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri ac a fydd yn mynd rhagddynt dros nifer o flynyddoedd. Mae'n cynnwys gosod deunydd hyrwyddo mewn perthynas â chyrchfannau eiconig yng Ngogledd Cymru yn y porthladd a'r orsaf, gwella'r profiad i ymwelwyr yng Nghaer Rufeinig Sant Cybi, Parc y Morglawdd a Mynydd Twr. Derbyniwyd llythyr cynnig y prosiect erbyn hyn ac mae hynny'n caniatáu i'r prosiect symud ymlaen i'r cam nesaf.

- Cynllun Buddsoddi mewn Mwynderau Twristiaeth (TAIS) – Mae gwaith ar yr Oriel, Nant y Pandy a Lôn Las wedi eu cwblhau erbyn hyn a gwariwyd yr holl gyllid erbyn diwedd mis Tachwedd 2018 a chyflwynwyd y cais grant i'w dalu.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer y Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio (TRIP). Pwrpas y cyllid yw dod â 108 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd drwy bedwar cynllun sef Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwag, Ymyrraeth Uniongyrchol o ran Cartrefi Gwag a Byw yng nghanol Trefi. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod arweiniol, a Chyngor Sir Gwynedd fel eu partner cyflawni ar y cyd. Cyfanswm y cyllid fydd £3.250m a bydd Ynys Môn yn derbyn £1.800m o'r cyfanswm hwnnw dros dair blynedd. Mae'r gyllideb ar gyfer 2018/19 yn £0.295m. Yn ystod Chwarter 3, mae gwaith wedi dechrau ar y cynlluniau Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf ac Ymyrraeth Uniongyrchol o ran Cartrefi Gwag, gyda'r hawliad cyntaf yn ddyledus ym mis Ionawr 2019.

- Gwaith Adfer – Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i wneud gwaith adfer ar 16 eiddo preswyl ar stad Craig-y-Don yn Amlwch. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu 60% o'r costau amcangyfrifiedig cychwynnol sef £636k, a bydd y Cyfrif Refeniw Tai yn cyllido'r balans.

**3.1.2** Mae cynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf nad ydynt wedi cychwyn eto neu sy'n disgwyl i gael eu cymeradwyo gan y cyrff cyllido. Ceir isod ddiweddariad byr ar y cynlluniau hyn:-

- Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth – mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Nant y Felin, Pentraeth yn eu rhaglen am y flwyddyn ariannol 2018/19. Fodd bynnag, mae'r cynnig ffurfiol yn amodol ar gyflwyno cais gan yr Awdurdod unwaith y bydd yr holl ganiatadau a phrisiau tendr wedi eu derbyn i gychwyn ar y gwaith. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei dendro ym mis Chwefror ac na fydd y gwaith adeiladu yn dechrau tan fis Ebrill 2019.

- Isadeiledd Strategol Caergybi – Cynllun yw hwn i godi 10 (deg) o unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Fodd bynnag, oherwydd oedi yn y broses gaffael, mae'n annhebygol y bydd gwaith yn cychwyn ar y safle tan 2019/20 gyda'r gwaith yn cael ei gwblhau yn 2020. Sicrhawyd cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a sefydlwyd Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru a fydd yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun.

- Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd – Bydd y cynllun hwn yn cynnwys gwneud gwaith cyfalaf ar yr A5025 rhwng Porthaethwy ac Amlwch. Mae gwaith wedi cychwyn ar y cynllun a hyd yma mae £0.189m wedi cael ei wario yn erbyn cyllideb o £0.220m.

- Priffordd Newydd i Wylfa Newydd – Mae'r holl waith ar y prosiect hwn wedi cael ei ohirio ar hyn o bryd.

- Cronfa Trafnidiaeth Leol - Isadeiledd Porthladd Caergybi - Sicrhawyd £0.604m o gyllid i wneud gwaith dylunio a pharatoi yn Hyb Porth Ymwelwyr Caergybi, ac i wneud gwaith paratoi i ddatblygu isadeiledd newydd ym Mhorthladd Caergybi. Bydd y cyllid yn cael ei rannu 50:50 rhwng Llywodraeth Cymru a Stenna.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer:-

| | **Cyllideb 2018/19 £'000** | **Derbyniwyd hyd at 31 Rhagfyr 2018 £'000** | **Rhagolwg hyd at 31 Mawrth 2019 £'000** | **Llithriad a Ragwelir yn 2019/20 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | | | | |
| Mân-ddaliadau | 264 | 285 | 297 | 0 |
| Cyffredinol | 1,431 | 510 | 678 | 1,245 |
| Diwydiannol | 105 | 20 | 105 | 0 |
| Ysgolion | 1,248 | 319 | 746 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3,046** | **1,134** | **1,826** | **1,245** |

**3.2.2** Bellach, rhagwelir y bydd £1.826m o Dderbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2019 yn erbyn cyllideb o £3.046m. Mae hyn oherwydd na fydd gwerthiant 4 eiddo yn cael eu cwblhau yn 2018/19 ond, yn hytrach, disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn 2019/20. Hyd at ddiwedd chwarter 3, roedd £1.134m wedi dod i law, sy'n cyfateb i 37% o'r gyllideb. Daeth y cyllid hwn yn bennaf o werthu mân-ddaliad (£0.264m), cynhyrchydd (£0.140m) a thri o safleoedd hen ysgolion (£0.319m).

## 4. Y GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR AR GYFER 2018/19 A CHYLLIDO

**4.1** Isod, ceir tabl yn dangos y Gwariant a ragwelir ar 31 Mawrth 2019 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol | Gwariant a Ragwelir | Gor/(Tan)wariant a Ragwelir £'000 | % Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Tai – Cronfa Gyffredinol** | 3,611 | 1,466 | (2,145) | (59) |
| **Tai - CRT** | 16,360 | 8,804 | (7,556) | (46) |
| **Dysgu Gydol Oes** | 12,177 | 7,856 | (4,321) | (35) |
| **Economaidd ac Adfywio** | 6,604 | 4,270 | (2,334) | (35) |
| **Priffyrdd** | 17,703 | 5,424 | (12,279) | (69) |
| **Rheoli Gwastraff** | 86 | 84 | (2) | (2) |
| **Eiddo** | 864 | 857 | (7) | (1) |
| **Trawsnewid** | 535 | 535 | - | - |
| **Cynllunio** | 2,225 | 2,225 | - | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 1,755 | 755 | (1,000) | (57) |
| **Cyfanswm** | **61,920** | **32,276** | **(29,644)** | **(48)** |
| **Cyllidir gan :** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragwelir £'000** | **Gwahaniaeth** | **% Gwahaniaeth** |
| **Grant Cyfalaf** | 33,834 | 15,606 | (18,228) | (54) |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | 1,304 | 1,826 | (521) | 40 |
| **Benthyca â Chefnogaeth** | 5,064 | 3,383 | (1,681) | (33) |
| **Benthyca Digefnogaeth** | 5,999 | 3,811 | (2,188) | (36) |
| **Cyfraniad Refeniw** | 13,691 | 6,135 | (7,556) | (50) |
| **Arian Wrth Gefn** | 644 | 1,142 | (498) | 77 |
| **Benthyciad** | 374 | 374 | 0 | 0 |
| **Tanwariant o 2017/18** | 1,010 | - | (1,010) | (100) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **61,920** | **32,276** | **(29,644)** | **(48)** |

**4.2** Fel y gwelir o Dabl 4.1 (uchod), rhagwelir y bydd tanwariant o £29.644m ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19, ac mae'n bosib bydd yn llithro i Raglen Gyfalaf 2019/20. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2019/20 a chafodd hynny ei gymryd i ystyriaeth wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20. Y prif brosiectau ble rhagwelir tanwariant yw:-

- Y Briffordd Newydd i Wylfa Newydd. Roedd y prosiect hwn yn cael ei gyllido'n gyfan gwbl o gyllid allanol (fe'i dangosir fel Grantiau Cyfalaf yn Nhabl 4.1). Fodd bynnag, mae holl waith ar y prosiect hwn wedi cael ei ohirio.

- Safleoedd Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae cychwyn y prosiectau yma yn ddibynnol ar dderbyn y caniatâd cynllunio angenrheidiol. Unwaith y bydd hwn wedi'i sicrhau, bydd adroddiad pellach mwy manwl ar y costau a'r modd y bwriedir cyflawni'r cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. Ar hyn o bryd, mae'n annhebygol y bydd gwariant cyfalaf sylweddol yn digwydd cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Os bydd modd sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu safle preswyl parhaol, bydd cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyllid grant i gynorthwyo gyda'r costau datblygu.

- Prynu eiddo cyfredol (CRT) a datblygu eiddo newydd. Caiff y prosiectau hyn eu cyllido o gronfeydd wrth gefn y CRT (a ddangosir fel Cyfraniad Refeniw yn Nhabl 4.1) a thrwy fenthyciadau. Mae gwaith wedi cychwyn ar adeiladu eiddo newydd, ond ni ragwelir y bydd digon o brosiectau wedi cael eu datblygu i wario'r gyllideb sydd ar gael. Bydd unrhyw gyllid nad yw'n cael ei wario yn cael ei gario drosodd i 2019/20.

- Adeiladu Ysgol Newydd yr 21ain Ganrif yn Llangefni - bydd y prosiect hwn yn cael ei gyllido drwy Raglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru - Band A - 50% o grantiau allanol a benthyca â chefnogaeth a 50% o dderbyniadau cyfalaf a benthyca digefnogaeth. Ym mis Ionawr 2019, cymeradwyodd y Gweinidog Addysg yr Achos Strategol Amlinellol (ASA) / Achos Busnes Amlinellol (ABA) mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Newydd yn Llangefni. Er mwyn sicrhau'r cyllid, rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol (ABT) cyn gynted â phosib, gorau oll erbyn 31 Mawrth 2019. Gall unrhyw oedi gyda symud y prosiect hwn yn ei flaen olygu colli cyllid Band A.
- Gofal Ychwanegol Seiriol – bydd y prosiect hwn yn cychwyn yn awr yn 2020 a bydd yn cael ei gyllido'n llawn drwy'r CRT. Gwnaed cais yn Rhaglen Gyfalaf 2019/20 i ryddhau cyllid y Cyngor ar gyfer y prosiect hwn yn ôl i'r gronfa gyfalaf gyffredinol, a chymeradwywyd y cais hwn gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2018.

**4.3** Rhagwelir y bydd y Gofyniad Cyllid o Gyfalaf ar 31 Mawrth 2019 yn £141.191m, sef angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca fel y gall gyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn benthyca'n allanol £121.421m, sydd, yn ei hanfod, yn golygu bod yr Awdurdod wedi cyllido £19.770m o wariant cyfalaf o'i falansau ariannol mewnol ei hun (benthyca mewnol). Os bydd y cyllid hwn yn cael ei fenthyca'n allanol, bydd yr Awdurdod yn parhau i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2018/19 (Atodiad 11).

## 5. <u>Y DYFODOL</u>

**5.1** Ar 30 Hydref 2017, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2018/19 ac argymhellwyd y bydd cyllid Rhaglen Gyfalaf 2018/19 yn cael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a'r benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir arnynt gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifiedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a ddaw i law. Roedd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2019/20 yn adleisio hynny a bydd Rhaglen Gyfalaf 2019/20 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chefnogaeth yn cael ei ddefnyddio i gyllido adnewyddu Cerbydau, Buddsoddi mewn TGCh, atgyweirio asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i gwrdd â chostau'r Grantiau Statudol ar gyfer darparu Cyfleusterau i'r Anabl. Yn ogystal, bydd cyllid ar gael ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol a chaiff y rhain eu hasesu fesul achos.

Fel y soniwyd ym mharagraff 4.2, gofynnwyd am gael rhyddhau cyllid y Cyngor ar gyfer Gofal Ychwanegol Seiriol yn ôl i'r gronfa gyfalaf gyffredinol, ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo'r cais hwn. Roedd y cyllid hwn ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd yn 2019/20, gan roi blaenoriaeth i brosiectau sydd yn cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y'u nodir yn y Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol. Ar gyfer 2019/20, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ddefnyddio'r cyllid ar gyfer 10 o gynlluniau Cyfalaf a 2 fid Buddsoddi i Arbed.

Ar 12 Tachwedd 2018, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith Raglen Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2019/20 o £38.000m ac roedd £24.890m o'r swm hwnnw ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a £13.110m ar gyfer y CRT. Fodd bynnag, yn dilyn hynny cyhoeddwyd fod prosiect y Brifford Newydd i Wylfa Newydd wedi cael ei ohirio, ac roedd cyllideb o £7.000m ar gyfer y prosiect hwn yn 2019/20.

Roedd y setliad cyllid cyfalaf terfynol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2018, yn cynnwys £0.737m o cyllid ychwanegol ar ffurf grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth. Cyflwynir y rhaglen gyfalaf derfynol ar gyfer 2019/20 i'r Pwyllgor Gwaith ei chymeradwyo ar 18 Chwefror 2019.

## 6. <u>CASGLIAD</u>

**6.1** Dengys y canlyniadau ar ddiwedd Chwarter 3 a'r gwariant rhagdybiedig cysylltiedig fod y rhan fwyaf o'r prosiectau ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau o fewn eu cyllidebau ond disgwylir i 4 o brosiectau mawr (Datblygu Eiddo CRT newydd, Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Gwelliannau i'r A5025 i Wylfa ac Ysgol yr 21ain Ganrif yn Llangefni) danwario'n sylweddol yn 2018/19. Fodd bynnag, bydd y cyllid ar gyfer tri o'r cynlluniau hyn yn cael ei gario drosodd i 2019/20 ac ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd unrhyw arian yn cael ei golli oherwydd yr oedi. Efallai na fydd y gwaith i wella'r A5025 yn dechrau o gwbl gan fod yr holl waith ar y prosiect wedi cael ei ohirio.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o'r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragwelir (£) | Tan / Gorwariant a Ragwelir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 1,006,790 | 755,100 | 329,494 | 0 | 329,494 | -425,606 | 44 | 33 | 600,000 | -406,790 | -40 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 1,858,000 | 80,000 | 30,157 | 0 | 30,157 | -49,843 | 38 | 2 | 120,000 | -1,738,000 | -94 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 199,100 | 140,000 | 83,390 | 0 | 83,390 | -56,610 | 60 | 42 | 199,100 | 0 | 0 |
| Grant Galluogi | 93,200 | 69,903 | 31,785 | 0 | 31,785 | -38,118 | 45 | 34 | 93,200 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 477 | 0 | 477 | 477 | 0 | 2 | 30,650 | 0 | 0 |
| Gwaith Adferiad | 383,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 383,000 | 0 | 0 |
| Grant TRIP - prynwr tro cynta | 40,000 | 40,000 | 35,769 | 0 | 35,769 | -4,231 | 89 | 89 | 40,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3,610,740** | **1,085,003** | **511,072** | **0** | **511,072** | **-573,931** | **47** | **14** | **1,465,950** | **-2,144,790** | **-59** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 500,000 | 280,000 | 244,479 | 8,508 | 252,986 | -27,014 | 90 | 51 | 400,000 | -100,000 | -20 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 3,983,500 | 2,793,149 | 2,956,411 | 3,704 | 2,960,116 | 166,966 | 106 | 74 | 3,983,149 | -351 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 550,000 | 15,328 | 0 | 15,328 | -534,672 | 3 | 2 | 200,000 | -800,000 | -80 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 200,000 | 24,150 | 2,088 | 26,238 | -173,762 | 0 | 5 | 100,000 | -400,000 | -80 |
| Prynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd | 7,964,780 | 4,359,330 | 644,886 | 0 | 644,886 | -3,714,445 | 15 | 8 | 1,469,000 | -6,495,780 | -82 |
| Ailfodelu Llawr Y Dref | 500,000 | 375,000 | 509,617 | 3,301 | 512,918 | 137,918 | 137 | 103 | 690,000 | 190,000 | 38 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 260,000 | 251,529 | 18,043 | 269,573 | 9,573 | 104 | 77 | 400,000 | 50,000 | 14 |
| Risg Tân | 200,000 | 120,000 | 43,064 | 73,700 | 116,764 | -3,236 | 97 | 58 | 200,000 | 0 | 0 |
| SATC | 1,000,000 | 550,000 | 548,718 | 18,765 | 567,483 | 17,483 | 103 | 57 | 1,000,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Adferiad - CRT | 362,000 | 15,000 | 282 | 13,582 | 13,864 | -1,136 | 92 | 4 | 362,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **16,360,280** | **9,502,479** | **5,238,465** | **141,691** | **5,380,156** | **-4,122,323** | **57** | **33** | **8,804,149** | **-7,556,131** | **-46** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysg | 397,330 | 200,000 | 152,301 | 0 | 152,301 | -47,699 | 76 | 38 | 400,000 | 2,670 | 1 |
| Adnewyddu Adeiladau Addysg | 543,950 | 450,000 | 509,345 | 0 | 509,345 | 59,345 | 113 | 94 | 550,000 | 6,050 | 1 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Cybi | 132,000 | 132,000 | 127,174 | 3,521 | 130,694 | -1,306 | 99 | 99 | 132,086 | 86 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Rhyd y Llan | 178,000 | 133,500 | 142,197 | 3,750 | 145,947 | 12,447 | 109 | 82 | 178,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Parc y Bont | 7,000 | 0 | 2,157 | 850 | 3,007 | 3,007 | 0 | 43 | 16,222 | 9,222 | 132 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Santes Dwynwen | 5,082,748 | 2,090,000 | 3,392,572 | 67,866 | 3,460,437 | 1,370,437 | 166 | 68 | 5,082,748 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Brynsiencyn | 203,000 | 256,496 | 243,815 | 0 | 243,815 | -12,681 | 95 | 120 | 303,991 | 100,991 | 50 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Esgeifiog | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -50,000 | -100 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Estyniad Ysgol Y Graig | 350,000 | 0 | 210 | 3,620 | 3,830 | 3,830 | 0 | 1 | 350,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Adeilad Newydd Llangefni | 5,233,000 | 250,234 | 55,809 | 2,358 | 58,167 | -192,067 | 23 | 1 | 842,588 | -4,390,412 | -84 |
| **Cyfanswm** | **12,177,028** | **3,512,230** | **4,625,579** | **81,965** | **4,707,543** | **1,195,313** | **134** | **39** | **7,855,635** | **-4,321,393** | **-35** |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Porth Twristiaeth | 1,397,980 | 0 | 1,738 | 0 | 1,738 | 1,738 | 0 | 0 | 400,000 | -997,980 | -71 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,370,000 | 0 | 152,424 | 0 | 152,424 | 152,424 | 0 | 11 | 200,000 | -1,170,000 | -85 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 3,357,000 | 3,050,000 | 2,644,085 | 291,451 | 2,935,536 | -114,464 | 96 | 87 | 3,191,000 | -166,000 | -5 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 69,350 | 4,019 | 8,474 | 30,629 | 39,103 | 35,084 | 973 | 56 | 69,346 | -4 | 0 |
| Goleuadau LED Salix Canolfan Hamdden - Cadw | 5,000 | 5,000 | 5,194 | 0 | 5,194 | 194 | 104 | 104 | 5,194 | 194 | 4 |
| Cwrs Golff Llangefni - Peiriant torri gwair | 4,500 | 4,500 | 4,500 | 0 | 4,500 | 0 | 100 | 100 | 4,500 | 0 | 0 |
| Cae Pêl Droed 3G Llangefni | 200,000 | 200,000 | 200,913 | 0 | 200,913 | 913 | 100 | 100 | 200,000 | 0 | 0 |
| Offer Ffitrwydd Caergybi | 200,000 | 200,000 | 198,966 | 752 | 199,718 | -282 | 100 | 100 | 200,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **6,603,830** | **3,463,519** | **3,216,294** | **322,832** | **3,539,126** | **75,607** | **102** | **54** | **4,270,040** | **-2,333,790** | **-35** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamceni r (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Meysydd Parcio | 12,920 | 12,920 | 5,990 | 0 | 5,990 | -6,930 | 46 | 46 | 12,920 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 150,000 | 150,000 | 118,045 | 0 | 118,045 | -31,955 | 79 | 79 | 150,000 | 0 | 0 |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir | 1,532,800 | 1,592,000 | 922,092 | 0 | 922,092 | -669,908 | 58 | 60 | 1,532,800 | 0 | 0 |
| Gw aith Lliniaru Llifogydd ym Miw mares (LlC) | 954,290 | 20,000 | 99,648 | 1,631 | 101,279 | 81,279 | 0 | 11 | 950,000 | -4,290 | 0 |
| Gw aith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LlC) | 200,000 | 40,000 | 0 | 0 | 0 | -40,000 | 0 | 0 | 0 | -200,000 | -100 |
| Priffyrdd New ydd Wylfa New ydd | 12,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -12,000,000 | -100 |
| Teithio Actif | 175,000 | 3,000 | 2,670 | 1,600 | 4,270 | 1,270 | 142 | 2 | 100,000 | -75,000 | -43 |
| Ffordd Gysw llt Llangefni | 1,671,000 | 1,307,000 | 872,931 | 8,752 | 881,683 | -425,317 | 67 | 53 | 1,671,000 | 0 | 0 |
| Grant Tais Oriel Môn, Lon Las a Nant y Pandy | 128,000 | 128,000 | 129,831 | 0 | 129,831 | 1,831 | 101 | 101 | 128,000 | 0 | 0 |
| A545 Biw mares | 120,000 | 120,000 | 104,091 | 16,076 | 120,166 | 166 | 100 | 100 | 120,000 | 0 | 0 |
| Grant Diogelw ch Lôn | 220,000 | 165,000 | 189,373 | 0 | 189,373 | 24,373 | 115 | 86 | 220,000 | 0 | 0 |
| A545 Astudiaeth gw ydnw ch | 95,000 | 20,000 | 19,576 | 0 | 19,576 | -424 | 98 | 21 | 95,000 | 0 | 0 |
| Gw aith llifogydd Llangefni | 75,000 | 75,000 | 73,912 | 0 | 73,912 | -1,088 | 99 | 99 | 75,000 | 0 | 0 |
| Salix Rhan 2 - Goleuadau Stryd | 105,130 | 105,130 | 104,881 | 0 | 104,881 | -249 | 100 | 100 | 105,130 | 0 | 0 |
| Salix Rhan 3 - Goleuadau Stryd | 264,000 | 264,000 | 241,805 | 0 | 241,805 | -22,195 | 92 | 92 | 264,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **17,703,140** | **4,002,050** | **2,884,844** | **28,058** | **2,912,902** | **-1,089,148** | **73** | **16** | **5,423,850** | **-12,279,290** | **-69** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Pont Pw yso New ydd | 30,590 | 28,995 | 28,995 | 0 | 28,995 | 0 | 100 | 95 | 28,995 | -1,595 | -5 |
| Offer new ydd Penhesgyn | 55,000 | 55,000 | 55,000 | 0 | 55,000 | 0 | 100 | 100 | 55,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **85,590** | **83,995** | **83,995** | **0** | **83,995** | **0** | **100** | **98** | **83,995** | **-1,595** | **-2** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnew yddu Asedau Cyfredol | 406,930 | 200,000 | 103,310 | 0 | 178,115 | -96,690 | 52 | 25 | 400,000 | -6,930 | -2 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 250,000 | 90,000 | 18,828 | 0 | 123,657 | 0 | 0 | 8 | 250,000 | 0 | 0 |
| Mân-ddaliadau | 207,000 | 103,500 | 201,155 | 2,100 | 39,321 | 99,755 | 196 | 98 | 207,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **863,930** | **393,500** | **323,292** | **2,100** | **341,093** | **3,064** | **0** | **39** | **857,000** | **-6,930** | **-1** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 182,700 | 182,701 | 177,365 | 750 | 178,115 | -4,586 | 97 | 97 | 182,700 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnew yddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 121,000 | 62,258 | 61,399 | 123,657 | 2,657 | 102 | 102 | 121,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Mudo System Etifeddiaeth | 20,000 | 20,000 | 39,321 | 0 | 39,321 | 19,321 | 197 | 197 | 20,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Trw yddedau MS | 106,000 | 106,000 | 106,130 | 0 | 106,130 | 130 | 100 | 100 | 106,000 | 0 | 0 |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,640 | 52,822 | 0 | 0 | 0 | -52,822 | 0 | 0 | 105,640 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **535,340** | **482,523** | **385,074** | **62,149** | **447,223** | **-35,300** | **0** | **84** | **535,340** | **0** | **0** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 2,225,000 | 1,225,000 | 1,118,998 | 0 | 1,118,998 | -106,002 | 91 | 50 | 2,225,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,225,000** | **1,225,000** | **1,118,998** | **0** | **1,118,998** | **-106,002** | **91** | **50** | **2,225,000** | **0** | **0** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| ICF | 731,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 731,000 | 0 | 0 |
| Wifi Canolfan Byron - Buddsoddi i Arbed | 8,750 | 3,000 | 2,708 | 0 | 2,708 | -292 | 90 | 31 | 8,750 | 0 | 0 |
| Seiriol | 1,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1,000,000 | -100 |
| Garreglw yd | 15,420 | 15,420 | 10,075 | 3,879 | 13,954 | -1,466 | 90 | 90 | 15,420 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,755,170** | **18,420** | **12,783** | **3,879** | **16,662** | **-1,758** | **90** | **1** | **755,170** | **-1,000,000** | **-57** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **61,920,048** | **23,768,720** | **18,400,394** | **642,675** | **19,058,770** | **-4,654,478** | **80** | **31** | **32,276,130** | **-29,643,918** | **-48** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 CHWEFROR 2019** |
| **PWNC:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CRT – CHWARTER 3 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r isod:-

**(i)** Y sefyllfa a nodwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3, 2018/19.

**(ii)** Yr alldro rhagoledig ar gyfer 2018/19.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2018 cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2018/19 a oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £7.3m.

**(ii)** Roedd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2018/19 yn £12.4m ond dylid nodi nad oedd £3.6m o wariant a gynlluniwyd ar gyfer 2017/18 wedi ei gwblhau a'i fod wedi llithro i raglen gyfalaf 2018/19. Mae'r gyllideb wedi cael ei diwygio gan £362k pellach i dalu am y gwaith adfer yn Amlwch (gweler isod). Mae hyn yn golygu fod cyfanswm y gyllideb gyfalaf yn £16.4m.

**(iii)** Rhoes y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu, ddiffyg cyllidebol cynlluniedig o £6.4m a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi ei glustnodi i ddibenion penodol ac ni fedrir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

**3.** Mae'r adroddiad yma'n nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Rhagfyr 2018.

**4. Trosolwg**

**(i)** Roedd y sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer Ch3 yn dangos tanwariant o £110k. Mae'r rhagolygon o ran incwm yn dal £25k yn waeth na'r gyllideb wreiddiol a rhagwelir yn awr bydd y gwariant £350k yn is na'r gyllideb wreiddiol fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Mae'r gwariant cyfalaf £4.1m yn llai na'r swm a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir £7.6m yn is na'r gyllideb fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(iii)** Mae'r gwarged a ragwelir (yn cyfuno refeniw a chyfalaf) £7.9m yn well na'r gyllideb, sydd i'w briodoli'n bennaf i wariant cyfalaf is na'r disgwyl.

**5. Incwm**

**(i)** Ar ddiwedd y trydydd chwarter, roedd lefel yr incwm a dderbyniwyd £18k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.

**(ii)** Roedd incwm rhent tenantiaid £63k yn is na'r gyllideb. Roedd y gyllideb yn rhagdybio y byddai rhyw lefel o eiddo newydd yn cael eu gosod yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn ond mae'r niferoedd wedi bod yn is na'r ffigwr y caniatatwyd ar ei gyfer yn y gyllideb. Y diffyg a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw £90k.

**(iii)** Roedd rhagdybiaeth yn y gyllideb y byddai'r broses o ailfodelu'r stoc garejys wedi'i chwblhau ac y byddai llai o garejys ar gael i'w rhentu. Fodd bynnag, digwyddodd yr ailfodelu'n arafach na'r disgwyl ac mae nifer y garejys sy'n cael eu rhentio'n parhau i fod yn uwch nag y cynlluniwyd. Hyd yma, mae incwm o'r ffynhonnell hon £19k yn uwch na'r gyllideb a bydd hynny'n parhau yn ystod ail hanner y flwyddyn. Mae'r rhagolygon yn parhau i fod £25k yn well na'r gyllideb.

**(iv)** Mae Ffioedd Gwasanaeth, sy'n seiliedig ar y costau gwirioneddol, bellach £33k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Ch3, sy'n arwydd bod y rhagolwg y bydd £40k yn fwy na'r gyllideb yn realistig.

**(v)** Roedd incwm arall £30k yn well na'r gyllideb (yn bennaf oherwydd y nifer uwch na'r disgwyl o denantiaid a oedd yn talu am yswiriant cartref) ond disgwylir iddo ddychwelyd i'r ffigwr yn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**(vi)** Felly, parheir i ragweld diffyg o £25k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6. Gwariant nad oedd yn ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Ar ddiwedd y trydydd chwarter, roedd gwariant ar waith nad oedd yn ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw £196k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae hyn wedi codi o'r penderfyniad i ohirio'r arolwg o'r stoc lawn i flwyddyn ariannol 2019/20, gan olygu na fydd angen mwyach am y gyllideb a roddwyd o'r neilltu ar gyfer eleni. Mae'r rhagolwg wedi cael ei ddiwygio i ddangos tanwariant o £400k ar ddiwedd y flwyddyn.

**7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (UCT) yn dangos gorwariant o £115k (215k ar ddiwedd Ch2). Mae hyn yn rhannol oherwydd y defnydd o is-gontractwyr ar adegau pan oedd staff yn absennol (oddeutu £96k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd). Mae costau gwaith trwsio a chynnal a chadw yn amrywio gan ddibynnu ar nifer a math y tasgau trwsio y ceir gwybod amdanynt, yn enwedig dros gyfnod y gaeaf, ond yn hanesyddol, bu modd adennill rhywfaint o'r gorwariant drwy reoli'r gwaith a wnaed. Er y cafwyd peth llwyddiant ers adroddiad Chwarter 2, mae'n ddoeth parhau i ragweld gorwariant o £100k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae rhai arbedion posibl i'w gwireddu yn dilyn allanoli'r swyddogaeth storfa o fis Tachwedd 2018, fodd bynnag, ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer hyn yn y rhagolygon hyd yma. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus dros chwarter olaf y flwyddyn er mwyn penderfynu ar yr arbedion y llwyddwyd i'w cyflawni.

**(ii)** Roedd gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad oeddynt yn rhan o'r UCT £93k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd a hynny oherwydd swyddi gweigion. Yn seiliedig ar y lefelau staffio cyfredol, ni ragwelir y bydd yr un lefel o danwariant yn digwydd yn ystod chwarter olaf y flwyddyn a rhagwelir tanwariant o £100k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**(iii)** Roedd gorwariant o £82k (£125k ar ddiwedd Chwarter 2) ar waith Trwsio a Chynnal a Chadw arall o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd oherwydd y gwaith ychwanegol y bu'n rhaid ei wneud mewn perthynas â diogelwch tân a chynnal a chadw tiroedd. Mae lefel y gwariant ar y math yma o waith wedi gostwng yn ystod y chwarter diwethaf a disgwylir i'r gorwariant ostwng i £50k erbyn diwedd y flwyddyn.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ad-daliadau o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018, yn werth cyfanswm o £12,417k a oedd am gael ei gyllido o'r Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (£2,665k) a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT (£9,752k). Cafodd gwariant cyfalaf cynlluniedig o £3,581k ei ddwyn ymlaen fel llithriant o 2017/18 i roi rhaglen gyfalaf ddiwygiedig o £15,998k. Mae £362k ychwanegol wedi cael ei ychwanegu at y rhaglen i dalu am waith adfer (gweler isod) sy'n rhoi cyfanswm o £16,360k ar gyfer y rhaglen. Yn seiliedig ar y wybodaeth gyfredol, rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol yn £8,804k, sydd £7,556k yn is na'r gyllideb.

**(ii)** Rhagwelir y bydd y contract gwres canolog £100k yn is na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd gohirio gwaith i flwyddyn ariannol 2019/20.

**(iii)** Rhagwelir y bydd tanwariant o £800k yn y rhaglen gwella perfformiad ynni oherwydd trafodaethau gyda'r darparwr cyfleustodau mewn perthynas ag uwchraddio'r isadeilwaith cyn y gellir cychwyn y rhaglen lawn.

**(iv)** Rhagwelir y bydd y rhaglen gwaith amgylcheddol, y mae'r rhan fwyaf ohoni'n ymwneud ag ailfodelu garejys, £400k yn is na'r gyllideb oherwydd yr oedi gyda chychwyn y rhaglen ac oedi gyda sicrhau caniatadau statudol.

**(v)** Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant cyfalaf yn ymwneud â phrynu hen dai Cyngor a datblygu eiddo newydd ac mae £7,964k wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hwn. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer prynu 15 o eiddo a brynwyd dan yr hen gynllun Hawl i Brynu a datblygu 25 eiddo newydd. Ar ddiwedd y trydydd chwarter, roedd £645k wedi cael ei wario. Rhagwelir yn awr y bydd 12 eiddo Hawl i Brynu wedi cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, cyfanswm o £1,009k. Rhagwelir y bydd 25 o ddatblygiadau adeiladau newydd ar safle ar 31 Mawrth; 6 tŷ yng Nghaergeiliog, 3 byngalo ym Moelfre, a thri safle yng Nghaergybi. Oherwydd yr oedi gyda chychwyn ein prosiectau adeiladu o'r newydd, rhagwelir tanwariant o £6.5m ar y rhaglen hon ar ddiwedd y flwyddyn.

**(vi)** Mae'r rhaglen o ailfodelu ein stoc cyfredol, sef prosiect Llawr y Dref, yn dangos gorwariant o £190k. Mae'r gorwariant hwn i'w briodoli i waith ychwanegol a nodwyd wedi i waith gychwyn ar y cynllun. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys ymgorffori hen dŷ y warden yn y cynllun.

**(vii)** Mae'r gwaith adfer ar 7 o anheddau'r CRT yng Nghraig y Don, Amlwch, bellach wedi cael ei ymgorffori yn rhaglen gyfalaf y CRT.

**(viii)** Bydd y tanwariant ar y rhaglen gyfalaf yn cael ei gario drosodd i'r dyfodol.

**10. Balans y CRT**

**(i)** Roedd balans agoriadol Cronfa Wrth Gefn y CRT yn £7,407k. Roedd y gyllideb ddiwygiedit yn caniatau ar gyfer defnyddio £6,412k o'r balans hwn, fodd bynnag, bydd y tanwariant rhagamcanedig ar y gyllideb gyfalaf ynghyd â'r tanwariant a ragwelir ar y gyllideb refeniw yn arwain at warged o £1,469k. Mae hyn yn golygu y bydd balans o £8,876k yn y gronfa wrth gefn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi cael ei glustnodi i bwrpas penodol felly ni fydd ond ar gael i gyllido gwariant CRT yn y dyfodol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae hwn yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – y Swyddog 151 yw awdur yr adroddiad |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Ymgynghorir â hi fel rhan o'r UDA |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | • **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Gwariant a rhagolygon refeniw hyd ddiwedd Chwarter 3

Atodiad B – Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd ddiwedd Chwarter 3

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb CRT 2018/19 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2018)
- Cynllun Busnes 30 Blynedd y CRT 2018/48 (fel cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2018).

**ATODIAD A**

## *CYFRIF CRT 2018/19*

| | Cyllideb Flynyddol 2018/19 | Cyllideb a Broffiliwyd hyd at Fis 9 | Gwirioneddol at Fis 9 | Amrywiad at Fis 9 | Rhagolygon ar gyfer Diwedd y Flwyddyn | Amrywiad ar Ddiwedd y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (17,339,000) | (12,653,913) | (12,590,478) | 63,435 | (17,249,000) | 90,000 |
| Garejys | (190,000) | (142,310) | (160,963) | (18,653) | (215,000) | (25,000) |
| Taliadau Gwasanaeth | (99,000) | (74,151) | (107,335) | (33,184) | (139,000) | (40,000) |
| Arall | (311,000) | (224,734) | (254,363) | (29,629) | (311,000) | 0 |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 219,000 | 0 | 0 | 0 | 219,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(17,720,000)** | **(13,095,108)** | **(13,113,139)** | **(18,031)** | **(17,695,000)** | **25,000** |
| **Gwariant nad yw'n ymwneud â Thrwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 115,820 | 86,719 | 67,821 | (18,898) | 115,820 | 0 |
| Gweinyddu Rhenti | 135,360 | 101,148 | 113,008 | 11,860 | 135,360 | 0 |
| Rheoli Stadau | 369,560 | 275,830 | 277,808 | 1,978 | 369,560 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 1,167,040 | 815,624 | 624,221 | (191,403) | 767,040 | (400,000) |
| **Cyfanswm y Gwariant nad yw'n ymwneud â Thrwsio a Chynnal a Chadw** | **1,787,780** | **1,279,321** | **1,082,858** | **(196,463)** | **1,387,780** | **(400,000)** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UCT) | 3,016,840 | 2,259,705 | 2,374,888 | 115,183 | 3,116,840 | 100,000 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (ddim yr UCT) | 852,560 | 637,267 | 544,287 | (92,980) | 752,560 | (100,000) |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 463,730 | 347,352 | 429,313 | 81,961 | 513,730 | 50,000 |
| **Cyfanswm y Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **4,333,130** | **3,244,324** | **3,348,488** | **104,164** | **4,383,130** | **50,000** |
| **Addasiadau ar Ddiwedd y Flwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 2,987,000 | 0 | 0 | 0 | 2,987,000 | 0 |
| Ad-daliadau o'r Gwasanaethau Tai | 635,120 | 0 | 0 | 0 | 635,120 | 0 |
| Ad-daliadau o'r Gwasanaethau Canolog | 693,360 | 0 | 0 | 0 | 693,360 | 0 |
| **Cyfanswm yr Addasiadau ar Ddiwedd y Flwyddyn** | **4,315,480** | **0** | **0** | **0** | **4,315,480** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM Y GWARIANT REFENIW** | **10,436,390** | **4,523,645** | **4,431,346** | **(92,299)** | **10,086,390** | **(350,000)** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM Y (GWARGED) / DIFFYG REFENIW** | **(7,283,610)** | **(8,571,463)** | **(8,681,793)** | **(110,330)** | **(7,608,610)** | **(325,000)** |

| CYFRIF GWARIANT CYFALAF | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant 2018/19 | 16,360,280 | 9,502,479 | 5,380,156 | (4,122,323) | 8,804,149 | (7,556,131) |
| | | | | | | |
| Lwfans Gwaith Trwsio Mawr | (2,665,000) | 0 | 0 | 0 | (2,665,000) | 0 |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM Y (GWARGED) / DIFFYG CYFALAF** | **13,695,280** | **9,502,479** | **5,380,156** | **(4,122,323)** | **6,139,149** | **(7,556,131)** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **6,411,670** | **931,016** | **(3,301,637)** | **(4,232,653)** | **(1,469,461)** | **(7,881,131)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (7,406,916) | | | | (7,406,916) | |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 6,411,670 | | | | (1,469,461) | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(995,246)** | | | | **(8,876,377)** | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Cyfanswm y Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gwariant Rhagwelir (£) | Tan / Gorwariant Rhagwelir (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **<u>CRT Tai</u>** | | | | | | |
| Contract Gwresogi Canolog | 500,000 | 280,000 | 252,986 | (27,014) | 400,000 | (100,000) |
| Contract Gwaith Cynnal wedi'i Gynllunio | 3,983,500 | 2,793,149 | 2,960,116 | 166,966 | 3,983,149 | (351) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 550,000 | 15,328 | (534,672) | 200,000 | (800,000) |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 200,000 | 26,238 | (173,762) | 100,000 | (400,000) |
| Prynu Eiddo Presennol / Datblygu Eiddo Newydd | 7,964,780 | 4,359,330 | 644,886 | (3,714,445) | 1,469,000 | (6,495,780) |
| Ailfodelu'r Stoc Cyfredol | 500,000 | 375,000 | 512,918 | 137,918 | 690,000 | 190,000 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 260,000 | 269,573 | 9,573 | 400,000 | 50,000 |
| Risg Tân | 200,000 | 120,000 | 116,764 | (3,236) | 200,000 | 0 |
| SATC | 1,000,000 | 550,000 | 567,483 | 17,483 | 1,000,000 | 0 |
| Gwaith Adfer | 362,000 | 15,000 | 13,864 | (1,136) | 362,000 | 0 |
| **Cyfansymiau ar gyfer y CRT Tai** | **16,360,280** | **9,502,479** | **5,380,156** | **(4,122,323)** | **8,804,149** | **(7,556,131)** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 CHWEFROR 2019** |
| **PWNC:** | **FFRAMWAITH AR RYDDHAD DEWISOL TUAG AT DRETHI BUSNES – ELUSENNAU A SEFYDLIADAU DIELW** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS (AELOD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GERAINT H JONES (RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651<br>GeraintH.Jones@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Fframwaith cyfredol mewn perthynas â Rhyddhad Dewisol tuag at Drethi Busnes – Elusennau a Sefydliadau Dielw fel y manylir arno yn Atodiad A ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 yn unig a'i fod yn rhoi cyfarwyddyd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i sicrhau bod y gweithdrefnau gweinyddol cyn 31 Mawrth 2019 yn rhoi gwybod i'r elusennau a'r sefydliadau dielw perthnasol y bydd y polisi mewn grym ar gyfer 2019/20 yn unig ac y bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020.

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith yn ystod hanner cyntaf 2019/20 gyda fframwaith diwygiedig yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2020.

**CEFNDIR**

Mae'n rhaid i eiddo annomestig (ar wahân i rai eithriadau, megis amaeth, addoldai, adeiladau a ddefnyddir gan bobl anabl ac ati) dalu trethi annomestig. Yr enw cyffredin ar y trethi hyn yw trethi busnes er nad yw pawb sy'n eu talu yn fusnesau yn yr ystyr gyffredin. Yn wir, mae'r system o ryddhad wedi'i dylunio'n rhannol i liniaru baich trethiant ar ddeiliaid ar wahân i fusnesau.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru roi rhyddhad trethi mandadol i elusennau yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (DCLlL88), fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Dan DCLlL88, gall Awdurdodau Lleol hefyd roi rhyddhad dewisol neu ryddhad o'r trethi o hyd at 100% o'r trethi sy'n daladwy. Mae hyn yn berthnasol i eiddo a ddefnyddir gan:-

- Elusennau ("ychwanegiad o 20%" yn ogystal â'r rhyddhad mandadol o 80%);
- Sefydliadau dielw eraill.

Mae costau caniatáu rhyddhad dewisol tuag at drethi busnes yn cael eu hysgwyddo'n rhannol gan y Gronfa ar gyfer Trethi Annomestig (h.y. Llywodraeth Cymru) a chan drethdalwyr lleol.

Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo 90% o'r gost mewn perthynas â sefydliadau dielw. Mae hynny'n golygu bod pob £1 sy'n cael ei wario gan y Cyngor yn prynu rhyddhad o £10 i'r trethdalwr.

Fodd bynnag, yn achos yr "ychwanegiad 20%", mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo 25% o'r gost. Mae

hynny'n golygu bod pob £7.50 sy'n cael ei wario gan y Cyngor yn prynu rhyddhad o £10 i'r trethdalwr.

**PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR GWAITH CHWEFROR 2018**

Ar 19 Chwefror 2018, ymestynnodd y Pwyllgor Gwaith ei Fframwaith ar Ryddhad Dewisol tuag at Drethi Busnes - Elusennau a Sefydliadau Dielw am gyfnod o flwyddyn. Fe benderfynodd hefyd gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith yn ystod hanner cyntaf 2018/19 gyda fframwaith diwygiedig yn dod yn weithredol ar 1 Ebrill 2019. Er bod dogfen ymgynghori wedi ei gymeradwyo, ni wnaethpwyd unrhyw ymgynghori gan fod y gwasanaeth yn ymwybodol o gyhoeddiadau arwyddocaol posib gan unai gweinyddiaeth San Steffan neu weinyddiaeth ddatganoledig Caerdydd ynglŷn â rhyddhad trethi busnes pellach i fusnesau. Gallai cyhoeddiadau o'r fath gael effaith ar yr ymgynghori.

Beth, mewn gwirionedd, a gyhoeddwyd yn ystod 2018/19 gan y ddau weinyddiaeth?

- Ar 10 Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru cynllun gwell ac estynedig o ryddhad tuag at drethi'r stryd fawr. Yn wreiddiol, sefydlwyd y cynllun rhyddhad tuag at drethi'r stryd fawr yn Ebrill 2017 i gefnogi adwerthwyr a effeithiwyd gan ailbrisiad 2017. Fe'i hestynnwyd ar gyfer 2018/19. Mae cynllun 2019/20 yn mynd ymhellach na'r blynyddoedd blaenorol, gan ddarparu busnesau cymwys hyd at £2,500 i ffwrdd o'u biliau trethi busnes. Bydd adwerthwyr â gwerth trethiannol o hyd at £50,000 yn elwa o'r cynllun a gostyngir i sero biliau trethi ar gyfer eiddo â gwerth trethiannol o hyd at £9,100.
- Mae'r cynllun rhyddhad tuag at drethi'r stryd fawr yn ychwanegol i'r cynllun rhyddhad tuag at drethi busnesau bach a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2017 gan Lywodraeth Cymru.
- **Dylai'r Pwyllgor Gwaith nodi nad yw elusennau na sefydliadau dielw yn gymwys am y rhyddhad tuag at drethi'r stryd fawr nac am y rhyddhad tuag at drethi busnesau bach.** Llywodraethir y rhyddhad ar gyfer elusennau a sefydliadau dielw gan feini prawf fel disgrifiwyd ynghynt yn yr adroddiad yma (o dan **CEFNDIR**). Mae angen i Gynllun Dewisol y Cyngor ar gyfer sefydliadau o'r fath roi sylw i'r terfynau newydd yma ar gyfer rhyddhad tuag at drethi'r stryd fawr a rhyddhad tuag at drethi busnesau bach ac, yn ogystal, y ffaith gall busnesau bach ar y stryd fawr nawr gael rhyddhad o 100% o drethi busnes ond gall elusennau a sefydliadau dielw, o dan y polisi presennol, ond gael 80% o ryddhad - er gall y gwerth trethiannol fod yr un peth.
- **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith hefyd nodi, pan cyflwynwyd y cynllun rhyddhad tuag at drethi busnesau bach yn Ebrill 2018, fe gyfyngodd y nifer o eiddo oedd yn gymwys ar gyfer y rhyddhad i ddau fesul busnes ym mhob ardal awdurdod lleol, gan atal busnesau mwy a chadwyni cenedlaethol rhag elwa o'r cynllun.** Mae'r gwasanaeth yn parhau i gysylltu â busnesau a'u cynghori am y gofyniad yma ac mae'n parhau i adnabod nifer o eiddo lle rhoddwyd rhyddhad tuag at drethi busnesau bach ers Ebrill 2018 ond, mewn gwirionedd, ni ddylai gan fod y busnes eisoes wedi derbyn rhyddhad ar ddau eiddo arall yn ardal y Cyngor.
- O ganlyniad i gyllideb Hydref 2018 Ganghellor y Trysorlys, mae Llywodraeth y DU a Weithrediaeth yr Alban wedi cyhoeddi eu gwelliannau eu hunain i'r polisïau ar gyfer rhyddhad tuag at drethi busnesau bach a'r rhyddhad tuag at drethi'r stryd fawr.
- Fe diwygwyd dogfen ymgynghori'r Cyngor ar y fframwaith rhyddhad dewisol tuag at drethi busnes i gymryd ystyriaeth o'r newidiadau yma a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2018. Ar hyn o bryd, mae yna wariant wedi'i gyllidebu o £60k ar y Cyngor o ran y fframwaith rhyddhad dewisol cyfredol. Gan ganiatáu ar gyfer y trefniadau ariannol hefo Llywodraeth Cymru mewn darparu rhyddhad dewisol i elusennau a sefydliadau dielw, cyfanswm yr holl ryddhad a roddwyd yw £209k – gyda Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r gwahaniaeth, h.y. £149k.
- Oherwydd y posibilrwydd y byddai goblygiadau cyllidebol i ymgynghoriad o'r fath, ac oherwydd na chafwyd y setliad terfynol ar gyfer 2019/20 tan 19 Rhagfyr 2018, a oedd yn cynnwys y £2.4m o gymorth ychwanegol (heb ei neilltuo) ar gyfer busnesau bach yn genedlaethol o fewn Cymru, nid yw'r amserlen yn caniatáu digon o amser i ymgynghori ac i ddiwygio'r fframwaith. Byddai angen i

gostau posibl gael eu trafod a'u hadlewyrchu yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2019/20.

- O'r herwydd, argymhellir bod y polisi cyfredol yn cael ei fabwysiadu am flwyddyn arall gyda'r ymgynghoriad yn digwydd yn ystod hanner cyntaf 2019/20 gan ganiatáu digon o amser ar gyfer ymateb a sefydlu'r goblygiadau cyllidebol, os bydd rhai o gwbl, i'w hystyried gyda'r fframwaith newydd i ddod i rym ar 1 Ebrill 2020.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r polisi rhyddhad cyfredol wedi bod yn llwyddiant yn yr ystyr nad oes bron unrhyw geisiadau wedi dod i law nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau sy'n cael eu hystyried yn unigol.

Byddai peidio ag ymestyn y polisi dewisol cyfredol i roi rhyddhad trethi busnes i elusennau a sefydliadau dielw yn golygu y byddai'n rhaid i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ddelio gyda phob cais yn unigol, gan roi ystyriaeth i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a pholisïau/canllawiau'r Pwyllgor Gwaith. (Gweler Cyfansoddiad y Cyngor – Cynllun Dirprwyo i Swyddogion Penodol (Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151) a'r ddyletswydd benodol y manylir arni dan 3.5.3.5.19).

Os yw'r Pwyllgor Gwaith o'r farn y dylid ymgynghori, byddai'n rhaid gohirio'r penderfyniad ar y fframwaith newydd hyd fis Mawrth 2019 ar ôl i'r ymgynghoriad orffen. Os methir gwneud penderfyniad ym mis Mawrth 2019, byddai'n rhaid, fel y soniwyd uchod, i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ddelio gyda phob cais yn unigol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae penderfyniadau i roi rhyddhad o'r Dreth Fusnes i elusennau a sefydliadau dielw wedi cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith greu canllawiau a pholisi i'r swyddog yma gyfeirio at, i sicrhau cysondeb a thegwch o ran y penderfyniadau.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r polisi hwn yn cyfrannu at nodau corfforaethol yr Awdurdod – sef adfywio ein cymunedau a datblygu'r economi a thrawsnewid gwasanaethau hamdden yn bennaf.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Mae £60k wedi ei glustnodi o fewn y gyllideb am 2018/19. Y gwariant amcanedig ar ddiwedd chwarter 3 yw £61k*. Yn achos cyllideb arfaethedig 2019/20, mae £60k wedi cael ei glustnodi tuag at gost darparu rhyddhad dewisol ar gyfer elusennau a sefydliadau dielw.

---

* Mae'r costau hyn yn cynnwys addasiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn ystod 2018/19, yn wahanol i Atodiad A sy'n dangos ffigyrau ar gyfer 2018/19 yn unig.

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Fframwaith Rhyddhad tuag at Drethi Busnes ar gyfer Elusennau a Sefydliadau Dielw.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Penderfyniad gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, 14 Chwefror 2018
Cynllun newydd Rhyddhad tuag at Drethi Busnesau Bach ar gyfer Cymru 2018
Cyhoeddiad 10 Rhagfyr 2018 – Cynllun Rhyddhad tuag at Drethi'r Stryd Fawr

**ATODIAD A**

| Categori | Disgrifiad | Mandadol | Dewisol | Cyfanswm | Cost i'r Cyngor | Rhif |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A (1) | Neuaddau Pentref, Canolfannau Cymunedol, Sefydliadau Coffadwrol, Clybiau Hen Bobl, Cymdeithasau Sgowtiaid a Geidiaid, Cadlanciau'r Môr, Hosbis, Cylchau Chwarae | 80%<br>**£122,825** | 20%<br>**£25,190** | 100%<br>**£148,015** | **£18,893** | **58** |
| A (2) | Diogelwch arforol | 80%<br>**£39,973** | 20%<br>**£8,198** | 100%<br>**£48,171** | **£6,149** | **6** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| B (1) | Clybiau adloniant, Theatrau, Ystafelloedd Bandiau ac Amgueddfeydd - (elusen gofrestredig) | 80%<br>**£23,563** | 20%<br>**£4,911** | 100%<br>**£28,474** | **£3,683** | **8** |
| B (2) | Clybiau adloniant, Theatrau, Ystafelloedd Bandiau ac Amgueddfeydd - (heb fod yn elusen gofrestredig) | 0%<br>**£0** | 100%<br>**£127,875** | 100%<br>**£127,875** | **£12,788** | **30** |
| C (1) | Sefydlai Addysgol statudol neu ar agor i bawb | 80%<br>**£6,316** | 20%<br>**£1,295** | 100%<br>**£7,611** | **£971** | **1** |
| C (2) | Sefydliadau Addysgol | 80%<br>**£366,029** | 0%<br>**£0** | 80%<br>**£366,029** | **£0** | **11** |
| CH | Siopau Elusennol | 80%<br>**£70,793** | 0%<br>**£0** | 80%<br>**£70,793** | **£0** | **19** |
| D | Sefydliadau Adfywio, Cyflogi, Ailsefydlu | 80%<br>**£5,934** | 20%<br>**£1,217** | 100%<br>**£7,151** | **£913** | **1** |
| DD | Cydraddoldeb hiliol a lleiafrif ethnig | 80%<br>**£0** | 20%<br>**£0** | 100%<br>**£0** | **£0** | **0** |
| E (1) | Elusen gofrestredig neu at bwrpas elusennol lle mae eu hamcanion hefo gwerthoedd cyffredin sylweddol ag amcanion y Cyngor ac sy'n gwasanaethu trigolion yr Ynys yn bennaf | 80%<br>**£83,637** | 20%<br>**£17,152** | 100%<br>**£100,789** | **£12,864** | **6** |
| E (2) | Heb fod yn elusen gofrestredig ond lle mae eu hamcanion hefo gwerthoedd cyffredin sylweddol ag amcanion y Cyngor ac sy'n gwasanaethu trigolion yr Ynys yn bennaf | 0%<br>**£0** | 100%<br>**£17,858** | 100%<br>**£17,858** | **£1,786** | **5** |
| F (1) | Elusen gofrestredig neu at bwrpas elusennol lle mae eu hamcanion yn cael eu cefnogi gan y Cyngor ond, naill ai nad oes gwerthoedd cyffredin sylweddol hefo amcanion y Cyngor, neu nad ydynt yn gwasanaethu trigolion yr Ynys yn bennaf | 80%<br>**£0** | 0%<br>**£0** | 80%<br>**£0** | **£0** | **0** |
| F (2) | Heb fod yn elusen gofrestredig a lle mae eu hamcanion yn cael eu cefnogi gan y Cyngor ond, naill ai nad oes gwerthoedd cyffredin sylweddol hefo amcanion y Cyngor, neu nad ydynt yn gwasanaethu trigolion yr Ynys yn bennaf | 0%<br>**£0** | 80%<br>**£1,225** | 80%<br>**£1,225** | **£123** | 1 |
| FF | Meysydd Sioe Amaethyddol | 80%<br>**£19,813** | 20%<br>**£4,063** | 100%<br>**£23,876** | **£2,047** | **1** |
| G | Dim un o'r categorïau uchod | Amryw<br>**£0** | Amryw<br>**£0** | Amryw<br>**£0** | **£0** | **0** |
| | **Cyfanswm – 2018/19** | **£738,883** | **£208,984** | **£947,867** | **£60,217** | **147** |
| | **Cost pob Band D – 2018/19** | | | | **£1.96** | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18/02/2019** |
| **Pwnc:** | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Dibreswyl yn y Gymuned - Ffioedd a Thaliadau 2019/20** |
| **Portfolio Holder(s):** | **Y Cyng Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Bulman - Rheolwr Busnes a Thrawsnewid Strategol**<br>**01248 752013 Dafyddbulman@ynysmon.gov.uk**<br><br>**Delyth Ll Jones - Uwch Swyddog Cyllid**<br>**01248 752785 DelythJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yr holl aelodau** |

**A – Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau**

1. **Cefndir**

1.1 Mae'n arferol i adolygu'r ffioedd a godir mewn perthynas â gwasanaethau cartref bob blwyddyn i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiwn.

1.2 Mae'r adroddiad yn nodi taliadau a ffioedd a godir am ofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned yn 2019/20 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**2.** Gwasanaethau Gofal Cartref:

2.1 Yn dilyn y newidiadau a wnaed i ofal cartref gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2017, rydym yn cynnig y dylid parhau i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer 2019/20.

**<u>Tabl 1 – Taliadau Gofal Cartref 2019/20</u>**

| **Os ydych dros oedran pensiwn ac yn derbyn incwm o £242.51 neu fwy ar hyn o bryd yn 2019/20:** | **Taliadau wythnosol** | **Os ydych o dan oedran pensiwn ac yn derbyn incwm wythnosol o £161.89 neu fwy ar hyn o bryd yn 2019/20:** |
|---|---|---|
| A'ch incwm yn llai na £247.50 yr wythnos | **DIM TÂL** | A'ch incwm yn llai na £165.58 yr wythnos |
| **A'ch incwm rhwng:** | | **A'ch incwm rhwng:** |

| | | |
|---|---|---|
| £247.51 - £252.50 | **£5.00** | £166.89 - £171.87 |
| £252.51 - £254.89 | **£10.00** | £171.88 - £174.27 |
| £254.90 - £257.50 | **£12.39** | £174.28 - £176.88 |
| £257.51 - £262.50 | **£15.00** | £176.89 - £181.88 |
| £262.51 - £267.50 | **£20.00** | £181.89 - £186.88 |
| £267.51 - £272.50 | **£25.00** | £186.89 - £191.88 |
| £272.51 - £277.50 | **£30.00** | £191.89 - £196.88 |
| £277.51 - £282.50 | **£35.00** | £196.89 - £201.88 |
| £282.51 - £287.50 | **£40.00** | £201.89 - £206.88 |
| £287.51 - £292.50 | **£45.00** | £206.89 - £211.88 |
| £292.51 - £297.50 | **£50.00** | £211.89 - £216.88 |
| £297.51 - £302.50 | **£55.00** | £216.89 - £221.88 |
| £302.51 - £307.50 | **£60.00** | £221.89 - £226.88 |
| £307.51 - £312.50 | **£65.00** | £226.89 - £231.88 |
| £312.51 - £317.50 | **£70.00** | £231.89 - £236.88 |
| £317.51 - £322.50 | **£75.00** | £236.89 - £241.88 |
| £322.51 - £327.50 | **£80.00** | £241.89 - £246.88 |
| £327.51 - £332.50 | **£85.00** | £246.89 - £251.88 |
| Incwm o £ 332.51 neu fwy neu gynilon o dros £24,000.00 | **£90.00** | Incwm o £ 251.89 neu fwy neu gynilon dros £24,000.00 |

Gallai cynnydd pellach o £90 gael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru (yn amodol ar gadarnhad)

Yn 2019/20, bydd yr adran yn ymestyn y polisi codi tâl i unigolion sydd ag anabledd Dysgu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r gwasanaeth yn ymgynghori ag unigolion yr effeithir arnynt gan y newidiadau ar hyn o bryd.

## 3. **Prydau Bwyd mewn Gwasanaethau Dydd**

Mae'r tâl hwn yn berthnasol i brydau a lluniaeth a ddarperir ym mhob lleoliad Gwasanaeth Dydd.

Cynigir yr egwyddorion canlynol: -
- Cynnydd o 3% mewn perthynas â darparu prydau bwyd / lluniaeth.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r taliadau a gytunodd y Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr

**Tabl 3: Darparu Prydau – Taliadau y bwriedir eu codi yn 2019/20**

| | Taliadau 2018/19 | 2019/20 (Taliadau Arfaethedig) |
|---|---|---|
| Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag Anabledd Dysgu) | £5.90 | £6.10 |
| Byrbryd canol dydd mewn gwasanaethau dydd i bobl ag Anabledd Dysgu | £2.40 | £2.50 |
| Lluniaeth Arall (te / coffi / teisen) mewn gwasanaethau dydd | £1.30 | £1.40 |

** Mae'r ffioedd a gynigir ar gyfer 2019/20 wedi eu rowndio i fyny i'r 10c agosaf er mwyn lleihau costau gweinyddol.*

## 4.0 Taliadau Teleofal

Rhaid cymryd y ffactorau canlynol i ystyriaeth wrth benderfynu tâl teg am y gwasanaeth Teleofal:

- Cyfraniad yr Awdurdod Lleol i'r Gwasanaeth Galw Gofal Rhanbarthol;
- Taliadau cynnal a chadw;
- Costau offer teleofal;
- Costau Cyllid a Gweinyddiaeth;
- Costau gosod;

- Costau offer ailgylchu;
- Costau archwiliadau Iechyd a Diogelwch gweledol bob yn ail blwyddyn;
- Effaith ar fusnes cyfredol.
- Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion.

Teleofal: Taliadau Arfaethedig yn 2019/20

Ar gyfer 2019/20, rydym yn argymell cynnydd o 3% yn y ffioedd.

**Tabl 4: Taliadau Arfaethedig am Deleofal yn 2019/20**

| | |
|---|---|
| **Haen 1**<br>Offer, gwasanaeth a chynnal a chadw (uned, larwm gwddf a larymau mwg) | Bydd pawb yn talu £46.60 y chwarter<br><br>(£ 3.58 yr wythnos) |
| **Haenau 2 a 3**<br>Offer, gwasanaeth, monitro a chynnal a chadw<br>(Offer heblaw uned, larwm gwddf a larymau mwg) | Bydd pawb yn talu £92.93 y chwarter<br><br>(£ 7.14 yr wythnos) |

Taliadau Teleofal Blynyddol – cynnydd o 3% yn 2019/20 fel y nodir yn Nhabl 5

**Tabl 5 – Taliadau Teleofal Blynyddol am 2018/19**

| | Taliadau 2018/19 | (Taliadau Arfaethedig) 2019/20 |
|---|---|---|
| Gwasanaeth a Chynnal a Chadw | £107.55 | £110.80 |
| Gwasanaethau yn unig | £69.50 | £71.60 |
| Costau Gosod unwaith ac am byth | £43.00 | £44.30 |

Arfaethedig (swm gros wedi ei rowndio i'r 5c agosaf)

Bydd newidiadau o ran y pecynnau sy'n cael eu cyllido'n rhannol neu'n llawn drwy'r cynllun cefnogi pobl. Mae cyllid gan Cefnogi Pobl wedi ei dynnu'n ôl a'r cynnig yw y bydd unigolion yn gorfod talu'r hyn a amlinellir yn nhabl 4.

## 5.0 Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion i brynu drostynt eu hunain y gwasanaethau y byddai'r Awdurdod Lleol wedi eu darparu ar eu cyfer fel arall. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi byw'n annibynnol drwy alluogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain a bod â rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Yng Nghymru, mae'r Cynllun wedi cael ei ymestyn yn raddol i gynnwys: -

- Pobl hŷn
- Gofalwyr
- Rhieni Plant ag Anableddau
- Oedolion ag Anableddau

Pennwyd cyfradd Taliad Uniongyrchol o £11.30 yr awr ar gyfer 2018/19. Rydym yn arggymell fod y ffi hon yn parhau ar gyfer 2019/20.

### Moderneiddio'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru

Argymhellir codi tâl o £10 am bob bathodyn mewn perthynas â bathodynnau sefydliadol a bathodynnau newydd (yn lle rhai a gollwyd neu a gafodd eu dwyn) ar gyfer 2019/20.

### Prynu Gwasanaethau Gofal Dydd mewn Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol

Y ffi am brynu gwasanaethau dydd yn 2018/19 oedd £ 32.21. 'Rydym yn cynnig cynnydd o 3% yn y ffi i £33.18 i fod yn gyson gyda chynnydd yn nhaliadau'r Cyngor. Bydd y cynnydd hwn o gymorth i sicrhau cynaliadwyedd a pharhad gwasanaethau gofal dydd a brynir o gartrefi gofal preswyl annibynnol, ac er mwyn cwrdd ag anghenion unigol y defnyddwyr gwasanaeth.

### Ffioedd Gofal Cartref

Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth gofal cymdeithasol oedolion yn comisiynu gofal cartref gan y sectorau annibynnol yn dilyn ymarfer tendro yn 2018, mae'r Ynys ar hyn o bryd wedi ei rhannu yn 3 ardal ar gyfer Gofal Cartref Pobl hŷn. Bydd cynnydd yn ffioedd y darparwyr hyn yn cael eu delio â nhw yn unol ag amodau eu contractau.

Men perthynas â ffioedd gofal cartref i bobl ag Anableddau Dysgu, bydd y ffioedd yn cael eu gosod fel a ganlyn:

Bydd pecynnau gofal dros awr o wasanaethau gofal yn cael eu talu £15.91 a bydd pecynnau o dan awr yn cael eu talu £16.86.

### Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r: -

A1 Ffioedd gofal cartref a amlinellir yn nhabl 1.

A2 Ffioedd ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellwyd yn nhabl 4.

Haen 1 – bydd pawb yn talu £ 46.60
Haenau 2 a 3 – bydd pawb yn talu £ 92.93

A3 Y ffioedd blynyddol ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellwyd yn nhabl 5.
Gwasanaeth a Chynnal a Chadw £110.80
Gwasanaeth yn unig £71.60
Costau Gosod Unwaith ac am byth £44.30

A4 Cyfradd o £11.30 / awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol

A5 Ffi o £10.00 ar gyfer costau gweinyddu mewn perthynas â cheisiadau am Fathodyn Glas ac i ddarparu bathodynnau newydd yn lle rai a gollwyd neu a gafodd eu dwyn

A6 Cynnydd o 3% yn y ffi am brynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol i £33.18

A7 Cytuno i gynnydd yn y ffioedd a delir ar gyfer gofal cartref a gomisiynir ar gyfer pecyn Gofal anableddau Dysgu, y bydd dros awr o wasanaethau yn cael eu talu £15.91 ac o dan awr yn cael eu talu £16.86.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r opsiynau a nodir yn gyson â dull cyffredinol y Cyngor o weithredu mewn perthynas â ffioedd a thaliadau yn 2019/20.

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae gan benderfyniadau ar ffioedd a thaliadau oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol o ran incwm a dderbynnir a fforddiadwyedd taliadau a wneir yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| --- | --- |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)(Gorfodol)** | Cyflwynwyd i'r UDA ar 21/1/2019, dim sylwadau pellach |
| **2** | **Cyllid / Adran 151 (Gorfodol)** | Cyflwynwyd i'r UDA ar 21/1/2019, dim sylwadau pellach |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (Gorfodol)** | Cyflwynwyd i'r UDA ar 21/1/2019, dim sylwadau pellach |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gorff / gyrff allanol / arall / eraill** | Amherthnasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Troseddau ac Anhrefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach) - FF:** |
|---|
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18.02.2019** |
| **Pwnc:** | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hŷn - Pennu'r Ffi Safonol** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Rhys Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Rhys Ll. Roberts, Rheolwr Cyllid**<br>**01248 752690 RhysRoberts2@ynysmon.gov.uk**<br><br>**Dafydd Bulman, Rheolwr Busnes a Thrawsnewid**<br>**01248 752013 DafyddBulman@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amrywiol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae angen i'r Awdurdod Lleol bennu ei ffi safonol ar gyfer ei gartrefi gofal am y flwyddyn Ebrill 2019-Mawrth 2020.

Mae'r aelodau wedi penderfynu ar gynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd a thaliadau fel canllaw. Fodd bynnag, gellir trin ffioedd a godir am gartrefi preswyl y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt fel eithriad oherwydd eu bod yn seiliedig ar ddarpariaeth statudol sy'n amlinellu sut y dylid eu cyfrifo.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae costau'r holl gartrefi wedi eu cronni i gyfrifo ffi safonol gyfartalog ar gyfer y cartrefi yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol.

Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ffi safonol gyda ffioedd awdurdodau eraill oherwydd, er gwaethaf canllawiau, efallai nad yw awdurdodau eraill wedi cyfrifo'r ffi ar yr un sail. Fodd bynnag, fel gwybodaeth gefndirol, rydym yn nodi isod y ffioedd safonol ar gyfer 2018/19 i Gartrefi Awdurdodau Lleol Gwynedd a Chonwy:-

- Gwynedd - £622.37
- Conwy - £592.00

Yn ystod 2018/19, cyfrifwyd y Ffi Safonol yn £703.03 yr wythnos ac roedd hynny'n seiliedig ar gyfraddau defnydd o 93.4% ar draws y 4 cartref preswyl mewnol (ac eithrio Garreglwyd a Haulfre). Penderfynodd y Cyngor ar gynnydd o 3% yn y ffi safonol wythnosol ac i dderbyn y gwahaniaeth fel cost reoli ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth fewnol o ofal preswyl. Pennwyd ffi safonol o £601.82 yr wythnos yn ystod 2018/19 felly ar gyfer y trigolion.

Wrth gyfrifo'r ffi safonol ar gyfer 2019/20, nid ydym wedi cynnwys Garreglwyd yn y gwaith cyfrifo

eleni chwaith gan fod y Cartref wedi ei ail-fodelu ac ei fod bellach yn darparu gwasanaeth arbenigol. Nid ydym wedi eithrio Haulfre o'r gwaith cyfrifo eleni gan fod y gwaith ailwampio a ddigwyddodd yno bellach wedi ei gwblhau. Nid yw Plas Penlan bellach wedi ei gynnwys yn y gwaith cyfrifo gan fod darpariaeth gwasanaeth yno wedi dod i ben ar ôl i Hafan Cefni agor. Roedd y raddfa lenwi ar gyfer y 4 cartref sy'n weddill sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor yn 93.25% ar gyfer y 9 mis cyntaf o 2018/19 a hynny'n seiliedig ar 101 o wlâu.

Mae'r tabl a ganlyn yn cyfrifo cost wythnosol dybiedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019.

| | |
|---|---|
| Nifer y gwlâu sydd ar gael | 101 |
| Amcangyfrif o'r Cyfraddau Defnydd | 93.25% |
| Amcangyfrif o nifer yr wythnosau trigolion | 4,911 |

| | **Costau Rhedeg 2019/20 £** | **Ffi Sefydlog 2019/20 £** | **Ffi Sefydlog 2018/19 £** | **Ffi a godwyd 2018/19 £** |
|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o Gostau Rhedeg yn 2018/19 | 3,308,262 | 673.64 | 629.39 | 564.35 |
| Ychwanegu - Tâl dibrisio | 197,061 | 40.13 | 44.31 | 40.06 |
| • Gwasanaethau Cefnogaeth | 190,609 | 38.81 | 29.33 | 34.33 |
| Tynnu incwm o Weithgareddau Di-breswyl | | | | -36.92 |
| | **3,695,931** | **752.58** | **703.03** | **601.82** |
| **Cynnydd o gymharu â ffi safonol 2017/18** | **7.05%** | **£49.55** | | |

Yn seiliedig ar y tabl uchod, amcangyfrifir bod y gost wythnosol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 yn £752.58 fesul preswylydd.

Mae'r gost wythnosol ragamcanedig fesul preswylydd ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 yn uwch o gymharu â'r gost ragamcanedig ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2019.

Mae hyn oherwydd cynnydd mewn costau cyflogau a chwyddiant.

Gan gydnabod penderfyniad y Cyngor ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd sylweddol y byddai symud o £601.82 i £752.58 yn ei olygu, argymhellir:

- Er bod y Cyngor yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â gofal preswyl, nid yw cost wirioneddol darparu'r gwasanaeth wedi ei adlewyrchu yn y tâl a godir ar drigolion.
- Yn unol â'r cynigion arbedion a wneir i ddiddymu'r cymhorthdal a roddir i rai sy'n hunangyllido dros y tair blynedd nesaf, bod y cynnydd ar gyfer y rhai hynny sy'n cyfrannu tuag at gost gofael yn cael ei osod ar 3% ynghyd â chyfran pob defnyddiwr o draean y cymhorthdal a roddir i'r rhai sy'n hunangyllido.
- Bod y ffi ar gyfer 19/20 felly yn cael ei osod ar £601.82 + 3% + (1/3 x £132.7) = £664.11.

Drwy beidio â chodi cost lawn y lleoliad ar drigolion sy'n hunangyllido o fewn y cartrefi hyn mae'r Cyngor yn rhoi cymhorthdal i bob defnyddiwr o tua £88.47 yr wythnos neu £4,612.83 y flwyddyn (wedi gwneud i ffwrdd â thraean o'r cymhorthdal yn 2019/20). Gyda'r 24 o drigolion sy'n hunangyllido ar hyn o bryd, mae hyn gyfwerth â £110,708 y flwyddyn. Bydd y cymhorthdal yn cael ei ddiddymu dros y tair blynedd nesaf yn unol â'r cynnig arbedion.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Yn unol ag Adran 22 Deddf Cymorth Gwladol 1948, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol bennu'r ffi safonol ar gyfer eu cartrefi.<br><br>Y ffi safonol yw'r ffi y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei chodi ar drigolion a chanddynt **y modd ariannol i dalu am eu gofal preswyl yn llawn**. Mae ein rhagdybiaeth gynllunio o gwmpas ein hunangyllidwyr wedi cael ei hadolygu dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gyfredol. Fel sydd wedi nodi yn A, rydym wedi ystyried cynyddu'r tâl i adlewyrchu cost lawn y ddarpariaeth, ond wedi penderfynu peidio â gwneud hynny oherwydd y byddai'n gynnydd sylweddol ac anghymesur i'r preswylwyr. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r penderfyniad hwn yn gyson gyda Pholisi Cenedlaethol fel yr amlinellir yn rhan C uchod. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|

| |
|---|
| Ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18/2/2019** |
| **Pwnc:** | **Ffioedd Gofal Cartref yn y Sector Annibynnol ar gyfer 2019/20** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cyng Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Bulman – Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes**<br>**01248 752013 Dafyddbulman@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob Aelod** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

O 6 Ebrill 2016, mae'r fframwaith ar gyfer asesiad ariannol a chodi ffioedd bellach yn dod dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd yn y sector cartrefi gofal annibynnol bob blwyddyn i gyd-fynd â newidiadau Llywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Wrth bennu ffioedd ar gyfer cartrefi gofal yn y sector annibynnol, rhaid i ni ddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r ddarpariaeth wrth benderfynu ar ein ffioedd gofal sylfaenol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad gydag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Ranbarthol, fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer 2019/20 sy'n adlewyrchu'r newidiadau o ran pensiynau, y cyflog byw cenedlaethol a chwyddiant.

Mae Methodoleg Gogledd Cymru (Atodiad 1) wedi argymell cynnydd rhwng 3.66% a 5.00% ar draws y 4 categori gofal. Cynigir y ffioedd isod ar gyfer 2019/20:

**Tabl 1 – Argymhelliad Methodoleg Gogledd Cymru**

| Categori | 2018/19 | 2019/20 | Cynnydd £ | Cynnydd % |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl (Oedolion) | £544.49 | £564.41 | £19.92 | 3.66% |
| Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) | £565.99 | £587.20 | £21.21 | 3.75% |
| Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £587.50 | £616.58* | £29.08 | 4.95% |
| Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen | £619.77 | £650.76* | £30.99 | 5.00% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Cymdeithasol) | | | | |

(y cyfan yn seiliedig ar Ddychweliad o 10% ar Fuddsoddiad ar gyfer 2018/19 a 2019/20)

*Bydd ffi 2019/20 yn cynnwys y cyfraniad mynegol gan yr Awdurdod lleol i'r FNC yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys. Mae'r ffordd y bydd y cyfraniad ychwanegol hwn yn cael ei wneud eto i'w gytuno.

Fel rhan o osod y ffioedd ar gyfer 2019/20, ymgynghorodd Ynys Môn ar y ffioedd ac mae crynodeb i'w weld yn Atodiad 2.

Cytunodd Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru (NWASH) mewn cyfarfod bod y codiadau a nodwyd yn gyson â gweithredu'r model ffioedd.

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth Cyllid (Adran 151), rydym yn bwriadu defnyddio'r fethodoleg yn llawn ar gyfer:

- EMI Preswyl
- Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol)

Mae'r adran yn argymell cynnydd yn y Dychweliad ar Fuddsoddiad (DAF) ar leoliadau Nyrsio EMI o 12% fel cydnabyddiaeth o'r pwysau yn y maes hwn ac yn unol â'r ffioedd a gynigiwyd gan awdurdodau lleol cyfagos.

Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 10% ar gyfer Nyrsio EMI= £9,709.44
Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 11% ar gyfer Nyrsio EMI = £13,752.96
Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 12% ar gyfer Nyrsio EMI = £17,796.48

Yn gyson â'r cyfeiriad strategol y mae'r Cyngor yn ei gymryd o ran datblygu dewisiadau amgen i ofal preswyl ar ffurf Tai Gofal Ychwanegol a gofal cartref a rhoi ystyriaeth dyledus i fforddiadwyedd y cynnydd sy'n cael ei argymell ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl, rydym yn cynnig gosod y raddfa ar gyfer gofal preswyl (Oedolion) yn seiliedig ar adenillion is o fuddsoddiad o 9%.

Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 10% ar gyfer Gofal Preswyl = £164,793.20
Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 9% ar gyfer Gofal Preswyl = £109,194.80
Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 8% ar gyfer Gofal Preswyl = £53,596.40

O'r herwydd, mae Ynys Môn yn argymell y cyfraddau isod ar gyfer eu cymeradwyo.

**Tabl 2 – Ffioedd Arfaethedig Ynys Môn ar gyfer 2019/20**

| Categori | 2018/19 | 2019/20 | Cynnydd £ | Cynnydd % | DAF |
|---|---|---|---|---|---|
| Preswyl (Oedolion) | £534.77 | £554.69 | £19.92 | 3.72% | 9% |
| Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) | £565.99 | £587.20 | £21.21 | 3.75% | 10% |
| Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £587.50 | £616.58 | £29.08 | 4.95% | 10% |
| Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) | £619.77 | £670.20 | £50.43 | 8.14% | 12% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Elfen Gofal Cymdeithasol) | | | | | |

* Bydd ffi 2019/20 yn cynnwys cyfraniad dangosol yr Awdurdod Lleol i FNC yn dilyn Barn yr Uchel Lys. Ni chytunir eto sut y gwneir y cyfraniad ychwanegol hwn.

Efallai y bydd angen ystyried cyflwyniadau unigol gan ddarparwyr fel rhan o'r broses hon. Petai tystiolaeth glir i ddangos nad yw'r ffi a bennwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd angen i'r Cyngor ystyried eithriadau i'r ffioedd a bennwyd. Cynigir bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu dirprwyo i'r Aelod Portffolio, y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:-

1. Gydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru fel y cafodd ei gweithredu hyd yma gan yr Awdurdodau yng Ngogledd Cymru fel sylfaen ar gyfer pennu ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2019/20 (Atodiad 2).
2. Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd a nodwyd yn **Nhabl 2;**
3. Yr un modd ag Awdurdodau eraill, rhoi'r awdurdod i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion o'r cyllidebau cyfredol. Oni fedrir dod i gytundeb, bydd y mater yn mynd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Penderfynwyd mabwysiadu DAF wedi'i ddiwygio ychydig ar gyfer 2 gategori yn seiliedig ar y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae angen i Awdurdodau Lleol bennu ffioedd cartrefi gofal yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae gan y penderfyniad hwn oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol o ran fforddiadwyedd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â'r cytundeb a wnaed i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru ac i ddefnyddio Methodoleg Gogledd Cymru i bennu'r ffioedd bob blwyddyn. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Yn seiliedig ar drafodaethau manwl gyda'r Adran Gyllid yn amcangyfrif effaith y newidiadau hyn a chyllideb arfaethedig yr adran ar gyfer 2019/20, ystyrir y gellir cwrdd â'r codiadau hyn o fewn y gyllideb. |

Bydd angen i’r adran barhau i ganolbwyntio ar leihau nifer y lleoliadau o’r math yma fel y gwelwyd yn y blynyddoedd diweddar.

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Trafodwyd yr adroddiad gan yr UDA ar 22/1/2019, dim sylwadau pellach |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Wedi cydweithio â’r Swyddog Adran 151 a’r Rheolwr Cyllid wrth ddatblygu’r adroddiad hwn/ |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Trafodwyd yr adroddiad gan yr UDA ar 22/1/2019, dim sylwadau pellach |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Methodoleg Gogledd Cymru

Appendix 1 - Fee Methadology.pdf

Atiodiad 2 – Crynodeb o’r Ymgynghoriad

Atodiad 2 -
Ymgynghoriad ar Ffio

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| --- |
| |

| Cyfrifiadau Ffi Drafft 2019/20 (F3. Tachwedd 2018) | | | |
|---|---|---|---|
| | Ffi 2018/19 | Ffi Arwyddol 2019/20 | Sail y Cyfrifiad |
| 1. COSTAU ANUNIONGYRCHOL –safonol ar gyfer yr holl gategorïau o ofal | | | |
| Cyfleustodau (trydan, nwy, teledu, y Dreth Gyngor, Dŵr, Ffôn) | £29.13 | £29.83 | CPI Medi 2018 = 2.4% |
| Cofrestru (Aelodaeth Broffesiynol, CRB ac ati) | £1.28 | £1.31 | CPI Medi 2018 = 2.4% |
| Recriwtio | £2.47 | £2.53 | CPI Medi 2018 = 2.4% |
| Contract cynnal a chadw offer | £3.58 | £3.67 | CPI Medi 2018 = 2.4% |
| Cynnal a chadw offer cyfalaf | £22.02 | £22.55 | CPI Medi 2018 = 2.4% |
| Garddwr / tasgmon | £9.71 | £10.18 | NLW 4.85% o gynnydd ar raddfa 18/19 |
| Dodrefn/Ffitiadau yn cynnwys trwsio ac adnewyddu | £0.00 | £0.00 | Tynnwyd yn 2017/18 |
| Hyfforddiant | £2.46 | £2.52 | CPI Medi 2018 = 2.4% |
| Cyflenwadau meddygol nad ydynt yn rhai presgripsiwn | £3.72 | £3.81 | CPI Medi 2018 = 2.4% |
| Yswiriant | £6.20 | £6.35 | CPI Medi 2018 = 2.4% |
| Bwyd a nwyddau tŷ | £28.65 | £29.34 | CPI Medi 2018 = 2.4% |
| Is-gyfanswm Costau Anuniongyrchol | £109.22 | £112.09 | |
| | | | |
| 2. COSTAU ERAILL – safonol ar gyfer yr holl gategorïau o ofal | | | |
| Dychweliad ar Fuddsoddiad | £97.16 | £97.16 | 10% Dychweliad ar Fuddsoddiad |
| Gwariant Ychwanegol (sydd heb ei gynnwys yn unman arall) | £18.08 | £18.51 | CPI Medi 2018 = 2.4% |
| Is-gyfanswm Costau Eraill | £115.24 | £115.67 | |
| | | | |
| 3. COSTAU STAFFIO | | | |
| Preswyl | | | |
| Rheoli / Gweinyddiaeth | £48.85 | £49.83 | Cynnydd o 2% |
| Uwch Staff Gofal | £120.65 | £127.68 | 10.5 awr x £12.16 |
| Staff Gofal | £105.21 | £111.62 | 10.5 awr x £10.63 |
| Staff Domestig | £45.32 | £47.52 | NLW 4.85% o gynnydd ar raddfa 18/19 |
| Is-gyfanswm Costau Staffio Cartrefi Preswyl | £320.03 | £336.65 | |
| CYFANSWM PRESWYL | £544.49 | £564.41 | |
| | | | |
| EMI Preswyl | | | |
| Rheoli / Gweinyddiaeth | £48.85 | £49.83 | Cynnydd o 2% |
| Uwch Staff Gofal | £132.13 | £139.84 | 11.5 awr x £12.16 |
| Staff Gofal | £115.23 | £122.25 | 11.5 awr x £10.63 |
| Staff Domestig | £45.32 | £47.52 | NLW 4.85% o gynnydd ar raddfa 18/19 |
| Is-gyfanswm Costau Staffio Cartrefi Preswyl EMI | £341.53 | £359.44 | |
| CYFANSWM EMI PRESWYL | £565.99 | £587.20 | |
| | | | |
| Nyrsio | | | |
| Rheoli / Gweinyddiaeth | £48.85 | £49.83 | Cynnydd o 2% |
| Cyfraniad yr Awdurdod Lleol i FNC* | £6.59 | £6.59 | * yn amodol ar gyngor cyfreithiol a chodiad / adolygiad |
| Uwch Staff Gofal | £143.62 | £152.00 | 12.5 awr x £12.16 |
| Staff Gofal | £125.25 | £132.88 | 12.5 awr x £10.63 |
| Staff Domestig | £45.32 | £47.52 | NLW 4.85% o gynnydd ar raddfa 18/19 |
| Is-gyfanswm Costau Staffio Cartrefi Nyrsio | £369.63 | £388.82 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CYFANSWM NYRSIO | £594.09 | £616.58 | |
| | | | |
| Nyrsio EMI | | | |
| Rheoli / Gweinyddiaeth | £48.85 | £49.83 | Cynnydd o 2% |
| Cyfraniad yr Awdurdod Lleol i FNC* | £6.59 | £6.59 | * yn amodol ar gyngor cyfreithiol a chodiad / adolygiad |
| Uwch Staff Gofal | £160.86 | £170.24 | 14 awr x £12.16 |
| Staff Gofal | £140.28 | £148.82 | 14 awr x £10.63 |
| Staff Domestig | £45.32 | £47.52 | NLW 4.85% o gynnydd ar raddfa 18/19 |
| Is-gyfanswm Costau Staffio Cartrefi Nyrsio EMI | £401.90 | £423.00 | |
| CYFANSWM NYRSIO EMI | £626.36 | £650.76 | |

**Atodiad 2**

**Gosod Lefelau Ffioedd Gofal Preswyl a Nyrsio am 2019/20 – Sylwadau a gafwyd ar y Ffioedd arfaethedig a'r Fethodoleg**

Ym mis Hydref, rhannodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Fodel Ffioedd Gofal Preswyl a Nyrsio Gogledd Cymru gyda'r holl ddarparwyr er mwyn cael eu sylwadau. Daeth y cyfnod ymgynghori hwn i ben ganol mis Tachwedd. Cawsom nifer o ymatebion gan ddarparwyr.

| Sylwadau | Ymateb |
|---|---|
| Nid yw'r cynnydd yn y pensiwn sy'n cael ei argymell gan y Llywodraeth i weld yn cael ei gynnwys yn y cynnydd mewn cyflogau. Byddai'n dda petai hyn yn cael ei gynnwys. | Ar gyfer ffi 2019/20 mae Methodoleg Gogledd Cymru wedi cynyddu'r cyfraniad pensiwn o 1.5% i 2.5% ac mae hyn er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn cyfraniadau pensiwn yn 2019/20. Mae hyn yn seiliedig ar Rifyn 7 LaingBuisson ac yn cymryd yn ganiataol na fydd pob aelod o staff yn dewis cymryd pensiwn. |
| Byddai'n fanteisiol i bawb petai'r DFA yn cael ei roi yn ôl i'r lefel o 10% a ddangosir yn y ddogfen a anfonir drwodd. | Oherwydd fforddiadwyedd (Cyfaint y lleoliad) a sefyllfa'r farchnad, bydd yr awdurdod lleol yn cadw'r raddfa o 9% ar gyfer gofal preswyl ar gyfer 2019/20. |
| Nid yw ffioedd yn adlewyrchu'r costau gweithredu. Nid yw'r canlynol wedi eu hadlewyrchu yn y pecyn cymorth: Recriwtio staff, cynyddu cyflogau nyrsio, costau biwrocrataidd uwch a lefelau dibyniaeth uwch ymysg trigolion. | Mae cyfraddau staffio wedi eu cynyddu gan y canran o gynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ers Datganiad yr Hydref. Gwahoddir unrhyw ddarparwr sydd â thystiolaeth o gostau uwch na'r ffioedd sydd i'w gweithredu yn Ynys Môn i wneud trefniadau i gyfarfod ar sail un i un er mwyn trafod y rhain mewn ymarfer llyfr agored. |
| Cost darparu offer nyrsio megis gwlâu proffil uchel, uwchraddio systemau clychau galw, cloeon diogelwch ar ddrysau allanol, adnewyddu celfi (carpedi, gwlâu ac ati) yn fwy aml. | Mater i'r Bwrdd Iechyd yw hwn gan mai nhw sy'n ariannu'r elfen hon. |
| Mae cymarebau staff wedi cynyddu yn ein cartref (gofalwr nos ychwanegol, gofalwr dydd, gofalwr cyfnod) ac mae gofalwyr dydd yn dod i mewn awr yn gynharach yn y bore er mwyn cynorthwyo ag anghenion gofal defnyddwyr gwasanaeth. | Mater gweithredol ar gyfer pob cartref unigol yw hwn. Gwahoddir unrhyw ddarparwr sydd â thystiolaeth o gostau uwch na'r ffioedd sydd i'w gweithredu yn Ynys Môn i wneud trefniadau i gyfarfod ar sail un i un er mwyn trafod y rhain mewn ymarfer llyfr agored. |
| Mae anghenion hyfforddiant staff wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd gyda'r angen i ddarparu hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn. | Mae cefnogaeth ychwanegol ar gyfer hyfforddiant ar gael gan yr uned hyfforddi'r gweithlu. |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriodd y darparwr hefyd at gostau eraill sydd wedi cynyddu: yn y blynyddoedd diwethaf: Pensiynau, codiadau Cyflog, Tâl gwyliau. | Mae cyfraddau staffio wedi eu cynyddu yn unol â chanran y cynnydd ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol ers Datganiad yr Hydref. |
| Nid adeiladau newydd yw nifer o gartrefi ar yr Ynys, felly bydd eiddo presennol â chostau cynnal a chadw uchel o ganlyniad i Oedran a thraul a gwisgo naturiol sydd bellach yn cael ei graffu arno yn fanylach gan archwilwyr trydydd parti ac o ganlyniad mae angen mwy o waith cynnal a chadw ar yr eiddo. Dylid ail gyflwyno'r ffactor cost o Gelfi / ffitiadau a deunyddiau adnewyddadwy. | Mae'r ffi yn cynnwys elfennau o adenillion ar y buddsoddiad ac ar gyfer y ddarpariaeth o offer. Gwahoddir unrhyw ddarparwr sydd â thystiolaeth o gostau uwch na'r ffioedd sydd i'w gweithredu yn Ynys Môn i wneud trefniadau i gyfarfod ar sail un i un er mwyn trafod y rhain mewn ymarfer llyfr agored. |
| Mae cartrefi gofal sy'n berchen i Gyngor Sir Ynys Môn yn derbyn lefel uwch o ffioedd nac sy'n cael ei roi i'r Sector Preifat. Mae hyn wedi gorfodi nifer i godi ffioedd ychwanegol, sydd ddim yn ein gwneud yn boblogaidd yn lleol gan felly gynyddu eich rhestrau aros ar gyfer eich cartrefi gofal gan nad ydych yn codi ffioedd ychwanegol. | Mae newidiadau wedi eu hargymell i'r Pwyllgor Gwaith i gynyddu'r ffioedd ar gyfer gofal preswyl mewn cartrefi gofal sy'n berchen i Gyngor Môn i adlewyrchu'r gost i'r awdurdod lleol ac er mwyn lleihau cymorthdaliadau dros y 5 mlynedd nesaf. |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18 Chwefror 2019** |
| **Pwnc:** | **Rhenti'r CRT a Thaliadau'r Gwasanaeth Tai 2019/20** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Darren Gerrard, Rheolwr Incwm Rhent a Chynhwysiant Ariannol**<br>**01248 752265**<br>**dkghp@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd yn y rhent a'r taliadau gwasanaeth ar gyfer 2019/20 fel y nodir isod:-<br><br>**A1** cymeradwyo'r cynnydd mewn rhent yn unol â rhent targed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasgliad dros 52 wythnos.<br><br>**A2** cymeradwyo cynnydd o 2.4% yn yr holl renti sydd rhwng £0.01 - £4.19 yn is na'r targed yn ogystal â swm hyd at yr uchafswm o £2.00 yr wythnos i gyrraedd y rhent targed.<br><br>**A3** cymeradwyo cynnydd o 2.4% yn yr holl renti sydd rhwng £3.58 - £4.66 yn is na'r targed a £2.00 ychwanegol yr wythnos.<br><br>**A4** cymeradwyo bod y rhent ar gyfer yr 14 eiddo sydd â rhent uwch na'r lefel targed yn aros fel y mae.<br><br>**A5** cymeradwyo cynnydd o 20c yr wythnos ar gyfer rhenti'r holl garejys.<br><br>**A6** cymeradwyo'r taliadau gwasanaeth a nodir yn adran 3.3. yr adroddiad ar gyfer yr holl denantiaid sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol. |

**Rhesymau**

**1.0 Cefndir**

**1.1** Yn unol â Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, mae'n rhaid i'r Cyngor gadw Cyfrif Refeniw Tai (CRT) sydd wedi ei neilltuo'n unig ar gyfer trafodion sy'n ymwneud yn benodol â Thai Awdurdodau Lleol.

**1.2** Ar 12 Rhagfyr 2018, derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod wedi cytuno i gynnal Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol yn 2019/20 yn unig gan eu bod yn aros am ganlyniad yr Adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy.

**1.3** Mae'r Adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy yn ystyried yr angen I gyflwyno polisi rhenti diwygiedig sy'n rhoi sicrwydd I Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac yn cydbwyso'r angen am ddatblygiad parhaus â fforddiadwyedd I denantiaid. Mae disgwyl I'r panel adrodd are u canfyddiadau ym mis Ebrill 2019.

**1.4** Y fformiwla ar gyfer y codiadau rhent blynyddol fydd gwerth y Mynegai Prisiau defnyddwyr (CPI) yn y mis Medi blaenorol. Ym mis Medi 2018, roedd y CPI yn 2.4%.

**1.5** Oherwydd bod lefelau rhent cyfredol y Cyngor yn sylweddol is na'r rhenti targed yn y polisi, bydd angen cynnydd wythnosol o hyd at £2 uwchben y cynnydd chwyddiant canrannol (yn achos y rhenti sy'n is na'r rhent targed) er mwyn sicrhau eu bod yn gyson gyda rhent darparwyr tai cymdeithasol eraill.

**2.0 Cynnydd mewn Rhent i Denantiaid Ynys Môn**

**2.1** Mae rhent targed Llywodraeth Cymru (fel y dangosir yn y tabl isod) yn seiliedig ar rent dros 52 wythnos. Er fod y flwyddyn ariannol 2019/20 yn cynnwys 53 wythnosau, byddwn yn cynnyddu'r rhent ac yn casglu dros 52 wythnos i gymryd i ystyriaeth yr wythnos di-rent dros gyfnod y Nadolig, byddwn yn cynhyrchu tua £1M o incwm blynyddol ychwanegol.

| | Tai a Byngalos (£) | | | | | Fflatiau(£) | | | | Fflatiau un Ystafell |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 Yst Wely | 2 Yst Wely | 3 Yst Wely | 4 Yst Wely | 5+ Yst Wely | 1 Yst Wely | 2 Yst Wely | 3 Yst Wely | 4+ Yst Wely | |
| **Rhent Targed LIC (52 Wythnos)** | £85.54 | £95.04 | £104.55 | £114.05 | £123.56 | £77.39 | £85.99 | £94.59 | £103.19 | £68.79 |
| **Rhent** | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Targed (Casglu 51 Wythnos)** | **£87.22** | **£96.90** | **£106.60** | **£116.29** | **£125.98** | **£78.91** | **£87.68** | **£96.44** | **£105.21** | **£70.14** |
| **Rhent Cyfartalog Cyfredol Arfaethedig (51 Wythnos)** | **£86.43** | **£90.56** | **£97.27** | **£103.52** | **£109.23** | **£78.65** | **£85.26** | **£91.55** | **£105.21** | **£70.14** |

**2.3** Gan ddefnyddio'r targed casglu 52 wythnos, bydd y cynnydd yn y rhent arfaethedig ar gyfer 2019/20 yn £3.45 ar gyfartaledd. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent wythnosol cyfartalog o £88.08 i £91.53 sydd yn dal i fod yn is na'r band rhent yn y polisi. Y band rhent ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw rhwng £92.13 (pegwn isaf), £96.98 (pwynt canol) a £101.83 (pegwn uchaf).

**2.4** Yn ogystal, y lefel hon o gynnydd yn y rhent sy'n cael ei defnyddio fel y model ar gyfer y Cynllun Busnes Tai. Os na ddilynir y dull hwn, efallai y bydd angen dulliau eraill i ariannu'r cynllun busnes.

**2.5** Ar gyfer eiddo y mae eu rhenti'n sylweddol is na'r rhent targed yn y polisi, ac er mwyn symud tuag at y rhent targed ar gyfer y fath eiddo, bwriedir cynyddu'r rhenti cyfredol fel a ganlyn:

1) Ar gyfer y 1374 eiddo lle mae'r gwahaniaeth rhwng y rent presennol a'r rhent targed rhwng £0.01 a £4.19 yr wythnos, bydd y rhent presennol yn cynyddu 2.4% yn ogystal â swm o hyd at uchafswm o £2.00 yr wythnos.

2) Ar gyfer y 2431 eiddo lle mae'r gwahaniaeth rhwng y rhent presennol a'r rhent targed rhwng £3.58 a £4.66 yr wythnos, bydd y rhent presennol yn cynyddu yn unol â'r fformiwla o 2.4% + £2 yr wythnos.

3) Ar gyfer y 14 eiddo y mae eu rhenti cyfredol yn uwch na'r rhent targed, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl llai o gynnydd yn y rhenti hyn gan Awdurdodau Lleol. Rydym yn cynnig peidio â chynyddu'r rhenti hyn nes eu bod yn cyd-fynd gyda'r rhent targed.

**2.6** Bydd defnyddio'r dulliau uchod yn symud yr Awdurdod tuag at gyrraedd y rhent targed a sicrhau cydgyfeiriant o ran lefelau rhent. Disgwylir gallu cyflawni'r cydgyfeiriant rhent erbyn 2023/24 a bydd rhenti'n cynyddu wedyn yn unol â'r rhenti targed.

**2.7** Bydd y polisi rhent yn creu incwm rhent blynyddol o tua £18.1 miliwn ar gyfer y CRT yn ystod 2019/20.

**2.8** Wrth ail osod eiddo gwag fe argymhellir y bydd y rhent yn cael ei osod yn unol â'r polisi rhent targed a fydd yn dileu'r cymhlethdod y broses o gynyddu'r rhent mewn modd trosiannol.

## 3.0 Codi am Wasanaethau

**3.1** Mae'r taliadau am wasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn ystod 2019/20 yn seiliedig ar gostau gwirioneddol y gwasanaethau hynny yn 2017/18 ac yn cael eu rhannu'n gyfartal ymhlith tenantiaid a lesddeiliaid. Dylid nodi bod y rhan fwyaf o'r costau hyn yn gymwys am fudd-dal tai.

**3.2**. Mae'r holl gostau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn wedi gostwng o gymharu â ffigyrau'r llynedd. Mae cyfanswm yr incwm a fydd yn cael ei gynhyrchu tua £216k.

**3.3** Costau wythnosol ar gyfer 2019/20 sy'n cael eu hargymell, yn seiliedig ar 52 wythnos yw:

Cynnal a chadw lifft - £0.78 - £1.29
Glanhau ardaloedd cymunedol - £0.05 – £5.09
Larymau tân ac offer tân - £2.20
Systemau drysau mynediad - £0.43
Costau Carthffosiaeth - £3.55
Golau a gwres mewn ardaloedd cymunedol - £1.02
Erialau Teledu mewn ardaloedd cymunedol - £0.19
Paentio ardaloedd cymunedol – £0.13 - £0.47
Cynnal a Chadw Tiroedd (Eiddo Domestig) - £2.63
Cynnal a Chadw Tiroedd (Tai Gwarchod) - £0.15 - £3.23)
Costau Rheoli yn 15% o gost pob tâl gwasanaeth.

**3.4** Ar hyn o bryd mae 61 o brydleswyr a fydd yn gorfod talu am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn gan yr Awdurdod. Bydd hyn yn creu incwm blynyddol ychwanegol o tua £13k.

## 4.0 Garejys

**4.1** Nid yw Polisi Rhent Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw arweiniad ar sut i gynyddu rhenti garejys. Mae'r Cyngor felly'n cynnig cynyddu'r rhenti garejys 20c yr wythnos sy'n â'r cynnydd a gymhwysir i anheddau Cyngor o 2.4%. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent o £8.00 yr wythnos i £8.20 yr wythnos ac yn creu incwm o £225k ar ôl diystyru garejys gwag. Roedd 238 o garejys gwag

ar 14 Ionawr 2019.

**5 Budd-dâl Tai**

**5.1** Ar hyn o bryd ni fydd 2,909 o denantiaid y Cyngor (76%) yn wynebu unrhyw galedi ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd yn y rhent a'r taliadau gwasanaeth arfaethedig, gan eu bod yn derbyn Budd-dal Tai. Bydd yn rhaid i denantiaid nad ydynt yn derbyn budd-dal tai dalu'r rhent a'r costau gwasanaeth, oni bai, wrth gwrs, eu bod yn dod yn gymwys i gael budd-dâl yn dilyn y cynnydd.

**5.2** Fel paratoad ar gyfer Diwygio Budd-daliadau Lles gan y Llywodraeth mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi ei gynyddu i £274k (1.5%) ar gyfer 2019/20 gan ein bod yn disgwyl i ddyledion godi pan fydd yn rhaid i denantiaid dalu cyfran uwch o'r rhent eu hunain. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o ganlyniad i effaith bosibl Credyd Cynhwysol.

**5.3** Mae gan y Gwasanaethau Tai ddwy Swyddog Cynhwysiant Ariannol sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i denantiaid am faterion cynhwysiant ariannol sy'n canolbwyntio'n gryf ar gynyddu sgiliau gallu ariannol a chyllidebu er mwyn i bobl allu rheoli eu harian a chael mynediad i wasanaethau ariannol prif lif. Mae cysylltiadau hefyd wedi eu datblygu er mwyn gwella arferion gwaith ar lefel strategol a gweithredol gyda phartneriaid mewnol ac allanol megis J E O'Toole, CAB, Cymunedau'n Gyntaf Môn, Gofal a Thrwsio, Age Cymru a chwmnïau trydan a dŵr

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| 1) Ystyriwyd yr opsiwn i beidio â chynyddu rhent y garejys oherwydd cyflwr rhai o'r garejys ond yn dilyn ymholiadau ag Awdurdodau Lleol eraill, cadarnhaodd bob un ohonynt eu bod yn cynyddu'r rhent yn unol â'r cynnydd o 2.4% yn y rhenti tai. Rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r un dull er mwyn sicrhau'r rhent uchaf posibl o'r garejys. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae polisi Rhent newydd Llywodraeth Cymru yn effeithio ar y Cynllun Busnes CRT. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|

| |
|---|
| 1) Mae gofyn i'r holl Awdurdodau Lleol, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, weithredu'r Polisi Rhent. Byddai gwrthod y polisi hwn yn y pen draw yn golygu y byddai'r Awdurdod yn colli incwm ac y byddai hynny'n anochel yn effeithio ar y gwasanethau a ddarperir. Byddai hyn hefyd yn tanseilio'r Cynllun Busnes CRT ac o bosib yn ein gadael yn agored i ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru pen os na fydd y polisi hwn yn cael ei fabwysiadu.<br><br>2) Gallai gwrthod y polisi hwn hefyd beryglu'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr blynyddol o dros £2.66 miliwn a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru oherwydd gan y gellid ystyried nad ydym yn gwneud y mwyaf o'n cyfleoedd i greu incwm. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |
| |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Y PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 CHWEFROR 2019** |
| **TESTUN:** | **DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU** |
| **DEILIAD/DEILIAID PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>**EST. 2663**<br>**BETHANOWEN2@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Dim yn berthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1.1** Bydd yr adroddiad yn nodi asesiad y Swyddog Adran 151 ar lefel balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn ar gyfer 2019/20 ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â chlustnodi balansau cyffredinol i'w defnyddio yn ystod 2019/20.

**2. ARGYMHELLION**

- I nodi y polisi cyffredinol ynglŷn â chronfeydd wrth gefn a balansau a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016, fel y nodir hynny yn Atodiad A;
- Cymeradwyo'r newid i'r polisi cyffredinol ar gronfeydd wrth gefn a balansau a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016 yn Atodiad A;
- Pennu isafswm balansau cyffredinol o £6.76m ar gyfer 2019/20 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151;
- I gynllunio am gynnydd yn y balansau cyffredinol dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd er mwyn sicrhau fod lefel gwirioneddol y cronfeydd wrth gefn yn cyrraedd y lefel isaf. Cyflawnir y cynnydd yma drwy gyllidebu am wargedau blynyddol a gynllunnir;
- Cadarnhau parhad y cronfeydd wrth gefn presennol a glustnodwyd.
- I gymeradwyo trosglwyddo cronfa ymyl y gofal o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol.

**B - Pa opsiynau eraill a ystyriwyd gennych a pham y bu i chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ni ystyriwyd unrhyw opsiwn arall - nid oedd hynny'n briodol yn yr achos hwn.

**C - Pam mai'r Pwyllgor Gweithredol fydd yn penderfynu ar hyn?**

Mae'r Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gynigion ar y gyllideb terfynol cyn i'r Cyngor ei hystyried.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?**

D/B

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

| DD - | Gyda phwy y bu i chi ymgynghori? | Beth oedd ganddynt i'w ddweud? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS)** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | D/b - adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Dim sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Craffu** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Troseddu ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundeb Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |
| | Atodiad A - Polisi cyffredinol arfaethedig ynglŷn â Chronfeydd Wrth Gefn a Balansau<br>Atodiad B – Balansau hyd yma | |
| **FF -** | **Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael rhagor o wybodaeth):** | |
| | | |

**DEFNYDDIO BALANSAU CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1.** Mae Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ei angen ar gyfer gwariant a amcangyfrifir yn y dyfodol wrth gyfrifo anghenion y gyllideb. Mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Adran 151 adrodd yn ffurfiol ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig pan bennir gofynion y gyllideb ac i sicrhau bod yna brotocolau allweddol ar gyfer eu pennu a'u defnyddio.

**1.2.** Bydd yr adroddiad yn nodi asesiad y Swyddog Adran 151 ar lefel balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn ar gyfer 2019/20 ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â chlustnodi balansau cyffredinol i'w defnyddio yn ystod 2019/20.

## 2. POLISI AR GRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU

**2.1.** Yn ychwanegol at y balansau cyffredinol, mae'r Cyngor yn dal nifer o gronfeydd wrth gefn ar ei fantolen. Pwrpas y cronfeydd wrth gefn hyn yw talu am gost prosiectau a gynllunnir neu ar gyfer cyllido eitemau penodol o wariant pryd bynnag fo angen gwneud hynny.

**2.2.** Mae'r ddogfen a atodir fel Atodiad A yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a'r polisi mewn perthynas â phenderfynu ar lefel cronfeydd wrth gefn a balansau digonol a sut y defnyddir cronfeydd wrth gefn.

## 3. BALANSAU CYFFREDINOL

**3.1.** Ar 31 Mawrth 2018, lefel y balansau cyffredinol oedd £6.352m, sef gostyngiad o £2.003m ers y flwyddyn flaenorol.

**3.2** Yng nghyllideb 2016/17, crëwyd cronfa o £1m o'r balansau cyffredinol er mwyn cyllido prosiectau unigol ag oedd gyda'r modd i greu arbedion effeithlonrwydd i'r Awdurdod. O'r 29 cais busnes a dderbyniwyd gan adranau, cafodd 9 cais busnes eu cymeradwyo, gwerth £937,800. Hyd yn hyn, mae'r prosiectau'n mynd ymlaen yn dda ac mae'r balans ar ôl i'w wario yn £600,000 (rhagwelwyd). Mae adroddiad ar sefyllfa bob prosiect yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter.

**3.3** Fel y nodir yn Atodiad A, paragraff 5, bydd angen i'r Swyddog Adran 151 asesu nifer o risgiau wrth benderfynu ar lefel y balansau cyffredinol sydd ei hangen. Ystyrir y risgiau isod:-

- **Gwasgfeydd Costau yn y Dyfodol** - Wrth i gyllidebau leihau, mae gallu gwasanaethau unigol i ddefnyddio unrhyw gapasiti dros ben o fewn eu cyllidebau presennol i gyllido pwysau cost annisgwyl yn llawer anoddach a, phan geir pwysau o ran costau, mae cyllido'r pwysau hyn wedyn yn disgyn ar y balansau cyffredinol. Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol ar hyn o bryd yn ystod 2018/19, yn arbennig yn y gwasanaethau Oedolion, Plant ac Addysg. Mae'r gyllideb ar gyfer 2019/20 yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r galw yn y meysydd hyn, fodd bynnag, mae perygl o alwadau pellach ar falansau cyffredinol a chynhelir adolygiadau mynych yn ystod y flwyddyn

- **Arbedion** - Mae cyllideb 2019/20 yn cynnwys pecyn arbedion o £2.786m. Mae'r arbedion arfaethedig wedi cael eu herio ac arweiniodd hynny at beidio â chynnwys £961k o arbedion arfaethedig yng nghyllideb arfaethedig 2019/20, oherwydd ystyriwyd na ellid eu gwireddu yn ystod 2019/20. Er bod yna risg na fydd yr holl arbedion yn cael eu cyflawni, dylai'r broses herio sydd wedi cael ei chynnal sicrhau bod y risg yn cael ei lleihau ac na fydd unrhyw alwadau dilynol sylweddol ar y balansau cyffredinol.

- **Chwyddiant a Chyfraddau Llog** - Mae dyfarniadau cyflog wedi cael eu defnyddio yn unol â chynnig cyflog y Cyflogwr i staff NJC ac Athrawon, chwyddiant prisiau (2.1%). Yn dilyn canlyniad refferendwm yr UE, cynyddodd chwyddiant i fwy na 3% ond, ers hynny, mae wedi gostwng yn ôl ac mae ar hyn o bryd yn 2.1% (CPI – Rhagfyr 2018). Nid yw'r rhagolygon diweddaraf yn dangos y bydd chwyddiant yn codi'n sylweddol yn ystod 2019/20 a disgwylir iddo fod ar neu o gwmpas targed y Llywodraeth o 2%. Mae tua £68m o gyllideb y Cyngor ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau lle bydd y pris yn cynyddu wrth i chwyddiant gynyddu. Gallai cynnydd o 1% mewn chwyddiant ychwanegu £680k at gostau'r Cyngor (tua 0.5% o'r gyllideb net). Er bod chwyddiant yn dal i fod yn risg, mae gan y Cyngor ddigon o arian wrth gefn i gyllido cynnydd sydyn a llym mewn chwyddiant. Mae'r holl chwyddiant cytundebol hysbys wedi'i ganiatáu o fewn y gyllideb a rhoddwyd chwyddiant o 3% ar incwm fesul adran ar gyfartaledd.

- **Incwm** - Mae sicrhau bod cyllidebau incwm yn cael eu gwireddu bob amser yn anodd eu gwarantu, yn arbennig mewn perthynas â gwasanaethau dewisol pan fo cwsmeriaid yn gallu dewis prynu'r gwasanaeth neu beidio. Mae'r broses o bennu cyllideb 2019/20 wedi adolygu tueddiadau incwm real ac mae cyllidebau incwm wedi cael eu hail-alinio pan ystyriwyd y byddai'r gwir incwm yn sylweddol is na'r gyllideb. Ni ellir anwybyddu'r risg na fydd targedau incwm yn cael eu cyrraedd ac y gallai hynny olygu y byddai'r gwariant net yn uwch na'r gyllideb gyffredinol, ac y byddai'r balansau cyffredinol wedyn yn gorfod talu am y diffyg hwnnw.

- **Balansau Ysgol** - Dros nifer o flynyddoedd, mae balans cronfeydd wrth gefn yr ysgolion wedi bod yn iach iawn, yn enwedig yn y sector Cynradd, ac mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn darparu yswiriant ariannol ar gyfer elfen ysgolion dirprwyedig y gyllideb refeniw. Fodd bynnag, disgwylir i falansau ysgolion ostwng i is na £1m ac mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar yr angen i gynnal balansau cyffredinol uwch i ddarparu yswiriant ariannol digonol ar gyfer y gyllideb ysgolion dirprwyedig. Mae'r risg cynyddol hwn wedi cael ei ystyried yn yr asesiad o lefel y balansau cyffredinol.

- **Sefyllfa Ariannol Gyffredinol y Cyngor** - Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dda ar hyn o bryd, gyda lefel derbyniol o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Mae'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol wedi ei gyllido ac mae Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor tua £24m yn is na'r ffîn weithredol, ac yn £29m yn is na'r terfyn statudol a ganiateir.

**3.4** Nid oes unrhyw reol bendant ynghylch lefel y balansau cyffredinol y dylai Cyngor ei chynnal, er bod rheol yn bodoli sy'n nodi y dylai lefel y balansau cyffredinol fod yn 5% o'r gyllideb refeniw net, heb gynnwys y gyllideb ysgolion ddirprwyedig. O ystyried fod balansau ysgolion wedi gostwng yn sylweddol, ystyrir yn awr fod angen cyfrifo lefel isaf balansau cyffredinol fel 5% o'r gyllideb refeniw net, gan gynnwys y gyllideb ysgolion ddirprwyedig. Y rhagamcaniad ar hyn o bryd yw y bydd y gyllideb refeniw yn gorwario £1.589m yn 2018/19 y bydd angen ei gyllido o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Yn ogystal â hyn, mae £590k wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith yn ystod 2018/19 ar gyfer gweithgareddau amrywiol. Gan ystyried pob un o'r rhain, amcangyfrifir y bydd lefel y balansau cyffredinol yn gostwng i tua £4.7m ar 31 Mawrth 2019. Am ragor o arweiniad a gwybodaeth, cyfeiriwch at y papur ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb 2018/19.

**3.5** Mae dal balansau cyffredinol yn rhoi sicrwydd ariannol i'r Cyngor, ond mae dal balansau heb eu hangen yn arwain at adnoddau ariannol ddim yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Ar ôl asesu'r risgiau ariannol sylfaenol sy'n wynebu'r Cyngor, yr hyblygrwydd cyfyngedig sydd gan ddeiliaid cyllidebau bellach wrth reoli eu cyllidebau a'r angen i ryddhau cyllid er mwyn gwireddu arbedion effeithlonrwydd y dyfodol, rwy'n asesu y dylid pennu isafswm balansau cyffredinol o £6.76m (5% o'r gyllideb revenue net arfaethedig am 2019/20).

**3.6** **Y** balans a amcangyfrifir ar 31 Mawrth 2019 am y balansau cyffredinol yw £4.7m, £2.06m yn is na'r isafswm a gyfrifir. Yn yr amgylchiadau ariannol presennol, nid yw'n bosib cyllido ar gyfer gwarged yn y gyllideb er mwyn sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn cydbwyso'n ôl i'r lefel isaf a rhaid i'r cynnydd mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol gael ei wneud yn fwy graddol dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd.

## 4. CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD

**4.1** Mae Cronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd yn perthyn i gategorïau penodol, fel a ganlyn:-

- Cronfeydd wrth gefn Cyfalaf - y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer cyllido'r rhaglen gyfalaf;
- Cronfeydd wrth gefn Cyfyngedig - y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i dalu am gostau posibl yn y dyfodol, mae'r defnydd ohonynt yn cael ei gyfyngu i bwrpas penodol ac ni ellir eu rhyddhau at unrhyw ddiben arall, cyllid gaiff eu dal gan y Cleient ar ran trydydd parti neu gronfa wrth gefn sy'n gysylltiedig â'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig ac na ellir ei hailddyrannu;
- Cronfa wrth gefn CRT - cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu neilltuo ar gyfer y CRT;
- Cronfa wrth gefn Yswiriant - cronfa wrth gefn sydd ei hangen ar gyfer talu am gost unrhyw golledion anyswiriedig a thaliadau dros ben y polisi fydd i'w talu gan y Cyngor;
- Cronfeydd wrth gefn Dal Grantiau - cronfeydd wrth gefn sy'n dal swm unrhyw grant a dderbyniwyd nad yw wedi cael ei ddefnyddio;
- Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd - cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi i wasanaethau ar gyfer cynnal prosiectau penodol.

**4.2** Dangosir balans y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2018 a'r balans rhagamcanedig ar gyfer 31 Mawrth 2019 ar gyfer pob un o'r categorïau yn Nhabl 1 isod (atodir dadansoddiad llawn o bob categori fel Atodiad B):-

**Tabl 1**
**Crynodeb o Falansau Cronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd**

| Categori'r Gronfa Wrth Gefn | Balans ar 31 Mawrth 2018 £ | Newid yn Ystod 2018/19 £ | Balans Rhagamcanedig ar gyfer 31 Mawrth 2019 £ |
|---|---|---|---|
| Cyfalaf | 1,137,601 | 24,109 | 1,161,710 |
| Cyfyngedig | 2,051,284 | -20,000 | 2,031,284 |
| Tal Cyfartal | 813,102 | -713,102 | 100,000 |
| Cronfa Yswiriant | 1,250,000 | 0 | 1,250,000 |
| Grant | 162,198 | -60,053 | 102,145 |
| Clystnodwyd | 4,495,933 | 631,697 | 5,127,630 |
| **CYFANSWM** | **9,910,118** | **-137,349** | **9,772,769** |

**4.3** Mae'r gronfa wrth gefn gyfyngedig yn cynnwys nifer o gronfeydd wrth gefn unigol sylweddol: Cefnogi Pobl £759k, Datblygiadau Mawr £592k a chronfa wrth gefn Gwaith Trin Gwastraff Gogledd Cymru £1.18m. Defnyddir cronfa wrth gefn Gwaith Trin Gwastraff Gogledd Cymru yn ystod y blynyddoedd i ddod, mae gwaith adeiladu'r gweithfeydd eisoes wedi cychwyn.

**4.4** Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant wedi asesu bod angen £1.25m er mwyn sicrhau bod digon ar gael i dalu am golledion anyswiriedig posibl a thaliadau dros ben.

**4.5** Mae'r Gronfa wrth Gefn CRT wedi'i chlustnodi a dim ond i gyllido gwariant sy'n gysylltiedig â'r CRT y gellir ei defnyddio. Mae'r cynllun 30 mlynedd newydd sydd heb ei awdurdodi eto'n rhagweld y caiff y gronfa wrth gefn ei defnyddio'n llawn erbyn 2020/21, a'i bod yn bosibl y gallai gyllido cartrefi newydd arwain at ofyniad benthyca bach.

## 5. ARGYMHELLION

**5.1** Gofynnir i’r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo’r argymhellion canlynol:-

**1.** Nodi’r polisi cyffredinol ynglŷn â chronfeydd wrth gefn a balansau fel y nodir hynny yn Atodiad A;

**2.** Cymeradwyo'r newid i'r polisi cyffredinol ar gronfeydd wrth gefn a balansau ym mhwynt 8 cronfeydd wrth gefn y gwasanaeth yn Atodiad A;

**3.** Pennu isafswm balansau cyffredinol o £6.76m ar gyfer 2019/20 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151;

**4.** Cynllunio ar gyfer cynnydd mewn balansau cyffredinol dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd er mwyn sicrhau bod lefel wirioneddol y cronfeydd wrth gefn yn cyrraedd y lefel isaf. Cyflawnir y cynnydd hwn trwy gyllidebu ar gyfer gwargedau blynyddol a gynllunnir.

**5.** Cadarnhau parhad y cronfeydd wrth gefn presennol a glustnodwyd, Atodiad B.

**6.** I gymeradwyo trosglwyddo cronfa ymyl y gofal o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol

**ATODIAD A**

**POLISI CYFFREDINOL AR GRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU**

**1. Pwrpas**

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn gynnal cronfeydd wrth gefn ariannol digonol er mwyn bodloni anghenion y sefydliad. Pwrpas y polisi hwn yw nodi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi i'r Cyngor yr hyblygrwydd sydd ei angen arno, a hefyd er mwyn sicrhau y'u defnyddir i ychwanegu gwerth i'r sefydliad.

**2. Cyd-destun Rheoleiddiol**

Mae Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ei angen ar gyfer gwariant a amcangyfrifir yn y dyfodol wrth gyfrifo gofynion y gyllideb.

Nid oes yna isafswm cronfeydd wrth gefn penodol y dylai awdurdod ei ddal, ac mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Adran 151 adrodd yn ffurfiol ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig pan bennir gofynion y gyllideb ac i sicrhau bod yna brotocolau allweddol ar gyfer eu pennu a'u defnyddio.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r fframwaith ar gyfer defnyddio a rheoli cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, yn unol â Chôd Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (CIPFA/LASAAC) ac y cytunir ag ef mewn polisïau cyfrifyddu.

**3. Mathau o Gronfeydd Wrth Gefn**

Gellir categoreiddio cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy mewn dwy ffordd:-

Cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar gyfer lliniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau; a

Chronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd sydd, fel arfer, yn cael eu cynyddu er mwyn talu am rwymedigaethau hysbys neu rwymedigaethau a ragwelir.

Fel arfer caiff Cronfeydd wrth gefn Refeniw a Glustnodwyd eu creu a'u dal am un o'r pum prif reswm isod:-

- **i.** Adnewyddu – er mwyn galluogi gwasanaethau i gynllunio a chyllido rhaglen effeithiol o adnewyddu cerbydau ac offer a gwaith cynnal a chadw eiddo a gynllunnir. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn fecanweithiau ar gyfer hwyluso gwariant fel y gellir cyflawni rhaglen adnewyddu resymol heb yr angen i amrywio cyllidebau.
- **ii.** Tanwariant a ddygir ymlaen - mae rhai gwasanaethau yn ymrwymo gwariant i brosiectau, ond heb allu gwario'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Defnyddir y cronfeydd wrth gefn fel mecanwaith i gario'r adnoddau hyn ymlaen.
- **iii.** Cyfrifon masnachu - mewn rhai achosion, cedwir gwargedion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.
- **iv.** Cronfa wrth gefn Yswiriant - er mwyn talu am yr hawliadau sy'n cael eu rhagamcanu yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Cyngor i dalu am y taliadau dros ben nad yw'r yswiriant yn atebol amdanynt.
- **v.** Bydd cronfeydd wrth gefn eraill a glustnodwyd yn cael eu sefydlu o dro i dro er mwyn talu am rwymedigaethau hysbys neu rwymedigaethau a ragamcanir, er enghraifft, pwysau ar alwadau cyllidebau a ragamcanir yn y dyfodol.

Er bod cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu sefydlu at ddiben penodol, mae cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn gronfeydd na chyfyngir ar y defnydd a wneir ohonynt. Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn o'r fath i liniaru effaith pwysau sylweddol o un flwyddyn i'r llall, i wrthbwyso'r gofynion ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn a lliniaru risgiau digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.

Hefyd, gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol er mwyn cefnogi buddsoddiadau a ddyluniwyd i sicrhau mwy o arbedion yn y gyllideb sylfaenol.

## 4. Rheoli Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddal a chynnal cronfeydd wrth gefn, ond mae hefyd yn cydnabod, drwy ddal neu gynyddu cronfeydd wrth gefn, bod y Cyngor yn clustnodi adnoddau rhag cael eu defnyddio at ddibenion eraill posibl ac, o ganlyniad i hynny, mae yna 'gost cyfle' sy'n gysylltiedig â dal balansau fel cronfeydd wrth gefn. Oherwydd hyn, mae'n bwysig sefydlu fframwaith eglur, a adolygir yn rheolaidd, y gellir ei defnyddio i reoli'r cyfryw gronfeydd wrth gefn.

Mae rheoli cronfeydd ariannol wrth gefn yn elfen allweddol o strategaeth ariannol gyffredinol y Cyngor, ac mae iddi ddau amcan allweddol:-

- Cynnal cyllidebau sefydlog a chynaliadwy drwy gydol y tymor canolig; a
- Sicrhau bod adnoddau yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau.

Mae'r gydnabyddiaeth a roddir i'r angen i reoli risg yn tanategu'r broses o wireddu'r amcanion hyn. Gall hyn fod yn fwy o risg o ansefydlogrwydd mewn tybiaethau cynllunio wrth i'r cyfnod economaidd ansicr barhau, neu'r risg i gyllideb Llywodraeth Cymru o ganlyniad i adolygiadau cyllido sylweddol yn y dyfodol. Fodd bynnag, efallai bydd y busnes am gymryd mwy o risgiau busnes drwy fabwysiadu dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau er mwyn cyrraedd targedau anodd mewn perthynas ag arbedion. Po fwyaf y risgiau, y mwyaf yw'r cronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn debygol o fod angen dal gafael arnynt er mwyn lliniaru yn erbyn hynny. Mae'n rhaid i werthfawrogi risgiau o'r fath fod yn flaenllaw yn ystyriaethau'r Swyddog Adran 151.

## 5. Mesur yr angen am Gronfeydd Wrth Gefn

Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn un o nifer o benderfyniadau cysylltiedig wrth ffurfio'r Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) a'r gyllideb flynyddol. Wrth wneud y penderfyniad hwn mae angen ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn benodol, mae'r CATC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu a chynnal cronfeydd wrth gefn cyffredinol i dalu am y risgiau ariannol allweddol fydd yn ei wynebu.

Bydd angen i'r Swyddog Adran 151 ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu ar union lefelau'r cronfeydd wrth gefn, ac mae nifer ohonynt yn golygu asesu risg y tybiaethau sy'n gynwysedig yn y gyllideb a'r CATC, yn ogystal â sefyllfa ariannol y Cyngor a sut y rheolir ei arian.

Nodir y ffactorau allweddol isod:-

Rhagdybiaethau'r Gyllideb;
Sefyllfa ariannol a rheolaeth ariannol;
Gofynion cyffredinol ar y llif arian, y rhagolwg ar gyfer chwyddiant a chyfraddau llog;
Sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor (lefel y benthyciadau, dyled a.y.y.b.);
Amcangyfrif o lefel ac amseru'r derbyniadau cyfalaf;
Hanes y Cyngor mewn perthynas â rheoli'r gyllideb a rheolaeth ariannol, yn cynnwys cadernid ei gynlluniau tymor canolig;
Ystod posibl costau gwasanaethau a arweinir gan y galw;
Capasiti'r Cyngor i reoli pwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn;
Arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd / enillion cynhyrchiant;
Cryfder y wybodaeth ariannol a'r trefniadau adrodd;
Y risgiau ariannol sy'n rhan annatod mewn unrhyw bartneriaethau cyllido newydd sylweddol;
Trefniadau allanoli mawr neu ddatblygiadau cyfalaf mawr;
Trefniadau trosglwyddo'r Cyngor a'r gweithdrefnau diwedd blwyddyn mewn perthynas â than/gorwariant yn y gyllideb;
Argaeledd cronfeydd eraill er mwyn talu am hapddigwyddiadau mawr a digonolrwydd darpariaethau;
Digonolrwydd trefniadau yswiriant y Cyngor er mwyn talu am risgiau anrhagweladwy mawr.

Bydd gwerthusiad gwrthrychol o'r ffactorau yma'n cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn penderfynu ar lefel ddarbodus cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn seiliedig ar asesiad o'r ffactorau uchod. Fodd bynnag, mae lefel derfynol y cronfeydd wrth gefn yn y pen draw yn ddarostyngedig i farn y Swyddog Adran 151, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

Fel rhan o'r argymhellion cyllideb blynyddol i'r Cyngor, bydd y Swyddog Adran 151 yn amlygu'r symiau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer y cronfeydd wrth gefn.

## 6. Cynyddu Cronfeydd Wrth Gefn

Petai'r Swyddog Adran 151 yn ystyried y dylid cynyddu lefel y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol, byddai hynny'n cael ei gyflawni fel rhan o'r broses o bennu cyllideb, gan bennu dyraniad o'r gyllideb flynyddol er mwyn cyrraedd lefel y balans a ddymunir. Dylai cyfraniadau i ac o'r Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol gael eu hadolygu'n flynyddol. Bydd hyn yn ychwanegol at unrhyw symiau fydd eu hangen i ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn flaenorol, er mwyn cynnal isafswm lefel y cronfeydd wrth gefn.

Bydd cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu sefydlu yn 'seiliedig ar angen' yn unol â'r gofynion a gynlluniwyd neu a ragdybiwyd, a byddant yn destun cymeradwyaeth Pwyllgor, fel arfer fel rhan o adroddiad blynyddol ar y cronfeydd wrth gefn sy'n rhan o'r adroddiad diwedd blwyddyn.

Yn achos pob cronfa wrth gefn o'r fath, bydd y Cyngor yn diffinio:-

Pwrpas y gronfa wrth gefn;
Sut a phryd y gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn;
Gweithdrefnau ar gyfer rheoli a defnyddio'r gronfa wrth gefn;
Proses ac amserlen ar gyfer adolygu'r gronfa wrth gefn er mwyn sicrhau perthnasedd a digonolrwydd parhaus. Fel rheol bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn.

## 7. Defnyddio'r Cronfeydd Wrth Gefn

Unwaith yn unig y gellir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn, ac oherwydd hynny ni ddylid eu defnyddio fel arfer i gyllido gwariant cylchol a gynlluniwyd - er enghraifft ni fyddai'n ddisgwyliedig iddynt gael eu defnyddio i 'falansio'r gyllideb' heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.

Pan fo cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gefnogi cyflawni'r gyllideb yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, er enghraifft i leihau effaith amrywiadau cyllidebu neu wasgfeydd yn ystod nifer o flynyddoedd, dylai'r Cyngor sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu hailgyflenwi yn ystod y flwyddyn ganlynol os bydd angen.

Pan fo'r Cyngor wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol at ddibenion buddsoddi er mwyn cynhyrchu arbedion, fel rheol byddai'r rhain hefyd yn cael eu had-dalu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ganlynol. Mewn amgylchiadau eithriadol, megis lleihau effeithiau tocio gwasanaethau ar ddefnyddwyr a dinasyddion, byddid yn caniatáu mwy o amser i ailgyflenwi, hyd at uchafswm o bedair blynedd, yn unol â'r cylch cynllunio tymor canolig.

Bydd y defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151, a'r Pwyllgor Gwaith mewn rhai amgylchiadau. Hefyd, bydd creu cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 a, phan fo'r gymeradwyaeth honno wedi cael ei rhoi, gellir tynnu arian o'r gronfa wrth gefn yn ddarostyngedig i fodloni'r meini prawf.

Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo cronfeydd wrth gefn cyffredinol wedi cael eu gwagio o ganlyniad i bwysau anrhagweladwy ar wariant yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol benodol, byddai'r Cyngor yn gallu tynnu arian o'i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd er mwyn darparu adnoddau tymor byr, ond ni fyddai hynny'n gynaliadwy, a byddai angen adfer y balansau.

Ni fyddai cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sydd wedi'u defnyddio i dalu am rwymedigaeth benodol yn cael eu hailgyflenwi, ar ôl cyflawni'r diben y'u sefydlwyd ar ei gyfer yn wreiddiol.

## 8. Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau

Gellir creu cronfeydd wrth gefn gwasanaethau unigol ar gyfer 2019/20. Bydd y balans ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer pob gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo'n awtomatig i gronfa wrth gefn gwasanaeth. Caiff pob gwasanaeth ei hysbysu o'i balans unwaith y bydd Datganiad y Cyfrifon wedi'i gynhyrchu.

Pan fydd gwasanaeth wedi tanwario yn ystod y flwyddyn ariannol, bydd y balans i uchafswm o 2.5% o'u cyllideb net neu £75k cronnol, pa un bynnag sydd uchaf, yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn, a bydd unrhyw danwariant uwchlaw'r swm hwn yn cael ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol.

Bydd unrhyw orwariant gan wasanaeth yn cael ei drosglwyddo yn ei gyfanrwydd i'r gronfa wrth gefn. Yna bydd angen i'r gwasanaeth lunio cynllun o'r ffordd y bydd yn ad-dalu'r gorwariant hwn a thros ba amserlen, bydd hyn yn amodol ar gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 ac, mewn rhai achosion, y Deiliydd Portffolio dros Gyllid neu'r Pwyllgor Gwaith.

Lle mae gwasanaeth wedi profi cynnydd sylweddol yn y galwad am wasanaeth a bo hyn yn golygu gwario mwy na'r gyllideb sydd ar gael, bydd hawl gan y Pennaeth Gwasanaeth i ofyn am i'r gorwariant gael ei gyllido o falansau cyffredinol y Cyngor yn hytrach na arian wrth gefn y gwasanaeth. Bydd unrhyw gais yn amodol ar gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 a'r Deilydd Portffolio Cyllid.

## 9. Cronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019/20 yn defnyddio'r holl gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn llawn hyd at y lefel lleiafswm. Hyd yma, nid yw derbyniadau cyfalaf gwerthiant asedau strategol disgwyliedig yn y dyfodol wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf.

Mae strategaethau rheoli asedau da yn cynnwys ailgyflenwi asedau yn dilyn gwerthiant asedau strategol, fel y bydd yna asedau o werth strategol ar y fantolen ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Mae'r derbyniadau cyfalaf a ddaw o werthiant asedau strategol o'r fath yn ffynhonnell werthfawr o gyllid cyfalaf ond, yn yr un modd, mae angen ail-fuddsoddi cyfran o'r derbyniadau hyn naill ai ar gyfer enillion refeniw neu ar gyfer buddsoddi mewn asedau eraill a fydd, gydag amser, yn cynyddu yn eu gwerth ac yn ffurfio rhan o gyllid cyfalaf blynyddoedd y dyfodol.

Dylid clustnodi cyfran o'r holl dderbyniadau cyfalaf o asedau strategol ar gyfer ei hail-fuddsoddi, naill ai ei buddsoddi er mwyn creu ffynonellau cyllid yn y dyfodol neu er mwyn creu ffrwd o incwm refeniw.

Bydd cronfa wrth gefn Buddsoddi Cyfalaf yn cael ei chreu ac, ar ôl derbyn enillion o werthiannau, bydd cyfran yn cael ei ychwanegu i'r gronfa wrth gefn hon. Bydd cynlluniau cyfalaf sydd naill ai yn cynnig ail-fuddsoddi mewn asedau neu ffrydiau incwm refeniw yn cael eu hystyried ar gyfer eu cyllido gan y gronfa wrth gefn hon a glustnodwyd, er mwyn ategu cynlluniau'r rhaglen gyfalaf bresennol a gyllidir gan gronfeydd wrth gefn derbyniadau cyfalaf cyffredinol.

Yn yr un modd, bydd y cronfeydd cyfalaf a glustnodwyd ar gyfer Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael eu hailgyflenwi gan y derbyniadau cyfalaf a ddaw o werthu'r eiddo a brynwyd. Yna bydd hyn yn sylfaen i gronfa dreigl ar gyfer y gorchmynion prynu gorfodol a roddir.

## 10. Cronfa Wrth Gefn Yswiriant

Cafodd ffigwr y gronfa wrth gefn yswiriant ei gynyddu'n hanesyddol dros gyfnod o amser er mwyn talu am golledion o dan y polisïau yswiriant mwy.  Bydd lefel y Gronfa wrth gefn Yswiriant yn cael ei hadolygu yn flynyddol o leiaf gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant ac yn destun cymeradwyaeth y Swyddog Adran 151.

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Fel ar 31 Marwth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymunedol- Gwasanaethau Tai | Pobl Fregus Corfforaethol | **CLUSTNODWYD** | 570,000 | Na | Ydyw - Mae angen hwn ar gyfer prosiectau Byw â Chymorth er mwyn gwneud iawn am doriadau i gyllid Cefnogi Pobl - penderfyniad Pwyllgor Gwaith | 570,000 |
| Corporate | Cyfraniadau Refeniw na chymhwyswyd | **GWARIANT CYFALAF** | 1,137,601 | Na | Ydyw – Mae cynlluniau prosiect yn rhychwantu mwy nag un flwyddyn ariannol. Balans a ddelir fel arian wrth gefn i gyllido gwariant cyfalaf | 1,161,710 |
| Corfforaethol | Prosiect Northgate | **CLUSTNODWYD** | 52,433 | Na | Oes – Mae cynlluniau prosiect yn rhychwantu mwy nag un flwyddyn ariannol, y dyddiad terfyn arfaethedig yw Mai 2019 | 0.00 |
| Corfforaethol | Cost newid | **CLUSTNODWYD** | 343,986 | Na | Ydyw – Prosiectau cost newid ychwanegol oedd angen ei gyllido | 250,000 |

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Ar 31 Mawrth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw'r cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Tâl Cyfartal | **TÂL CYFARTAL** | 813,102 | Na | Ydyw - Rhagwelir y caiff yr ymarfer ei gwblhau yn gynnar yn 2019/20 | 100,000 |
| Corfforaethol | Buddsoddi i Arbed | **CLUSTNODWYD** | 652,349 | Na | Ydyw - Mae cynlluniau yn rhychwantu mwy nag un blwyddyn ac mae pob prosiect ar wahanol lefel | 620,103 |
| Corfforaethol | Prosiectau a gyllidir gan Arian Wrth Gefn Cyfyngedig | **CLUSTNODWYD** | 38,692 | Na | Ydyw - Mae cynlluniau yn rhychwantu mwy nag un blwyddyn | 38,692 |
| Corfforaethol - Adnoddau | Cronfa wrth gefn Yswiriant (Trychineb) | **CRONFA YSWIRIANT** | 1,250,000 | Na | Ydyw – Ystyrir fod lefel yr arian wrth gefn yn dderbyniol gan y Rheolwr Yswiriant ar gyfer Awdurdod o'n maint | 1,250,000 |
| Busnes y Cyngor – Cyfreithiol | System gyfrifiadurol Pridiannau Tir | **CLUSTNODWYD** | 8,100 | Na | Ydyw - Mae'r gwaith i uwchraddio'r system Arcus wedi'i ohirio oherwydd problemau yn ystod y gwaith ar y system Gynllunio, a chan salwch staff | 8,100 |

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Ar 31 Mawrth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw'r cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnes y Cyngor - Polisi | System Rheoli Polisi | **CLUSTNODWYD** | 8,363 | Na | Ydyw - Bydd angen y gweddill i dalu am y drwydded 4policies yn 2019/20. Yna, bydd angen ei ychwanegu at y gyllideb ar gyfer 2020/21 | 8,363 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd | Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd – Grant Llifogydd | **CYFYNGEDIG** | 36,473 | Na | Ydyw – Grant Llywodraeth Cymru ond mae gwaith wedi'i ohirio gan fod blaenoriaeth wedi ei roi i gyflwyno'r system SuDs. Bydd y gwaith yn ailddechrau unwaith y bydd SuDs wedi'u sefydlu. | 36,473 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd | Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd - Grant Llwybr Arfordirol | **CYFYNGEDIG** | 7,575 | Na | Ydyw - Efallai y caiff ei wario'n rhannol ond mae gwaith yn mynd rhagddo | 7,575 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd | Cronfa Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd – Incwm Maes Parcio Maes Awyr | **CYFYNGEDIG** | 2,401 | Na | Ydyw – Cronfeydd sy'n eiddo i LlC i'w defnyddio ym Maes Awyr Môn. Mae'r gwaith ar y maes awyr yn parhau | 2,401 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd | Gwaith Cynnal a Chadw y Gaeaf | **CLUSTNODWYD** | 54,479 | Yn dibynnu ar y tywydd am weddill misoedd y gaeaf | Ydyw - Os bydd y tywydd yn parhau'n fwyn y Gaeaf hwn, mae'n debygol y bydd Priffyrdd yn ychwanegu at y gronfa hon ar gyfer blynyddoedd i ddod | 54,480 |

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Ar 31 Mawrth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw'r cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Gwario i Arbed – Toiledau Cyhoeddus | **CLUSTNODWYD** | 8,906 | Na | Ydyw – Disgwyl canlyniadau y Strategaeth Toiledau a chostau uwch glanhau y toiledau sy'n weddill | 8,906 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Cronfa Wrth Gefn Gwastraff/Ailgylchu | **GRANT** | 121,768 | Na | Ydyw - gan y nododd amodau'r grant bod tanwariant i gael ei ailddefnyddio at ddiben ailgylchu | 61,715 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Gwaith Trîn Gogledd Orllewin Cymru | **CYFYNGEDIG** | 1,181,799 | Gallai fod ym mis Mawrth 2019 ond yn fwy tebygol o fod yn y flwyddyn ariannol newydd | Ydyw - Gan bydd y gweithfeydd yn weithredol o ddechrau blwyddyn ariannol 2019/20, bydd hyn yn arwain at gostau cynyddol cychwynnol a thaliad adeiladu gorsaf drosglwyddo | 1,181,799 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Incwm Proses Ailgylchu | **CYFYNGEDIG** | 635,130 | Na | Ydyw - Mae amodau grant LlC yn mynnu bod rhaid defnyddio hwn at ddibenion ailgylchu yn y dyfodol | 635,130 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | Maes Awyr Priffyrdd | **CYFYNGEDIG** | 86,488 | Na | Ydyw - LlC yn y broses o adolygu sut y bydd hyn yn cael ei wario | 86,488 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff - Eiddo | Rhesymoli Rheoli Asedau | **CLUSTNODWYD** | 42,656 | Na | Ydyw - Rhan o resymoli asedau. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer Wendon (Benllech), Ysgol y Parc a Llyfrgell Caergybi | 42,656 |

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Ar 31 Mawrth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw'r cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff - Eiddo | Dymchwel y Rova Cabin | **CLUSTNODWYD** | 28,000 | Ydyw | | 0 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | Pier Biwmares -paentio | **CLUSTNODWYD** | 74,968 | Na. Mae Swyddog Adran 151 wedi gofyn am iddo gael ei ohirio tan y flwyddyn ariannol newydd. Mae'r amser yn addas i'r adran gan fod y tywydd yn debygol o fod yn well. | Ydyw - Mae paentio'n debygol o fynd ymlaen ym mis Mai | 74,968 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff - Priffyrdd | Isadeiledd arhosfa bysiau | **CLUSTNODWYD** | 133,475 | Ydyw | Os na wariwyd y grant, caiff ei grafangu'n ôl gan LlC | 133,475 |
| Tai | Darpariaeth Digartrefedd | **CLUSTNODWYD** | 88,312 | Na | Ydyw - Mae digartrefedd yn 'seiliedig ar alw' ac, yn ffodus, mae gaeaf 2018 wedi bod yn fwyn. Mae angen cronfa wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod | 88,312 |

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Ar 31 Mawrth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw'r cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai | Gwelliannau Landlord /Tenant | **CLUSTNODWYD** | 5,000 | Na | Ydyw - Prosiect wedi llithro i 2019/20 | 5,000 |
| Tai | Tai Fforddiadwy | **CLUSTNODWYD** | 99,000 | Na | Ydyw - Prosiect wedi llithro i 2019/20 | 99,000 |
| Tai | Rheoli Tai | **CLUSTNODWYD** | 6,300 | Na. | Ydyw - Mae'r prosiect y clustnodwyd hwn ar ei gyfer wedi'i ohirio oherwydd newidiadau ym mholisi LlC | 6,300 |
| Tai | Cefnogi Pobl | **CLUSTNODWYD** | 759,143 | Na | Ydyw - Mae cynlluniau'n rhychwantu mwy nag un flwyddyn ariannol. Dim ond gyda chymeradwyaeth Bwrdd Rhanbarthol y gellir gwario arian | 759,143 |
| Dysgu – Addysg | Cronfa wrth gefn Dyddiau Ysgol | **CYFYNGEDIG** | -66,130 | Rhaid i'r rhain gael eu dwyn ymlaen gan eu bod yn cael eu dirprwyo i ysgolion. | Ydyw - Balans llawn. Mae hon yn gronfa ddirprwyedig i bob ysgol a defnyddir hi i wneud iawn am yr amrywiadau rhwng y flwyddyn ysgol yn dibynnu ar ba bryd mae'r Pasg yn disgyn ar y calendr. Mae'r gronfa wrth gefn mewn diffyg ac ni fydd yn cael ei defnyddio i wneud iawn am ddiwrnodau ychwanegol, ond bydd yn cael ei ychwanegu yn y blynyddoedd pan fydd dyddiau ysgol yn lleihau hyd nes y caiff y gronfa wrth gefn ei chlirio ac, yn dilyn hynny, ni fydd angen cronfa wrth gefn mwyach. Bydd balans y diffyg yn parhau y tu hwnt i 2018/19 | -66,130 |

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Ar 31 Marwth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw'r cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu – Addysg | Cynllun Salwch / Hysbysebu – Cynradd | **CYFYNGEDIG** | -26,523 | Anhysbys. Rhaid i'r rhain gael eu dwyn ymlaen gan eu bod yn cael eu dirprwyo i ysgolion. | Ydyw - Balans llawn - mae hwn yn gyllideb ddirprwyedig. Ar ddiwedd 2017/18, roedd y gronfa wrth gefn mewn sefyllfa ddiffygiol. Cynyddwyd y premiwm a godir ar ysgolion yn 2018/19 i glirio'r diffyg hwn, ac i adlewyrchu'r galw parhaus ar y gronfa wrth gefn | -26,523 |
| Dysgu – Addysg | Rhesymoli Ysgolion | **CYFYNGEDIG** | 21,656 | Rhan fwyaf o'r gronfa wrth gefn yn debygol o gael ei ddefnyddio yn 2018/19. | Ydyw – Balans llawn – cyllideb ddirprwyedig yw hon. | 21,656 |
| Dysgu Gydol Oes – Diwylliant | Cronfa Prynu'r Amgueddfa | **CYFYNGEDIG** | 22,415 | Dyma arian a godwyd trwy gyfraniadau a wnaed i'r Oriel ac na ellir eu defnyddio at unrhyw bwrpas arall. | Ydyw - Balans llawn. Cyllid wedi'i neilltuo o roddion na ellir ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas arall yw hwn | 2,415 |

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Ar 31 Mawrth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw'r cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes – Addysg | Buddsoddi i arbed - system daliadau ar-lein awtomataidd ar gyfer taliadau ysgolion ar gyfer prydau bwyd | **CLUSTNODWYD** | 25,542 | Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn 2018/19. | Ydyw - Efallai y bydd gofyn i'r Awdurdod uwchraddio'r system Cunninghams mewn Ysgolion Uwchradd yn ystod 2019/20 | 25,542 |
| Rheoleiddio - Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cronfa Wrth Gefn Trwydded | **CLUSTNODWYD** | 23,000 | Na | Ydyw - Dangosodd profi'r farchnad meddalwedd databas mis Mai diwethaf nad oedd unrhyw ddarparwr mewn sefyllfa i ddiwallu anghenion / manyldeb busnes y defnyddiwr. Mae Achos Busnes arall bellach yn cael ei ddatblygu a rhagwelir y bydd peth o'r gronfa wrth gefn yn cael ei ddefnyddio erbyn diwedd Mawrth, ond dim ond cyfran fach. Bydd gofyn i'r gweddill gyllido ateb meddalwedd yn y dyfodol. | 23,000 |
| Rheoleiddio - Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cynllun Datblygu Lleol | **CLUSTNODWYD** | 168,700 | Na | Ydyw - Yn ofynnol am hyd y contract | 167,517 |

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | 31 Mawrth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw'r cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio - Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cynllun Datblygu Lleol | **CLUSTNODWYD** | 168,700 | Na | Ydyw - Yn ofynnol am hyd y contract | 167,517 |
| Rheoleiddio - Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cronfa Wrth Gefn Prynu Gyda Hyder | **CLUSTNODWYD** | 3,878 | Nid cronfa wrth gefn yw hwn, mae'n gyfrif ar wahân a grëwyd i ddelio â materion Prynu Gyda Hyder. Mae angen ei gadw gan y Swyddogaeth Gwarchod y Cyhoedd. | Bydd angen dwyn ymlaen y mwyafrif o'r gronfa wrth gefn i'r flwyddyn ariannol 2019/20. Mae ei angen ar gyfer gwaith parhaus | 3,878 |
| Rheoleiddio - Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Costau Cyfreithiol Cynllunio | **CLUSTNODWYD** | 22,375 | Na | Ydyw - Yn ofynnol ar gyfer unrhyw achosion cyfreithiol yn y dyfodol | 22,375 |
| Rheoleiddio - Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Model Darogan Dŵr Nofio | **CLUSTNODWYD** | 10,000 | Na | Ydyw - Mae hyn wedi'i gadw i dalu am waith cynnal a chadw dros y 9 mlynedd ariannol nesaf, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2028 | 10,000 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | Datblygiadau Mawr | **CLUSTNODWYD** | 265,113 | | | 265,113 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | Cronfa Wrth Gefn Ynys Ynni Datblygu Economaidd | **CLUSTNODWYD** | 8,182 | | | 8,182 |

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Ar 31 Mawrth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw'r cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | Parc Gwledig Morglawdd | **CLUSTNODWYD** | 2,950 | Na, mae canfyddiadau ymgynghori cychwynnol wedi nodi nad yw'r cynllun yn hyfyw yn ariannol ar hyn o bryd. Mae'n debyg y bydd angen y cyllid sy'n weddill i ddatblygu cynllun busnes newydd. | Bydd angen cyllid i ddatblygu cynllun busnes newydd yn y flwyddyn ariannol newydd | 2,950 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | Datblygiadau Mawr | **CLUSTNODWYD** | 591,689 | | | 591,689 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Hamdden | Hamdden (Cais TAW) | **CLUSTNODWYD** | 0 | Bydd oddeutu £50k yn cael ei wario ar ymgynghorwyr a gomisiynwyd i edrych ar fodel cyflenwi arall ar gyfer y swyddogaeth Hamdden. | Efallai bydd angen y cyllid sy'n weddill ar gyfer gwella'r swyddogaeth Hamdden, yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr ymgynghorwyr sy'n edrych ar y model cyflwyno amgen | 750,000 |
| Adnoddau | Refeniw a Budd-daliadau | **CLUSTNODWYD** | 42,936 | Na | Ydyw – Mae rhan o'r gronfa wrth gefn eisoes wedi'i neilltuo i gyllido gwaith ôl-sganio a darpariaeth salwch | 35,936 |

| Cyfadran | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Ar 31 Mawrth 2018 | A yw'r gronfa wrth gefn yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2018/19? | A yw'r cais i ddwyn ymlaen i 2019/20 yn debygol? | Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Civica | **CLUSTNODWYD** | 16,486 | Ydyw | | 0 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Iechyd Meddwl Gwasanaethau Oedolion | Cronfa Wrth Gefn Adran 117 | **CYFYNGEDIG** | 150,000 | Na | Ydyw – Gall cais Adran117 gael ei cyflwyno, amcangyfrifir costau o tua £140k | 150,000 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Trawsnewid | **CLUSTNODWYD** | 74,459 | Na | Ydyw - Bydd y rhan fwyaf o hyn yn cael ei wario yn 2018/19 ond bydd balans gweddilliol sydd eisoes wedi'i ymrwymo ar gyfer ffioedd Ymgynghoriaeth ar gyfer 2019/20 | 41,205 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Contractau | **CLUSTNODWYD** | 144,737 | Na | Ydyw - Mae Swyddog Adran 151 wedi cytuno ar hyn eisoes i dalu costau staff asiantaeth Plant ar gyfer 2019/20. Rhagwelir oddeutu £180k i'w rholio drosodd | 412,745 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Trothwy Gofal | **CLUSTNODWYD** | 121,724 | Na | Ydyw - Er bod y Gwasanaeth wedi derbyn £150k / flwyddyn yn y gyllideb graidd, felly, trosglwyddir y balans I'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 0 |
| Trawsnewid – AD | SCWDP | **GRANT** | 40,430 | Na | Mae hwn yn grant, felly, bydd angen ei gadw hyd nes y bydd ei angen. Fe'i sefydlwyd i ddarparu clustog pe bai'r grant yn cael ei leihau | 40,430 |
| | | | **9,910,118** | | | **9,772,769** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 CHWEFROR 2019** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB AR GYFER 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau**

## 1. Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB REFENIW 2019/20

### 1.1 Pwrpas

Mae gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2019/20. Bydd hyn wedyn yn golygu y gellir cyflwyno'r argymhellion terfynol i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019. Y materion y mae angen cytuno arnynt yw:-

- Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 yn sgil hynny;
- Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor wedi ei ddiweddaru;
- Defnydd o arian unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

### 1.2 Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y cynigion manwl ar gyfer y gyllideb refeniw y mae angen eu hadolygu a'u cytuno'n derfynol ar gyfer 2019/20 a'u heffaith wedyn ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r rhain yn faterion i'r Cyngor gytuno arnynt a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno ei argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae'r adroddiad hefyd yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol sy'n darparu cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd gwybodaeth bellach am yr economi a'r setliad arfaethedig i lywodraeth leol yn y dyfodol yn eglurach efallai.

## 2. ARGYMHELLION YNGHYLCH Y GYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR AR GYFER 2019/20

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith :-

- Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd yn eu sgil ac fel yr amlinellir yn Adran 2, Atodiad 1 ac yn Atodiad 2;
- Nodi'r crynodeb o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gynigion y gyllideb fel yr amlinellir yn Adran 11 ac yn Atodiad 5;
- Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, gan gynnwys y cyllid diwygiedig mewn ymateb i'r pwysau ar y gyllideb a'r arbedion arfaethedig fel y dangosir nhw yn Adran 8, Atodiad 1 ac yn Atodiad 3;

- Penderfynu sut i ddyrannu'r toriad arfaethedig i gyllideb datganoledig ysgolion rhwng y 3 sector fel yr amlinellir yn Adran 9.5, Atodiad 1.
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 bod o leiaf £6.7m yn cael ei gadw ym malansau cyffredinol ar gyfer 2019/20;
- Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed, fel y cânt eu hamlinellu yn Adran 6, Atodiad 1;
- Argymell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir a'r cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor o ganlyniad, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, yn cynnwys y Praeseptau i Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 27 Chwefror 2019;
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;
- Cytuno y bydd unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan y galw yn ystod y flwyddyn ariannol yn gallu tynnu ar gyllid o'r cyllidebau digwyddiadau annisgwyl cyffredinol;
- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb digwyddiadau annisgwyl gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y pŵer i ryddhau hyd at £50k o'r gronfa digwyddiadau annisgwyl gyffredinol ar gyfer unrhyw un eitem. Ni chaniateir cymeradwyo unrhyw eitem dros £50k heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Gwaith;
- Argymell cynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor i'r Cyngor llawn;
- Cymeradwyo cynyddu'r Premiwm Treth Gyngor ar ail gartrefi o 25% i 35% a chymeradwyo cynyddu'r Premiwm Dreth Gyngor ar dai gwag o 25% i 100%.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn rhyddhau'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Mae'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb yn cymryd i ystyriaeth y setliad terfynol i lywodraeth leol, y sylwadau a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

**C - Pam fod y penderfyniad hwn yn un i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gynnig terfynol ar gyfer y gyllideb cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

D/B

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (dewisol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o'r broses o osod y gyllideb ar ei hyd ac maent yn cytuno gyda'r adroddiad ac yn cefnogi'r cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | D/B – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r UDA ac, o'r herwydd, mae sylwadau'r swyddog wedi cael eu cymryd i ystyriaeth. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| 5 | **Eiddo** | - |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | - |
| 7 | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2019. Caiff diweddariad ei ddarparu yn Adran 9, Atodiad 1. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Gweler Adran 11, Atodiad 1 ac Atodiad 5 |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 - Adroddiad manwl ar y Cynigion ar gyfer y Gyllideb
- Atodiad 2 - Crynodeb o Ganlyniadau'r Broses Ymgynghori
- Atodiad 3 - Dadansoddiad o'r Arbedion Arfaethedig
- Atodiad 4 - Crynodeb o'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig ar gyfer 2019/20 fesul Gwasanaeth
- Atodiad 5 - Asesiadau Unigol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EA1 – EA8)

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae'r adroddiad canlynol yn nodi'r cynigion ar gyfer cyllideb refeniw 2019/20 ac mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor, Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, Ffioedd a Thaliadau a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor.

**1.2.** Gyrrir y gyllideb refeniw a'r angen parhaus i ddod o hyd i arbedion refeniw gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canol fel y cymeradwywyd hi gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2018 a gellir ei chrynhoi fel a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cynllun Ariannol Tymor Canol 2019/20 i 2021/22**

| | 2019/20 £'m | 2020/21 £'m | 2021/22 £'m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen | 130.95 | 131.73 | 133.59 |
| Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | 5.78 | 3.91 | 4.24 |
| **Cyllideb Ddiwygiedig** | **136.73** | **135.64** | **137.83** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | 94.85 | 94.85 | 94.85 |
| Y Dreth Gyngor | 36.88 | 38.74 | 40.67 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **131.73** | **133.59** | **135.52** |
| **Yr Arbedion y mae angen eu gwneud** | **5.00** | **2.05** | **2.31** |
| **Pryf Dybiaethau** | | | |
| Dyfarniadau Tâl – staff nad ydynt yn Athrawon | 3.1% | 2.0% | 2.0% |
| Dyfarniadau Tâl - Athrawon | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiwn Athrawon | 12.3% | 0.0% | 0.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| Lleihad yn yr AEF | -1.0% | 0.0% | 0.0% |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 5.0% | 5.0% | 5.0% |

**1.3.** Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith ei gynigion cyllideb cychwynnol yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2018 a chymeradwyodd Gyllideb Ddisymud gychwynnol o £137.402m ac, yn seiliedig ar y setliad dros dro, cyn unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor neu weithredu unrhyw arbedion, nodwyd bwlch cyllidebol o £7.156m. Roedd y cynigion drafft yn nodi arbedion refeniw posib o £3.747m, gan adael bwlch o £3.409m i'w gyllido drwy gynyddu'r Dreth Gyngor.

**1.4.** Cynigodd y Pwyllgor Gwaith gynyddu'r premiwm ar dai gwag i 100% a chynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 35% ac, ar ôl neilltuo cyllid ychwanegol ar gyfer cynlluniau i helpu prynwyr am y tro cyntaf, byddai £690k ychwanegol yn cael ei gynhyrchu. Byddai angen cynnydd o 7.55% yn y Dreth Gyngor i lenwi'r bwlch cyllido sydd yn weddill.

## 2. YMGYNGHORIAD Y CYNGOR

**2.1.** Cyhoeddodd y Cyngor ei gynigion ar gyfer y gyllideb ar 7 Tachwedd 2018 a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Rhagfyr 2018. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid, cydranddeiliaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad trwy wahanol ddulliau, gan gynnwys:-

- Cyfryngau Cymdeithasol;
- Ymateb trwy wefan y Cyngor;
- Ymateb yn uniongyrchol trwy lythyr neu e-bost.

**2.2.** Yn ogystal, fe gynhaliodd y Cyngor :-

- Grwpiau ffocws ar gyfer pobl dan 25 oed;
- Fforwm Pobl Hŷn;
- Sesiwn gyda Phenaethiaid ac Uwch Reolwyr Ysgolion;
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned;
- Fforwm Partneriaeth (Yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Iechyd, Fforymau Cynghorau Tref a Chymuned, y Trydydd Sector).

**2.3.** Mae canlyniadau'r broses ymgynghori ynghlwm yn Atodiad 2.

## 3. Y GYLLIDEB DDISYMUD DDIWYGIEDIG AR GYFER 2019/20 A'R BWLCH YN Y GYLLIDEB

**3.1.** Ers cwblhau cynigion cychwynnol ar y gyllideb, gwnaed rhagor o waith i adolygu a diwygio'r gyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2019/20. Mae hyn wedi arwain at nifer o newidiadau a nodir yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymud**

| | £m | £m |
|---|---|---|
| Y Gyllideb Ddisymud ar 12 Tachwedd 2018 | | 137.402 |
| Arbedion cyllideb arfaethedig | | (3.747) |
| **Cyllideb Arfaethedig Gychwynnol ar gyfer 2019/20 ar 12 Tachwedd 2018** | | **133.655** |
| **Addasiadau Terfynol** | | |
| Cyllid ychwanegol yn y setliad i wneud yn iawn am golli incwm yn dilyn cynnydd yn y trothwy cynilion i gleientiaid mewn gofal preswyl / nyrsio | 0.173 | |
| Dileu'r gyllideb ychwanegol ar gyfer byw â chymorth - nid oes ei hangen erbyn hyn | (0.140) | |
| Cywiro Cyllideb y Tîm Trothwy Gofal | (0.088) | |
| Gwarged ychwanegol ar Bremiynnau'r ym Mhremiymau'r Heddlu a Chynghorau Cymuned | (0.048) | |
| Cynyddu cyllideb Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor er mwyn adlewyrchu cynnydd uwch yn y Dreth Gyngor na'r 5% a ganiatawyd eisoes | 0.225 | |
| Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor i gyllido cynlluniau i helpu prynwyr am y tro cyntaf | 0.170 | |
| Ardoll y Gwasanaeth Tân – addasiad o ganlyniad i newidiad yn y boblogaeth | (0.025) | |
| Addasiadau amrywiol eraill | 0.001 | |
| **Cyfanswm Addasiadau i'r Gyllideb** | | **0.266** |
| **Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig ar 18 Chwefror 2019** | | **133.921** |

**3.2.** Cyhoeddwyd y ffigyrau setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2018. Ar draws Cymru, bu cynnydd o £33.559m yn yr Asesiad Gwariant Safonol o ffigwr a osodwyd yn y setliad dros dro, fodd bynnag, bu cynnydd hefyd o £10.942m yn yr Dreth Gyngor a ragwelir. Yn ogystal, cynyddodd Llywodraeth Cymru'r cyllid gwaelodol er mwyn sicrhau nad oedd yr un Awdurdod Lleol yn derbyn mwy na 0.3% o ostyngiad yn yr AEF, o gymharu â chyllid gwaelodol o 1.0% yn y setliad blaenorol. O ganlyniad, bu cynnydd o £23.591m yn yr AEF cyffredinol ar gyfer Cymru o gymharu â ffigwr y setliad dros dro ac mae hyn, yn ei dro, wedi newid Cyllid Allanol Cyfun y Cyngor, gyda'r ffigwr terfynol yn £95.791m, sef cynnydd o £0.632m o gymharu â'r ffigwr dros dro.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu gosod premiwm o 100% ar dai a ddynodwyd fel rhai gwag (y tu hwnt i'r cyfnod eithriad) a 35% ar gartrefi a ddynodwyd fel ail gartrefi'r rheini sy'n talu'r Dreth Gyngor. Byddai'r premiwm hwn, ynghyd â chynnydd o 6% yn y Dreth Gyngor, yn cynhyrchu'r £38.154m sydd ei angen i gydbwyso'r gyllideb.

**3.3.** Fel rhan o'r setliad terfynol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi grant ychwanegol o £30m, i helpu awdurdodau lleol ddelio gyda'r cynnydd yn y galw am wasanaethau Gofal Cymdeithasol a grant o £2.3m i helpu gyda chostau gwasanaethau mabwysiadu. Bydd Ynys Môn yn derbyn £670k a £50k o'r grantiau hyn, yn y drefn honno. Yn ogystal, cyhoeddwyd grant o £15m i gyllido cost hyfforddiant a chefnogaeth broffesiynol ychwanegol i athrawon, a bydd Ynys Môn yn derbyn £345k o'r grant hwn.

## 4. Y DRETH GYNGOR

**4.1.** Roedd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D y Cyngor am 2018/19 yn £1,140.21, sef y 18fed o'r 22 Awdurdod yng Nghymru ac mae'n is na chyfartaledd Cymru, sef £1,241. Yn bwysicach fyth i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Cymhariaeth o Gostau Band Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Tâl Band D 2018/19 £ | Y swm dros / o dan ffigwr Ynys Môn £ | Y ganran dros / o dan ffigwr Ynys Môn % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,140 | | |
| Gwynedd | 1,301 | + 161 | + 14.1% |
| Conwy | 1,169 | + 29 | + 2.5% |
| Sir Ddinbych | 1,248 | + 108 | + 9.5% |
| Sir y Fflint | 1,178 | + 38 | + 3.3% |
| Wrecsam | 1,093 | - 47 | - 4.1% |

**4.2.** Roedd y gyllideb Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor ond ar ôl gwneud addasiad ar gyfer y newid yn Sail y Dreth Gyngor a'r premiwm) yn £35.998m. Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £360k o gyllid ychwanegol.

Ar ôl cymryd ffigwr y setliad terfynol o £95,791m i ystyriaeth, byddai angen £38.130m o gyllid y Dreth Gyngor i gyllido gofynion cyllideb o £133.921m (gweler Tabl 2). Er mwyn cyllido'r gofynion cyllideb diwygiedig, byddai angen cynnydd o 6% o leiaf yn y Dreth Gyngor, fyddai'n golygu cynyddu cost Band D i £1,208.61, cynnydd o £68.40 neu £1.31 yr wythnos.

**4.3.** Byddai unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor yn darparu mwy o gyllid na'r hyn sy'n ofynnol i gyllido'r gyllideb Ddisymud Ddiwygiedig o £133.921m. Gellir defnyddio'r cyllid dros ben fel a ganlyn:-

- Cyllido'r pwysau cyllidebol a nodwyd ym mharagraff 8 uchod.
- Caniatáu gohirio rhywfaint o'r arbedion arfaethedig o £3.747m;
- Cynyddu cyllidebau digwyddiadau annisgwyl a, thrwy hynny, leihau'r perygl o orwario yn 2019/20.

**4.4.** Yn Nhabl 4 isod dangosir effaith pob cynnydd o 0.5%, yn dechrau gyda 6% i fyny at 10%. Dylid nodi bod lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn bwysig nid yn unig wrth bennu cyllideb 2019/20 ond oherwydd hefyd ei fod yn cael effaith ar 2020/21, gan y bydd y pwynt cychwyn ar gyfer y Dreth Gyngor yn cael ei bennu gan y cynnydd yn 2019/20 ac y bydd hynny'n effeithio ar y cynnydd y bydd ei angen yn 2020/21.

**Tabl 4**
**Effaith cynnydd yn y Dreth Gyngor uwchben y Gofyn Sylfaenol**

| Cynnydd Canrannol | Newid yng Nghyllid Cyffredinol y Cyngor £'m | Cyllid Uwchben yr Angen i Gyllido'r Gofynion Cyllideb Diwygiedig (tabl 2) £'m | Tâl Band D 2019/20 £ | Cynnydd o gymharu â 2018/19 £ | Cynnydd Wythnosol o gymharu â 2018/19 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.0% | + 2.160m | - | 1,208.61 | + 68.40 | + 1.31 |
| 6.5% | + 2.340m | + 0.18m | 1,214.19 | + 73.98 | + 1.42 |
| 7.0% | + 2.520m | + 0.36m | 1,220.04 | + 79.83 | + 1.53 |
| 7.5% | + 2.700m | + 0.54m | 1,225.71 | + 85.50 | + 1.64 |
| 8.0% | + 2.880m | + 0.72m | 1,231.47 | + 91.26 | + 1.75 |
| 8.5% | + 3.060m | + 0.90m | 1,237.14 | + 96.93 | + 1.86 |
| 9.0% | + 3.240m | + 1.08m | 1,242.81 | + 102.60 | + 1.97 |
| 9.5% | + 3.420m | + 1.26m | 1,248.57 | + 108.36 | + 2.08 |
| 10.0% | + 3.600m | + 1.44m | 1,254.24 | + 114.03 | + 2.19 |

**4.5.** Dylid nodi na wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid unrhyw gyfeiriad penodol yn ei ddatganiad ar y setliad ynglŷn â lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor y dylai awdurdodau unigol ei ystyried. Nid oes unrhyw gap swyddogol ar lefel cynnydd y Dreth Gyngor ond ers nifer o flynyddoedd mae Cynghorau wedi anelu at gadw'r cynnydd o dan 5%. Yn 2018/19, bu i 2 awdurdod lleol yng Nghymru gynyddu eu Dreth Gyngor gan fwy na 5% ac mae o leiaf 9 o awdurdodau yn ystyried cynnydd o fwy na 5% yn 2019/20, gyda 1 awdurdod yn ystyried mwy na 10% o gynnydd.

**4.6.** Yn y setliad terfynol, gosodwyd yr elfen dreth safonol ar gyfer y Cyngor ar £1,246.94, h.y. ffigwr safonol y Dreth Gyngor ar draws Cymru a ddefnyddir i bennu'r AEF ar gyfer pob Cyngor. Mae'r ffigwr hwn 6.5% yn uwch na'r ffigwr ar gyfer 2018/19.

## 5. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL, CRONFEYDD DIGWYDDIADAU ANNISGWYL A RISG ARIANNOL

**5.1.** Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau o ran yr incwm a'r gwariant tebygol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n anochel, felly, fod nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig. Amlygir y risgiau ariannol allweddol isod:-

- Mae gan unrhyw orwariant a ragwelir yn 2018/19 oblygiadau uniongyrchol ar gyfer cyllideb 2019/20, h.y. a fydd y gwasanaethau sy'n gorwario ar hyn o bryd yn wynebu'r un pwysau ar eu cyllidebau yn 2019/20 ac, o ganlyniad, a fyddant yn gallu darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb arfaethedig yn 2019/20. Yn ogystal, bydd unrhyw orwariant yn 2018/19 yn effeithio ar lefel cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor i'r dyfodol. Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant net o £3.55m ar gyllidebau Gwasanaeth (ac eithrio cyllidebau corfforaethol a chostau cyllido cyfalaf) ar gyfer 2018/19 ac mae hwn yn ffactor pwysig i'w ystyried. Mae'r gyllideb ddisymud yn cynnwys £1.54m ychwanegol, bydd tua £720k yn cael ei dderbyn mewn cyllid grant ychwanegol tu allan i'r setliad ac mae'r gwasanaethau yn y broses o weithredu prosiectau y disgwylir iddynt leihau eu costau gan £460k, gan adael gorwariant posib o £0.83m yn 2019/20 sydd heb ei gyllido.
- Mae'r galw am Wasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a gwasanaethau addysg arbenigol ychwanegol a chostau cysylltiedig wedi cynyddu yn ystod y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf. Mae'r gyllideb ddigyfnewid yn seiliedig ar lefel bresennol y galw ond mae risg sylweddol y bydd y galw am y gwasanaethau hyn yn parhau i dyfu oherwydd bod ein poblogaeth yn heneiddio a gall gwelliannau i brosesau'r Gwasanaethau Plant olygu bod mwy o blant y mae angen i'r Awdurdod ymyrryd yn eu hachosion yn cael eu hadnabod;

- Mae'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2019/20 yn cynnwys cynigion arbedion o £3.747m. Os cânt eu gweithredu, bydd angen eu cyflawni er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20. Gwnaed lwfans, lle bo'n briodol, ar gyfer costau gweithredu, ond mae elfen o risg ariannol o ran cyflawni'r holl arbedion yn llawn, gyda'r risgiau'n amrywio'n sylweddol rhwng y cynigion unigol. Gwnaed rhagdybiaethau rhan o flwyddyn realistig o ran lefel yr arbedion y gellir eu cynhyrchu os nad oes modd eu gweithredu ar unwaith, ond mae risg ariannol gynhenid o ran cyflawni newidiadau mewn amser i sicrhau'r math hwn o arbediad a gynllunnir;
- Caniatawyd cynnydd chwyddiant o 2.1% ar draws yr holl wariant nad yw'n ymwneud â thâl (oni bai fod y cynnydd a wnaed ar gyfer chwyddiant mewn cytundebau yn hysbys). Er bod y rhan fwyaf o'r proffwydoliaethau'n awgrymu bod chwyddiant wedi cyrraedd ei bwynt uchaf ac y bydd yn dechrau gostwng yn 2019, gall yr ansicrwydd ynghylch Brexit a'i effaith ar economi'r DU arwain at chwyddiant yn parhau i godi uwchlaw'r ffigwr a ganiateir yn y gyllideb;
- Codwyd ffioedd a thaliadau anstatudol 3% ar gyfartaledd ym mhob gwasanaeth. Ni wnaed unrhyw addasiad ar gyfer newid yn y galw am y gwasanaethau a, phe bai'r cynnydd yn y ffioedd a thaliadau yn arwain at ostyngiad yn y galw, yna mae perygl na chyflawnir cyllidebau incwm.

**5.2.** O ran unrhyw gronfeydd digwyddiadau annisgwyl a chronfeydd wrth gefn, mae angen i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r cyfan o'r rhain ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol ei hun, ynghyd â'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn ogystal, dylai'r adolygiad edrych i'r tymor canol lle bo angen a chymryd i ystyriaeth unrhyw ddatblygiadau allweddol a allai effeithio ar yr angen am adnoddau unwaith ac am byth a'r angen i'w defnyddio.

**5.3.** Cymerir agwedd gadarn tuag at reoli risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo angen diogelu arian unwaith ac am byth yn ddigonol er mwyn cyllido newidiadau strategol/trawsnewid yn y dyfodol yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol yn y gyllideb sylfaenol ei hun.

**5.4.** Cymerwyd yr angen i gyfyngu cymaint â phosib y gostyngiadau di-oed ar wariant a'r effaith ganlynol ar wasanaethau, ond rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir a'r angen, hefyd, i weithredu'r arbedion dros y blynyddoedd nesaf mewn ffordd raddol a strwythuredig. Yn ogystal, mae yna rywfaint o risg o wariant neu orwariant annisgwyl oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllideb gwasanaeth, a rhaid i'r cronfeydd wrth gefn fod yn ddigonol i fedru ymdopi â'r pwysau hyn.

**5.5.** Ar 31 Mawrth 2018, roedd cronfeydd cyffredinol y Cyngor yn £6.899m, sy'n cyfateb i 5.3% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2018/19, neu 7.4% os na chaiff y cyllidebau datganoledig ysgolion eu cynnwys. Mae maint y gronfa wrth gefn gyffredinol y dylai'r Cyngor ei chadw yn fater i'r Cyngor benderfynu arno, a hynny'n seiliedig ar argymhelliad gan y Swyddog Adran 151, ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel derbyniol. Yn seiliedig ar gyllideb refeniw ddisymud 2019/20, byddai hyn yn golygu y byddai angen tua £6.7m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth nad oes gan y mwyafrif o ysgolion uwchradd unrhyw gronfeydd wrth gefn i ostwng yn ôl arnynt erbyn hyn a bod ysgolion cynradd yn dibynnu fwyfwy ar eu cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'u cyllidebau. Os nad yw cyllidebau datganoledig ysgolion yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad, yna byddai angen cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £4.8m.

**5.6.** Yn ystod 2018/19, bydd rhaid cyllido nifer o eitemau o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol neu mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i gyllido'r gost o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Parhau i gyllido'r Tîm Ynys Ynni - £125k;
- Cyllido Melin Llynnon yn ystod tymor ymwelwyr 2018 - £42k;
- Cyllido gweithwyr cymdeithasol asiantaeth ychwanegol yn y Tîm Plant - £268k;
- Cyllido gwelliannau i Faes Parcio Mill Bank - £24k;
- Cyllid ychwanegol tuag at y diffyg yn y gronfa bensiwn - £131k.

Yn ogystal, ar hyn o bryd rhagwelir y bydd £2.35m o orwariant yn y gyllideb refeniw yn 2018/19 y bydd rhaid ei gyllido o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol. O gymryd yr holl ffactorau hyn i ystyriaeth, amcangyfrifir y bydd lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn gostwng i tua £4m erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018/19, sydd gyfateb â 3% o gyllideb refeniw ddisymud 2019/20.

**5.7.** Mewn cyfnod o lymder ariannol, mae cyllidebau'n gostwng ac nid ydynt yn gallu delio â chynnydd mewn galw, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd â llai o reolaeth dros y galw e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly, mae dadl bod mwy o angen am gronfeydd wrth gefn cyffredinol oherwydd bod mwy o risg o orwariant a bydd y Cyngor angen mwy o adnoddau ariannol i leihau'r risg.

**5.8.** Ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol wedi cyrraedd sefyllfa dyngedfennol ac ni ddylid caniatáu iddynt leihau ymhellach. Mae cael cyn lleied â 3% o gronfeydd ariannol wrth gefn yn risg ariannol i'r Awdurdod ac mae'r risg hwnnw'n cynyddu po hiraf y bydd y cronfeydd wrth gefn yn parhau mor isel â hyn. Yn y tymor canol, rhaid i gynllun ariannol y Cyngor gynnwys cyllido gwarged y gellir ei defnyddio i adfer lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol i swm o £6.7m o leiaf. Derbynnir na fydd modd cyflawni hynny mewn un flwyddyn ariannol, ac y gallai gymryd rhwng 3 a 5 mlynedd i gyflawni hynny, a bydd rhaid i'r cyfraniad blynyddol hwn tuag at y cronfeydd wrth gefn ddigwydd mewn cyfnod o lymder parhaus a'r angen i ganfod arbedion pellach.

**5.9.** Mae gan y Cyngor hefyd £9.9m mewn cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyfyngedig (ar 31 Mawrth 2018). Mae angen y mwyafrif o'r cronfeydd wrth gefn hyn i gyllido prosiectau penodol, neu maent yn falans grantiau sydd heb eu dyrannu ar ôl neu maent ar gael i gyllido risgiau posib os byddant yn gwaethygu i'r fath raddau eu bod yn creu problem. Mae'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyfyngedig hyn yn parhau i gael eu defnyddio ac amcangyfrifir y bydd y balans wedi gostwng i £6.3m erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018/19. Mae mwyafrif y £6.3m ar gyfer cyllido risgiau posib e.e. risgiau heb yswiriant, yn dal grantiau heb eu dyrannu ac i gyllido prosiectau sydd wedi cychwyn a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod 2019/20.

**5.10.** Efallai y bydd sgôp i ryddhau swm bychan o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac mae adroddiad llawn ar Gronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Chlustnodedig wedi'i gynnwys fel eitem ar wahân ar raglen y Pwyllgor.

**5.11.** Mae'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2018/19 yn cynnwys £0.977m o gronfeydd digwyddiadau annisgwyl clustnodedig a chyffredinol. Mae'r eitemau o dan y pennawd hwn yn cynnwys cronfa digwyddiadau annisgwyl gyffredinol o £395k, cronfa digwyddiadau annisgwyl o £400k ar gyfer cyflogau a graddio swyddi, a chyllid tymor penodol o £182k yn cynnwys Haulfre, bid Twf Rhanbarthol a phrosiect STEM Gogledd Cymru. Mae cyllidebau digwyddiadau annisgwyl yn lliniaru, i ryw raddau, y risg y bydd y Cyngor yn cael costau annisgwyl neu fod costau'n cynyddu yn ystod y flwyddyn. Byddai lleihau lefel y cyllidebau digwyddiadau annisgwyl cyffredinol yn golygu y byddai'n rhaid cyllido costau annisgwyl neu gynnydd mewn costau o'r balansau cyffredinol.

## 6. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

**6.1.** Yn unol ag Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid gyflwyno adroddiad ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig.

**6.2.** Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a chronfeydd ariannol wrth gefn.

**6.3.** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml o p'un a ydynt wedi eu cyfrifo'n gywir ai peidio. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrifon neu ragolygon, ac efallai y bydd elfen o risg ynghylch a fydd y cynlluniau'n cael eu gweithredu neu ynghylch a fydd modd cyflawni'r targedau. Caiff risgiau gwahanol i'r gyllideb eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant** – Mae hyn yn risg y gallai chwyddiant gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2019/20, caniatawyd ar gyfer chwyddiant yn y gyllideb fel a ganlyn: dyfarniadau tâl yn unol â'r cynnig a wnaed gan y Cyflogwr ar gyfer staff CGC ac Athrawon, chwyddiant prisiau (2.1%). Yn dilyn canlyniad refferendwm yr UE, cododd chwyddiant i dros 3% ond erbyn hyn mae wedi gostwng eto ac ar hyn o bryd mae'n 2.1% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr – Rhagfyr 2018). Nid yw'r rhagolygon diweddaraf yn dangos y bydd chwyddiant yn codi'n sylweddol yn ystod 2019/20 a disgwylir iddo gyd-fynd â tharged y Llywodraeth, sef 2%, neu y bydd o gwmpas y ffigwr hwnnw. Mae tua £68m o gyllideb y Cyngor ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau lle bydd y pris yn cynyddu wrth i chwyddiant gynyddu. Gallai cynnydd o 1% mewn chwyddiant ychwanegu £680k i gostau'r Cyngor (tua 0.5% o'r gyllideb net). Er bod chwyddiant yn dal i fod yn risg, mae gan y Cyngor ddigon o gronfeydd wrth gefn i ariannu cynnydd sydyn mewn chwyddiant.
- **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn drwy'r llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd log yn beth da. Yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yr ystyriaethau cyntaf wrth fuddsoddi fydd diogelwch a hylifedd y buddsoddiad – bydd yr elw ar y buddsoddiad yn llai o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb, felly'n dibynnu ar gael elw mawr o'r buddsoddiadau a wneir. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel iawn ac, er y gallent ddechrau codi yn ystod 2018, ni fydd y cynnydd yn sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r llog a delir gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfraddau sefydlog na fyddant yn newid pe bai'r gyfradd llog yn codi. Felly, fel yn y blynyddoedd diwethaf, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel, ac mae hon yn risg y mae'r risg chwyddiant yn ei lliniaru, oherwydd os yw un yn cynyddu, yna mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd.
- **Risgiau Grantiau –** Mae'r rhain yn risgiau sydd ynghlwm wrth y nifer fawr o grantiau penodol gan LC, Ewrop neu gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn gostwng yn sylweddol neu'n cael eu torri yn gyfan gwbl; nid oes gennym ddarlun cyflawn o'r rhain i gyd ac ni fydd y darlun hwn ar gael hyd yn oed wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Er mai'r ymateb naturiol yw dweud y bydd rhaid i'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r grant ddod i ben pan ddaw'r grant i ben, mae risg na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd yn bosib pan fydd telerau'r contract yn golygu na all y gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r incwm neu os oes costau diswyddo sydd heb eu cyllido. Efallai na fydd yn bosib os yw'r gweithgaredd a gyllidir mor bwysig ar gyfer cyflawni Blaenoriaethau'r Cyngor ei hun fel bod y Cyngor yn penderfynu bod rhaid iddo barhau â'r gwariant. Wrth ymdrechu i liniaru'r risg hon, rhaid sicrhau bod gennym y wybodaeth orau sydd ar gael ar bob un o'r grantiau, ond ni fedrir diystyru'n gyfan gwbl y posibilrwydd y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn ystod y flwyddyn.
- **Risgiau Incwm –** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% yn y ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio codiadau a fydd hyd at 3%. Os bydd newid yn y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod lefel y galw'n gostwng, ac os na lwyddir i gyrraedd targedau incwm, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau net. Bydd angen monitro'r sefyllfa o ran y gyllideb net yn ofalus ac, os oes angen, bydd rhaid torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm.
- **Risg o fod yn or-optimistaidd -** Mae'n debyg mai'r risg fwyaf yn yr amgylchiadau cyfredol yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion, wedi bod yn or-optimistaidd o ran yr arbedion fydd yn cael eu cyflawni neu na fydd cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau, ac yn arbennig gofal cymdeithasol. Petai'r prosiectau hyn yn mynd i drafferthion ac yn methu cyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb neu fod y galw'n cynyddu'n sydyn, gallai hynny arwain at orwario sylweddol.
- **Risg o fod yn rhy Ofalus –** Dyma'r gwrthwyneb i'r risg uchod; y perygl bod ein cyllidebau wedi cael eu llunio'n rhy ofalus ac, o'r herwydd, eu bod yn fwy nag sydd ei angen a byddai hynny'n arwain at osod y Dreth Gyngor ar lefel uwch na sy'n ofynnol, rhywbeth y mae Aelodau yn awyddus iawn i'w osgoi.

- **Risgiau Arbedion –** Roedd y cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb yn cynnwys £3.747m o arbedion refeniw ac, er bod yr holl gynigion wedi cael eu hasesu ac er bod swm yr arbediad wedi ei addasu i gymryd y dyddiad gweithredu arfaethedig i ystyriaeth, mae risg na fydd yr holl gynigion yn cael eu gweithredu erbyn y dyddiad arfaethedig. Mae hyn yn arbennig o wir am gynigion sy'n ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau'n sylweddol, diswyddo staff, cynhyrchu incwm neu newidiadau i gontractau cyfredol. Bydd unrhyw oedi o ran dechrau gweithredu'r arbedion yn rhoi pwysau ar y gyllideb refeniw; gellir cael rhywfaint o dawelwch meddwl yn sgil perfformiad y Cyngor yn y gorffennol gan ei fod wedi llwyddo i gyflawni'r rhan fwyaf o'r arbedion.
- **Costau Diswyddo Staff -** Mae nifer o wasanaethau wedi ailstrwythuro eu staff ac eisoes wedi caniatáu i nifer o staff adael drwy ddiswyddiad gwirfoddol. Caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog ac mae £400k wedi cael ei roi o'r neilltu yng nghyllideb ddisymud 2019/20 i gwrdd ag unrhyw gostau diswyddo a gyfyd yn ystod y flwyddyn er mwyn lliniaru'r risg. Yn 2018/19, cafodd £300k ei neilltuo i gwrdd â chostau diswyddo staff ond bydd rhaid rhyddhau swm ychwanegol o £250k o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn cwrdd â'r costau terfynol gwirioneddol. Er bod nifer y staff gweinyddol sy'n cael eu rhyddhau drwy ddiswyddo gwirfoddol wedi gostwng, mae'r pwysau ar ysgolion i leihau costau yn cynyddu, sy'n arwain at gynnydd yn nifer staff ysgolion sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor. Unwaith eto mae risg sylweddol na fydd y gronfa wrth gefn o £400k yn ddigon i gwrdd â'r costau.
- **Premiwm y Dreth Gyngor –** Oherwydd y bwriad i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 35% ac ar dai gwag i 100%, mae dwy risg yn codi. Y cyntaf yw bod y cynnydd yn annog trethdalwyr i gymryd camau i sicrhau nad ydynt bellach yn atebol am y premiwm h.y. eu bod yn gwerthu neu osod yr eiddo neu eu bod yn cymryd camau pendant i geisio gwerthu neu osod yr eiddo. Bydd hyn yn lleihau nifer yr eiddo y gellir codi'r premiwm arnynt ac, o ganlyniad, yn lleihau'r incwm a gynhyrchir. Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru i raddau gan fod sail y dreth yn seiliedig ar 80% o'r eiddo sy'n talu'r premiwm ar hyn o bryd a byddai'n rhaid rhoi'r gorau i godi'r premiwm ar dros 500 eiddo Band D, neu gyfatebol, cyn y byddai incwm y Cyngor yn gostwng islaw'r gyllideb. O ganlyniad, ystyrir bod hon yn risg isel iawn. Mae'r ail risg yn ymwneud â pheidio talu'r premiwm. Gallai unrhyw gynnydd yn y premiwm arwain at gynnydd yn nifer y bobl sydd yn anfodlon talu'r premiwm neu sydd ddim yn gallu ei dalu. Er bod gan y Cyngor nifer o opsiynau y gall eu cymryd i sicrhau fod y ddyled yn cael ei thalu, yn y pendraw ni fydd rhai dyledion yn cael eu casglu a bydd rhaid iddynt gael eu dileu.
- **Risgiau yn gysylltiedig â galw -** Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, ac fel y profwyd yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, gwelwyd cynnydd yn y galw am wasanaethau, yn arbennig gofal cymdeithasol ac addysg, ac mae'r cynnydd yn y meysydd hyn wedi rhoi straen ariannol ar yr Awdurdod ac wedi arwain at orwariant sylweddol yn y gyllideb. Mae cyllideb ddisymud 2019/20 yn cymryd y cynnydd mewn galw i ystyriaeth ond ni fyddai unrhyw gynnydd pellach yn cael ei gyllido a byddai'n cynyddu'r risg o orwariant pellach yn 2019/20.

**6.4.** Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn bod y cyllidebau'n gadarn ac y gellir eu cyflawni.

## 7. PWYLLGOR SGRIWTINI

**7.1.** Ystyriwyd proses gosod cyllideb 2019/20 ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror, 2019.

**7.2.** Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini oedd yn amlinellu cyd-destun proses gosod cyllideb 2019/20 ynghyd â materion a chwestiynau allweddol ar gyfer Sgriwtini er mwyn gwerthuso'r cynigion terfynol ar y gyllideb gan gymryd i ystyriaeth ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar. Roedd yr adroddiad hwnnw hefyd yn cynnwys y dogfennau a ganlyn:-

- Adroddiad y Pennaeth Adnoddau ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2019/20. Roedd yn darparu datganiad sefyllfa ynglŷn â'r ystyriaethau ariannol allweddol a oedd wedi dylanwadu ar sut y cafodd y cynigion terfynol ar y gyllideb eu llunio;
- Adroddiad y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn crynhoi prif negeseuon yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar gynigion cyllideb 2019/20 yr Awdurdod;
- Adroddiad y Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuenctid (Llais Ni) ynglŷn â'u cyfraniad er mwyn gwella ymgysylltiad cyhoeddus gyda Sgriwtini.

**7.3.** Ar ôl ystyried a thrafod y wybodaeth a gyflwynwyd, sef y wybodaeth ysgrifenedig a'r wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar yn ystod y cyfarfod, gan gynnwys y sylwadau a wnaed gan y Penaethiaid oedd yn cynrychioli'r sector cynradd ac uwchradd a gan gymryd i ystyriaeth y negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion Cyllideb 2019/20 a'u heffaith ar ddinasyddion, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel a ganlyn–

- Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwysau sydd ar Gyllideb y Cyngor ac ar wasanaethau ac yn nodi'r effeithiau y bydd gweithredu'r cynigion arbedion yn debygol o'i gael ar wasanaethau. Mae'r Pwyllgor yn nodi'n arbennig yr effaith ddifrifol y gallai gweithredu'r gostyngiad arfaethedig yng Nghyllidebau Ysgolion ei gael ar ysgolion a'u staff, ac o bosib ar eu capasiti i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau.
- Yn wyneb yr uchod, mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai ystyried cynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 o leiaf 10% er mwyn cynnal gwasanaethau ac i leihau'r gostyngiad yn y Gyllideb a Ddatganolir i Ysgolion.
- Mae'r Pwyllgor yn nodi'r Gyllideb Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2019/20 heb unrhyw newid.
- Mae'r Pwyllgor yn nodi'r negeseuon allweddol o'r ymarfer Ymgynghoriad Cyhoeddus ac yn nodi hefyd y bydd yr awgrymiadau a'r syniadau ychwanegol a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn cael eu craffu ymhellach gan y Panel Sgriwtini Cyllid fel y sail ar gyfer arbedion posib yn 2020/21 a thu hwnt.
- Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith, er mwyn gwella'r broses ymgynghori ymhellach at y dyfodol, y dylai'r broses adlewyrchu a/neu roi sylw i'r canlynol –
  - Proffil demograffig yr ymatebwyr
  - Gwahaniaethu rhwng defnyddwyr gwasanaeth/rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth
  - Atal sefyllfa lle gall ymatebwyr gyflwyno ymatebion niferus neu ddyblygu ymatebion
- Sut mae gwahanol ganrannau o gynnydd yn y Dreth Gyngor yn gysylltiedig â thoriadau/enillion gwasanaeth.

## 8. PWYSAU AR GYLLIDEBAU AC ARBEDION

**8.1.** Mae adroddiad monitro'r Cyngor hyd at ddiwedd chwarter 2 yn dangos bod pwysau ar gyllidebau'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion a hefyd yng nghyllidebau Addysg ar gyfer lleoliadau All-Sirol a Cludiant Addysg. Er bod disgwyl i bob gwasanaeth gadw costau o fewn y gyllideb, mae hynny'n anodd mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw. Amcangyfrifir gorwariant o thua £2.0m yn y Gwasanaethau Plant, £1.0m yn y Gwasanaethau Oedolion a £550k yn Addysg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddod o hyd i ffyrdd o leihau costau ond ni fydd hyn ond yn cwrdd yn rhannol â'r gorwariant ac, oni fydd y galw yn lleihau, ni fydd y gyllideb yn ddigonol i gwrdd â chostau'r dyfodol.

**8.2.** Wrth osod cyllideb ddisymud 2019/20, dyrannwyd rhywfaint o gyllid ychwanegol er mwyn cwrdd â'r pwysau ychwanegol yma ar y gyllideb. Fodd bynnag, ers llunio'r gyllideb ddrafft, gwelwyd cynnydd pellach yn y galw am wasanaethau, yn arbennig Gwasanaethau Oedolion, ac o ganlyniad rhaid ailystyried lefel y cyllid ychwanegol sy'n rhaid ei gynnwys yn y gyllideb, fel y mae Tabl 5 isod yn ei ddangos.

**Tabl 5**
**Pwysau Cyllidebol Ychwanegol Posib oherwydd Cynnydd yn y Galw**

| Gwasanaeth | Gorwariant a Ragwelir yn 2018/19 £'m | Cyllid Ychwanegol yn y Gyllideb Ddisymud £'m | Cyllid Grant Ychwanegol £'m | Arbedion Effeithlonrwydd Pellach a Nodwyd £'m | Pwysau Cyllidebol Ychwanegol Posib yn 2019/20 £'m |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 1.00 | - | (0.67) | - | 0.33 |
| Gwasanaethau Plant | 2.00 | (1.34) | (0.05) | (0.31) | 0.30 |
| Addysg | 0.55 | (0.20) | - | (0.15) | 0.20 |
| **Cyfanswm** | **3.55** | **(1.54)** | **(0.72)** | **(0.46)** | **0.83** |

**8.3.** O ystyried bod lefel cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor wedi gostwng islaw'r lefel isaf a argymhellir yn 2018/19, mae defnyddio balansau pellach i gyllido cost cyllidebau sydd yn gorwario yn 2019/20 neu obeithio bod galw am y gwasanaethau hyn yn lleihau yn 2019/20 yn risg ariannol sylweddol.

**8.4.** Wrth benderfynu ar gyllideb ddatganoledig ysgolion ar gyfer 2019/20, cafodd cyllideb 2018/19 ei chynyddu gan £2.43m yn y lle cyntaf er mwyn adlewyrchu'r costau uwch y bydd ysgolion yn eu hwynebu yn 2019/20. Mae'r costau hyn yn cynnwys dyfarniadau cyflog i staff ysgolion (£0.81m), cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr at bensiynau athrawon (£0.79m), chwyddiant cyffredinol mewn prisiau (£0.71m) a chynnydd mewn niferoedd disgyblion (£0.12m). Fodd bynnag, fel rhan o'r cynigion arbedion, cafodd cyllideb ddatganoledig ysgolion ei lleihau gan 5% o gyllideb 2018/19, sef £1.739m. Effaith net y newidiadau hyn fyddai cynnydd o £0.69m neu 1.95% yng nghyllideb ddatganoledig ysgolion.

**8.5.** Er y byddai'r gyllideb ysgolion yn cynyddu mewn termau ariannol o dan y cynigion, ni fyddai'n cyllido'r holl bwysau cyllidebol a byddai'n rhaid i ysgolion leihau eu gwariant yn 2019/20. Ar ôl ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan y Fforwm Cyllid Ysgolion ac eraill yn ystod y broses ymgynghori, roedd y Pwyllgor Gwaith yn awyddus i geisio lleihau'r effaith ar ysgolion, os oedd hynny'n bosib. O ganlyniad, bydd y cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb yn argymell gostyngiad o £800k yng nghyllideb ddatganoledig ysgolion, yn hytrach na'r £1.739m a gynnigwyd yn wreiddiol. O ganlyniad, bydd cynnydd o £1.63m neu 4.7% yng nghyllideb ddatganoledig ysgolion mewn termau ariannol.

**8.6.** Yn 2019/20, bydd cyfraniad y cyflogwr tuag at bensiynau athrawon yn cynyddu o 16.48% o'r tâl i 23.6%. Bydd hyn yn gynnydd o £800k yng nghostau pensiwn yr Awdurdod. Mae trafodaethau'n parhau ynghylch a fydd Llywodraeth y DU yn cyllido'r cynnydd yn y costau ond, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd penderfyniad wedi'i wneud. Petai'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyllid pellach, bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried sut i ddefnyddio unrhyw gyllid ychwanegol pan fydd y swm ychwanegol a ddyrennir yn hysbys.

## 9. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG A LEFEL Y DRETH GYNGOR

**9.1.** Ar ôl ystyried y cyllid sydd ar gael a'r cynnydd yn yr AEF ers llunio'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb, ac ar ôl ystyried canlyniadau'r broses ymgynghori ac ymateb y Pwyllgor Sgriwtini, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi diwygio ei gynnig terfynol ar gyfer y gyllideb ac mae'n cynnwys y newidiadau canlynol:-

- Bod y gyllideb ddisymud ar gyfer 2019/20, ar ôl caniatáu ar gyfer arbedion arfaethedig o £3.747m, yn £133.921m (gweler Tabl 2).

- Gwneud yr addasiadau canlynol i'r cynigion arbedion:-
  1. Lleihau'r gostyngiad yng nghyllideb ddatganoledig ysgolion o £1.739m i £800k a bod y gostyngiad hwn yn cael ei ddyrannu ar sail pro rata i bob un o'r 3 sector ar sail cyllideb 2018/19. Mae hyn yn golygu cynnydd o £939k yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2019/20. Yn ogystal, fod y grant Addysg Awdurdod Lleol o £173.8k yn cael ei ddirprwyo i ysgolion i leihau ymhellach y gostyngiad yn y cyllidebau ysgolion ddatganoledig i £626.2k yn 2019/20.
  2. Gostwng y cynnydd arfaethedig o 20c yng nghost prydau ysgol i 10c (chwyddiant yn unig). Bydd hyn yn golygu cynnydd o £43k yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2019/20.
  3. Peidio â therfynu'r gwasanaeth casglu clytiau. Mae hyn yn cynyddu'r gyllideb derfynol £30k.
  4. Creu cyllideb ychwanegol ar gyfer pwysau ar wasanaeth o £277k a fydd yn cael ei ddefnyddio i gyllido unrhyw gostau ychwanegol a allai godi yn ystod y flwyddyn oherwydd cynnydd yn y galw am wasanaethau.
- Bod cynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor yn 2019/20, fydd yn codi Dreth Gyngor eiddo Band D i £1,248.57, sef cynnydd o £108.36.
- Bod y cyfan o unrhyw falans sydd raid wrtho i gydbwyso'r gyllideb yn cael ei ychwanegu i'r gronfa digwyddiadau annisgwyl gyffredinol.

**9.2.** Mae Tabl 6 isod yn crynhoi'r symudiad yng nghyllideb 2018/19 gan gymryd i ystyriaeth y cynigion a nodir ym mharagraff 10.1 uchod.

**Tabl 6**
**Gofynion Arfaethedig o ran y Gyllideb a Chyllido yn 2019/20**

| Gofynion Cyllideb | £'m | £'m |
|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2018/19 | | 130.945 |
| Taliadau wedi ymrwymo a Chwyddiant | | 6.457 |
| **Cyllideb Ddisymud ar 12 Tachwedd 2018** | | **137.402** |
| Cynigion Arbedion Cychwynnol | | (3.747) |
| **Cynigion Cychwynnol ar gyfer y Gyllideb ar 12 Tachwedd 2018** | | **133.655** |
| Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymud – gweler Tabl 2 | | 0.266 |
| **Cyllideb Ddisymud ar 18 Chwefror 2019** | | **133.921** |
| **Cynigion ar gyfer y Gyllideb Derfynol – paragraff 9.1** | | |
| Gostyngiad yn yr arbedion yng nghyllidebau datganoledig ysgolion | 1.113 | |
| Defnydd o Grant Addysg Llywodraeth Leol | (0.174) | |
| Lleihau'r cynnydd yng nghost prydau ysgol | 0.043 | |
| Parhau hefo'r gwasanaeth casglu clytiau | 0.030 | |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer cynnydd yn y galw am wasanaethau | 0.277 | |
| | | 1.289 |
| **Gofynion Terfynol Arfaethedig ar gyfer y Gyllideb** | | **135.210** |
| **Cyllidir gan:** | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 73.037 | |
| Trethi Annomestig | 22.754 | |
| Cyfanswm AEF | | 95.791 |
| Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm) | | 39.419 |
| **Cyfanswm Cyllid** | | **135.210** |

**9.3.** Bydd rhaid dyrannu'r gostyngiad diwygiedig yng nghyllideb datganoledig ysgolion rhwng y 3 sector ar sail rhaniad cyllideb 2018/19. Mae hyn yn rhoi gostyngiad yn y gyllideb am y 3 sector fel dangosir yn Nhabl 7 isod:-

**Tabl 7**
**Dyrannu'r Gostyngiad yng Nghyllideb Datganoledig Ysgolion**

| Sector | Cyllideb 2018/19 £'m | % o Gyfanswm Cyllideb 2018/19 | 2019/20 Gostyngiad Cyllideb £ |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 19.260 | 55.4% | 0.347 |
| Uwchradd | 13.998 | 40.3% | 0.252 |
| Arbennig | 1.514 | 4.3% | 0.027 |
| **CYFANSWM** | **34.772** | **100.0%** | **0.626** |

## 10. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**10.1.** Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig a rhaid rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiad o'r fath.

**10.2.** Fel rhan o'r broses o osod cyllideb 2019/20, gofynnwyd i wasanaethau gynnal asesiad cychwynnol o effaith ar gydraddoldeb y cynigion hynny ar y rheini y mae'r Rheoliadau yn berthnasol iddynt. Cynhelir yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ddefnyddio templed safonol sy'n sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor. Bydd angen i'r gwasanaethau fonitro'n ofalus unrhyw gynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol.

**10.3.** Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y prif gynigion arbedion sy'n effeithio ar gwsmeriaid a chleientiaid ynghlwm yn Atodiad 5 (cyfeirir ato fel EIA 1 i EIA 5).

## 11. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL

**11.1.** Roedd y cynigion cychwynnol ar y gyllideb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 12 Tachwedd 2018 yn seiliedig ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2018 (gweler Tabl 1). Roedd y strategaeth yn amcangyfrif y byddai gostyngiad o 1% yng nghyfanswm yr AEF yn 2018/19 ac y byddai cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ac na fyddai unrhyw newid yn y premiwm ar ail gartrefi a thai gwag.

**11.2.** Yn y setliad ei hun, gwelwyd gostyngiad o 0.3% yn yr AEF ac mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol. Nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i Ynys Môn ac roedd y rhan fwyaf o Gynghorau Cymru wedi cynllunio ar gyfer toriad sylweddol yn yr AEF ond, mewn gwirionedd, mae AEF 9 o'r 22 Gyngor wedi cynyddu o safbwynt ariannol.

**11.3.** Mae ceisio rhagamcau newidiadau yn yr AEF yn y dyfodol yn anodd a bydd llawer yn dibynnu ar berfformiad economi'r DU ar ôl Brexit. Mae Llywodraeth y DU wedi diwygio eu polisi ariannol ac nid yw bellach yn darged i glirio diffyg cyllidebol y DU erbyn 2020 ond, os yw twf economaidd yn is na'r disgwyl, gall hyn arwain at doriadau pellach i gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. Bydd y warchodaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru i feysydd gwariant eraill o gymharu â llywodraeth leol hefyd yn cael effaith sylweddol ar lefel y setliad i lywodraeth leol yn y dyfodol.

**11.4.** Ni chafwyd unrhyw arwydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch lefel cyllid yn y dyfodol ac, oherwydd nad yw'r wybodaeth hon ar gael, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn parhau i dybio na fydd lefel yr AEF yn cynyddu yn ystod y 3 blynedd nesaf.

**11.5.** Cymerir y bydd chwyddiant a chodiadau cyflog yn cyd-redeg â'i gilydd yn ystod y tair blynedd nesaf a thybir y bydd cynnydd blynyddol o 2%. Disgwylir y bydd galw am wasanaethau yn aros ar yr un lefel ar draws y gwasanaethau ond, fel y gwelwyd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, efallai bod hyn yn optimistaidd.

**11.6.** Tybir y bydd y Dreth Gyngor yn parhau i dyfu 5% y flwyddyn. Petai'r cynnydd gwirioneddol yn llai na'r ffigwr hwn, byddai angen arbedion ychwanegol o £0.41m ar gyfer pob 1% o dan y 5%.

**11.7.** Mae Tabl 8 yn dangos y Cynllun Ariannol Tymor Canol diwygiedig ond cynhelir adolygiad mwy manwl yn ystod y misoedd nesaf a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2019.

**Tabl 8**

**Strategaeth Ariannol Tymor Canol 2020/21 – 2022/23**

| | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 £'m | 2020/21 £'m | 2021/22 £'m | 2022/23 £'m |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen** | | **135.21** | **137.18** | **139.25** |
| Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | | 2.70 | 2.75 | 2.79 |
| Cyfraniad at y Balansau Cyffredinol | | 0.50 | 0.75 | 0.75 |
| **Cyllideb Diwygiedig** | **135.21** | **138.41** | **140.68** | **142.79** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | (95.79) | (95.79) | (95.79) | (95.79) |
| Y Dreth Gyngor | (39.42) | (41.39) | (43.46) | (45.63) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **135.21** | **(137.18)** | **(139.25)** | **(141.42)** |
| | | | | |
| **Arbedion fydd angen eu gwneud** | **0.00** | **1.23** | **1.43** | **1.37** |

## 12. CASGLIAD

**12.1** Mae'n bwysig fod y gyllideb sy'n cael ei gosod am y flwyddyn sydd i ddod yn gyraeddadwy ac yn adlewyrchu'n gywir y gofynion sy'n wynebu gwasanaethau ar hyn o bryd ac am gyfnod y CATC. Mae'r gofyniad hwn yn fwy perthnasol o ystyried bod lefel y cronfeydd wrth gefn wedi gostwng ac na ellir ei ystyried yn ffynhonnell cyllid barhaus pan fydd gorwariant yn y gyllideb a bod lefel y cronfeydd wrth gefn ar gyfer ysgolion hefyd wedi gostwng. Mae hefyd yn angenrheidiol bod y gyllideb yn mynd i'r afael â hyfywedd ariannol tymor hir a chynaliadwyedd y Cyngor ac yn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref i ymateb i unrhyw ostyngiadau pellach yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru.

**12.2** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae'n rhaid i'r gyllideb refeniw am 2019/20 gyflawni'r amcanion canlynol :-

- Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a ddyrennir i bob gwasanaeth yn ddigonol i gwrdd â'r pwysau cyllidebol cyfredol ac yn cyflawni'r gofyn am y galw am y swyddogaethau statudol y mae rhaid i'r gwasanaethau ddarparu.
- Rhoi sylw i'r pwysau ariannol sylfaenol yn y Gwasanaethau a effeithiwyd fwyaf gan y cynnydd yn y galw am wasanaethau : Addysg, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion.
- Osgoi gosod cyllideb sy'n erydu ymhellach cronfeydd wrth gefn y Cyngor, unai drwy ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb neu drwy osod cyllideb anghyraeddadwy a fydd, yn y pen draw, yn arwain at orwario at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20.
- Gosod lefel y Dreth Gyngor sy'n gymharol ag asesiad Llywodraeth Cymru o le dylid Dreth Gyngor Ynys Môn fod a'i fod yn unol â'r Dreth Gyngor a osodwyd gan awdurdodau arall Cymru o faint a math tebyg.

## 13. ARGYMHELLION

**13.1** Argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r gyllideb derfynol arfaethedig fel y nodwyd ym Mharagraff 9 i'r cyfarfod o'r Cyngor llaw ar 27 Chwefror 2019.

**Ymateb i Gynigion Cyllidebol Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith – 2019/20**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Ionawr 2019**

**Dadansoddwr – Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad a Busnes**

**Awdur – Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Pherfformiad**

**Pennaeth Gwasanaeth – Carys Edwards, Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid Corfforaethol**

## 1. *Cyflwyniad*

1.1. Yn ddiweddar, ymgynghorodd y Cyngor ar gynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith rhwng 16 Tachwedd a 31 Rhagfyr, 2018. Roedd y cyfnod ymgynghori o 7 wythnos yn canolbwyntio ar oddeutu 15 cynnig.

1.2. Deilliodd y cynigion hyn o'r broses gyllideb flynyddol ac ymgynghorwyd arnynt er mwyn casglu barn y cyhoedd a sicrhau y gall y Pwyllgor Gwaith (wrth i'r broses ddirwyn i ben) wneud argymhellion yn seiliedig ar wybodaeth gyflawn. Cawsant eu cyflwyno gan y gwasanaethau yn ystod yr hydref a bu i Aelodau Etholedig o bob grŵp gwleidyddol yn y Cyngor eu herio a chytuno arnynt i bwrpas ymgynghori.

1.3. Rhannwyd y cynigion i'r themâu canlynol fel yr amlinellir isod, sef:

- Dysgu
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lleihau Cyllidebau
- Bysiau, Parcio ac Adfywio
- Y Dreth Gyngor
- Premiymau Treth
- Syniadau

1.4. Ystyriwyd amrywiaeth helaeth o arbedion lle'r oedd yr her a chytundeb fewnol wedi arwain at gynigion oedd yn amrywio o faterion megis cynyddu lefel Treth Gyngor Band 'D' £2.19 yr wythnos, rhoi'r gorau i gasglu clytiau a darparu isafswm statudol o ddarpariaeth feithrin yn unig ar draws yr ynys.

1.5. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynigion hyn mewn nifer o ffyrdd;

1.5.1. Sesiwn friffio i'r wasg leol

1.5.2. Datganiadau ac erthyglau yn y wasg

1.5.3. Cyhoeddwyd y cynigion ar wefan y Cyngor (tudalen gartref)

1.5.4. Defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol – Twitter, Facebook - i hyrwyddo'r cynigion i amrywiaeth ehangach o drigolion

1.5.5. E-byst perthnasol yn tynnu sylw at drafodaethau ar y cynigion ac yn gwahodd trigolion i gymryd rhan

1.5.6. Cyfweliad gan yr Arweinydd ar MônFM yn hyrwyddo'r ymgynghoriad a'i gynnwys

Bwriad pob un o'r sianeli uchod oedd hysbysebu ac ennyn brwdfrydedd dinasyddion a staff i ymgysylltu ac ymateb i'r cynigion cychwynnol.

1.6. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau gan gynnwys:

- Arolwg ar-lein ar ein gwefan
- E-bost neu
- Ysgrifennu atom drwy anfon llythyr traddodiadol drwy'r post

1.7. Yn ogystal â'r uchod, cynhaliodd y Cyngor waith ymgysylltu pellach drwy gynnal:

- Sesiwn grŵp ffocws ar gyfer pobl ifanc o ysgolion uwchradd yr Ynys yn Siambr y Cyngor
- Sesiynau gyda cynghorau ysgolion uwchradd yn ogystal a sesiwn gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc yr Ynys a'r Urdd
- Sesiwn a gynhaliwyd yn y Cyngor ar gyfer nifer o'n partneriaid fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned, sefydliadau 3ydd Sector ac asiantaethau eraill.
- Sesiwn gyda Phenaethiaid ac Uwch Reolwyr ysgolion yr Ynys
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2018

Roedd yr ymgynghoriad eleni yn dilyn patrwm tebyg i ddigwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond rhoddwyd mwy o bwyslais eleni ar hyrwyddo ymateb electronig drwy wneud defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal â hyn, eleni gofynnwyd am farn ein trigolion ynglŷn â lle y gallwn wneud arbedion pellach neu gynyddu ein hincwm yn y dyfodol er mwyn cau'r bwlch cyllidebol a ragwelir o ganlyniad i'n Cynllun Ariannol Tymor Canol. Bwriad hyn oedd ennyn trafodaeth gyda'n trigolion a'n cymunedau ar y materion dan ystyriaeth.

Rydym wedi derbyn ystod eang o syniadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad eleni ac mae'r mwyafrif wedi eu cynnwys yn ***Atodiad A*** yr adroddiad hwn

**Argymhellir bod y Panel Sgriwtini Cyllid yn trafod y syniadau hyn ymhellach fel rhan atodol o'r broses bresennol i weld a oes lle i'w derbyn fel syniadau gwirioneddol y gellir eu datblygu ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.**

## 2. *Canfyddiadau*

2.1. Roedd yr ymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer 19/20 dros gyfnod o 7 wythnos yn gytbwys gyda nifer o sylwadau cadarnhaol a negyddol ynglŷn â'r cynigion amrywiol. Eleni mae cyfradd yr ymatebion wedi cynyddu'n sylweddol a derbyniwyd oddeutu 5,400 o ymatebion yn erbyn 17 o gynigion, sef cyfartaledd o thua 317 ymateb ar gyfer pob cynnig. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ymateb a gafwyd yn y gorffennol ac mae hynny i'w groesawu. Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio'r sianelau amrywiol a amlinellwyd uchod, gydag ymatebwyr yn defnyddio'r holl ddulliau ymgysylltu oedd ar gael.

2.2. Y dull mwyaf llwyddiannus ar gyfer casglu ymatebion eleni oedd yr arolwg ar-lein – ymatebodd dros 95% drwy’r sianel hon ac mae hyn yn gynnydd pellach o gymharu â blynyddoedd blaenorol ac efallai ei fod yn dangos unwaith eto fod trigolion yn fwy parod i gymryd rhan drwy ddefnyddio’r dull hwn.

2.3. Derbyniwyd ymatebion gan gyrff megis cynghorau tref, cyrff llywodraethu ysgolion, pobl hŷn a phobl anabl, pobl ifanc, athrawon, a thrigolion eraill nad oedd modd eu cynnwys mewn unrhyw grŵp penodol.

2.4. Fel yn y gorffennol, rydym wedi llwyddo i fesur lefel ‘cyrraedd’ ac ymgysylltiad y Cyngor drwy’r cyfryngau cymdeithasol. Drwy hyrwyddo’r ymgynghoriad drwy’r cyfryngau hyn bu inni gyrraedd oddeutu 62,000+ o bobl.

2.5. Rhoesom negeseuon am yr ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol nifer o weithiau yn ystod y cyfnod (7 wythnos).

2.6. Nid yw’r ffaith ein bod wedi llwyddo i gyrraedd cymaint o bobl yn cadarnhau eu bod wedi ymweld â thudalen yr ymgynghoriad ar y wefan, ond yn ddi-os mae’r ffigyrau’n dangos fod y niferoedd hyn yn ymwybodol o’r ymgynghoriad oedd yn cael ei gynnal.

2.7. Yn wir, o’r wybodaeth ddadansoddol sydd gennym, gwelir fod cyrraedd yr ymgyrch farchnata ar y cyfryngau cymdeithasol eleni wedi caniatáu i ni ymgysylltu’n gadarn ag oddeutu 1,300 o unigolion a fu’n ymweld â’r ymgynghoriad ar ein gwefan.

2.8. Mae’r ffigwr hwn yn cael ei ategu gan y niferoedd a ymwelodd â’n safle we gorfforaethol yn ystod y cyfnod 7 wythnos hwn, a tharddiad daearyddol yr unigolion hynny a ymwelodd â’r arolwg o wledydd megis -

2.8.1. Unol Daleithiau America
2.8.2. Iwerddon
2.8.3. Awstria
2.8.4. India
2.8.5. Yr Iseldiroedd
2.8.6. Canada
2.8.7. Yr Almaen

2.9. Serch hynny, roedd mwyafrif yr ymweliadau â’n gwefan gan unigolion o’r Deyrnas Unedig (tua 94%).

## 3. ***Canlyniadau’r Ymgynghoriad***

3.1. Yn debyg i’r llynedd, mae canlyniadau’r ymgynghoriad eleni wedi bod yn gytbwys ar y cyfan, gyda safbwyntiau o blaid ac yn erbyn nifer o gynigion. Amlygwyd barn glir ynglŷn â meysydd penodol o ganlyniad i’r ymgynghoriad eleni. Amlygir y meysydd hynny fel rhan o’r adroddiad hwn (gweler isod).

3.2. Mae gweddill yr adroddiad yn rhoi sylw i’r ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd drwy’r gwahanol ddulliau a nodwyd yn 1.6 a 1.7 uchod. Caiff ei lunio i roi sylw i / ddilyn y pynciau / themâu perthnasol a nodir ar ddechrau’r adroddiad hwn.

3.3. ***Pwynt i'w nodi*** – yn erbyn y cynigion sy'n dilyn, nodir % yr ymatebion i'r cwestiynau caeedig a ofynnwyd fel rhan o'r arolwg ac yn dilyn hynny rhoddir sylwebaeth ar y sylwadau a gyflwynwyd ynghylch y cynigion hynny.

3.4. ***Dysgu***. Roedd 4 o gynigion i'w hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad -

- Dim ond prynu'r lleiafswm statudol o ddarpariaeth feithrin h.y. dau dymor yn hytrach na thri
  - ***37% cytuno / 63% anghytuno***

- Darparu setliad ariannol i ysgolion sy'n is na chost lawn yr holl bwysau sydd ar y gyllideb a wynebir gan ysgolion yn 2019/20
  - ***15% cytuno / 85% anghytuno***

- Cynyddu cost prydau ysgol 20c (cynradd ac uwchradd) –
  - ***64% cytuno / 36% anghytuno***

- Symud i fodel cymorthyddion mewn dalgylchoedd ysgol uwchradd gan wneud defnydd mwy effeithiol o staff.
  - ***49% cytuno / 51% anghytuno***

Cyfanswm gwerth y 4 cynnig uchod oedd - £1,977,000.

*3.4.1.* Mae'n ymddangos bod unigolion a ymatebodd i'r cwestiynau hyn yn anghytuno â mwyafrif y cynigion ond dengys y dystiolaeth fod y gwrthwynebiad mwyaf i'r cynnig i ddarparu setliad ariannol i ysgolion sy'n is na'r costau a ragwelir. Dim ond y cynnig i gynyddu cost prydau ysgol a groesawyd gan bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr.

*3.4.2.* Yn ogystal â'r casgliadau uchod, derbyniwyd nifer o sylwadau (68), oedd yn nodi safbwyntiau cryf. Tra nad oedd y safbwyntiau hyn bob amser yn gysylltiedig â'r cynigion eu hunain, roedd y mwyafrif, os nad y cyfan o'r sylwadau, yn erbyn y cynigion yn hytrach nac yn cefnogi'r cynigion i wneud arbedion.

*3.4.3.* Er enghraifft, mae rhai yn siarad am ddiffyg cyfrifoldeb rhieni i addysgu eu plant, tra bod eraill yn siarad am yr angen parhaus i resymoli ysgolion a gwerthu adeiladau gwag er mwyn gwneud y mwyaf o adnoddau. Nodwyd fod angen cyflymu'r broses o foderneiddio ysgolion. Mae gan eraill farn bendant na ddylid gwneud unrhyw doriadau o gwbl i'r gwasanaeth addysg gan fod hyn gyfystyr ag addysgu ein dyfodol a byddai gweithredu'r fath gamau yn ateb tymor byr fyddai yn ddiamheuaeth yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff addysgu.

*3.4.4.* Yn yr un modd, mae rhai sylwadau'n adlewyrchu'r teimlad y dylai'r Cyngor glustnodi unrhyw adnoddau ychwanegol a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses gosod cyllideb neu unrhyw gynnydd gan yr Awdurdod yn y Dreth Gyngor ar gyfer y gwasanaeth Addysg ac yn arbennig darpariaeth ysgolion er mwyn helpu cyllidebau ysgolion.

*3.4.5.* Mae ymatebion gan Gynghorau Ysgol, Urdd a Clwb Ffermwyr Ifanc hefyd yn mynegi pryder ac nid ydynt yn cefnogi'r cynigion hyn e.e. Roedd ymateb Cyngor Ysgol Bodedern yn mynegi ei safbwynt yn bendant iawn -

3.4.5.1. cynyddu'r Dreth Gyngor
3.4.5.2. peidio torri cyllidebau ysgolion
3.4.5.3. edrych ar feysydd eraill megis rheoli gwastraff er mwyn gwneud arbedion

3.4.6. Nododd y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned y byddai torri cyllideb ysgolion a gwasanaethau plant yn arwain at arbedion ffug ac y dylai'r Cyngor ystyried cynyddu'r Dreth Gyngor yn hytrach na gwneud toriadau o'r fath.

3.4.7. Felly, i gloi ar y cynigion i wneud arbedion mewn perthynas ag ysgolion a'u costau cysylltiedig, ymddengys bod gwahaniaeth barn amlwg gyda'r mwyafrif yn erbyn gwneud arbedion o'r fath ac eraill o'u plaid. Mae'r drafodaeth uchod yn amlygu rhai o'r tensiynau.

3.5. **Gwasanaethau Cymdeithasol** – Roedd 3 chynnig yn cael eu gwneud ar gyfer Gofal Cymdeithasol, fel a ganlyn -

- Lleihau'r galw am wasanaethau gofal cartref a gwasanaethau byw â chymorth
  - ***22% cytuno / 78% anghytuno***

- Cynyddu nifer y cleientiaid sy'n trefnu eu gofal eu hunain drwy'r broses taliadau uniongyrchol a chynyddu cost safonol y gofal a geir mewn cartrefi preswyl sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor er mwyn adlewyrchu'n agosach y gost o ddarparu'r gwasanaeth.
  - ***47% cytuno / 53% anghytuno***

- Lleihau'r galw am leoliadau preswyl a nyrsio drwy barhau gyda'n gwaith i hybu annibyniaeth yn y gymuned
  - ***64% cytuno – 36% anghytuno***

Cyfanswm gwerth y 3 chynnig oedd - £255,000

3.5.1. Derbyniwyd 22 o sylwadau ychwanegol ac mae'r ymatebion yn amrywio o rai sy'n cydnabod bod annibyniaeth yn y gymuned yn ddibynnol ar gymorth hefyd a'r angen i ofalu na fyddai unrhyw doriad yn rhoi gormod o bwysau ar weithwyr cymunedol.

3.5.2. Mae eraill yn nodi bod angen i deuluoedd 'gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hanwyliaid' sydd unwaith eto yn cyd-fynd â'r ymgyrch i alluogi pobl i fod mor annibynnol â phosib wrth heneiddio.

3.5.3. Yn ogystal, roedd cydnabyddiaeth fod anghenion gofal yn fwy cymhleth wrth i bobl fyw'n hirach, a dylai'r Cyngor ddatblygu rôl a statws gofalwyr cyflogedig a darparu strwythur gyrfa sy'n adlewyrchu pwysigrwydd eu gwaith a'u cyfrifoldebau.

3.5.4. Mae rhai yn cwestiynu a oes modd gwireddu'r hyn a gynigiwyd mewn gwirionedd h.y. os yw person angen y gwasanaethau hyn, nid oes dewis arall. A yw lleihau'r galw yn bosibilrwydd gwirioneddol a drwy anelu i wneud hynny a oes risg y byddwn yn cynyddu'r costau mewn gwirionedd gan mai gofal cartref o ansawdd uchel yw'r amddiffyniad cyntaf yn y gymuned i atal problemau rhag dwysáu. Nododd rhai bod gwir angen buddsoddi mewn darpariaeth o ansawdd uchel yn y gymuned er mwyn cefnogi'r agenda.

3.5.5. Cwestiynir hefyd a ddylai lleoliadau nyrsio fod yn un o'r materion i'w hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ac efallai y byddai'n gweddu'n well i ymgynghoriad gan y GIG.

3.5.6. Yn olaf, mewn perthynas â rhan hon yr ymgynghoriad, nodir y ffaith bod ystadegau'n dangos fod pobl yn byw yn hirach ac mae rhai yn datgan y dylid cynnal, neu hyd yn oed gynyddu'r gyllideb hon, gan y bydd galw parhaus amdani.

3.6. **Lleihau Cyllidebau** – Roedd 2 o gynigion o dan y thema hon

- Lleihau neu ddileu'r llinellau cyllidebol canlynol -

  Talnet (cyllideb prynu llyfrau ar gyfer llyfrgelloedd) / Melin Llynnon (cyllideb farchnata) / Carchar a Llys Biwmares (cyllideb farchnata) / Llwybr yr Arfordir / Strwythurau a Thraffig / Morol (baneri glas) / Cyfleusterau awyr agored yn dilyn trosglwyddo asedau i'r gymuned / caffael corfforaethol / cyllideb hyfforddi ar gyfer lleoliadau dros yr haf / twristiaeth a chefn gwlad

    - ***38% cytuno / 62% anghytuno***

- Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth casglu clytiau

    - ***55% cytuno / 45% anghytuno***

3.6.1. Cyfanswm gwerth y cynigion hyn oedd £188,000

3.6.2. Derbyniwyd 38 o sylwadau yn gysylltiedig â'r cynigion hyn ac roeddent yn amrywio o bobl oedd yn anhapus ynglŷn â'r ffaith ein bod wedi ymgynghori ar nifer o'r cynigion gyda'i gilydd ac o ganlyniad nid oedd modd cael dealltwriaeth lawn o'r sefyllfa ariannol, a rhai oedd yn anghytuno'n chwyrn ag unrhyw ostyngiad yn y ddarpariaeth Llyfrgelloedd (Talnet – cyllideb prynu llyfrau ar gyfer llyfrgelloedd).

3.6.3. Yn wir, ymddengys bod y gwasanaeth Llyfrgell yn uchel ei barch ymysg ychydig o ymatebwyr sydd o'r farn y dylid eu cadw fel hybiau cymunedol posib i'r dyfodol.

3.6.4. Mae eraill yn nodi bod yr atebion hyn yn rhai da a bod lle i ganoli marchnata ymhellach, ac i wasanaethau wneud mwy o ddefnydd o staff cyfathrebu corfforaethol.

3.6.5. Mae'r rhai sydd yn gwrthwynebu'r cynnig i roi'r gorau i gasglu clytiau wedi mynegi eu pryder yn ddiamheuol gan eu bod yn nodi fod y gwasanaeth hwn yn angenrheidiol ac os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddileu yna byddai'n rhaid adolygu'r casgliadau biniau du a chyflwyno casgliadau mwy aml na'r casgliadau bob 3 wythnos presennol.

3.6.6. Mae un yn gofyn pan nad yw Oriel Ynys Môn yn cael ei chynnig fel eitem i'w dileu o dan 1 ac mae eraill yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw twristiaeth i'r ynys a nodir eu pryderon i'r cynnig i dorri gweithgareddau yn gysylltiedig â thwristiaeth mewn cyfnod sensitif i'r economi dan gysgod Brexit.

3.6.7. I gloi'r maes hwn felly, mae'r cwestiynau a nodir dan 3.6 yn nodi safbwynt yn erbyn y toriadau arfaethedig ac mae'r drafodaeth uchod yn rhoi blas o safbwyntiau'r rhai hynny sy'n anghytuno â'r cynigion.

3.7. **Bysiau, Parcio ac Adfywio** yw'r thema nesaf sydd yn cynnwys 3 o gynigion –

- Lleihau capasiti o fewn y Swyddogaeth Adfywio
    - ***Cytuno 64% / Anghytuno 36%***

- Cynnydd o £20 yng nghost tocyn parcio blynyddol er mwyn creu mwy o incwm
  - ***Cytuno 75% / Anghytuno 25%***
- Gwireddu arbedion o fewn y gwasanaethau bysus drwy roi'r gorau i'r teithiau canlynol
  - 50b Amlwch i Langefni (gwasanaeth 32 ar fore Sadwrn)
  - 63a - Gwasanaeth 63 sy'n teithio o Amlwch i Lannerchymedd i Fangor drwy Frynteg ar bnawn Sadwrn
  - 43a - Gwasanaeth 43 dyddiol sy'n gwasanaethu stadau ac ardaloedd preswyl ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll ynghyd â darparu gwasanaeth rhwng Caernarfon a Llangefni
  - ***Cytuno 70% / Anghytuno 30%***

3.7.1. Mae'r cynigion hyn yn wahanol i'r meysydd eraill yr ymgynghorwyd arnynt ac mae cefnogaeth ddigamsyniol i'r arbedion a nodwyd.

3.7.2. Wedi nodi hynny, mae'n bwysig hefyd tynnu sylw'r pwyllgor at y ffaith fod y Cyngor wedi derbyn deiseb yn gwrthwynebu dileu'r gwasanaeth bws 43a sy'n gwasanaethu Porthaethwy a Llanfairpwll. Mae 229 o unigolion o Borthaethwy a Llanfairpwll wedi llofnodi'r ddeiseb hon (nodir y geiriad yn atodiad B).

3.7.3. O'r sylwadau eraill (cyfanswm o 22) mae neges gyson ynglŷn â'r angen i adolygu mwy o wasanaethau bws ar draws yr ynys ond rhaid cadw mewn cof bod rhai pobl yn dibynnu ar rai o'r gwasanaethau hyn er mwyn teithio a bod angen rhoi ystyriaeth bellach i hyn hefyd o safbwynt model cynaliadwy.

3.7.4. Mae tensiynau rhwng rhai ymatebwyr sydd yn gweld yr angen i gynyddu cost tocynnau parcio ymhellach tra bod eraill o'r farn y dylai'r Cyngor wneud mwy i gynyddu'r ddarpariaeth parcio am ddim ar draws yr ynys, ond yn fwyaf penodol yng nghanol trefi.

3.7.5. Yn ddi-os, mae'r maes hwn yn wahanol i'r meysydd eraill a heblaw am y ddeiseb a dderbyniwyd, mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynigion y cyfeiriwyd atynt.

***3.8. Y Dreth Gyngor –*** nid oedd y cynigion ar gyfer ymgynghori eleni yn rhoi ffigyrau yn ôl % ond yn hytrach yn defnyddio ffigyrau ariannol gan y rhagwelwyd y byddai hynny'n dangos yn gliriach i ymatebwyr beth fyddai'r effaith o ddydd i ddydd. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd fel a ganlyn -

- Fyddai ymatebwyr yn hapus i dalu ar gyfartaledd (eiddo Band D) £2.19 yn ychwanegol ar eich Treth Gyngor er mwyn gwarchod gwasanaethau allweddol statudol y Cyngor ac er mwyn ein galluogi i ymdopi â'r pwysau a'r galw cynyddol am wasanaethau ar yr ynys
  - Cytuno 43% (66 o ymatebwyr) / Anghytuno 57% (89 o ymatebwyr)
- Os na, ticiwch pa gynnydd wythnosol yn y dreth gyngor y byddech yn hapus i'w dalu (dewiswch un bocs yn unig) -

| *Cynnig* | *% ymateb* | *Nifer o ymatebwyr* |
|---|---|---|
| ***£1.97 ychwanegol yr wythnos*** | ***5%*** | ***4*** |
| ***£1.75 ychwanegol yr wythnos*** | ***3%*** | ***2*** |
| ***£1.53 ychwanegol yr wythnos*** | ***9%*** | ***7*** |
| ***£1.32 ychwanegol yr wythnos*** | ***5%*** | ***4*** |
| ***£1.10 ychwanegol yr wythnos*** | ***77%*** | ***58*** |

*3.8.1.* Yr hyn y mae'r uchod yn ei ddangos yw nad oedd talu £2.19 ychwanegol yr wythnos o Dreth Gyngor yn cael ei wrthwynebu i'r un graddau a rhai o'r cynigion eraill a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad eleni.

*3.8.2.* O'r rhai oedd yn gwrthwynebu hynny, ymddengys mai'r opsiwn a ffafrir o ran cynyddu'r Dreth Gyngor yw'r cynnydd lleiaf a gynigiwyd, sef cynnydd o £1.10 yr wythnos.

*3.8.3.* Derbyniwyd 58 o sylwadau ynglŷn â'r cynnig hwn a gellir crynhoi'r gwahanol safbwyntiau fel a ganlyn.

*3.8.4.* Roedd mwyafrif y sylwadau a dderbyniwyd yn erbyn codi'r Dreth Gyngor. Yn wir, thema gyson a amlygwyd yn y sylwadau yw nad oedd y trigolion a ymatebodd yn deall pam ddylid gofyn iddynt dalu mwy o Dreth Gyngor pan fod y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn lleihau. Roedd nifer yn nodi petai'r dreth gyngor yn codi yna byddai disgwyl i wasanaethau wella ac y dylid dileu'r cynigion eraill a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Cafwyd beirniadaeth hefyd bod Ynys Môn yn cymharu ei hun gydag awdurdodau eraill mewn perthynas â'r dreth gyngor a nodwyd bod hynny'n wallus oherwydd bod cyfartaledd cyflog yn is ar yr ynys a'r boblogaeth yn llai.

*3.8.5.* Roedd un neu ddau o'r ymatebwyr yn beirniadu'r ffaith na chafodd canrannau (%) eu nodi yn yr ymgynghoriad ac nad oedd defnyddio termau ariannol (£oedd) yn rhoi darlun llawn.

*3.8.6.* Wedi dweud hynny, roedd 9 o'r 50 ymatebydd a gyflwynodd sylwadau yn cytuno i gynyddu'r dreth gyngor a'r thema gyffredin yn yr ymatebion hynny oedd petai'r dreth gyngor yn cynyddu y dylai'r cyfan o'r arian ychwanegol gael ei ddefnyddio i leihau'r toriad i ysgolion, neu hyd yn oed glustnodi'r cyfan er budd addysg ac ysgolion.

*3.8.7.* Er bod gwrthwynebiad i gynyddu'r Dreth Gyngor yn amlwg ar y cyfan, roedd rhai yn teimlo fod angen y cynnydd ac y dylai'r Cyngor wneud hynny.

*3.9. Y Dreth Gyngor - Premiymau*

3.9.1. Ymatebodd bron i 1,000 o bobl i'r arolwg a derbyniodd yr arolwg hwn lawer iawn mwy o ymatebion na'r cynigion cyllidebol eraill.

3.9.2. Roedd 70% o'r rhai a ymatebodd wedi cynnwys sylwadau ychwanegol hefyd er mwyn cefnogi eu hachos.

3.9.3. Fodd bynnag, nid oedd nifer o'r sylwadau yn deall y gwahaniaeth rhwng tŷ gwag tymor hir ac ail gartref sydd yn wag am gyfnodau hir yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn peri rhai anawsterau wrth ddadansoddi'r data er bod nifer o'r themâu'n debyg.

3.9.4. Isod rhoddir dadansoddiad o'r ddau gwestiwn a ofynnwyd ynghyd â'r themâu a amlygwyd yn yr ymatebion:

- **Ydych chi'n meddwl y dylem gynyddu'r Premiwm Treth Gyngor ar eiddo gwag tymor hir o 25% i 100%?**

3.9.5. Cafwyd 979 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg.

3.9.5.1. Nid yw 56% yn cytuno i gynnydd o 100%
3.9.5.2. Mae 44% yn cytuno.

3.9.6. O'r 979 o ymatebion cafwyd 678 o sylwadau ychwanegol, ond nid oedd pob un ohonynt yn ymwneud ag eiddo gwag ond ag ail gartrefi yn bennaf.

3.9.7. Mae themâu yn y sylwadau yn erbyn y premiwm ar dai gwag yn cynnwys:

3.9.7.1. Nid yw Tai Gwag yn defnyddio cymaint o Wasanaethau'r Cyngor
3.9.7.2. Bydd arian sy'n cael ei ddefnyddio i adnewyddu tai gwag yn cael ei golli ac o ganlyniad byddant yn wag am gyfnod hirach
3.9.7.3. Mae'n anodd gwerthu rhai tai gwag
3.9.7.4. Cartrefi wedi bod yn y teulu ers cenedlaethau
3.9.7.5. Caledi Ariannol
3.9.7.6. Cael eu gorfodi i werthu

3.9.8. Mae themâu o blaid y premiwm ar dai gwag yn cynnwys:

3.9.8.1. Mae cynnydd yn golygu bod tai gwag yn dod yn ôl i ddefnydd
3.9.8.2. Cynnydd graddol dros gyfnod o amser e.e. Blwyddyn 1 – 50%, Blwyddyn 2 – 75%...
3.9.8.3. Cynyddu'r premiwm ar gyfer tai gwag cyfnod hir yn unig, e.e. dros 2 flynedd
3.9.8.4. Cynnig cynllun i leihau nifer y tai gwag
3.9.8.5. Cynllun pryniant gorfodol ar gyfer tai gwag tymor hir

- ***Ydych chi'n meddwl y dylem gynyddu'r Premiwm Treth Gyngor ar Ail Gartrefi o 25% i 35%?***

3.10. Cafwyd 992 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg.
3.10.1. Nid yw 83% yn cytuno â'r cynnydd
3.10.2. Mae 17% yn cytuno

3.11 O'r 992 o ymatebion derbyniwyd 689 o sylwadau ychwanegol er, yn yr un modd â'r uchod, nid oedd yr holl sylwadau'n ymwneud â phremiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi.

3.11.1 Mae'r themâu o fewn y sylwadau yn erbyn cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi yn cynnwys:

3.11.1.1 Bydd yr Ynys yn colli budd economaidd
3.11.1.2 Bydd yn cael effaith ar dwristiaeth
3.11.1.3 Mae Ail Gartrefi yn defnyddio llai o wasanaethau'r cyngor
3.11.1.4 Mae nifer o Ail Gartrefi yn Gartrefi Ymddeol ar gyfer y dyfodol
3.11.1.5 Cael eu gorfodi i werthu
3.11.1.6 Dylai Ail Gartrefi dalu llai o dreth gyngor nid mwy
3.11.1.7 Penderfyniad byrbwyll
3.11.1.8 Gwahaniaethu
3.11.1.9 Newid ail gartref yn brif gartref

3.11.1.10 Mae themâu o blaid y premiwm ar ail gartrefi yn cynnwys:
3.11.1.11 Dylid cynyddu Treth Gyngor ar Ail Gartrefi hyd yn oed yn fwy gan eu bod yn gallu fforddio talu
3.11.1.12 Gallai'r cynnydd greu mwy o gartrefi i bobl leol

3.12 Mae'r safbwyntiau hyn hefyd yn cael eu cyfarch yn oddeutu 50 o e-byst a dderbyniwyd ar y mater. Mae'r rhai sydd wedi cysylltu a'r Cyngor drwy'r ffordd yma wedi mynegi eu anfodlonrwydd llwyr gyda'r fath gynnig ac maent yn hollol wrthwynebus iddo.

3.13Mae'r cwmwl geiriau isod (Darlun 1) yn rhoi crynodeb o'r sylwadau. Mae'r geiriau mwyaf yn cael eu trafod yn fwy aml a'r geiriau lleiaf yn llai aml.

*Darlun 1.*



***4 Casgliad Terfynol***

4.1 I gloi felly, o'r ymatebion i'r mathau o arbedion a gynigir mewn perthynas â chyllideb 2019/20, ymddengys fod cydbwysedd amlwg, gyda rhai ymatebwyr yn erbyn a rhai o blaid. Mae'r uchod yn amlygu rhai o'r tensiynau hyn ac yn nodi'r meysydd mwyaf cynhennus (ymatebion dros 70%) lle mae cryn anghytundeb gyda'r cynigion. Y meysydd hynny yw:

*4.1.1.1 Y Dreth Gyngor – Premiymau ar 2[ail] Gartrefi*
*4.1.1.2 Toriadau i gyllidebau ysgolion, a*
*4.1.1.3 Gwneud arbedion drwy leihau'r galw am ofal cartref a gwasanaethau byw â chymorth*

*4.1.2* Nodir hefyd fod y gyfradd ymateb i'r ymgynghoriad eleni yn llawer uwch nag yn y gorffennol a chynigir fod gwerthusiad llawn o broses ymgynghori eleni yn cael ei chynnal er mwyn dysgu gwersi a darparu sylfaen gadarn er mwyn gwella eto flwyddyn nesa'.

***4.1.3*** **Ar sail y casgliadau hyn, argymhellir bod -**

***4.1.3.1*** **y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried yr ymateb fel rhan o'u trafodaethau cyn gwneud argymhellion terfynol**
***4.1.3.2*** **Panel Cyllid y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystyried ymhellach y meysydd ar gyfer gwneud arbedion a argymhellwyd gan ein dinasyddion (Atodiad A) fel rhan gyntaf y broses ar gyfer gosod cyllideb 2020/21.**

Atodiad ‘A’ – <u>Ymatebion / Syniadau – wedi cael eu crynhoi</u>

1. **Gwasanaeth Biniau**

- Stopio gwasanaeth casglu biniau gwyrdd rhwng Hydref a Mawrth.
- Stopio gwasanaeth casglu biniau gwyrdd yn gyfan gwbl.
- Lleihau casgliadau bin gwyrdd a du i fod yn fisol.
- Biniau ailgylchu mawr (gwahanol liwiau ar gyfer deunydd ailgylchu gwahanol) i gael eu casglu yn fisol – annog pobl i ailgylchu mwy a lleihau gwastraff er mwyn i’r bin du gael ei gasglu yn fisol hefyd.

2. **Llyfrgelloedd**

- Cau llyfrgelloedd sydd ddim yn cael eu defnyddio llawer.
- Canoli llyfrgelloedd neu ddefnyddio ac uno gyda llyfrgelloedd yr Ysgolion Uwchradd.
- Cynnal gweithgareddau i blant yn y llyfrgelloedd a chodi taliad bach.
- Codi ffi mynediad i Oriel Môn.

3. **Ysgolion**

- Cau ysgolion i blant am 1pm bob dydd Gwener. Bydd hyn yn galluogi athrawon i gymryd eu 10% o amser digyswllt yr un pryd - hyrwyddo cydweithio a lleihau costau staffio craidd (h.y. costau athrawon cyflenwi ar gyfer y 10%).
- Opsiwn hefyd o leihau costau staffio eraill yn ystod y cyfnod – mewn ysgolion mawr gall hyn arbed dros £100,000 y flwyddyn.
- Cynyddu cost cinio ysgol – ond, mae angen sicrhau prydau ysgol o ansawdd gwell i wneud hyn. (o £2.40 i £3.00).
- 4.5 diwrnod yr wythnos i ysgolion?
- Gwresogydd ymlaen drwy’r adeg yn yr ysgol - methu ei reoli. Dim ond botwm ymlaen /diffodd.
- Codi dirwy ar ffurf trwydded ar rieni sydd yn bysio eu plant i ysgolion cynradd tu allan i ddalgylchoedd priodol eu preswylfa.
- Codi tâl ar bob disgybl i dalu am fws i’r uwchradd.

4. **Trafnidiaeth Gyhoeddus**

- Cyfuno'r gwasanaeth bws 62 a 61 i gysylltu Bangor a Chaergybi gyda lleoliadau megis Cemaes a Cemlyn.
- Adolygu’r systemau bysus – lleihau / uno teithiau.

5. **Twristiaeth**

- Codi proffil twristiaeth ar yr Ynys – rhaid buddsoddi er mwyn gwneud arian.
- Ynys Môn yn colli cyfle i hyrwyddo’r holl ddiwylliant a chwedloniaeth sy’n bodoli yma.
- Codi toll ar ymwelwyr i groesi’r pontydd wrth iddynt ddod i’r Ynys.
- Datblygu twristiaeth – gan gynnwys canolfan twristiaeth.

6. **Codi Treth**

- Codi treth o 10%.
- Codi treth i fod yn gyfartal a Gwynedd.
- Codi treth ychwanegol fwy ar dai sydd yn cael eu prynu fel tai gwyliau personol – ni ddylid cosbi pobl leol sydd yn prynu ail dŷ ar gyfer incwm drwy ei logi.
- Codi premiwm ail gartrefi / tai haf i 100%.

7. **Awgrymiadau Staffio**

- Diswyddo staff
- Ail-strwythuro mewnol
- Stopio hysbysebu swyddi.
- Pwyllgor Gwaith yn rhy fawr – angen lleihau.
- Edrych ar swyddi 'rheolaeth ganol' i fyny yn yr holl adrannau – oes angen cymaint o swyddogion?
- Ddim angen y ddwy brif weithredwraig gynorthwyol.
- Lleihau'r defnydd o 'ymgynghorwyr' a rhoi'r cyfrifoldeb ar swyddogion sydd â'r un cymwysterau.

8. **Cyflogi**

- Lleihau cyflogau staff
- Toriadau cyflog staff sydd dros £40,000.
- Stopio talu 'goramser' a 'bonuses' i staff

9. **Taliadau Parcio**

- Codi tâl ar staff am barcio eu ceir – yn y swyddfeydd.
- Codi £200 (yn ddibynnol ar raddfa cyflog) y flwyddyn ar bawb sy'n parcio mewn mannau'r Cyngor (cynnwys swyddfeydd ac ysgolion) – i gael ei dynnu gan yr adran gyflogau.

10. **Lleihau Cynghorwyr**

- Ddim angen 30 o aelodau i gynrychioli ynys mor fach.
- Adolygu'r niferoedd o gynghorwyr fesul ardal (2 yn ddigonol)
- Lleihau treuliau ar eu cyfer.
- Lleihau gwariant ar gynghorwyr – fel prynu i-pads.
- Lleihau cyflog cynghorwyr lleol.

| Atodiad 3<br>Arbedion Cyllideb Refeniw i'w Gweithredu yn 2019 / 20 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Cyllideb** | **Cynnig ar gyfer Arbedion** | **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | **Arbedion i'w Gweithredu £** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Priffyrdd – Cludiant Cyhoeddus | Gwneud arbedion o fewn y gwasanaeth bysus drwy roi gorau i'r teithiau isod nad oes llawer yn gwneud defnydd ohonynt -<br>50b - 07.13 rhwng Amlwch a Llangefni (gwasanaeth 32) ar foreau Sadwrn<br>63a - 63 Gwasanaeth sy'n teithio o Amlwch i Lanerchmynedd i Fangor (drwy Frynteg) ar brynhawniau Sadwrn<br>43a - Gwasanaeth dyddiol sy'n darparu ar gyfer stadau ac ardaloedd preswyl ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll ynghyd â gwasanaeth rhwng Caernarfon a Llangefni | EA 1 | 133 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Priffyrdd – Parcio Ceir | Cynnydd o £20 ym mhris y tocyn parcio blynyddol er mwyn gwneud mwy o incwm | Dim Angen | 8 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Priffyrdd – Cludiant | Adolygu dyfodol yr holl hebryngwyr croesfannau ysgol | EA 2 | 58 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Priffyrdd – Cynnal a Chadw | Lleihau'r cyllidebau ar gyfer cynnal a chadw'r Llwybr Arfordirol, Strwythurau a Thraffig | Dim Angen | 15 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Priffyrdd – Cynnal a Chadw | Lleihau'r cyllidebau ar gyfer Cynnal a Chadw Goleuadau Stryd yn sgil gosod mwy o oleuadau stryd LED | Dim Angen | 42 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Priffyrdd – Cynnal a Chadw | Rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ychwanegolyn 'safecote' ar gyfer graeanu | Dim Angen | 25 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Priffyrdd – Cynnal a Chadw | Cynyddu'r gyllideb incwm gwaith stryd i prifat adlewyrchu'r lefel gyfredol o incwm a dderbyniwyd | Dim Angen | 100 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Gwastraff | Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus penodol i'r cymunedau | Dim Angen | 10 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Priffyrdd - Fflyd | Defnydd cynyddol o geir LPG a thrydan | Dim Angen | 40 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Eiddo – Unedau Diwydiannol | Incwm ychwanegol o unedau diwydiannol newydd | Dim Angen | 14 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Eiddo – Gweinyddu | Ailstrwythuro'r Tîm Rheoli Eiddo | Dim Angen | 85 |

**Atodiad 3**

**Arbedion Cyllideb Refeniw i'w Gweithredu yn 2019 / 20**

| Gwasanaeth | Cyllideb | Cynnig ar gyfer Arbedion | Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Arbedion i'w Gweithredu £ |
|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Eiddo – Adeiladau Cyhoeddus | Arbedion ar gyllidebau ynni yn dilyn buddsoddiad cyfalaf | Dim Angen | 30 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Eiddo – Adeiladau Cyhoeddus | Rhesymoli rheolaeth y staff glanhau | Dim Angen | 20 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Eiddo – Adeiladau Cyhoeddus | Lleihau costau adeiladau / costau rhedeg yn dilyn cael gwared ar Neuadd y Sir, Llangefni | Dim Angen | 20 |
| **Cyfanswm ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | **600** |
| Gwasanaethau Oedolion | Yr Henoed | Gostwng y galw am leoliadau preswyl a nyrsio gan 2.5% y flwyddyn | EA 3 | 111 |
| Gwasanaethau Oedolion | Yr Henoed | Gostwng y galw am wasanaethau gofal cartref gan 53 awr yr wythnos | EA 3 | 46 |
| Gwasanaethau Oedolion | Iechyd Meddwl / Anableddau Corfforol | Gostwng y galw am wasanaeth byw â chymorth gan 50 awr yr wythnos | EA 3 | 38 |
| Gwasanaethau Oedolion | Anableddau Corfforol | Cynyddu nifer y cleientiaid sydd yn defnyddio taliadau uniongyrchol gan 10 cleient y flwyddyn | Dim Angen | 30 |
| Gwasanaethau Oedolion | Yr Henoed | Cynyddu cost safonol y gofal a ddarperir yng nghartrefi'r Cyngor er mwyn adlewyrchu'n agosach y gost o ddarparu'r gwasanaeth | Dim Angen | 30 |
| Gwasanaethau Oedolion | Iechyd Meddwl / Anableddau Corfforol | Cychwyn codi'r hyn a ganiateir yn statudol ar gyfer yr holl oedolion sy'n gleientiaid a hynny'n gyson ar draws pob oedran ac anabledd | Dim Angen | 250 |
| Gwasanaethau Oedolion | Uned Ddarparu | Arbediad blwyddyn lawn yn dilyn cau Plas Penlan | Dim Angen | 70 |
| Gwasanaethau Oedolion | Yr Henoed | Allanoli mwy o becynnau gofal cartref i ddarparwyr preifat | Dim Angen | 11 |
| **Cyfanswm ar gyfer Gwasanaethau Oedolion** | | | | **586** |
| Dysgu a Diwylliant | Llyfrgelloedd | Lleihau'r gronfa ar gyfer prynu llyfrau | Dim Angen | 20 |
| Dysgu a Diwylliant | Llyfrgelloedd | Gwneud i ffwrdd â'r gyllideb sydd ddim yn cael ei defnyddio – Talnet | Dim Angen | 20 |
| Dysgu a Diwylliant | Ysgolion | Darparu setliad ariannol i ysgolion sy'n is na'r gost lawn o'r holl bwysau cyllidebol y mae ysgolion yn eu hwynebu yn 2019/20 | EA 4 | 626 |

**Atodiad 3**

**Arbedion Cyllideb Refeniw i'w Gweithredu yn 2019 / 20**

| Gwasanaeth | Cyllideb | Cynnig ar gyfer Arbedion | Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Arbedion i'w Gweithredu £ |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu a Diwylliant | Addysg | Dim ond prynu'r isafswm statudol o ddarpariaeth feithrin gan sefydliadau meithrin | EA 5 | 89 |
| Dysgu a Diwylliant | Addysg | Adolygu'r modd darperir gwasanaethau integredig er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau | Dim Angen | 106 |
| Dysgu a Diwylliant | Diwylliant | Dileu'r cyllidebau marchnata ar gyfer Melin Llynnon, Carchar Biwmares ac Ynys Lawd – dim eu hangen mwyach | Dim Angen | 15 |
| Dysgu a Diwylliant | Y Gwasanaeth Ieuenctid | Cau 1 clwb a lleihau nifer yr wythnosau y mae clybiau eraill ar agor a pheidio â thalu mwyach i blant weithio yn y Bar Coffi yng Nghlwb Jesse Hughes | Dim Angen | 10 |
| Dysgu a Diwylliant | Diwylliant | Ailstrwythuro Staff | Dim Angen | 36 |
| Dysgu a Diwylliant | Diwylliant | Lleihau'r gyllideb Grantiau ar gyfer y Celfyddydau er mwyn adlewyrchu'r swm gwirioneddol sydd ei angen | Dim Angen | 15 |
| Dysgu a Diwylliant | Diwylliant | Cynyddu'r gyllideb incwm ar gyfer Oriel Ynys Môn er mwyn adlewyrchu'r perfformiad cyfredol | Dim Angen | 30 |
| **Cyfanswm ar gyfer Dysgu a Diwylliant** | | | | **967** |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Arforol | Lleihau Cyllidebau Arforol | Dim Angen | 16 |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Datblygu Economaidd | Lleihau capasiti yn y Swyddogaeth Adfywio | Dim Angen | 66 |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Twristiaeth | Lleihau cyllidebau Twristiaeth a Chefn Gwlad | Dim Angen | 5 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Hamdden | Lleihau'r gyllideb Cyfleusterau Awyr Agored yn dilyn trosglwyddo asedau o'r Swyddogaeth Hamdden | Dim Angen | 42 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwarchod y Cyhoedd | Lleihau capasiti yn y Swyddogaeth Gwarchod y Cyhoedd | Dim Angen | 42 |
| **Cyfanswm ar gyfer Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | **171** |
| Tai | Tai | Ailstrwythuro Staff | Dim Angen | 54 |
| **Cyfanswm ar gyfer Tai** | | | | **54** |

Atodiad 3

## Arbedion Cyllideb Refeniw i'w Gweithredu yn 2019 / 20

| Gwasanaeth | Cyllideb | Cynnig ar gyfer Arbedion | Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Arbedion i'w Gweithredu £ |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Caffael | Lleihau cyllidebau Caffael canolog | Dim Angen | 5 |
| Adnoddau | Gweinyddu | Ailstrwythuro Staff | Dim Angen | 25 |
| **Cyfanswm ar gyfer Adnoddau** | | | | **30** |
| Trawsnewid | Adnoddau Dynol | Lleihau'r gyllideb hyfforddiant ar gyfer lleoliadau dros yr haf | Dim Angen | 20 |
| Trawsnewid | TG | Lleihau cyllidebau ffôn yn dilyn cael gwared ar linellau ffôn nad ydynt yn cael eu defnyddio neu linellau ble mae'r defnydd yn isel | Dim Angen | 20 |
| Trawsnewid | TG | Gwneud i ffwrdd â'r gyllideb cynadleddau fideo – nid yw'r system yn cael ei defnyddio mwyach | Dim Angen | 3 |
| **Cyfanswm ar gyfer Adnoddau** | | | | **43** |
| Corfforaethol | Pensiynau | Lleihau  cyllidebau pensiwn hanesyddol er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad yn y costau | Dim Angen | 100 |
| Corfforaethol | Corfforaethol a Democrataidd | Lleihau ffioedd archwilio allanol i adlewyrchu'r gwasanaeth a'r costau diwygiedig | Dim Angen | 10 |
| **Cyfanswm ar gyfer Corfforaethol** | | | | **110** |
| | | | | |
| **CYFANSWM CYNIGION AR GYFER ARBEDION** | | | | **2,561** |

## CYNNIG TERFYNOL AR GYFER CYLLIDEB 2019/20 YN ÔL GWASANAETH

| | Cyllideb Ddisymud yn dilyn y Setliad Dros Dro<br>£ | Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymud<br>£ | Arbedion<br>£ | Cyllid Grant<br>£ | Pwysau ar y Gyllideb<br>£ | Cyllideb Arfaethedig Derfynol ar gyfer 2019/20<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 51,438,078 | (33,790) | (966,983) | (172,800) | - | 50,264,505 |
| Gwasanaethau Oedolion | 25,450,316 | 171,860 | (586,000) | - | - | 25,036,176 |
| Gwasanaethau Plant | 9,997,900 | (141,882) | - | - | - | 9,856,018 |
| Gwasanaethau Tai | 1,095,656 | 169,880 | (54,000) | - | - | 1,211,536 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 15,191,699 | (7,940) | (600,000) | - | - | 14,583,759 |
| Economaidd ac Adfywio Cymunedau | 3,971,504 | 26,590 | (171,373) | - | - | 3,826,721 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 4,511,407 | 2,360 | (42,890) | - | - | 4,470,877 |
| Adnoddau (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd) | 3,312,327 | (164,560) | (30,000) | - | - | 3,117,767 |
| Busnes y Cyngor | 1,570,765 | 54,016 | - | - | - | 1,624,781 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 685,796 | - | - | - | - | 685,796 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **117,225,448** | **76,534** | **(2,451,246)** | **(172,800)** | **-** | **114,677,936** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 3,479,598 | (11,578) | (110,000) | - | - | 3,358,020 |
| Ad-daliadau i'r CRT | (677,950) | - | - | - | - | (677,950) |
| Ardollau | 3,551,629 | (24,677) | - | - | - | 3,526,952 |
| Cyllido Cyfalaf | 6,989,932 | - | - | - | - | 6,989,932 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 60,000 | - | - | - | - | 60,000 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5,164,000 | 225,000 | - | - | - | 5,389,000 |
| **Cyfanswm Cyllidebau a Ddyrannwyd** | **135,792,657** | **265,279** | **(2,561,246)** | **(172,800)** | **-** | **133,323,890** |
| Arian wrth gefn Cyffredinol ac Arall | 1,609,180 | - | - | - | 277,118 | 1,886,298 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2019/20** | **137,401,837** | **265,279** | **(2,561,246)** | **(172,800)** | **277,118** | **135,210,188** |
| **Cyllidir gan** | | | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | (72,405,175) | (632,163) | - | - | - | (73,037,338) |
| Trethi Annomestig | (22,753,674) | - | - | - | - | (22,753,674) |
| Dreth Gyngor yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | (36,842,437) | (2,576,739) | - | - | - | (39,419,176) |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | - | - | - | - | - | |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(132,001,286)** | **(3,208,902)** | **-** | **-** | **-** | **135,210,188** |
| **Gwahaniaeth rhwng y Gyllideb a'r Cyllid** | **5,400,551** | **(2,943,623)** | **(2,561,246)** | **(172,800)** | **277,118** | **-** |

# Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2019/20**



| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | Cludiant Cyhoeddus<br><br>Mae'r Adran Briffyrdd wedi cynnal adolygiad o wasanaethau bysiau, gan nodi llwybrau â niferoedd teithwyr isel a chymhorthdal uchel.<br><br>**Cytundeb 50b** – Argymell peidio â gweithredu'r siwrna' dan wasanaeth 32 am 0713 o Amlwch i Langefni ac argymell peidio â gweithredu'r siwrneiau ynghlwm gyda'r gytundeb yma ar ddydd Sadwrn. Ar hyn o bryd nid yw'r siwrneiau sy'n rhan o'r cytundeb yma yn gweithredu ar brynhawn Sadwrn, arbed £10.7k.<br><br>**Cytundeb 63a** – Argymell peidio â gweithredu gwasanaeth 63 ar brynhawn Sadwrn o Amlwch i Lannerch-y-medd i Fangor (heibio Brynteg), arbed £6.2k.<br><br>**Cytundeb 43a** – Argymell terfynu pob siwrna' sy'n rhan o'r cytundeb yma, arbed £95k. Mae'r siwrneiau presennol yn gwasanaethu stadau tai ac ardaloedd preswyl ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll a siwrna' sengl yn gweithredu yn uniongyrchol rhwng Caernarfon a Llangefni. |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Interim<br><br>Iwan Cadwaladr, Uwch Beiriannydd Trafnidiaeth |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Cynnig newydd |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Teithwyr bws fyddai yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma. Yn enwedig y defnyddwyr sydd yn llai abl i gerdded at y safle bws agosaf. |
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | Bydd y siwrneiau dan sylw ddim ar gael i deithwyr. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl** | Na ddim yn ymwybodol o unrhyw gynnig arall. |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw** | Ni fydd teithwyr arferol y siwrneiau dan sylw yn gallu eu defnyddio mwyach mi all hyn arwain at fwy o siwrneiau ceir neu unigolion yn methu teithio. Bydd angen i'r teithwyr arferol ar siwrneiau 43a gerdded yn bellach i safle bws gwahanol neu ddefnyddio dau wasanaeth sydd yn cysylltu. |
| **8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant. | Mae peryg y gall lleihau cyllideb y gwasanaeth cludiant cyhoeddus effeithio ar lefelau 'Bus Services Support Grant' yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r grantiau hyn yn cael eu hadolygu. |
| **9 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig** | Cyn newid neu ddarfod unrhyw brif siwrneiau bws bydd ymarfer ymgynghori ychwanegol yn angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori gyda grwpiau defnyddwyr penodol, cynghorwyr, cynghorau tref a chymuned ac aelodau o'r cyhoedd dros 3 mis. Mae gofyn rhoi rhybudd o 84 diwrnod i'r gweithredwyr bws. |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **10 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Wrth dorri y siwrneiau dan sylw mi fyddai'n golygu bod y teithwyr arferol yn cael eu heffeithio. Mewn rhai achosion, mae siwrneiau gwahanol ar gael (siwrneiau yn ymwneud â chytundeb 43a yn benodol).<br><br>Byddai angen i deithwyr Porthaethwy gerdded at y B5420 a defnyddio gwasanaeth bws 62.Byddai angen i deithwyr Llanfairpwll gerdded at yr A5 a defnyddio gwasanaeth 4/X4/42.<br><br>Byddai angen i deithwyr o Langefni i Gaernarfon wneud cysylltiad ym Mangor neu Ysbyty Gwynedd. |
| **11 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Bydd siwrneiau bws gwahanol ar gael i deithwyr bws sydd yn cael eu heffeithio, ond bydd angen cerdded ymhellach at y gwasanaethau hynny. Mae safleoedd bws a cysgodfannau ar y llwybrau arfaethedig a gwasanaeth amlach. |
| **12 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na |

## Cam 3 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | 3 mis o ymgynghori gyda defnyddwyr | IC | Cychwyn Tachwedd |
| | 84 diwrnod o rybudd i weithredwyr bws | IC | Cychwyn Rhagfyr |
| | | | |

# Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2018/19**

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | | |
|---|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | Darfod Gwasanaeth Croeswyr Plant Ysgol | |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Interim<br><br>Jennifer Clark, Uwch Beiriannydd Trafnidiaeth Strategol a Diogelwch y Ffyrdd | |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Newydd – y polisi blaenorol oedd i beidio ail osod swydd ar ol i Croeswr benderfynu adael y Gwasanaeth. | |
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Croeswyr Plant Ysgol - | Kingsland, Caergybi<br>Cybi, Caergybi (x 2)<br>Llanfawr, Caergybi (1x parhaol, 1 x achlysurol)<br>St. Mary's, Caergybi<br>Y Graig, Llangefni<br>Amlwch<br>Llanfechell<br>Caergeiliog<br>Llannerch y Medd |
| | Plant Ysgol Cynradd sydd yn cerdded i'r ysgolion uchod.<br><br>Rhieni sydd yn gyfrifol am blant oed Cynradd yn yr ysgolion uchod. | |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | Bydd y staff sydd yn cael eu heffeithio yn colli swydd.<br><br>Plant/rhieni –cyfrifoldeb y rhieni ydyw yn bresennol i sichrau bod y plant yn cyrraedd yr ysgol yn ddiogel – bydd hyn ddim yn newid. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl** | Na |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw** | Cyllidebol – costau diswyddiadau |
| **8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant. | Gallai tynnu'r Croeswyr Plant Ysgol olygu bod y risg o wrthdrawiadau i blant yn cynyddu.<br><br>Posibilrwydd o fwy o dagfeydd tu allan i ysgolion.<br><br>Cyhoeddusrwydd negyddol i'r Cyngor. |
| **9 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig** | Bydd angen cynnal ymgynghoriad gyda'r Croeswyr Plant Ysgol a'r ysgolion sydd yn cael eu heffeitho. |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **10 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Gallai tynnu'r Croeswyr Plant Ysgol olygu bod y risg o wrthdrawiadau i blant yn cynyddu, gallai'r risg yma gael ei leihau drwy ddilyn y mesuriadau canlynol:<br><br>Gwella'r  cyfleusterau croesfanau ffisegol  – bydd angen cynnal asesiad ym mhob ysgol i adnabod unrhyw ddarpariaeth sydd angen ei wneud  ymhle does dim darpariaeth, ac i wiro addasrwydd y ddarpariaeth ymhle bod cyfleusterau eisoes wedi eu gosod.<br><br>***Ysgol*** — ***Darpariaeth Cyfredol***<br>Kingsland, Caergybi — Dim Croesfan<br>Cybi, Caergybi — Mae yna croesfannau sebra y ddwy ochr o'r ysgol ond dim ar leoliadau'r croeswyr<br>Llanfawr, Caergybi — Dim Croesfan<br>St. Mary's, Caergybi — Dim Croesfan<br>Y Graig, Llangefni — Croesfan Pelican wrth leoliad y croeswr ac hefyd Croesfan Toucan wrth yr ysgol<br>Amlwch — Croesfan Sebra<br>Llanfechell — Dim Croesfan<br>Caergeiliog — Ynys Traffic<br>Llannerch y Medd — Dim Croesfan<br><br>Gwersi Diogelwch y Ffyrdd gan aelodau staff yr Uned Diogelwch y Ffyrdd– dim costau ychwanegol i'r Awdurdod.<br><br>Adran Addysg / Ysgolion - Diweddaru eu Cynlluniau Teithio i'r Ysgol |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **11 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Nid yw'r Gwasanaeth Croeswyr Plant Ysgol (CPY) yn un stadudol. Mae'r Cyngor yn bresennol yn dilyn canllawiau y gwasanaeth CPY ar gyfer asesu safle sydd yn defnyddio y formiwla "PV2" (P= Number of Pedestrians, V=Number of Vehicles)<br><br>Mae'r fformiwla "PV2" yn mesur y potensial am wrthdaro a'r amser oedi gan gerddwyr. Mae hefyd yn ystyried yr angen i helpu nifer fach o gerddwyr ar draws y lon yn ddiogel pan mae llif y traffic yn drwm a'r oedi yn hir. Yn ogystal mae'n ystyried yr angen i helpu nifer uchel o gerddwyr pan mae'r traffic yn ysgafn a'r cyfnod oedi yn fyrrach.<br><br>Cafodd pob safle a'r Ynys Môn ei asesu yn 2007 gan ddefnyddio'r fformiwla "PV2", nid oedd cyfiawnhad ar gyfer yr un safle. Fel canlyniad mabwysiadodd yr Awdurdod y polisi o beidio ag ail lenwi swyddi Croeswyr Plant Ysgol oedd yn penderfynu gadael y gwasanaeth. Mae'r ffigyrau "PV2" wedi eu hadolygu ac yr ydym yn rhagweld y byddant yn aros yn sylweddol is na'r trothwy. Cafwyd y 3 llwybr i'r safle Ysgol Cybi newydd eu asesu ym Mis Medi 2017 ac roedd y 3 llwybr o dan y trothwy.<br><br>Mae yna Croesfanau Pal neu Sebra tu allan pedair ysgol (y rhai sydd wedi eu lleoli ar y lonydd prysura) a bydd gwersi diogelwch y ffyrdd yn cael eu cynnig. |
| **12 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na |

## Cam 3 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | Adolygu unrhyw safle ymylol | JC | Tachwedd 2018 |
| | Ymgynghori gyda Staff | JC | Rhagfyr 2018 |
| | | | |

# Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2018/19**
# Rheoli Gofyn Ar Draws Gwasanaethau

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | Rheoli Gofyn mewn sawl maes. Y meysydd penodol yw 1) Nifer lleoliadau o fewn cartrefi 2) Nifer yr oriau o ofal cartref a ddarparwyd 3) Cefnogaeth mewn prosiectau byw gyda chefnogaeth |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Pennaeth Oedolion- Alwyn Jones- gyda chefnogaeth drwy aelodau or tim yn benodol Iola Richard a Barbara William, uwch reolwyr o fewn yr adran. |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Yn Gynnig blynyddol |
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Unigolion o fewn gwasanaeth a rhai fydd yn dymuno derbyn gwasanaethau ir dyfodol |
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | Bydd newid ar y cynnig y mae unigolion yn ei dderbyn or gwasanaeth gyda llai o bwysau ar ddatrys gofynnion unigolion a mwy o ffocws ar eu hadnoddai personol a cheisio osgoir gwasanaethau sydd yn cynyddu dibynniaeth. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl** | Oherwydd natur yr arbediad yma, nid oes linc I unrhyw arbediad arall. |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw** | Mae risg y bydd gofyn yn parhau I godi oherwydd pwysau demograffi serch newid mewn ymarfer o fewn y gwasanaeth. |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig**<br><br>r enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant. | Na, bydd llai o ddibynniaeth ar wasanaeth a chynydd mewn annibynniaeth yn gallu bod yn beth bositif . |
| **9 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig** | Na |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **10 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Effaith= Lleihad mewn cynnig gwasanaeth<br><br>Lliniaru= Cynnig cefnogaeth ar sail asedau unigolion a chwrdd au canlyniadau personol. |
| **11 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Dim yn berthnasol |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **12 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na |

## Cam 3 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynigion Cyllidol 2018/19**



| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | Darparu setliad I'r ysgolion sy'n is na chost llawn yr holl bwysau sydd arnynt yn ystod 19/20 |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Arwyn Williams |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Ystyriaeth blynyddol yn y blynyddoedd diwethaf |
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Effaith ar staff ysgolion a chapasiti i gynnal / godi safonau<br><br>Effaith anuniongyrchol ar ddisgyblion, a'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth a roddir iddynt |
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | Yn anorfod o gadw at y toriad a ymgynghorir arno, bydd torri swyddi – boed yn athrawon, cymorthyddion, staff gweinyddol.<br><br>Bydd torri swyddi yn rhoi straen a phwysau ychwanegol ar y staff fydd yn parhau yn ein ysgolion, ac yn cael effeithio ar y gynhaliaeth, darpariaeth ac adnoddau ar gyfer disgyblion. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl?** | Gweler cynnig rhif 4 uchod. |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, rhestrwch nhw os gwelwch yn dda** | Oes:-<br><br>• Dirywiad yn ansawdd y safonau a'r darpariaeth<br>• Effaith negyddol ar les a morâl staff<br>• Staff yn gadael eu gwaith – pwysau amlwg ar benaethiaid o orfod gweithredu'r toriadau.<br>• Nifer gynyddol o'n ysgolion yn mynd i ddyled<br>• Llai o amser arwain ar benaethiaid yn ein ysgolion cynradd, ac yn arbennig y rhai lleiaf<br>• Effaith sylweddol ar gyllidebau ysgolion Uwchradd ac ysgolion cynradd mawr |
| **8 – A fyddai unrhyw risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno â'r cynnig?**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant. | • Staff yn gadael eu swyddi / y proffesiwn<br>• Anoddach denu penaethiaid<br>• Canlyniadau mewn arolygon Estyn wedi bod yn bositif yn ddiweddar, dros gyfnod mae'n debygol o gael effaith ar hyn o weithredu'r toriad yn llawn. |
| **9 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig?** | • Fforwm Cyllid Ysgolion, Chwefror 6ed |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **10 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Bydd y toriad llawn yn cael effaith ar safonau, darpariaeth a chynhaliaeth i ddisgyblion yn ein ysgolion. Bydd effaith ar les a morâl staff.<br><br>Anodd lliniaru; yn sylfaenol bydd rhaid i ysgolion ddarganfod ffyrdd gwahanol o ddarparu'r gwasanaeth ar lai o gyllid. Gyda rhai ysgolion gellir dadlau fod modd gwneud hyn, gydag ysgolion eraill mae'n anodd iawn gweld sut heb unai fynd i ddyled, peryglu safonau.<br><br>Mae nifer dda o Benaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu wedi cysylltu a'r Pennaeth Dysgu yn nodi nad ydynt yn gweld sut mae modd gweithredu'r toriad.<br><br>Mae swyddogion yr adrannau addysg a chyllid wedi bod yn gweithio gyda phenaethiaid a chyrff llywodraethu i geisio dod o hyd i ffyrdd i allu torri'r 5%. |
| **11 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Y flaenoriaeth fydd sicrhau diogelu a diogelwch y disgyblion a chynnal safonau. Bydd codi safonau yn hynod o heriol o ystyried effaith y toriadau ar yr ysgolion hynny nad oes unman amlwg o ran meysydd i dorri cyllid. |
| **12 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Bydd y toriad yn golygu fod yr rhan fwyaf o'r ysgolion yn mynd i ddyled heb iddynt dorri swyddi. Bydd y rhan fwyaf o'r ysgolion a fydd yn parhau mewn dyled yn gallu rhoi cynllun adfer yn ei le dros flynyddoedd, ond bydd rhai ysgolion yn cael trafferth i roi cynllun o'r math yma yn ei le. Mae rhai ysgolion yn wynebu sefyllfa o fynd i ddyled (rhai yn ddyledion sylweddol) neu fethu staffio dosbarthiadau.<br><br>Y pris mwyaf i'w dalu ydy'r effaith y mae'n bosibl i hyn gael ar addysg plant Môn. O ganlyniad, er fod y toriad yn bosibl, gan y byddai ei effaith mor andwyol, credaf y dylid ail ystyried. |

## Cam 3 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynigion Cyllidol 2018/19**

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | Cyfrannu tuag at gynnal y cyfnod statudol o ddarpariaeth meithrin |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Arwyn Williams |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Cafodd hyn ystyriaeth rai blynyddoedd yn ol. |
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Cylchoedd meithrin – staff, gwirfoddolwyr a phwyllgorau<br><br>Rhieni disgyblion sy'n mynychu cylch meithrin yn nhymor penblwydd eu plentyn yn 3 oed. |
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | O dderbyn y cynnig, ni fydd y cyngor yn cyfrannu tuag at addysg feithrin rhwng Medi'r 1af a Rhagfyr 31ain. Y statud ydy darparu 10awr o addysg yn y tymor yn dilyn penblwydd y disgybl yn 3 oed<br><br>Bydd darpariaeth i'r disgyblion fydd yn dair oed cyn Awst 31ain yn eu hysgol gynradd (gydag eithriad Talwrn, Corn Hir, Henblas a Llandegfan). Bydd disgyblion a fydd yn 3oed rhwng Medi'r 1af a Rhagfyr 31ain yn derbyn addysg feithrin yn y tymor cyntaf wedi hyn, sef o Ionawr 1af ymlaen.<br><br>Bydd cyfle i gylchoedd meithrin ddenu incwm drwy ddarparu gofal o amgylch y 10awr, ac i ddisgyblion sydd ddim yn eu tymor cyntaf wedi eu penblwydd yn 3oed. |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl** | - |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, rhestrwch nhw os gwelwch yn dda** | Angen i gylchoedd fanteisio ar ddarparu cyfleoedd gofal 30awr er mwyn creu ffynhonnell arall o incwm yn ystod y tymor cyntaf. |
| **8 – A fyddai unrhyw risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno â'r cynnig?**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant. | Mae'n bosib y bydd sgil effaith ar y ddarpariaeth feithrin allai yn ei dro gael effaith ar pa mor barod ydy disgyblion i dechrau mewn dosbarth meithrin yn yr ysgol. |
| **9 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig** | Trafodaeth i'w barhau gyda chylchoedd meithrin a'r mudiad meithrin. |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **10 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Er mwyn lliniaru fe anogir cylchoedd i ddenu ffynhonnell arall o incwm yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn academaidd.<br><br>Mae swyddog o'r adran addysg eisoes wedi cychwyn trafodaeth gyda swyddog mudiad meithrin am hyn. |
| **11 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | |
| **12 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Nag oes |



**Cam 3 – Cynllun Gweithredu**

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 CHWEFROR 2019** |
| **PWNC:** | **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2019/20 i 2021/22** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES/CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**2601/1865**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk/clkfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhellion a rhesymau**

Mae'r Côd Darbodus diwygiedig gan CIPFA, Medi 2017 wedi cyflwyno'r gofyniad bod rhaid i bob awdurdod gynhyrchu strategaeth gyfalaf. Mae'n rhaid i'r strategaeth hon osod allan y cyd-destun tymor hir lle caiff penderfyniadau ar wariant a buddsoddiadau cyfalaf eu gwneud. Diben y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau yn gwneud penderfyniadau cyfalaf a buddsoddiadau yn unol ag amcanion y gwasanaethau a'u bod yn rhoi ystyriaeth wirioneddol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaladwyedd a fforddiadwyedd.

Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa dda o ran hyn gan fod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ers 2016/17, wedi cynhyrchu Strategaeth Gorfforaethol gadarn i arwain y Rhaglen Gyfalaf. Mae'r strategaeth hon wedi cael ei hymestyn i gynnwys y gofynion newydd a gyflwynir gan y côd (y rhai nad oedd yn eu hymgorffori eisoes).

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith :-

- Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2019/20 – 2021/22;
- Cymeradwyo'r gostyngiad yn y swm sy'n gymwys fel gwariant cyfalaf o de minimis o £30k i £10k y prosiect. Daw hyn â'r gwariant cyfalaf de minimis yn unol â'r derbyniadau cyfalaf de minimis o £10k

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

D/B

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r cyfrifoldeb am benderfynu ar strategaeth cyllideb y Cyngor wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - Ydi'r penderfyniad hwn yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - Ydi'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

| DD - | Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151 (mandadol)** | D/B – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)** | I'w gadarnhau |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |

Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2019/20 to 2021/22
Atodiad 2 – Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Ddrafft 2019/20 i 2021/22

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19, y Pwyllgor Gwaith, Chwefror 2018
Cynllun Ariannol Tymor Canol 2019/20 i 2021/22, y Pwyllgor Gwaith, Chwefror 2018
Adroddiad ar y Raglen Gyfalaf Ddrafft 2019/20, y Pwyllgor Gwaith, 12 Tachwedd 2018
Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20, y Pwyllgor Gwaith, Chwefror 2019
Adroddiad ar Raglen Gyfalaf 2019/20, y Pwyllgor Gwaith, 18 Chwefror 2019

**ATODIAD 1**

# Strategaeth Gyfalaf 2019/20 i 2021/22








# Cyngor Sir Ynys Môn
# Strategaeth Gyfalaf 2019/20 i 2021/22

## 1. Cyflwyniad

**1.1.** Mae Rhan 1, Adran 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn bod yr Awdurdod yn penderfynu ac yn parhau i adolygu faint y gall fforddio ei fenthyca. Caiff y Ddeddf ei chefnogi gan y Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdodau lleol a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd). Cafodd Côd Darbodus CIPFA ei ddiwygio yn 2017/18. Roedd y Côd diwygiedig yn cyflwyno gofyniad newydd bod rhaid i bob awdurdod gynhyrchu strategaeth gyfalaf, sy'n gosod allan y cyd-destun tymor hir lle caiff penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddiadau eu gwneud. Mae'n rhaid i awdurdodau roi ystyriaeth ddyledus i risgiau ac enillion ac effaith hynny ar gyflawni deilliannau blaenoriaeth. Roedd CIPFA hefyd wedi diwygio'r Cod Ymarfer ar Reoli Trysorlys ar yr un pryd. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon ar gyfer 2019/20 yn cwrdd â gofynion Cod Darbodus CIPFA 2017, yn cyd-fynd â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2019/20 ac mae'n cymryd i ystyriaeth Gôd Rheoli Trysorlys CIPFA 2017.

**1.2.** Diben y strategaeth hon yw sefydlu'r amcanion, egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar wariant a buddsoddiad cyfalaf yn unol ag amcanion y gwasanaeth. Mae Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017/22 yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022. Egwyddor hanfodol yn y Strategaeth yw canolbwyntio buddsoddiadau cyfalaf ar brosiectau sy'n helpu'r Cyngor i gwrdd â'r amcanion allweddol a ganlyn yn Nghynllun y Cyngor neu'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol:-

**Amcan 1:** Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.

**Amcan 2:** Cefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

**Amcan 3:** Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

**1.3** Mae'r strategaeth hon hefyd yn adnabod y gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar yr elfen cyllido cyfalaf o'r cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd am y cyfnod 2019/20 i 2021/22. Mae hefyd yn sefydlu egwyddorion tymor hir i gefnogi cynllunio cyfalaf ymhell i'r dyfodol. Mae trefn lywodraethu'r strategaeth hon yn dilyn yr un broses â'r prosesau gosod refeniw a'r gyllideb a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, a fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei chymeradwyo.

## 2. Amcanion ac Egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf

**2.1** Mae gan y Strategaeth Gyfalaf nifer o amcanion allweddol i sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cael ei dargedu at gwrdd â blaenoriaethau allweddol y Cyngor, gan hefyd roi ystyriaeth i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaladwyedd a fforddiadwyedd.

**2.1.1** Mae Cynllun y Cyngor 2017/22 yn gosod allan blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor hyd at 31 Mawrth 2022 a dylid canolbwyntio adnoddau ar gyflawni'r amcanion hyn. Bydd y strategaeth gyfalaf hon yn gymorth i sicrhau y bydd y rhaglen gyfalaf yn canolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n cyfrannu fwyaf at yr amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor 2017/22.

**2.1.2** Bob blwyddyn bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol.

**2.1.3** Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf allanol pan fo hynny'n bosib ac yn fforddiadwy.

**2.1.4** Bydd cyllido cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

**2.1.5** Mae'r Cyngor yn dal i fod yn ymroddedig i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a bydd yn parhau i wneud defnydd llawn o'r cyllid allanol sydd ar gael trwy'r Rhaglen.

**2.2** Bydd yr egwyddorion a ganlyn yn helpu i gefnogi bod yr amcanion allweddol uchod yn cael eu cyflawni:-

**2.2.1** Bod y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor. Mae'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn ymroddiad sylweddol tymor hir i adeiladu a/neu adnewyddu ysgolion fel bod ysgolion Môn yn addas i bara i'r dyfodol a chwrdd â gofynion yr 21ain Ganrif. Mae'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cynorthwyo'r agenda moderneiddio ysgolion ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir. Mae'r egwyddor hon hefyd yn cwrdd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i sicrhau bod lleoliadau addysgol yn addas yn y tymor hir. Bydd elfen o'r gwariant ar y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei gyllido o'r derbyniadau cyfalaf a geir o werthu ysgolion gwag, a bydd gweddill y balans yn cael ei gyllido o fenthyca digefnogaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y grant cyffredinol cyfalaf a'r benthyca â chefnogaeth ar gael i gyllido buddsoddiadau mewn asedau presennol a newydd sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion yng Nghynllun y Cyngor 2017/22 ac yn sicrhau bod asedau presennol y Cyngor yn cael eu cynnal a'u cadw.

**2.2.2** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i gyllido gwelliannau mawr i, neu i amnewid, offer TG presennol, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor. Mae gwneud gwaith cynnal a chadw parhaus ar asedau presennol ac amnewid hen asedau yn lleihau costau refeniw i'r Cyngor.

**2.2.3** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf i gwrdd â gofyniad statudol y Cyngor i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae hyn yn helpu i gyflawni cyfrifoldebau statudol ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i gefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

**2.2.4** Bod lefel o waith gwelliannau ffyrdd yn cael ei gyllido o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir yn ddibynnol ar y cyllid sydd ei angen i gyflawni unrhyw warantau gwerth isafswm contractau, lefel y cyllid sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod. Bydd gwelliannau i'r ffyrdd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae hefyd yn tanategu holl flaenoriaethau allweddol y Cyngor oherwydd natur wledig Ynys Môn a phwysigrwydd y rhwydwaith priffyrdd i sawl agwedd o waith y Cyngor.

**2.2.5** Bydd prosiectau sydd angen lefel o gyllid cyfatebol er mwyn gallu cael cyllid grant, yn cael eu hasesu fesul pob achos unigol gan y Swyddog Adran 151 a bydd wedyn yn gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad i ymrwymo cyllid ai peidio yn ddibynnol ar y prosiect, sut mae'n ffitio i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw sy'n parhau a'r gymhareb o gyllid y Cyngor i'r cyllid grant.

**2.2.6** Bydd prosiectau a gyllidir o fenthyca digefnogaeth, ac eithrio prosiectau'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ond yn cael eu cyflawni os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw neu'r incwm uwch a gynhyrchir yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol a grëir. Dylai unrhyw asedau a gyllidir trwy fenthyca digefnogaeth fod yn greiddiol i gyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor.

# 3. Sut mae'r Strategaeth yn ffitio gyda dogfennau eraill

## 3.1 Cynllun y Cyngor 2017/22

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn gobeithio ei gyflawni yn ystod y cyfnod 2017/22. Mae'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor wedi'u crynhoi uchod yn 1.2. Amcan allweddol yn y Strategaeth Gyfalaf hon yw sicrhau bod y cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn cael ei wario ar brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys cynnal a chadw, amnewid a/neu uwchraddio asedau presennol. Mae sawl dogfen strategol allweddol arall sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor. Mae'r rhain yn llywio sut mae'r Awdurdod yn gweithio ar agweddau penodol sy'n effeithio ar y Cyngor.

## 3.2 Y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT)

Mae cyswllt agos iawn rhwng y Strategaeth Gyfalaf hon a'r DSRhT a chaiff y ddwy ddogfen eu hadolygu'n flynyddol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn diffinio sut mae'r Cyngor yn gwario ei gyllid cyfalaf ac mae'r DSRhT yn gosod allan sut y caiff hyn ei gyllido a'i effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor. Mae benthyca yn rhan allweddol o'r strategaeth cyllido. Mae'r DSRhT hefyd yn rhoi manylion am sut yr ymgymerir â'r benthyca a sut y caiff ei reoli.

## 3.3 Y Cynllun Ariannol Tymor Canol

**3.3.1** Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) yw'r rhan hanfodol o gynllunio ariannol sy'n amcangyfrif gofynion refeniw y Cyngor dros y tair blynedd nesaf a sut caiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael. Bydd gwariant cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw trwy'r Darpariaeth Refeniw Isaf a'r llog sy'n daladwy ar fenthyca. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gymorth i hysbysu'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.

**3.3.2** Mae monitro'r gyllideb ac adolygu'r CATC yn rheolaidd yn helpu i fonitro effaith perfformiad ariannol a materion ariannol ar sut ydym yn cyflawni Cynllun y Cyngor. Yn gysylltiedig â'r monitro ariannol hefyd mae monitro perfformiad a risgiau corfforaethol a gwasanaeth – caiff rhai o'r risgiau hyn yn cael eu hadnabod fel risgiau ariannol. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a'r Strategaeth Rheoli Risg yn pennu sut caiff perfformiad a risg eu rheoli.

**3.3.3** Mae'r diagram isod yn crynhoi'r cysylltiad rhwng y strategaethau hyn a sut cânt eu harwain gan Gynllun y Cyngor yn y pen draw.

# Cynllun y Cyngor 2017/22

**Mae'r strategaethau a'r cynlluniau allweddol isod yn bwysig ac yn gysylltiedig â'i gilydd, i helpu i adnabod lefel fforddiadwy o refeniw a'r adnoddau cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor 2017/22. Mae'r rhain hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn o adnoddau'r Cyngor.**

## Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC)

Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd i helpu i sefydlu'r adnodd tebygol fydd ei angen am y tair blynedd nesaf a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r gofyn am adnoddau. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

## Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran sut dylid gwario gwariant cyfalaf i helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2017/22. Mae'n cydnabod bod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau refeniw cyllido cyfalaf a bod rhaid cadw'r rhain yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn effeithio ar ac yn cael ei heffeithio gan y CATC, Y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol.

## Strategaeth Rheoli Trysorlys (SRhT)

Mae hwn yn gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf a'r Datagniad Polisi Rheoli Trysorlys am y flwyddyn. Mae'r rhain yn darparu'r fframwaith a'r rheolaethau sydd eu hangen i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr am gostau refeniw a chyfalaf, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a'i fod yn hygyrch ac nad yw benthyca i gyllido gwariant cyfalaf yn mynd tu hwnt i lefel fforddiadwy.

Mae'r **Gyllideb Refeniw Flynyddol** yn cael ei chefnogi gan y CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r SRhT. – Bob blwyddyn caiff y costau refeniw cyllido cyfalaf eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r gwaith o osod y gyllideb refeniw. Weithiau caiff cyfraniadau refeniw eu defnyddio i gyllido costau cyfalaf.

**Y Rhaglen Gyfalaf flynyddol** – Mae'r lefel o wariant a benthyca cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus megis cynnal a chadw.

Tudalen 177

# 4. Y Strategaeth Gorfforaethol a'r Broses Rhaglen Gyfalaf

## 4.1 Datblygu'r Strategaeth Gyfalaf

Caiff y Strategaeth Gyfalaf ei hadolygu bob blwyddyn gan gymryd i ystyriaeth Gynllun diweddaraf y Cyngor, y Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r pwysau cyllidebol a ddisgwylir a'r Cynllun Rheoli Trysorlys. Mae hefyd yn ystyried rhaglen gyfalaf y flwyddyn flaenorol a lefel y cronfeydd wrth gefn a'r gyllideb refeniw. Mae'r strategaeth gyfalaf wedyn yn amlinellu'r amcanion a'r egwyddorion allweddol sydd wedyn yn helpu i ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf flynyddol bob blwyddyn.

## 4.2 Datblygu'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol

### 4.2.1 Y Broses Bidio a Sgorio


Wrth benderfynu pa brosiectau sy'n cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf, mae'n rhaid i fidiau fod yn fforddiadwy ac mae'n rhaid iddynt hefyd helpu i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor a chwrdd ag amcanion ac egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf. Bob blwyddyn, gofynnir i'r Gwasanaethau gyflwyno arfarniadau/bidiau cyfalaf newydd a diweddaru gwybodaeth ar gyfer prosiectau sy'n parhau. Dylai'r arfarniadau ddangos sut mae pob prosiect yn bodloni'r meini prawf (a welir isod) a dylent gynnwys yr holl effeithiau refeniw parhaus fydd yn deillio o'r prosiect e.e. costau cynnal a chadw. Mae sgorio arfarniadau/bidiau cyfalaf newydd yn helpu i gyflwyno elfen o wrthrychedd ac yn sicrhau bod y prosiectau'n berthnasol i'r amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor a'r Strategaeth hon. Y maen prawf pwysicaf yw pa mor agos y bydd prosiect yn cyfrannu at gyflawni Cynllun y Cyngor, sy'n egluro'r pwysau uwch a roddir i'r maen prawf hwn. Y Gwasanaeth Cyfrifeg sy'n gwneud y sgorio cychwynnol. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedyn yn ystyried ac yn cadarnhau'r sgorau, fel rhan o ddrafftio'r rhaglen gyfalaf flynyddol.

| **Meini Prawf** | **Sgôr** |
|---|---|
| Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | 20 |
| Mae'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol | 10 |
| Bydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw | 10 |
| Bydd y prosiect yn helpu i liniaru Risg Corfforaethol | 10 |
| **Cyfanswm sgôr uchaf** | **50** |

Mae'r strategaeth hefyd yn dyrannu cyllid at gynnal a chadw ac uwchraddio asedau presennol. Mae Rheolwyr Asedau yn penderfynu beth yw eu hangen am gyllid a chaiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael er mwyn dyrannu cyllid i bob prif grŵp asedau (adeiladau, cerbydau, TG, ffyrdd).

### 4.2.2 Amserlen

Mae’r broses o gymeradwyo’r Strategaeth Gyfalaf yn dilyn yr amserlen ar gyfer gosod y gyllideb refeniw a datblygu’r Rhaglen Gyfalaf. Mae’r amserlen ar gyfer datblygu’r Rhaglen Gyfalaf wedi’i chrynhoi isod:-




### 4.3.3 Awdurdodi

Mae’r cyfrifoldeb am gadarnhau’r Rhaglen Gyfalaf bob blwyddyn yn eistedd gyda’r Cyngor llawn yn seiliedig ar yr argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mewn achosion eithriadol, bydd prosiectau cyfalaf newydd sy’n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried gan aelodau fel rhan o’r adroddiadau chwarterol i’r Pwyllgor Gwaith. Mae prosiectau yn ystod y flwyddyn yn debygol o gael eu cymeradwyo os ydynt yn cael eu cyllido’n sylweddol o grantiau neu gyfraniadau allanol, neu os ydynt mewn ymateb i argyfwng e.e. tirlithriad, neu os yw prosiect a gymeradwywyd yn y rhaglen yn cael ei ganslo a bod cyllid ar gael. Mae gofyn cael arfarniad cyfalaf ar gyfer prosiectau sy’n codi yn ystod y flwyddyn a bydd angen i’r prosiectau helpu’r Awdurdod i gyflawni ei amcanion allweddol.

# 5. Y Cyd-destun Ariannol Cyfredol

## 5.1 Cyfyngiadau Refeniw a'r Angen i Wneud Arbedion

**5.1.1** Roedd y CATC cychwynnol ar gyfer 2019/20 i 2021/22 wedi adnabod y byddai angen £10m o arbedion refeniw dros y cyfnod 3 blynedd, ar ôl caniatáu am gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ym mhob un o'r tair blynedd. Ar gyfer 2019/20, tybiwyd y byddai'r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn gostwng 1% ac, ar ôl cymryd i ystyriaeth beth fydd effaith dyfarniadau tâl, cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn a chwyddiant cyffredinol mewn prisiau, y byddai angen gwerth £5m o arbedion refeniw.

**5.1.2** Er bod y setliad terfynol ond wedi arwain at ostyngiad o 0.3% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru, roedd hefyd angen mynd i'r afael â'r gorwariant o £2m a ragwelwyd yn y Gwasanaethau Plant, £1m yn y Gwasanaethau Oedolion a £750k yn Addysg. Cafodd arbedion refeniw o £3.7m eu hadnabod ac effaith net yr holl ffactorau hyn oedd yr angen i gynyddu'r Dreth Gyngor dros 7% er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2019/20. Amcangyfrifir y byddwn dal angen arbedion o thua £1.5m yn 2020/21 a 2021/22.

**5.1.3** Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd cyllido'r rhaglen gyfalaf yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb refeniw ac mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cymryd fforddiadwyedd i ystyriaeth, fel y caiff ei llunio, ac mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys yn sicrhau bod y Cyngor yn cadw costau benthyca cyn ised â phosib trwy wneud y defnydd gorau o falansau arian parod y Cyngor ei hun i gyllido gwariant cyfalaf.

## 5.2 Cyllido gwaith Moderneiddio Ysgolion

**5.2.1** Mae'r Cyngor ar hyn o bryd ran o'r ffordd trwy raglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion trwy'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, gyda Band A yn dod i ben yn 2019 a Band B yn rhedeg tan 2026. Bydd y rhaglen, os yw'n cyflawni pob un o'i amcanion a gynlluniwyd, yn cymryd dros 10 mlynedd i'w chwblhau ar gyfanswm gost cyfalaf bosib o £120m.

**5.2.2** Mae pedwar cam i'r rhaglen, ac fe'u gelwir yn Band A, B, C a Ch. Mae dwy ysgol wedi'u cwblhau, sef Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan, ac mae trydedd ysgol, sef Ysgol Santes Dwynwen bron wedi'i chwblhau. Mae gwaith adnewyddu'n mynd rhagddo yn Ysgol Parc y Bont a Brynsiencyn. Gyda'r ymgynghoriad a datblygiad ardal Llangefni dal yn mynd rhagddynt, gall unrhyw waith y penderfynir arno lithro o Fand A i Fand B a gallai hynny beri canlyniadau ariannol pellach.

**5.2.3** Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar yr ysgol gynradd newydd ar gyfer Llangefni. Bydd y gwaith paratoadol ar gyfer yr estyniad arfaethedig i Ysgol Y Graig a gynlluniwyd ar gyfer Band A yn cael ei wneud yn 2018/19. Fodd bynnag, mae'r prif waith o adeiladu'r estyniad bellach wedi llithro i Band B o'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.

**5.2.4** Mae Band A y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei gyllido drwy 50% cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% trwy fenthyca digefnogaeth. Mae'r cyllid 50% gan Lywodraeth Cymru yn rhannol trwy gyllid grant (67% o'r 50%) ac yn rhannol trwy fenthyca â chefnogaeth (33% o'r 50%). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod y gyfradd ymyrraeth ar gyfer Band B wedi cynyddu i 65% ond ni wyddwn ar hyn o bryd sut bydd hyn wedi'i ddyrannu rhwng cyllid grant a benthyca â chefnogaeth.

**5.2.5** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno model cyd-fuddsoddi ar gyfer Band B (MIM), lle mae cost cyfalaf y prosiect yn cael ei gyllido gan y sector preifat a bod y Cyngor wedyn yn talu ffi rhent i'r buddsoddwr am gyfnod penodedig (25 mlynedd yw'r disgwyl). Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad tuag at y ffi rhent bob blwyddyn (disgwylir y bydd yn 70% o leiaf).

**5.2.6** Cafodd Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer Band B ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf (fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017). Mae Tabl 1 isod yn crynhoi y matricsau diweddaraf ar gyfer Band A a B. Mae hyn yn berthnasol i'r cyfnod 2019/20 i 2025/26.

**Tabl 1**
**Y Cyllid Amcangyfrifiedig ar gyfer Gweddill Band A a Phrosiectau Arfaethedig Band B**

| Band | Rhanbarth | Benthyca Digefnogaeth (net o'r derbyniad cyfalaf) £'m | Benthyca â chefnogaeth £'m | Grant LlC £'m | Cyfanswm £'m |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Ysgol Y Llannau | 0.04 | 0.00 | 0.00 | 0.04 |
| A | Ysgol Santes Dwynwen | 0.08 | 0.00 | 0.00 | 0.08 |
| A | Ysgol Bro Llangefni | 4.28 | 1.29 | 2.60 | 8.17 |
| | **CYFANSWM BAND A** | **4.40** | **1.29** | **2.60** | **8.29** |
| B | Ysgol y Graig a Talwrn | 1.73 | 1.93 | 1.93 | 5.59 |
| B | Ysgol Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd cysylltiedig | 4.94 | 4.58 | 4.58 | 14.1 |
| B | Ysgolion Cynradd Lligwy | 2.36 | 2.19 | 2.19 | 6.73 |
| B | Ysgolion Cynradd Seiriol | 0.92 | 0.85 | 0.85 | 2.63 |
| B | Uned ôl-16 | 6.49 | 6.02 | 6.02 | 18.53 |
| B | Gogledd-orllewin Ynys Môn | 1.57 | 1.20 | 1.73 | 4.50 |
| | **CYFANSWM BAND B** | **18.01** | **16.77** | **17.30** | **52.08** |

**5.2.7** O gofio lefel y benthyca sydd ei angen, mae'n annhebygol y caiff cronfeydd arian parod y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) eu defnyddio i unrhyw raddau helaeth. Felly, tybir y byddai'r holl fenthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn cael ei wneud trwy fenthyciadau PWLB newydd dros gyfnod o amser sydd yr un fath ag oes ddisgwyliedig yr ased (50 mlynedd).

**5.2.8** Fel yr eglurir ym mharagraff 4.1, bydd unrhyw fenthyca ychwanegol (â chefnogaeth a digefnogaeth) yn cynyddu Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor, a bydd hynny'n ei dro yn cynyddu'r tâl DRI blynyddol a godir ar y cyfrif refeniw, gan arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.

**5.2.9** Byddai'r benthyca digefnogaeth ychwanegol ar gyfer Band B (yn seiliedig ar gyfnod ad-dalu o 50 mlynedd a llog blynyddol o 2.73%) yn arwain at daliadau cyllido cyfalaf ychwanegol o £1.230m y flwyddyn i'r gyllideb refeniw (£0.710m o log yn daladwy a £0.520m DRI) unwaith bydd y Rhaglen wedi'i chwblhau'n llwyr. Yn ymarferol, byddai'r costau hyn yn dod i mewn yn raddol wrth i bob prosiect gychwyn ac unwaith y byddem yn cymryd y benthyciadau allan i wneud y gwaith. Byddai'r tâl DRI yn cael ei godi unwaith daw'r ysgolion yn weithredol. Mae'r cyflwyniad Band B wedi adnabod y gallai'r gwaith cyfalaf arfaethedig arwain at arbedion net, a'r rhagolwg presennol ar gyfer yr arbedion net hynny yw £500k ar gyfer y gyllideb Ysgolion. Mae hyn yn gadael diffyg net o £730k y flwyddyn y byddai'n rhaid i'r Cyngor ei gyllido.

**5.2.10** Dylid nodi y byddai cyflawni'r prosiectau Band B yn cael gwared ar yr angen i wneud gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn y gwahanol ysgolion. Ar gyfer yr ysgolion hynny a fyddai'n cau neu'n cael eu haddasu o dan y cynigion Band B, mae'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni dros amser yn dod i gyfanswm o tua £5.5m. Hyd yma, nid yw'r Rhaglen Gyfalaf wedi adnabod cyllid i wneud yr hen waith cynnal a chadw yma.

**5.2.11** Byddai costau refeniw a chyfalaf pellach yn ymddangos wrth gyflawni gwaith Band C a Band D. Byddai angen i unrhyw ymroddiad i'r camau hyn o'r rhaglen fod yn realistig ac yn fforddiadwy.

### 5.3 Cronfeydd wrth gefn

**5.3.1** Mae'r Cyngor wedi dyrannu peth cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf o'i gronfeydd wrth gefn, y dyraniad mwyaf diweddar oedd £1m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol i gyllido gwelliannau i brosesau busnes a oedd yn cynnwys prosiectau cyfalaf. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae lefel balansau cyffredinol y Cyngor wedi gostwng islaw'r isafswm a argymhellir ac, o'r herwydd, mae'r sgôp i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf yn amhosib am y dyfodol rhagweladwy.

### 5.4 Yr Angen i Greu Arbedion Refeniw o Wariant Cyfalaf

**5.4.1** Un rhan o strategaeth arbedion cyllideb refeniw'r Cyngor fu defnyddio gwariant cyfalaf fel modd o leihau costau refeniw. Mae enghreifftiau o hyn wedi cynnwys buddsoddi mewn cynllun arbed ynni mewn adeiladau cyhoeddus a goleuadau stryd, buddsoddi mewn technoleg i leihau costau gweinyddol, buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden i gynhyrchu incwm ychwanegol a'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Bydd y strategaeth hon yn parhau a bydd prosiectau'n cael eu blaenoriaethu os byddant yn dod ag arian sylweddol yn ôl i'r Cyngor mewn cyfnod byr o amser.

## 6. Cyllid

**6.1** Ffynonellau Cyllid – mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei gyllido o'r ffynonellau a ganlyn:-

- **Grant Cyfalaf Cyffredinol** – Mae hwn yn swm o arian sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno.
- **Benthyca â Chefnogaeth** – Bydd y Cyngor yn benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i gyllido'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n codi o'r benthyciadau (Costau Llog ac Darpariaeth Refeniw Isaf) yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru trwy'r setliad refeniw blynyddol, sy'n egluro'r term "Benthyca â Chefnogaeth".
- **Benthyca Digymorth** – Eto, mae'r Cyngor yn benthyca'r arian gan PWLB ond mae gofyn iddo ariannu'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Mae prosiectau a ariennir trwy gyfrwng benthyca digymorth yn dueddol o fod yn brosiectau sy'n cyflawni arbedion refeniw, a'r arbedion hyn sy'n cael eu defnyddio i gwrdd â'r costau refeniw ychwanegol sy'n codi o'r benthyciad.
- **Grantiau Cyfalaf Penodol** – Bydd y Cyngor yn derbyn grantiau cyfalaf sy'n cyllido cost prosiect yn llawn neu'n rhannol. Fel arfer daw grantiau cyfalaf hefo cyfyngiadau ynghylch y gwariant – beth ellir gwario'r arian arno ac erbyn pryd y mae'n rhaid gwario'r arian.
- **Cyfraniad Refeniw** – Gall gwasanaethau wneud cyfraniad o'u cyllidebau refeniw i gyllido prosiectau. Mae'r cyfraniadau hyn yn dueddol o fod ar ffurf cyllid cyfatebol i brosiect sy'n cael ei gyllido'n bennaf o grant cyfalaf penodol.
- **Derbyniadau Cyfalaf** – Gellir defnyddio'r cyllid a gynhyrchir o werthu asedau i gyfrannu at gyllido'r rhaglen gyfalaf. Fel arfer caiff cyllid fel hyn ei gynhyrchu o werthu asedau dros ben (tir neu adeiladau gan amlaf).
- **Cronfeydd Wrth Gefn** – Gellir defnyddio arian sy'n cael ei ddal mewn cronfa wrth gefn, e.e. derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio, i gefnogi'r rhaglen gyfalaf.

**6.2** Fel yr eglurir yn y paragraff uchod, caiff y rhaglen gyfalaf ei gyllidou o sawl ffynhonnell wahanol sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor mewn gwahanol ffyrdd:-

- Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol hirdymor y Cyngor gan fod unrhyw grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwariant cyfalaf. Efallai y ceir gwahaniaethau o ran amseriad sy'n golygu weithiau nad yw grantiau'n cael eu defnyddio mewn un flwyddyn ac y cânt eu cario o un flwyddyn i'r nesaf trwy fantolen y Cyngor.
- Mae derbyniadau cyfalaf yn golygu bod asedau dros ben yn cael eu trosglwyddo'n arian parod, sy'n ei dro yn arwain at greu ased newydd. Eto, ychydig iawn o effaith hirdymor a gaiff y math hwn o gyllido ar sefyllfa ariannol y Cyngor ond fe ddaw adeg pan fyddwn wedi cael gwared ar yr holl asedau dros ben a bydd lefel y cyllid sydd ar gael trwy dderbyniadau cyfalaf yn gostwng.
- Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn defnyddio'r arian dros ben ar y cyfrif CRT (yr hyn sy'n weddill o incwm rhent ar ôl gwariant) i gyllido gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw'n effeithio ar Gronfa'r Cyngor.
- Bydd y defnydd o gyllid refeniw yn gostwng gwerth yr arian sy'n cael ei ddal yn y cronfeydd wrth gefn neu'r swm sy'n cael ei drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn h.y. mae'n trosi arian dros ben yn ased newydd.
- Mae benthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn effeithio ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CCC) y Cyngor ac yn ei dro, caiff hyn effaith ar y gyllideb Refeniw gan y bydd taliadau llog blynyddol a'r Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) yn uwch.

**6.2.1** Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa'r Cyngor, nid yw'r Cyngor yn benthyca ar wahân ar gyfer gwariant o Gronfa'r Cyngor a'r CRT, mae'r holl fenthyca yn cael ei gyfuno a chaiff y costau eu dyrannu i'r ddwy gronfa yn seiliedig ar lefel y gwariant a gyllidwyd o fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa. Rydym yn adolygu'r dull dyrannu costau yn barhaus i sicrhau ei fod yn dal i fod y dull mwyaf teg.

**6.3 Cyfyngiadau Cyllido dros y Tair Blynedd nesaf**

**6.3.1** Mae'r cyd-destun ariannol anodd y mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ynddo yn cael ei drafod yn adran 5 ac mae'n amlygu bod yna gyfyngiadau ar sut mae'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf. Un o'r prif flaenoriaethau i'r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn cael cyllideb gytbwys, gan hefyd leihau'r gostyngiad i gyllidebau gwasanaethau cymaint ag sy'n bosib. Mae'n rhesymol i'r Cyngor geisio cadw'r cynnydd sydd ei angen i'r gyllideb cyllido cyfalaf gyn ised â phosib. Bydd rhaid darparu cyllid cyfalaf ychwanegol ond dylid cadw hyn ar lefel sy'n cael ei gyllido trwy'r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth) fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei gyllido trwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.

**6.3.2** Ni ddylid ond defnyddio benthyca digefnogaeth (tu allan i'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) lle mae modd gostwng cyllideb y gwasanaeth perthnasol o swm sy'n uwch na'r DRI a'r costau llog.

**6.3.3** Mae wedi bod yn bolisi gan Llywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd i gynnal lefel y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth ar tua'r un lefel â'r blynyddoedd cynt, gyda chyllid cyfalaf ychwanegol yn cael ei gyfeirio i ysgolion, welliannau ffyrdd ac ati.

**6.3.4** Fel landlord stoc tai, bydd y Cyngor hefyd yn derbyn lwfans atgyweirio sylweddol ar ôl cyflwyno a chael cymeradwyaeth i'r cynllun busnes 30 mlynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Mae gwariant cyfalaf ar y CRT yn cael ei ategu gan ddefnyddio arian wrth gefn y CRT a thrwy gyfrwng y pwerau benthyca y gall y CRT eu defnyddio.

**6.3.5.** Bydd grantiau penodol sydd wedi cael eu cymeradwyo, sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sy'n deillio o fidiau llwyddiannus, hefyd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhaid i'r Cyngor gyfrannu swm o'i gyllid cyfalaf ei hun fel cyllid cyfatebol fel y gall sicrhau'r cyllid grant. Mae'r grantiau a'r cyfraniadau sydd ar hyn o bryd wedi'u hadnabod fel ffynonellau cyllid ar gyfer 2019/20 i'w gweld yn y rhestr isod. Mae'n dangos y bydd Ynys Môn yn elwa o welliannau/asedau newydd a fydd yn costio oddeutu £21.3m lle mae 44% (£9.4m) o'r costau'n cael eu cyllido trwy grant neu gyfraniad allanol. Mae hwn yn gyfraniad sylweddol o du allan i'r Cyngor er lles yr Ynys.

**Tabl 2 –**
**Prosiectau cyfalaf sy'n cael eu cyllido'n llawn neu'n rhannol gan grantiau a chyfraniadau (ac eithrio Ysgolion 21ain Ganrif)**

| Prosiect Cyfalaf | Amcangyfrif o'r costau 2019/20<br>£000 | Cyllid Allanol<br>£000 | Canran a gyllidir yn allanol<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Porth Ymwelwyr Caergybi | 1,000 | 950 | 95% |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 3,200 | 3,165 | 99% |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 200 | 165 | 83% |
| Lliniaru Llifogydd Biwmares | 900 | 765 | 85% |
| Adnewyddu Neuadd y Farchnad, Caergybi | 350 | 250 | 71% |
| Gwelliannau priffyrdd | 1,359 | 580 | 43% |
| Gwaith Draenio, Prosiect 1 | 200 | 170 | 85% |
| Gwaith Draenio, Prosiect 2 | 166 | 141 | 85% |
| Amddiffynfa Llifogydd Traeth Coch | 850 | 638 | 75% |
| Adnewyddiadau CRT a Chynyddu'r Stoc Tai | 13,110 | 2,660 | 20% |
| **Cyfanswm** | **21,335** | **9,484** | **44%** |

**6.3.6** Mae lefel y derbyniadau cyfalaf yn ddibynnol ar pa asedau ddaw ar gael i'w gwerthu. Mae'r cyllid a dderbynnir o werthu rhai asedau yn gysylltiedig â phrosiectau sydd eisoes wedi cychwyn e.e. mae gwerthu hen safleoedd ysgol yn gysylltiedig â'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. O ganlyniad, nid oes modd i'r holl dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn 2019/20 gael eu dyrannu i gyllido prosiectau cyfalaf newydd. Ar wahân i'r safleoedd ysgolion sy'n weddill, ni ragwelir y bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf sylweddol ar gael i gyllido gwariant cyfalaf o 2019/20 ymlaen.

**6.3.7** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n rhaid i unrhyw fenthyca digefnogaeth gynhyrchu incwm ychwanegol / arbedion gwariant refeniw er mwyn cyllido'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (DRI a thaliadau llog) a godir ar y cyfrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a gaiff eu cyllido trwy fenthyca digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul cynllun unigol.

**6.3.8** Yn ychwanegol at y ffynonellau cyllid a nodir uchod, mae'r Cyngor yn dal cronfa cyllido cyfalaf wrth gefn, sy'n cynnwys cyfraniadau refeniw nad ydynt wedi cael eu defnyddio eto. Mae'r balans cyfredol yn £1.162m. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o hwn yn cael ei ddefnyddio i gyllido rhaglen 2018/19.

**6.3.9** Mae derbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu yn cael eu dal mewn cronfa wrth gefn. Roedd balans y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2018 yn £320k. Bydd y derbyniadau hyn yn cael eu defnyddio fel ffynhonnell gyllido ar gyfer rhaglen 2018/19, neu byddant yn helpu i gyllido gwariant sydd wedi llithro yn 2019/20.

**6.3.10** Yn gryno, dylai'r cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd yn 2019/20 fod wedi'i gyfyngu i lefel y grant cyfalaf cyffredinol (£2.065m), benthyca â chefnogaeth (£2.181m) ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf heb eu dyrannu a gynhyrchir yn y flwyddyn. Byddai cyfanswm y gyllideb sydd ar gael oddeutu £4.246m, heb gynnwys grantiau, cyllid Ysgolion 21ain Ganrif a chyllid y CRT. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei chymhwyso yn y tymor canol a'r tymor hir i sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy yn enwedig yng nghyd-destun toriadau cyllid sy'n parhau.

### 6.4 Proffil Cyllido Amcangyfrifiedig 2019/20 i 2021/22

**6.4.1** Mae'r cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2021/22 i'w weld yn Nhabl 3 isod. Dylid nodi y bydd y Cyngor hefyd yn derbyn nifer o fân grantiau cyfalaf.

**Tabl 3**
**Amcangyfrif o'r Cyllid Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru 2019/20 – 2021/22**

| | 2019/20 £'m | 2020/21 £'m | 2021/22 £'m |
|---|---|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2.065 | 1.818 | 1.818 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.181 | 2.181 | 2.181 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus | 0.580 | 0.580 | 0.580 |
| Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr | 2.660 | 2.660 | 2.660 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru** | **7.486** | **7.239** | **7.239** |

**6.4.2** Mae sgôp i gyllido prosiectau newydd yn 2019/20 trwy'r cyllid a dderbynnir fel rhan o setliad ariannol Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd sylweddol diweddaraf yn y Grant Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 i 2020/21 yn newyddion positif a bydd yn helpu'r Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf ychwanegol sy'n flaenoriaeth. Mae benthyca digefnogaeth yn bosib ond oni bai bod y prosiectau yn creu arbedion refeniw, yna bydd y tâl DRI a'r costau llog ychwanegol yn cynyddu'r gyllideb refeniw a bydd hynny'n gorfod cael ei gyllido trwy gynyddu'r Dreth Gyngor neu trwy wneud arbedion refeniw yn rhywle arall. Felly, gall y Cyngor sicrhau bod y costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy trwy gyfyngu'r gwariant cyfalaf a gyllidir trwy fenthyca digefnogaeth i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a phrosiectau cyfalaf sy'n arwain at arbedion refeniw sy'n uwch na'r costau DRI a llog fydd yn daladwy yn sgil y cyllido cyfalaf. Mae'r Adroddiad ar Raglen Gyfalaf Ddrafft 2019/20 a grynhoir isod yn cynnig rhaglen fforddiadwy gyda defnydd cyfyngedig o fenthyca digefnogaeth.

## 7. Y Strategaeth arfaethedig ar gyfer 2019/20 i 2021/22

### 7.1. Cefndir – Cyfalaf

**7.1.1** Gwariant cyfalaf yw gwariant i brynu neu greu asedau newydd neu i adnewyddu asedau presennol pan fo oes yr ased yn fwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn rhai ffisegol (adeiladau, cerbydau ac isadeiledd) neu anniriaethol (trwyddedau meddalwedd). Bydd asedau anghyfredol sy'n £10k neu fwy yn cael eu hystyried fel gwariant cyfalaf. £10k yw'r lefel de minimis a argymhellir gan y Cyngor i fod yn gymwys fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Mae hwn yn lefel de minimis diwygiedig o'r de minimis cyfredol o £30k. Bydd gostwng y lefel hwn o £30k yn dod â'r lefel de minimis ar wariant cyfalaf yn gyfartal â'r de minimis o £10k ar dderbyniadau cyfalaf. Mae hefyd yn lefel mwy priodol i faint yr Awdurdod. Bydd asedau anghyfredol sy'n llai na £10k yn cael eu codi i refeniw yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i hepgor y de minimis os yw hynny'n briodol.

## 7.2 Ymrwymiadau Posib ar gyfer 2019/20 i 2021/22

**7.2.1** Fel rhan o'r broses cynllunio cyfalaf, adnabyddir ymrwymiadau i'r dyfodol ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol hefyd, serch hyn nid oes gwarant y bydd y cyllid yn cael ei ryddhau ar gyfer y prosiect penodol oni bai ei fod yn angenrheidiol i gwblhau'r ased yn ffisegol. Mae Atodiad A, Tabl 1 yn dangos bod yna werth £31.1m o brosiectau sy'n cwrdd â blaenoriaethau ac egwyddorion allweddol y Strategaeth Gyfalaf hon. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau ymrwymedig sy'n parhau, prosiectau a gyllidir drwy grant, Ysgolion 21ain Ganrif a buddsoddi yn asedau presennol y Cyngor er mwyn cynyddu oes yr asedau hyn i'r dyfodol. Mae'r tabl yn dangos mai dim ond y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif fydd angen peth cyllid o fenthyca digefnogaeth ar gyfer Cronfa'r Cyngor. Mae'r CRT yn bwriadu benthyca £1m o gyllid benthyca digefnogaeth ond bydd y CRT yn cyllido'r costau o ad-dalu'r benthyciad fel y daw'n ddyledus a'r holl gostau refeniw cyllido cyfalaf sy'n codi o'r benthyciad.

**7.2.2** Mae Tabl B, Atodiad 1 yn dangos dau gynnig buddsoddi-i-arbed a fyddai'n costio £400k ac a fyddai'n arwain at arbedion refeniw blynyddol o £49k y flwyddyn. Byddai'n cymryd 8 mlynedd i dalu'n ôl am y ddau brosiect arfaethedig. Gellid cyllido'r prosiectau hyn trwy fenthyca â chefnogaeth. Mae dadansoddiad o'r costau cyllido cyfalaf yn amlygu y byddai'r arbedion o'r prosiectau yn uwch na'r costau cyllido cyfalaf. Mae dadansoddiad o'r Gwerth Presennol Net (NPV) sy'n cymryd i ystyriaeth werth amser y cyllid yn amlygu byddai NPV positif ar gyfer y prosiectau yn cael eu cyflawni ym mlwyddyn 12. Ystyrir bod prosiectau sydd ag NPV positif yn brosiectau hyfyw. Byddai'r ddau brosiect yma yn cyfrannu at amcan 3 yng Nghynllun y Cyngor 2017/22 oherwydd manteision amgylcheddol.

**7.2.3** Mae Tabl C, Atodiad 1 yn crynhoi'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer prosiectau newydd 2019/20. Tra bod digon o gyllid ar gyfer yr holl brosiectau hyn heb yr angen am fenthyca digefnogaeth ychwanegol, mae pob un wedi'i sgorio'n wrthrychol gan y panel swyddogion yn enwedig yng nghyswllt eu cyfraniad at Gynllun y Cyngor 2017/22. Mae adroddiad y Rhaglen Gyfalaf 2019/20 yn rhoi manylion ynghylch y dull sgorio ar gyfer y prosiectau hyn yn Atodiad 3. Gallai Aelodau dderbyn pob un neu ddim ond rhai o'r rhain pan fyddant yn ystyried Rhaglen Gyfalaf 2019/20, ond dylid tynnu sylw at y ffaith efallai nad yw prosiect sy'n sgorio'n isel yn cyd-fynd o ddifri â Chynllun y Cyngor 2017/22.

**7.2.4** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhaglen gyfalaf arfaethedig am y cyfnod 2019/20 i 2021/22 yn ôl eu categori, er enghraifft, cynllun ymrwymedig sy'n parhau.

**Tabl 4**
**Crynodeb o Gynlluniau Cyfalaf (gweler Atodiad 1 am fanylion prosiectau unigol)**

| **Cynlluniau Cyfalaf** | **Gwariant** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2019/20 £000** | **2020/21 £000** | **2021/22 £000** | **Cyfanswm £000** |
| Cynlluniau Ymrwymedig a Ddygwyd Ymlaen | 6,429 | 6,016 | - | **12,445** |
| Buddsoddi mewn Asedau Presennol | 3,898 | 3,539 | 3,539 | **10,976** |
| Prosiectau Ysgolion 21ain Ganrif | 4,809 | 10,256 | 16,668 | **31,733** |
| Cynlluniau posib newydd 2019/20 | 1,746 | 360 | 200 | **2,306** |
| Prosiectau Buddsoddi-i-arbed | 400 | 250 | 200 | **850** |
| Prosiectau'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 13,110 | 18,431 | 19,744 | **51,285** |
| | **30,392** | **38,852** | **40,351** | **109,595** |

**7.2.5** Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau cyfalaf uchod wedi'i grynhoi isod yn Nhabl 5. Mae hyn yn dangos, ar gyfer 2019/20 y byddai modd cyllido'r holl brosiectau heb yr angen am fenthyca digymorth sylweddol. Yr unig fenthyca digefnogaeth fyddai ei angen ar gyfer 2019/20 fyddai tuag at siâr y Cyngor o brosiectau'r Ysgolion 21ain Ganrif. Mae'r tabl yn dangos y bydd yna fylchau cyllido yn 2020/21 a 2021/22. Efallai y bydd angen benthyca digefnogaeth ar gyfer hyn os nad oes digon o dderbyniadau cyfalaf neu gyllid arall ar gael. Nid yw'r tabl yn cynnwys rhagolygon ar gyfer derbyniadau cyfalaf gan nad yw'r wybodaeth hon ar gael. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn gwerthu unrhyw asedau, bydd hynny'n lleihau'r angen i fenthyca. Mae asedau'r Cyngor sydd ar gael i'w gwerthu yn gostwng oherwydd y nifer o asedau'r Cyngor a werthwyd yn y blynyddoedd cynt. Dylid nodi y byddai unrhyw ysgolion sy'n cau ac sy'n cael eu gwerthu yn cael eu defnyddio tuag at y Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.

**Tabl 5**
**Cyllid i'r Rhaglen Gyfalaf 2019/20 i 2021/22**

| Ffynhonnell Gyllid | Blwyddyn Ariannol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 £000 | 2020/21 £000 | 2021/22 £000 | Cyfanswm £000 |
| Cyllid a Ddygwyd Ymlaen 2018/19 ar gyfer Prosiectau sydd wedi Llithro | 1,099 | - | - | **1,254** |
| Grantiau a Chyfraniadau Allanol | 12,251 | 10,503 | 8,090 | **30,844** |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,172 | 1,821 | 1,334 | **4,482** |
| Derbyniadau Cyfalaf – heb gynnwys Ysgolion | - | - | - | **-** |
| Derbyniadau Cyfalaf – Ysgolion | - | - | - | **-** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,181 | 2,112 | 2,112 | **6,250** |
| Benthyca â Chefnogaeth, Ysgolion 21ain Ganrif | 1,640 | 1,858 | 5,430 | **8,928** |
| Benthyca Digefnogaeth, Ysgolion 21ain Ganrif | 402 | 6,589 | 5,970 | **12,961** |
| Benthyca Digymorth – CRT | 1,000 | 6,300 | 6,450 | **13,750** |
| Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf a Chronfa wrth gefn Cyfalaf | - | - | - | **-** |
| Refeniw – Cronfa'r Cyngor | - | - | - | **-** |
| Refeniw – CRT | 9,450 | 9,471 | 10,634 | **29,555** |
| Cyllid wedi'i ailddyrannu o brosiectau gohiriedig | 1,197 | - | - | |
| Grant Cyfalaf heb ei Ddyrannu | - | 198 | 331 | **529** |
| | **30,392** | **38,852** | **40,351** | **10,333** |
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol sydd heb ei Ddyrannu** | **893** | **(198)** | **(331)** | **364** |

## 7.3 Cynlluniau Gwariant Cyfalaf yn y Tymor Hwy

**7.3.1** Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft uchod yn rhoi rhagolygon tymor-canol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol a Chynllun y Cyngor 2017/22 a'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys. Mae'r strategaeth gyfalaf hon hefyd yn cyfathrebu'r bwriadau tymor hir mewn perthynas â'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif sy'n cael ei hamlinellu'n drylwyr uchod a disgwylir iddi barhau tu hwnt i 2021/22. Amcangyfrifir y bydd y gwariant ar Fand B yn unig yn £52m rhwng 2019/20 a 2025/26 a bydd 35% o hwn yn cael ei gyllido gan y Cyngor, yn bennaf trwy fenthyca digefnogaeth. Wrth i bob cynllun ym Mand B gael ei ddatblygu, byddwn yn asesu'r effaith ariannol ond derbynnir hefyd y bydd rhaid i rai prosiectau fwrw ymlaen er mwyn cwrdd â blaenoriaethau cyffredinol y Cyngor, ac y bydd rhaid i'r costau refeniw ychwanegol gael eu cyllido o arbedion refeniw neu o gynnydd yn y Dreth Gyngor. Petai'r Cyngor yn canfod bod problemau fforddiadwyedd wrth iddo weithio trwy Fand B o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, yna bydd y prosiectau sydd wedi'u cynnwys ym Mand B yn cael eu hadolygu.

**7.3.2** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynllunio cam C a D o'r rhaglen, fodd bynnag, byddai'r rhain ond yn digwydd os ydynt yn fforddiadwy.

**7.3.3** Dylai'r holl egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn adran 2 hefyd gael eu defnyddio hefyd fel y sail ar gyfer gwariant cyfalaf tymor hwy oni bai y bydd Cynllun y Cyngor 2023/28 wedi newid yn sylweddol. Dylai unrhyw brosiectau nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion, er enghraifft, adnewyddu asedau presennol, gael eu cyllido trwy grant neu fenthyca â chefnogaeth i'r dyfodol, os bydd y ffrydiau cyllid hynny'n parhau i fod ar gael yn y tymor hir.

### 7.4 Strategaeth Buddsoddiadau nad yw'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys

**7.4.1** Mae'r Strategaeth Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys wedi'i chynnwys yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) a gaiff ei drafod isod. Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn ymwneud â rheoli'r trysorlys, sef yr eiddo mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddynt sy'n creu incwm rhent iddo. Mae'r rhain yn helpu i ddarparu ffrwd refeniw hirdymor i'r Cyngor. Ar 31 Mawrth 2018 roedd y portffolio eiddo buddsoddi yn cynnwys 74 o eiddo, gyda gwerth o £5.791m. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo manwerthu, unedau swyddfa ac unedau masnachol. Yn 2017/18, casglwyd £331k o incwm rhent o eiddo buddsoddi. Cafodd £164k ei wario ar waith cynnal a chadw ac ati, a arweiniodd at incwm gweithredol net o £167k o incwm rhent. O ran y cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer yr eiddo buddsoddi, byddwn yn parhau i'w cynnal i safonau cyfreithiol. Yn ogystal, mae safle unedau diwydiannol newydd yn cael ei adeiladu yn Llangefni a allai fod yn weithredol yn 2019/20. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar adeiladu Unedau Diwydiannol ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'n debyg y daw'r unedau hyn yn weithredol naill ai yn ail hanner 2019/20 neu'n fuan yn 2020/21.

**7.4.2** Mae gan Awdurdodau Lleol y pŵer i brynu neu ddatblygu eiddo fel buddsoddiadau er mwyn gwella gweithgarwch economaidd yn ardal y Cyngor neu fel modd o gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn yn ehangach na'r cynlluniau a nodir uchod, ond mae'r defnydd o'r pwerau hyn dal yn opsiwn ac mae'r Strategaeth yn caniatáu i'r Cyngor fynd i wariant ar eiddo buddsoddi er mwyn cwrdd ag amcanion allweddol y Cyngor neu er mwyn cymryd mantais o unrhyw gyllid allanol sylweddol a ddaw ar gael.

## 8. Benthyca a Rheoli'r Trysorlys

**8.1** Mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ac Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yn darparu'r fframwaith i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr, sicrhau bod unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a bod y benthyca i gyllido rhaglen gyfalaf 2019/20 i 2021/22 yn fforddiadwy. Bydd y DSRhT yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Chwefror 2019.

**8.2** Mae Atodiad 11 yn DSRhT 2018/19 i 2020/21, yn darparu'r dangosyddion darbodus a thrysorlys ar gyfer y cyfnod 2016/17 i 2020/21 sy'n gymorth i benderfynu a yw cynlluniau benthyca yn fforddiadwy ai peidio.

**8.3** Mesur o fforddiadwyedd yw'r gymhareb costau cyllido i'r ffrydiau refeniw net. Mae'r gymhareb amcangyfrifiedig o gostau cyllido i'r ffrydiau refeniw net am y ddwy flynedd cyn y strategaeth hon a thrwy gydol oes y strategaeth i'w gweld isod:-

| | |
|---|---|
| 2017/18 (Gwirioneddol): | 7.98% |
| 2018/19 (Amcangyfrif) | 6.37% |
| 2019/20 (Rhagamcan) | 6.51% |
| 2020/21 (Rhagamcan) | 6.65% |
| 2021/22 (Rhagamcan) | 7.03% |

Yn seiliedig ar yr uchod mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn parhau i fod yn fforddiadwy yn nhermau goblygiadau refeniw.

Yn 2018/19, fe wnaeth y Cyngor addasu ei bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw Isaf ac roedd modd iddo ôl-ddyddio'r newidiadau. Diben addasu'r polisi oedd sicrhau bod darpariaeth ddarbodus yn cael ei rhoi yn erbyn y cyfrif refeniw bob blwyddyn. Fodd bynnag, canlyniad o'r newid hwn oedd i ni ganfod gor-ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynt ac, felly, bydd modd defnyddio'r or-ddarpariaeth hon yn y dyfodol i sicrhau bod y costau cyllido blynyddol yn aros yn fforddiadwy. Bydd y Swyddog Adran 151 yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y tâl DRI blynyddol.

**8.4** Mesur pwysig arall yw nad yw lefel y benthyca allanol yn mynd yn uwch na'r ffin weithredol ar gyfer benthyca. Mae'r rhaid i'r ffin weithredol ganiatáu i'r Cyngor allu benthyca mewn sefyllfaoedd o argyfwng gan gynnwys methiant i gael mynediad at adneuon banc, problemau llif arian yn codi o fethiant i gasglu incwm, gwariant argyfwng yn dilyn digwyddiad annisgwyl neu'r angen i gymryd mantais o gostau benthyca rhatach ar adegau pan fo cyfraddau llog yn codi. Mae'r ffin weithredol bresennol wedi'i gosod ar £25m uwchlaw'r gofyniad cyllido cyfalaf (GCC).

**8.5** Nod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw defnyddio balansau arian parod mewnol y Cyngor, lle bynnag y bo hynny'n bosib, yn lle benthyca allanol. Wrth bennu lefel y benthyca mewnol, mae'n rhaid cynnal balansau arian parod digonol er mwyn cwrdd ag anghenion arian parod dyddiol y Cyngor h.y. talu staff, cyflenwyr ac ati.

**8.6** Mae Tabl 6 isod yn crynhoi lefel y benthyca allanol o gymharu â'r ffin weithredol ac mae'n dangos lefel y benthyca mewnol y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i gyllido'r rhaglen gyfalaf.

**Tabl 6**
**Rhagolygon Benthyca ar gyfer 2017/18 i 2021/22**

| **Benthyca – Rhagolwg** | **2017/18 Gwir £000** | **2018/19 Rhagolwg £000** | **2019/20 Amcangyfrif £000** | **2020/21 Amcangyfrif £000** | **2021/22 Amcangyfrif £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffin Weithredol Benthyca Cyffredinol | 164,000 | 164,000 | 173,000 | 187,000 | 203,000 |
| Benthyca Allanol – Gwirioneddol a Rhagolwg | 117,029 | 122,812 | 124,996 | 137,339 | 157,459 |
| Gwahaniaeth rhwng y Terfyn Awdurdodedig a'r Gwir/Rhagolwg o Fenthyca Allanol (*headroom*) | 51,971 | 54,188 | 53,004 | 54,661 | 50,541 |
| Benthyca Mewnol (defnyddio balansau arian parod) | 19,837 | 18,379 | 20,105 | 21,129 | 17,362 |
| **Cyfanswm Benthyca Mewnol ac Allanol** | **138,866** | **141,191** | **145,101** | **158,468** | **174,821** |

## 9. Risgiau Posib sy'n codi o'r Strategaeth Gyfalaf

**9.1.** Mae'r arbedion blynyddol sylweddol sydd eu hangen dros y tair blynedd nesaf yn peri risg i'r Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys y rhaglen gyfalaf. Os yw'r targed arbedion yn anodd i'w gyrraedd, mae'n bosib y bydd hyn yn arwain at adolygu'r rhaglen gyfalaf er mwyn sicrhau ein bod yn lleihau costau cyllido cyfalaf sy'n effeithio ar refeniw.

**9.2.** Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar lefel dybiedig o gyllid gan Lywodraeth Cymru a thrwy grantiau allanol. Gan gofio'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch cyllidebau a'r newidiadau i gyllid grant, a dderbynnir oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, mae risg na fydd y lefel dybiedig hon o gyllid grant yn cael ei dderbyn fel mae wedi'i osod allan yn y strategaeth. Os bydd unrhyw newidiadau i'r cyllid a gawn, bydd rhaid ailasesu'r strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf flynyddol.

**9.3.** Mae'r Cyngor wedi defnyddio benthyca mewnol am sawl blwyddyn i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar falensau arian parod ac mae'n annhebygol y gall y Cyngor gynnal benthyca mewnol yn y tymor canol. Bydd rhaid amnewid benthyca mewnol, ar ryw bwynt, am fenthyca allanol, a bydd hynny'n ei dro yn cynyddu'r costau cyllido cyfalaf a godir yn erbyn y cyfrif refeniw. Mae'n bosib y byddai cynyddu'r costau hyn yn yr hinsawdd ariannol bresennol yn effeithio ar fforddiadwyedd a chapasiti'r Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf newydd trwy fenthyca allanol ychwanegol.

**9.4.** Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd gallu cynnal a chadw asedau presennol y Cyngor. Mae risg nad yw'r rhaglen amnewid yn ddigonol a bod safonau'r asedau yn disgyn i'r fath raddau fel bod angen lefel uwch o fuddsoddiad er mwyn cynnal gwasanaethau. Mae'n bosib na fydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn fforddiadwy neu y bydd gofyn tynnu prosiectau newydd eraill o'r raglen.

**9.5.** Mae'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn rhaglen mor anferth ac uchelgeisiol fel bod risg na fydd y Cyngor yn gallu fforddio Band C a D. Bydd angen i ni gadw golwg barhaus ar Fand B y rhaglen er mwyn sicrhau bod y costau'n cael eu cadw o fewn y cyllidebau a osodwyd yn yr achosion busnes.

**9.6.** Mae benthyca allanol yn arwain at gost llog uchel bob blwyddyn. Mae'r mwyafrif o fenthyciadau'r Cyngor yn rhai sefydlog ac ni chânt eu heffeithio gan unrhyw godiadau yn y gyfradd llog. Fodd bynnag, gallai unrhyw gynnydd mawr mewn cyfraddau llog effeithio ar ba mor fforddiadwy yw prosiectau'r dyfodol sy'n cael eu cyllido o fenthyciadau. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn amlinellu camau sy'n lliniaru'r risg hwn i ryw raddau.

## 10. Gwybodaeth a Sgiliau

**10.1** Mae gan y tîm cyfrifo Adnoddau chwech o gyfrifyddion cymwys yn cynnwys y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Swyddog Adran 151 sy'n edrych ar ôl y rhaglen gyfalaf a'r swyddogaeth rheoli trysorlys. Mae gennym hefyd dechnegydd cyfrifeg cymwys sydd â phrofiad helaeth mewn rheoli cyfalaf a thrysorlys. Mae'r tîm yn mynychu cyrsiau CIPFA ar reoli cyfalaf a thrysorlys ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am y maes cyfrifeg hynod o arbenigol hwn. Mae yna hefyd dîm o swyddogion proffesiynol o fewn gwasanaethau megis penseiri, rheolwyr prosiect, peirianwyr sy'n cefnogi'r Cyngor gyda chyflawni'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu cyngor arbenigol gan Link Asset ac ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys. Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar reoli cyfalaf a thrysorlys ac mae'r Aelodau'n cael cynnig hyfforddiant ar reoli trysorlys. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi eu hamlinellu yn y Cyfansoddiad a'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys.

**Atodiad 1**

**Tabl A – Rhaglen Gyfalaf Ddrafft Arfaethedig 2019/20 cyn ystyried prosiectau cyfalaf newydd**

| **Cynllun** | **Cyllideb 2019/20 £'m** | **Grantiau Allanol £'m** | **Cyllid y Cyngor £'m** |
|---|---|---|---|
| Porth Ymwelwyr Ynys Gybi | 1.000 | 0.950 | 0.050 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi a Llangefni | 3.400 | 3.330 | 0.070 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | 0.900 | 0.765 | 0.135 |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | 0.779 | 0.000 | 0.779 |
| Neuadd y Farchnad Caergybi | 0.350 | 0.250 | 0.100 |
| Ysgol Santes Dwynwen | 0.085 | 0.000 | 0.085 |
| Ysgol Rhyd y Llan | 0.037 | 0.000 | 0.037 |
| Estyniad Ysgol Y Graig | 0.666 | 0.313 | 0.353 |
| Ysgol Bro Llangefni | 3.521 | 2.324 | 1.197 |
| Ysgol Biwmares, Llandegfan a Llangoed | 0.400 | 0.130 | 0.270 |
| Ysgol Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd gerllaw | 0.100 | 0.000 | 0.100 |
| Grant Cyfleusterau Anabl | 0.750 | 0.000 | 0.750 |
| Mynediad i'r Anabl – Adeiladau Addysg | 0.300 | 0.000 | 0.300 |
| Cerbydau Newydd | 0.150 | 0.000 | 0.150 |
| Isadeiledd TG | 0.439 | 0.000 | 0.439 |
| Adnewyddu Ysgolion | 0.500 | 0.000 | 0.500 |
| Gwaith Adnewyddu nad yw'n ymwneud ag Ysgolion | 0.400 | 0.000 | 0.400 |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 1.359 | 0.580 | 0.779 |
| Gwariant Cyfalaf / Datblygiadau Newydd CRT | 13.110 | 2.660 | 10.450 |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF** | **28.246** | **11.302** | **16.944** |
| | | | |
| **Cyllidir gan:** | | | |
| Grantiau Allanol | 10.722 | 10.722 | |
| Cyllid a Ddygwyd Ymlaen o 2018/19 | 1.099 | | 1.099 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1.327 | | 1.327 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.026 | | 2.026 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 0.580 | 0.580 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | - | | - |
| Benthyca Digefnogaeth, Ysgolion 21ain Ganrif | 0.402 | | 0.402 |
| Benthyca â Chefnogaeth, Ysgolion 21ain Ganrif | 1.640 | | 1.640 |
| Benthyca Digefnogaeth, CRT | 1.000 | | 1.000 |
| Refeniw / Arian Wrth Gefn CRT | 9.450 | | 9.450 |
| **CYFANSWM CYLLID** | **28.246** | **11.302** | **16.944** |

## Tabl B – Cynlluniau Cyfalaf Newydd Arfaethedig a Chynlluniau Buddsoddi i Arbed 2019/20

| Cynllun | Cyllideb 2019/20 £'m | Grantiau Allanol £'m | Cyllid y Cyngor wedi'i ail-ddyrannu £'m |
|---|---|---|---|
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos mewn Meysydd Parcio | 0.030 | 0.000 | 0.030 |
| Adnewyddu Plas Mona | 0.035 | 0.000 | 0.035 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 0.085 | 0.000 | 0.085 |
| Uwchraddio Offer Ystafelloedd Cyfarfod | 0.025 | 0.000 | 0.025 |
| Diogelwch Ysgolion | 0.200 | 0.000 | 0.200 |
| Cyllid os ceir cynnig hwyr gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â Gwaith Draenio | 0.200 | 0.170 | 0.030 |
| Cyswllt Ynys Môn (AC) i'r cyfnod pontio PSBA | 0.060 | 0.000 | 0.060 |
| Astudiaethau Draenio a Gwaith Dylunio | 0.166 | 0.141 | 0.025 |
| Amddiffynfa Llifogydd yn Nhraeth Coch | 0.850 | 0.638 | 0.212 |
| Datblygu Economaidd – I geisio Cyllid Cyfatebol | 0.095 | 0.000 | 0.095 |
| Buddsoddi i Arbed – Effeithlonrwydd Ynni mewn Adeiladau Corfforaethol | 0.250 | 0.000 | 0.250 |
| Buddsoddi i Arbed – Prynu cerbydau newydd | 0.150 | 0.000 | 0.150 |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF** | **2.146** | **0.949** | **1.197** |
| | | | |
| **Cyllidirr gan:** | | | |
| Grantiau Allanol | 0.949 | | |
| Cyllid sydd wedi'i Ail-ddyrannu | 1.197 | | |
| **CYFANSWM CYLLID** | **2.146** | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 CHWEFROR 2019** |
| **PWNC:** | **DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2019/20** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **GARETH ROBERTS (RHIF FFÔN: EST 2675)** |
| **Natur a rheswm dros adrodd**<br>I bwrpas craffu – yn unol â chyfarwyddyd proffesiynol. | |

**1.** Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (CIPFA) ar faterion Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymell y dylai'r Aelodau sgriwtineiddio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn iddo gael ei fabwysiadu (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad Polisi MRP Blynyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo ar Reoli Trysorlys). Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon. Cyflwynwyd yr adroddiad hon i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Chwefror 2019 lle y penderfynwyd i rhoi ymlaen i'r pwyllgor yma heb sylwadau.

**2.** Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei Bolisïau Rheoli Trysorlys a'r atodlenni cysylltiedig ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgriwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hwn wedi creu CRhT wedi'u dogfennu, a chawsant eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 6 Rhagfyr 2016. Roedd yna newid i'r CRhT yn y Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19, sef cynyddu isafswm y balans ariannol o £5m i £6m yn unol â'r polisi arian wrth gefn diweddaraf a gafodd ei gymeradwyo.

**3.** O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, nid oes unrhyw fwriad i newid yr egwyddorion a'r polisïau craidd sydd yn Natganiad 2018/19.

**4.** Dan y Côd Ymarfer diwygiedig, mae bellach yn angenrheidiol i'r Cyngor baratoi Strategaeth Gyfalaf sy'n cymryd golwg tymor hwy ar y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen a'r modd y bydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei ariannu. Bydd y strategaeth hon, ynghyd â phenderfyniadau eraill ar y gyllideb yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys hon yn eistedd dan y Strategaeth Gyfalaf ac yn ystyried effaith y strategaeth honno ar fenthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor ac yn nodi'r modd y bydd y ddau beth yn cael eu rheoli, sy'n unol â lefel addas o risg y mae'r Cyngor yn dymuno ei chymryd o ystyried y canllawiau sydd wedi eu gosod yng Nghôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys.

**5. Argymhellion**

- Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20 a gwneud argymhellion neu nodi sylwadau ar gyfer eu hystyried gan y Cyngor llawn.

**ATODIAD A**

**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS**

**DATGANIAD AR Y STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y DATGANIAD POLISI AR Y DDARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A'R DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2019/20**

## 1. CEFNDIR

**1.1.** Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:
"*The management of the local authority's borrowing, investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks*."

Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys (gweler **Atodiad 1**)

**1.2.** Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys sy'n golygu yn gyffredinol y bydd cyfanswm yr incwm a godir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cwrdd â gwariant. Rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan mae ei angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrth-bartïon sy'n cwrdd â'r meini prawf o ran diogelwch, hylifedd a dychweliad ar fuddsoddiadau fel y nodir yn y strategaeth hon.

**1.3.** Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu canllawiau ar gyfer anghenion benthyca'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian am dymor hwy. O bryd i'w gilydd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd â risgiau neu amcanion cost y Cyngor.

**1.4.** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli trysorlys i'r awdurdod yn hollbwysig oherwydd mae balans dyled a gweithgareddau buddsoddi'n sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymiadau o ran gwariant pan mae angen, naill ai ar gyfer prosiectau refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd y gweithgareddau trysorlys yn gweld balans y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol a'r effaith a gânt at y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau ariannol fel rheol yn codi o arian wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli prifsymiau arwain at golled yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor.

## 2. CÔD YMARFER CIPFA AR REOLI TRYSORLYS

**2.1.** Yn unol â Chôd CIPFA ar Reoli Trysorlys, rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo'r dogfennau isod:-

- Datganiad ar Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi trosolwg lefel uchel, tymor hir o wariant a chyllido cyfalaf, ynghyd â manylion ar unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r modd y byddant yn cael eu rheoli.
- Strategaeth Rheoli Trysorlys a fydd yn nodi strategaeth y Cyngor o ran benthyciadau a buddsoddiadau sy'n dilyn ymlaen o'r Strategaeth Gyfalaf ac sy'n nodi'r cyfyngiadau ar fenthyca, yn penderfynu ar gyfres o ddangosyddion pwyllog ac yn penderfynu ar awch a strategaeth y Cyngor o ran risg mewn perthynas â buddsoddiadau.

**2.2.** Nodir prif egwyddorion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn **Atodiad 2**.

## 3. CYD-DESTUN ALLANOL

**3.1.** Ni fedrir gosod y Strategaeth Rheoli Trysorlys fel ymarfer ar ei ben ei hun, rhaid ystyried y sefyllfa economaidd oherwydd mae'n cael effaith ar gyfraddau llog ar fuddsoddiadau, costau benthyca a chadernid ariannol y gwrth-bartïon. Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn **Atodiad 3**, ond dyma'r prif bwyntiau y mae angen eu hystyried:-

- Twf economaidd sy'n gwahanu yn yr Unol Daleithiau, Tsieina a'r Parth Ewropeaidd.
- Lefelau chwyddiant sy'n parhau i fod yn isel yn y DU gyda'r cyfraddau ar neu'n agos i darged Banc Lloegr o 2%.
- Posibilrwydd y bydd cyfraddau llog yn codi o ddiwedd 2019 ymlaen.
- Yr ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit a'i effaith a'r economi'r DU a'r Parth Ewropeaidd.
- Mae dychweliadau ar fuddsoddiadau'n debygol o barhau i fod yn isel yn ystod 2019/20 ond y byddant yn codi'n raddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

**3.2.** Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael ac wedi ystyried y cyngor gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, mae'r tabl isod yn nod sefyllfa'r Cyngor o ran lefelau cyfraddau llog am y tair blynedd nesaf:-

**Tabl 1**
**Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog hyd at fis Mawrth 2022**

| Cyfartaledd Blynyddol | Cyfradd Banc (%) | Cyfraddau Benthyca PWLB (yn cynnwys addasiad ar gyfer graddfa sicrwydd) | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 5 mlynedd | 25 mlynedd | 50 mlynedd |
| Rhagfyr 2018 | 0.75 | 2.00 | 2.90 | 2.70 |
| Mawrth 2019 | 0.75 | 2.10 | 2.90 | 2.70 |
| Mehefin 2019 | 1.00 | 2.20 | 3.00 | 2.80 |
| Medi 2019 | 1.00 | 2.20 | 3.10 | 2.90 |
| Rhagfyr 2019 | 1.00 | 2.30 | 3.10 | 2.90 |
| Mawrth 2020 | 1.25 | 2.30 | 3.20 | 3.00 |
| Mehefin 2020 | 1.25 | 2.40 | 3.30 | 3.10 |
| Medi 2020 | 1.25 | 2.50 | 3.30 | 3.10 |
| Rhagfyr 2020 | 1.50 | 2.50 | 3.40 | 3.20 |
| Mawrth 2021 | 1.50 | 2.60 | 3.40 | 3.20 |
| Mehefin 2021 | 1.75 | 2.60 | 3.50 | 3.30 |
| Medi 2021 | 1.75 | 2.70 | 3.50 | 3.30 |
| Rhagfyr 2021 | 1.75 | 2.80 | 3.60 | 3.40 |
| Mawrth 2022 | 2.00 | 2.80 | 3.60 | 3.40 |

Mae gwybodaeth a gafwyd gan Link Asset Services ynghlwm yn **Atodiad 4**.

**3.3.** Yn wyneb y rhagolygon ar gyfer cyfraddau sylfaenol y banciau, disgwylir y dychweliadau a ganlyn ar fuddsoddiadau yn ystod y blynyddoedd ariannol a nodir:-

2018/19: 0.75%;
2019/20: 1.00%;
2020/21: 1.50%;
2021/22: 1.75%;
2022/23: 1.75%;
2023/24: 2.00%;
2024/25 Ymlaen: 2.50%

## 4. SEFYLLFA GYFREDOL Y CYNGOR

### 4.1. Benthyca

**4.1.1.** Nodir benthyciadau allanol cyfredol y Cyngor yn Nhabl 2 isod. Ceir dadansoddiad llawn yn **Atodiad 5**.

**Tabl 2**
**Crynodeb o'r Benthyciadau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd**

| BENTHYCIADAU PWLB | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **PWL / PWLB Maturity** | **PWLB EIP/Blwydd-dal** | **Market Loans** | **PWLB Variable** | **Total Maturing** |
| Benthyciad sy'n weddill | **£121,184k** | **£236k** | **£0k** | **£0k** | **£121,415k** |
| Oes ar gyfartaledd (blynyddoedd) | 24.63 | 7.61 | 0.00 | 0.00 | 24.60 |
| Cyfradd ar gyfartaledd (%) | 5.26 | 9.41 | 0.00 | 0.00 | 5.15 |

| BENTHYCIADAU ERAILL | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Llywodraeth Cymru** | **Salix Benthyciad 1** | **Salix Benthyciad 2** | **Salix Benthyciad 3** | **Salix Benthyciad 4** | **Cyfanswm** |
| Balans sy'n Weddill | £88k | £90k | £319k | £635k | £264k | £1,397k |
| Dyddiad Ad-dalu | 2020/21 | 2024/25 | 2025/26 | 2028/29 | 2027/28 | |
| Cyfradd Llog (%) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |

### 4.2. Buddsoddiadau

**4.2.1.** Mae unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn cyfrifon adneuon tymor byr a chyfrifon 'ar alw'. Mae'r balans a fuddsoddir yn y cyfrifon hyn yn newid bob dydd (y balans ar 31 Rhagfyr 2018 oedd £5.7m.

**4.2.2.** Dan y strategaeth rheoli trysorlys gyfredol, mae'r cyngor yn buddsoddi unrhyw arian dros ben drwy sicrhau yn y lle cyntaf ddiogelwch yr adneuon, ei hylifedd yn yr ail le ac yna'r dychweliad ar y buddsoddiad. Mewn gwirionedd, mae cyfradd y dychweliadau ar fuddsoddiadau'n cael ei haberthu er mwyn sicrhau'r ddwy egwyddor gyntaf ac ar hyn o bryd, mae'r dychweliad cyfartaleddol ar fuddsoddiadau yn 0.38%.

## 5. EFFAITH CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL AR FENTHYCA

**5.1.** Caiff gwariant cyfalaf ei ariannu'n rhannol o fenthyciadau ac mae'r rhaglen gyfalaf a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf i'w gweld yn Nhabl 3 isod**:-**

**Tabl 3**
**Rhaglen Gwariant Cyfalaf Arfaethedig 2019/20 – 2021/22**

| | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant nad yw'n ymwneud â'r Cyfrif Refeniw Tai** | **14,620** | **20,321** | **20,607** |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | **13,110** | **18,431** | **19,744** |
| **Gweithgareddau Masnachol / Buddsoddiadau nad ydynt yn rhai Ariannol** | **3,400** | **100** | **0** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **31,130** | **38,852** | **40,351** |
| **Yn cael eu hariannu drwy** | | | |
| **Grantiau Cyfalaf** | **14,316** | **12,324** | **9,424** |
| **Derbynebion Cyfalaf** | **0** | **0** | **0** |
| **Arian Wrth Gefn** | **0** | **0** | **0** |
| **Refeniw** | **9,450** | **9,471** | **10,634** |
| **Y Balans a Ariennir o Fenthyciadau** | **7,364** | **17,057** | **20,293** |

**5.2.** Ffactor pwysig i'w hystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw'r mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC (PWLB), mae hefyd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

**5.3.** Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond gan y swm nad yw'n cael ei ariannu o grantiau, derbyiadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i lefelau anfforddiadwy o fenthyca.

**5.4.** Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian i ad-dalu dyledion ar yr adeg briodol, rhaid i'r Cyngor wneud taliad i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn a'r enw ar y taliad hwn yw'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DIR cyn pob blwyddyn ariannol. Ceir y polisi ar gyfer 2019/20 yn **Atodiad 6**. The Cafodd DIR y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018 ond nid oes unrhyw newidiadau i'r polisi diwygiedig hwnnw ar gyfer 2019/20. Drwy wneud y taliad DIR bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi gyda hynny'n ei dro yn lleihau'r lefel o fenthyca mewnol.

**5.5.** Bydd y polisi'n darparu ar gyfer taliad cyfartal ar fenthyciadau hyd at 31 Mawrth 2018 ac yn achos yr holl fenthyciadau ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y taliad DIR yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased sydd wedi cael ei gyllido o'r benthyciad, h.y. os cafodd £1m ei fenthyca i gyllido gwariant cyfalaf ar ased sydd ag oes o 20 mlynedd, byddai'r DIR blynyddol ar y benthycais hwnnw'n £50k y flwyddyn. Wrth i ni gymryd benthyciadau newydd, bydd y taliad DIR yn cynyddu dros amser a chaniatawyd ar gyfer y cynnydd hwn mewn costau yng nghyllidebau'r Cyngor.

**5.6.** Caiff effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r taliad DIR ar y GCC a lefel y benthyca allanol a mewnol ei ddangos yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4**
**Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthyciadau 2018/19 i 2021/22**

| | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | | | | |
| **Balans Agoriadol y CFR** | **136,866** | **141,191** | **145,101** | **158,468** |
| Gwariant Cyfalaf | 32,956 | 38,130 | 38,852 | 40,351 |
| Grantiau Cyfalaf Allanol | (15,605) | (21,316) | (12,324) | (9,424) |
| Derbyniadau Cyfalaf | (1,826) | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Refeniw ac Arian Wrth Gefn | (7,958) | (9,450) | (9,471) | (10,634) |
| Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw | (3,242) | (3,454) | (3,690) | (3,940) |
| **BALANS CAU'R CFR** | **141,191** | **145,101** | **158,468** | **174,821** |
| **Benthyciadau Allanol** | | | | |
| **Balans Agoriadol y Benthyciadau Allanol** | **117,029** | **122,812** | **124,996** | **137,339** |
| Benthyca i Ariannu Gwariant Cyfalaf | 898 | 7,364 | 17,057 | 20,293 |
| Benthyca i Ariannu Ad-daliadau ar Fenthyciadau | 5,000 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyciadau yn lle Benthyca'n Fewnol | 10,000 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu Benthyciadau | (10,115) | (5,180) | (4,714) | (173) |
| **Balans Cau Benthyciadau Allanol** | **122,812** | **124,996** | **137,339** | **157,459** |
| **Benthyciadau Mewnol** | | | | |
| **Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol** | **19,837** | **18,379** | **20,105** | **21,129** |
| Replacement of Internal Borrowing | (10,000) | 0 | 0 | 0 |
| Ariannu Ad-daliadau o Fenthyciadau Allanol | (5,000) | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu Benthyciadau Allanol | 10,115 | 5,180 | 4,714 | 173 |
| Benthyca i Ariannu Gwariant Cyfalaf | 6,669 | 0 | 0 | 0 |
| Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw | (3,242) | (3,454) | (3,690) | (3,940) |
| **Balans Cau Bethyciadau Mewnol** | **18,379** | **20,105** | **21,129** | **17,362** |
| **CYFANSWM Y BENTHYCIADAU** | **141,191** | **145,101** | **158,468** | **174,821** |

## 6. STRATEGAETH FENTHYCA

**6.1.** Ar hyn o bryd, mae’r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf), heb ei ariannu’n llawn ac mae dyledion benthyca wedi cael eu defnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae’r driniaeth hon yn un ddarbodus oherwydd bod dychweliadau ar fuddsoddiadau yn isel ac mae risg gwrth- bartïon yn fater sy’n parhau i fod angen sylw. Fel rhan o’r strategaeth hon, mae’r gallu i fenthyca’n allanol i ad-dalu’r arian wrth gefn a balansau petai raid, yn bwysig. Mae Tabl 4 yn dangos y byddai o bosib angen benthyca £18.379m yn allanol petai angen brys amdano. Dyma’r swm a ddefnyddiwyd o arian wrth gefn a balansau’r Cyngor yn y gorffennol i gyllido’r rhaglen gyfalaf yn lle cymryd benthyciadau.

**6.2.** Yn erbyn y cefndir hwn a’r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2019/20. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig mewn perthynas ag amgylchiadau sy’n newid:-

- Os ceir teimlad bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir, (e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant), yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr os bydd yn gost-effeithiol i wneud hynny.
- Os ceir teimlad bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer mwy yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr na’r rhagolygon cyfredol, efallai oherwydd cyflymu’r dyddiad cychwyn a lefel y cynnydd mewn cyfraddau canolog yn y UDA a’r DU, cynnydd mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa’r portffolio yn cael ei hailasesu gyda’r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn parhau i fod yn is nac y byddent yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i’r pwyllgor hwn ar y cyfle cyntaf.

### 6.3. Benthyca Mewnol yn erbyn Benthyca Allanol

**6.3.1.** Mae’r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Mae llawer o’r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisi blaenorol i allanoli’r holl fenthyca yn parhau i fod yn ddilys, er enghraifft:-

- Gan fod y Gyfradd Banc a chyfraddau’r BBGC yn parhau i fod yn anarferol o isel yn hanesyddol, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.

**6.3.2.** Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â’r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, er enghraifft:-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn methu ar y ddyled), felly bydd raid rheoli’r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i’r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthyca a’r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch buddsoddiadau.

**6.3.3.** O blaid mewnoli, dros y tymor canol, disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn is na’r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny’n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyca allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy’n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny’n sicrhau’r arbedion tymor byr mwyaf posib.

**6.3.4.** Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyca allanol tymor hir yn 2018/19 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn sylweddol uwch. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol ar lif arian a bydd hynny'n cyfyngu ar lefel bosib y benthyca mewnol.

**6.3.5.** Yn erbyn y cefndir hwn, byddir yn wyliadwrus gyda gweithgareddau trysorlys 2019/20. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro'r farchnad cyfraddau llog ac yn cymryd agwedd ymarferol tuag at amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi gwybod am unrhyw benderfyniadau i'r corff gwneud penderfyniadau priodol ar y cyfle cyntaf.

## 6.4. Benthyca ymlaen llawn i gwrdd ag Anghenion

**6.4.1.** Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.

**6.4.2.** Wrth benderfynu a ddylid benthyca cyn bod angen gwneud hynny bydd y Cyngor yn:-

1. sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrwydd y portffolio dyled cyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthyca cyn i'r angen godi;
2. sicrhau bod cyfrifoldebau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol wedi eu hystyried;
3. pwyso a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthyca;
4. ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;
5. ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio; a
6. ystyried effaith benthyca ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrth barti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.

**6.4.3.** Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd benthyca cyn bod angen yn amodol ar werthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mecanwaith adrodd canol-blwyddyn neu flynyddol.

## 6.5. Ad-drefnu Dyledion

**6.5.1** Gan y bydd cyfraddau benthyca tymor byr yn sylweddol rhatach na chyfraddau llog tymor sefydlog hwy, efallai y bydd cyfleoedd i wneud arbedion trwy symud o ddyledion tymor hir i ddyled tymor byr. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yr arbedion hyn yn wyneb sefyllfa gyfredol y trysorlys a maint a chost ad-dalu dyledion (h.y. y premiymau a godir).

**6.5.2** Bydd y rhesymau dros unrhyw ad-drefnu yn cynnwys:-

- cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
- cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys; a
- gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadalrwydd ariannol).

**6.5.3.** Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes unrhyw bosibilrwydd o gwbl o wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi ostwng trwy ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar ddyledion cyfredol.

**6.5.4.** Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf wedi i hynny ddigwydd.

**6.6. Proffil Dyledion**

**6.6.1.** Fel y gwelir yn **Atodiad 5**, bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu ar wahanol gyfnodau yn y blynyddoedd hyd at 2068/69. Fel rhan o unrhyw benderfyniad ar fenthyca yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dau'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy wrth benderfynu ar y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

**7. STRATEGAETH FUDDSODDI**

**7.1** Buddsoddiadau mewnol: Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif ariannol a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd buddsoddi hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael dychweliadau uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hirach. Er bod angen y rhan fwyaf o falansau ariannol i reoli cynnydd a gostyngiadau mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

- Os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o godi'n sylweddol yn ystod y cyfnod amser dan sylw, yna rhoddir ystyriaeth i gadw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau fel rhai tymor byr neu amrywiadwy.

- Ar y llaw arall, os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o ostwng o fewn y cyfnod hwnnw, ystyrir manteisio ar yr cyfraddau uwch sydd ar gael ar y pryd a chadw'r buddsoddiadau i mewn am gyfnodau hwy.

**7.1 Rheoli Risg**

**7.1.1** Mae CIPFA wedi ymestyn ystyr 'buddsoddiadau' i gynnwys buddsoddiadau ariannol ac anariannol. Mae'r adroddiad hwn yn delio â buddsoddiadau ariannol yn unig (fel y cânt eu rheoli gan y tîm rheoli trysorlys). Caiff buddsoddiadau anariannol, yn enwedig prynu asedau sy'n cynhyrchu incwm, eu cynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf (adroddiad ar wahân).

**7.2.2.** Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth yr isod:-

- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Canllawiau")
- Côd Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector CIPFA ar Reoli Trysorlys ("y Côd")
- Nodiadau Canllaw Rheoli Trysorlys CIPFA 2018

- Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r cynnyrch, (y dychweliad).

**7.2.3.** Mae'r canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru a CIPFA'n rhoi blaenoriaeth uchel i reoli risg. Mae'r awdurdod hwn wedi mabwysiau ymagwedd bwyllog tuag at reoli risg ac mae'n diffinio fel a ganlyn ei awch o ran risg: -

1. Defnyddir **meini prawf o ran lleiafswm y credyd sy'n dderbyniol** er mwyn cynhyrchu rhestr o wrth-bartïon sydd â lefel uchel iawn o deilyngdod credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu i ni arallgyfeirio ac osgoi dwysedd risg. Defnyddir y graddfeydd allanol i fonito graddfeydd tymor byr a thymor hyr y gwrth-bartïon.

2. **Gwybodaeth arall**: nid graddfeydd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad; mae'n bwysig asesu a monitro'n barhaus y sector ariannol ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sy'n adlewyrchu barn y marchnadoedd. I gyflawni hyn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i gadw golwg ar brisiau'r farchnad megis yswirio colledion credyd ("**credit default swaps**") ac yn ychwanegu'r wybodaeth honno at y cydraddau credyd.

3. Bydd **ffynonellau gwybodaeth** eraill a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfranddaliadau ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r sector bancio er mwyn sefydlu'r broses sgriwtini fwyaf cadarn mewn perthynas ag addasrwydd gwrth-bartïon y byddir o bosib yn buddsoddi ynddynt.

4. Mae'r awdurdod hwn wedi diffinio'r rhestr o'r **mathau o offerynnau buddsoddi** y mae'r tîm rheoli trysorlys â'r awdurdod i'w defnyddio. Mae dwy restr yn **Atodiad 7** dan y categorïau 'penodol' ac 'amhenodol'.
   - Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu ymhen blwyddyn.
   - **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd, gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac/neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn cael eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

5. **Terfyn buddsoddiadau amhenodol**. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd yn cyfyngu cyfanswm y defnydd o fuddsoddiadau amhenodol i X% o gyfanswm y portffolio buddsoddi.

6. Bydd **cyfyngiadau benthyca**, (symiau ac aeddfedrwydd), ar gyfer pob gwrth-barti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrics fel y mae'n ymddangos yn y rhan o'r strategaeth hon sy'n ymwneud â Theilyngdod Credyd.

7. Caiff **cyfyngiadau trafodion** ar gyfer pob math o fuddsoddiad eu nodi yn **Atodiad 8**.

8. Bydd yr awdurdod hwn yn gosod cyfyngiad ar gyfer swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am **fwy na 365 diwrnod**, (gweler paragraff 7.1).

9. Investments will only be placed with counterparties from countries with a specified minimum **sovereign rating**, (see paragraph 7.x).

10. Mae'r awdurdod hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i ddarparu cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r balans priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd a chynnyrch yn wyneb awch yr awdurdod hwn i gymryd risg yng nghyd-destun lefel ddisgwyliedig y balansau ariannol a'r angen am hylifedd drwy'r flwyddyn.

11. Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling.**

12. O ganlyniad i'r newid yn y safonau cyfrifo ar gyfer 2018/19 dan **IFRS 9,** bydd yr awdurdod hwn yn ystyried goblygiadau buddsoddi a allai arwain ar symudiad andwyol yng ngwerth yr arian a fuddsoddir a'r newidiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i hynny.

## 7.2 Polisi Teilyngdod Credyd

**7.3.1.** Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau er bod cynhyrchion neu ddychweliad ar fuddsoddiad hefyd yn ystyriaeth allweddol. Wedi rhoi sylw i hynny, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo bolisi sy'n amlinellu'r categorïau o fuddsoddiadau y bydd yn buddsoddi ynddynt, y meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a chanddynt ddiogelwch digonol a monitro eu diogelwch. Nodir hyn yn yr adrannau isod sy'n ymwneud â buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig; a

- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn gosod allan y gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud ag uchafswm y symiau y gellir eu buddsoddi.

**7.3.2.** Bydd y Swyddog Adran 151 yn cynnal rhestr gwrthbartïon yn unol â'r meini prawf a osodir allan yn **Atodiad 8** a bydd yn adolygu'r meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor eu cymeradwyo pan fo'r angen. Mae'r meini prawf hyn yn wahanol i'r rhai sy'n penderfynu ar y mathau o offerynnau buddsoddi sy'n benodedig neu'n amhenodedig oherwydd mae'n darparu cronfa gyffredinol o wrth-bartïon yr ystyrir eu bod o safon uchel ac y gall y Cyngor eu defnyddio yn hytrach na diffinio'r math o offerynnau buddsoddi y dylid eu defnyddio.

**7.3.3.** Caiff gwybodaeth am y graddfeydd credyd ei darparu gan Capita Asset Services, ein hymgynghorwyr trysorlys, yn achos yr holl wrth-bartïon sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf isod. Bydd unrhyw wrth-barti sy'n methu â bodloni'r meini prawf yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr gwrth-bartïon. Bydd manylion unrhyw newidiadau i'r graddfeydd (Watches), gwybodaeth ynghylch unrhyw newidiadau sy'n debygol y tu allan i'r graddfeydd (Outlook) yn cael eu darparu i swyddogion bron ar unwaith wedi iddynt ddigwydd a rhoddir sylw i'r wybodaeth hon cyn delio. Er enghraifft os ceir gwybodaeth y bydd graddfa negyddol yn berthnasol i wrth-barti sydd yn cwrdd â lleiafswm meini prawf y Cyngor, gwaherddir eu defnyddio a bydd y cyfan o'r lleill yn cael eu hadolygu yn wyneb amodau'r farchnad.

**7.3.4.** Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Bydd y Cyngor yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y 3 asiantaeth drwy ddefnyddio gwasanaeth teilyngdod credyd Capita.

**7.3.5.** Fel haen ychwanegol i'r meini prawf isafswm graddfa credyd a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Link Asset Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio dull modelu soffistigedig gan ddefnyddio graddfeydd credyd gan y tair prif asiantaeth graddfeydd credyd - Fitch, Moody's a Standard and Poor's. Yn ychwanegol at hynny, cymerir y camau isod i asesu graddfeydd credyd gwrth bartïon:-

- Ystyrir rhagolygon credyd a gweithgareddau monitro credyd gan asiantaethau graddfeydd credyd;
- Trosglwyddo Risgiau Credyd i roi rhybudd buan am newidiadau tebygol mewn graddfeydd credyd;
- Graddfeydd sofran i ddewis gwrthbartïon o'r gwledydd sydd fwyaf teilwng i gredyd yn unig.

**7.3.6.** Mae'r dull modelu hwn yn cyfuno graddfeydd credyd, gweithgareddau monitro credyd a rhagolygon credyd mewn system sgorio sydd wedi ei phwysoli ac sydd wedi ei chyfuno wedyn gyda throshaen o TRC a fydd, yn y pen draw, yn cynhyrchu cyfres o godau lliw i nodi pa mor deilwng o gredyd yw gwrthbartïon. Mae'r codau lliw hyn yn cael eu defnyddio gan y Cyngor, gyda disgresiwn y Swyddog A 151, i gynorthwyo i benderfynu ar gyfnod amser y buddsoddiadau. Bydd y Cyngor, felly, fel arfer yn defnyddio gwrthbartïon o fewn y cyfnodau canlynol:-

- Melyn 5 mlynedd *
- Pinc tywyll 5 mlynedd – ar gyfer cronfeydd marchnad arian uwch (EMMFs) gyda sgôr credyd o 1.25
- Pinc golau 5 mlynedd – ar gyfer cronfeydd marchnad arian uwch (EMMFs) gyda sgôr credyd o 1.5
- Piws 2 flynedd
- Glas 1 flwyddyn (ond yn berthnasol i Fanciau DU a wladolwyd neu a led wladolwyd)
- Oren 1 flwyddyn
- Coch 6 mis
- Gwyrdd 100 diwrnod
- Dim Lliw Dim i'w ddefnyddio

**7.3.7.** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n rhoi pwysau gormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

**7.3.8.** Bydd y meini prawf y bydd y Cyngor yn eu defnyddio fel lleiafswm credyd yn raddfa Tymor Byr (Fitch neu gyfatebol) o F1 ac yn raddfa Tymor Hir o A-. Efallai y bydd achlysurol pan fydd graddfeydd un asiantaeth raddio ychydig yn is na'r graddfeydd hyn, ond gellir parhau i'w defnyddio. Ar yr achlysuron hyn, rhoddir ystyried i'r amrediad cyfan o raddfeydd sydd ar gael neu wybodaeth berthnasol arall ar y farchnad, er mwyn cefnogi eu defnydd.

**7.3.9.** Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n wythnosol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth oherwydd ei fod yn defnyddio gwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.

- os bydd cwymp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrth-barti/cynllun buddsoddi'n cwrdd â lleiafswm meini prawf y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.
- yn ychwanegol at ddefnyddio graddfeydd credyd, bydd y Cyngor yn cael gwybodaeth yn ddyddiol am symudiadau yn nhaeniad y 'credit default swap' yn erbyn y meincnod iTraxx a data arall ynghylch y farchnad drwy'r wefan Pasport, a ddarperir yn benodol ar ei ran gan Link Asset Services. Gall symudiadau eithafol yn y farchnad arwain at israddio sefydliad neu ei dynnu oddi ar restr benthycwyr y Cyngor.

**7.3.10.** Ni fyddir yn defnyddio'n gyfan gwbl ar y gwasanaeth allanol hwn. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio data'r farchnad a gwybodaeth am y farchnad a gwybodaeth am unrhyw gymorth allanol i fanciau i helpu i gefnogi ei broses gwneud penderfyniadau.

**7.3.11.** Yn unol â chyfraith y DU, mae angen i fanciau mwyaf y DU (y rhai sydd â gwerth mwy na £25bn o adneuon adwerthu / Mentrau Bach a Chanolig eu Maint (SME)), wahanu gwasanaethau bancio adwerthu craidd oddi wrth eu gweithgareddau buddsoddi a bancio rhyngwladol erbyn 1 Ionawr 2019. Yr ymadrodd am hyn yw "arian clustnodedig" ("ring-fencing"). Er bod banciau llai gyda llai na £25bn mewn adneuon yn cael eu heithrio, gallant ddewis optio i mewn. Mae nifer o fanciau'n agos iawn i'r trothwy yn barod ac efallai y byddant yn rhan o'r sgôp yn y dyfodol beth bynnag.

**7.3.12.** Mae neilltuo arian i bwrpas clustnodedig yn fenter reoleiddiol a grëwyd er mwyn ymateb i'r argyfwng ariannol byd-eang. Mae'n gorfodi gwahanu adneuon adwerthu ac SME oddi wrth fancio buddsoddiadau, er mwyn gwella cadernid banciau a'u gallu i ymateb i broblemau drwy newid eu strwythur. Yn gyffredinol, bydd y gweithgareddau symlach a gynigir gan fanc "arian clustnodedig" yn canolbwyntio ar drafodion dydd i ddydd, risg is a bydd angen cadw gweithgareddau mwy cymhleth mewn endid ar wahân, sef banc nad yw'n clustnodi arian i bwrpas penodol. Bwriad hyn yw sicrhau nad yw gweithgareddau craidd yr endid yn cael eu heffeithio'n andwyol gan weithred neu anweithred aelodau eraill o'i grŵp.

**7.3.13.** Er y bydd strwythurau'r banciau sydd wedi eu cynnwys yn y broses hon wedi newid efallai, nid yw egwyddorion sylfaenol asesiadau credyd wedi newid. Bydd y Cyngor yn parhau i asesu'r endidau newydd yn yr un modd ag y mae'n asesu eraill a bydd y rhai â chyfraddau digon uchel (ac unrhyw fesurau eraill a fydd yn berthnasol) yn cael eu hystyried i ddibenion buddsoddiad.

### 7.4 Cyfyngiadau Gwlad

**7.4.1.** Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd gyda graddfa credyd sofran o AA- yn ôl Graddfeydd Fitch (neu asiantaethau cyfatebol eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad yn **Atodiad 9**. Bydd swyddogion yn ychwanegu neu'n tynnu oddi ar y rhestr pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn.

## 8 LLYWODRAETHIANT A RHEOLAETH

**8.1** Mae'r Côd Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at hunanreoleiddio ar gyfer awdurdodau lleol ac mae llywodraethiant corfforaethol effeithiol yn un o elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Côd.

**8.2** Mae Llywodraethiant Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151
- Gosod a monitro Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol
- Adrodd ar faterion Rheoli Trysorlys i Aelodau

### 8.3 Rôl y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau

**8.3.1.** Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn i'w hystyried a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

**8.3.2.** Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn arddangos cydymffurfiaeth â'r gofyniad deddfwriaethol bod cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy.

**8.3.3.** Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu prosesau, penderfyniadau a pherfformiad sy'n gysylltiedig â rheoli trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chôd CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol mewn rheoli trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgriwtini. Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, cafodd aelodau'r pwyllgor hyfforddiant mewn rheoli trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli penodedig ar 8 Tachwedd 2017. Trefnir hyfforddiant pellach yn ôl yr angen. Caiff anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli trysorlys eu hadolygu a'u hystyried yn rheolaidd.

**8.3.4.** Mae'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys ac eglurhad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 ar gael yn **Atodiad 10**.

## 8.4 Cyngor Rheoli Trysorlys

**8.4.1.** Mae'r Cyngor yn defnyddio Link Asset Services fel ei ymgynghorwyr allanol ar gyfer rheoli trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, hysbysebwyd tendr ar gyfer y gwasanaeth ymgynghorol Rheoli Trysorlys am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019 gydag opsiwn i ymestyn am 2 flynedd a Link Asset Services (Capita Asset Services gynt) gyflwynodd y tendr llwyddiannus.

**8.4.2.** Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli trysorlys yn gorwedd gyda'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau na fydd dibyniaeth afresymol yn cael ei rhoi ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu cymryd gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael gan gynnwys gwybodaeth gan ein hymgynghorwyr trysorlys, ond ni fyddir yn dibynnu arnyn nhw yn unig. Y Cyngor sy'n gyfrifol am unrhyw benderfyniadau rheoli trysorlys.

**8.4.3.** Mae hefyd yn cydnabod gwerth cyflogi cwmnïau allanol i ddarparu gwasanaethau rheoli trysorlys er mwyn sicrhau mynediad i sgiliau ac adnoddau arbenigol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau o asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd.

## 8.5 Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys

**8.5.1.** Mae'r Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys a nodir yn **Atodiad 11** yn sôn am fforddiadwyedd, pwyll ac yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyled allanol a strwythur y ddyled. Mater i'r Cyngor yw gosod Dangosyddion Pwyllog ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond hefyd i ystyried perfformiad y gorffennol a rhagolygon y dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn **Atodiad 12.**

## 8.6 Adrodd

**8.6.1.** Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri prif adroddiad bob blwyddyn sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Mae angen i'r adroddiadau hyn gael eu craffu'n ddigonol gan y pwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethant sy'n gyfrifol am y rôl hon.

**8.6.2.** Dangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys a Strategaeth Trysorlys – mae'r adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (sef yr adroddiad hwn) yn cyffwrdd ar yr isod:-

- Y Strategaeth Rheoli Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion rheoli trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);

- Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys); a
- Cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion pwyllog cysylltiedig).

**8.6.3.** Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn – Bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, yn diwygio dangosyddion pwyllog yn ôl ar angen ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i amcanion ac a oes angen adolygu unrhyw bolisïau.

**8.6.4.** Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys – Dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn darparu manylion am ddetholiad o ddangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol a'r gweithgareddau trysorlys gwirioneddol o'u cymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

**ATODIADAU**

**1.** Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys
**2.** Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys
**3.** Cefndir economaidd
**4.** Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog
**5.** Proffil aeddfedrwydd benthyciadau
**6.** Datganiad Polisi MRP
**7.** Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol
**8.** Meini Prawf Gwrth-bartïon
**9.** Gwledydd sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau
**10.** Cynllun dirprwyo rheoli trysorlys a rôl y swyddog adran 151.
**11.** Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys
**12.** Eglurhad o'r Dangosyddion Pwyllog
**13.** Geirfa a gwybodaeth ynghylch dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys

**Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys**

**1.** Mae CIPFA yn diffinio ei weithgareddau rheoli'r trysorlys fel : "Rheoli buddsoddiadau'r Awdurdod a llif arian, ei fancio, trafodion marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny, a mynd ar drywydd y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny".

**2.** Mae'r sefydliad hwn o'r farn mai nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithlonrwydd ei weithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn unol â hynny, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheoli'r trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r sefydliad, ac unrhyw offerynnau ariannol a wnaed i reoli'r risgiau hyn.

**3.** Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y bydd rheolaeth effeithiol o'r trysorlys yn ei gefnogi wrth gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Mae felly wedi ymrwymo i egwyddorion cyflawni gwerth am arian y maes rheoli'r trysorlys, a defnyddio technegau mesur perfformiad cynhwysfawr ac addas, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol.

**ATODIAD 2**

**Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Egwyddorion allweddol CIPFA ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2011),*** fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

**Egwyddor Allweddol 1:**
Dylai sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus roi ar waith amcanion ffurfiol a chynhwysfawr, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ar gyfer rheolaeth effeithiol a rheoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys.

**Egwyddor Allweddol 2:**
Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir bod rheolaeth effeithiol a rheoli risgiau yn brif amcanion eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn gorwedd yn glir o fewn eu sefydliadau. Dylai eu harchwaeth am risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer y rheolaeth bwyllog o'r risgiau hynny, a dylai sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd wrth fuddsoddi arian.

**Egwyddor Allweddol 3:**
Dylent gydnabod bod mynd ar drywydd gwerth am arian ym maes rheolaeth trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn arfau dilys ac yn bwysig i sefydliadau cyfrifol i gyflogi i gefnogi eu busnes ac amcanion y gwasanaeth; a bod, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol eu polisïau rheoli trysorlys a'i arferion yn adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:

"Wrth lunio'r argymhellion hyn mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ymdrechu i gael rheolaeth effeithiol ar risg, tra ar yr un pryd yn anelu at sicrhau gwerth am arian. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn rhagnodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo sector benodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli'r trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian fel dangosydd o swyddogaeth rheoli'r trysorlys sy'n perfformio'n gryf".

"Er ei fod yn dyddio'n ôl i 1991, mae CIPFA yn ystyried bod yr adroddiad gan y Trysorlys a Phwyllgor y Gwasanaeth Sifil o Dŷ'r Cyffredin ar gau'r BCCI yn dal yn berthnasol, ac yn yr adroddiad fe ddywedwyd :

*"Wrth gydbwyso'r risg yn erbyn dychweliad, dylai awdurdodau lleol fod yn fwy pryderus i osgoi risgiau nag i wneud yr elw mwyaf."*

"Yn wir, cefnogwyd y farn hon gan adroddiad y Pwyllgor Dethol Cymunedau a Llywodraeth Leol i fuddsoddiadau awdurdodau lleol yn 2009."

"Barn CIPFA yw trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus y flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosibl. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd gyda chyfrifoldeb brwd am arian cyhoeddus."

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog :

**1.** Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-

- Datganiad polisi ar reoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, amcanion a'r dull o reoli risg ei weithgareddau rheoli trysorlys; a

- Arferion rheoli trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn rhagnodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi ac ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig i newid lle bo angen adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. NI fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

**2.** Bydd y Cyngor Sir, Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, ymarferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys Strategaeth Blynyddol a Chynllun o flaen llaw y flwyddyn, adroddiadau chwarterol (yn cynnwys adroddiad adolygu canol blwyddyn) a hefyd adroddiad blynyddol ar ôl cau lawr, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan y TMPs.

**3.** Mae'r Cyngor Sir/Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am weithredu ar Bolisïau ac ymarferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â chynllun Dirprwyo Rheolaeth Trysorlys. Mae'r Swyddog Cyllid 151 yn gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau Rheoli Trysorlys, fydd yn gweithio yn unol hefo Datganiad Polisi'r Awdurdod a'r TMPs ac os ydi hi/fo yn aelod o CIPFA, CIPFA Standard of Professional Practice on Treasury Management.

**4.** Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y ceir craffu effeithiol ar y polisïau rheoli'r trysorlys, yr ymarferion a'r perfformiad.

## Economic Background

**GLOBAL OUTLOOK. World growth** has been doing reasonably well, aided by strong growth in the US. However, US growth is likely to fall back in 2019 and, together with weakening economic activity in China and the eurozone, overall world growth is likely to weaken.

**Inflation** has been weak during 2018 but, at long last, unemployment falling to remarkably low levels in the US and UK has led to an acceleration of wage inflation. The US Fed has therefore increased rates nine times and the Bank of England twice. However, the ECB is unlikely to start raising rates until late in 2019 at the earliest.

**KEY RISKS - central bank monetary policy measures**

Looking back on nearly ten years since the financial crash of 2008 when liquidity suddenly dried up in financial markets, it can be assessed that central banks' monetary policy measures to counter the sharp world recession were successful. The key monetary policy measures they used were a combination of lowering central interest rates and flooding financial markets with liquidity, particularly through unconventional means such as quantitative easing (QE), where central banks bought large amounts of central government debt and smaller sums of other debt.

**The key issue now** is that period of stimulating economic recovery and warding off the threat of deflation, is coming towards its close. A new period is well advanced in the US, and started more recently in the UK, of reversing those measures i.e. by raising central rates and, (for the US), reducing central banks' holdings of government and other debt. These measures are now required in order to stop the trend of a reduction in spare capacity in the economy and of unemployment falling to such low levels, that the re-emergence of inflation is viewed as a major risk. It is, therefore, crucial that central banks get their timing right and do not cause shocks to market expectations that could destabilise financial markets. In particular, a key risk is that because QE-driven purchases of bonds drove up the price of government debt, and therefore caused a sharp drop in income yields, this also encouraged investors into a search for yield and into investing in riskier assets such as equities. Consequently, prices in both bond and equity markets rose to historically high valuation levels simultaneously. This meant that both asset categories were exposed to the risk of a sharp downward correction and we did, indeed, see a sharp fall in equity values in the last quarter of 2018. It is important, therefore, that central banks only gradually unwind their holdings of bonds in order to prevent destabilising the financial markets. It is also likely that the timeframe for central banks unwinding their holdings of QE debt purchases will be over several years. They need to balance their timing to neither squash economic recovery, by taking too rapid and too strong action, or, conversely, let inflation run away by taking action that was too slow and/or too weak. **The potential for central banks to get this timing and strength of action wrong are now key risks.** At the time of writing, (early January 2019), financial markets are very concerned that the Fed is being too aggressive with its policy for raising interest rates and is likely to cause a recession in the US economy.

The world economy also needs to adjust to a sharp change in **liquidity creation** over the last five years where the US has moved from boosting liquidity by QE purchases, to reducing its holdings of debt (currently about $50bn per month). In addition, the European Central Bank ended its QE purchases in December 2018.

**UK.** The flow of positive economic statistics since the end of the first quarter of 2018 has shown that pessimism was overdone about the poor growth in quarter 1 when adverse weather caused a temporary downward blip. Quarter 1 at 0.1% growth in GDP was followed by a return to 0.4% in quarter 2 and by a strong performance in quarter 3 of +0.6%. However, growth in quarter 4 is expected to weaken significantly.

At their November quarterly Inflation Report meeting, the MPC repeated their well-worn phrase that future Bank Rate increases would be gradual and would rise to a much lower equilibrium rate, (where monetary policy is neither expansionary of contractionary), than before the crash; indeed they gave a figure for this of around 2.5% in ten years' time, but declined to give a medium term forecast. However, with so much uncertainty around Brexit, they warned that the next move could be up or down, even if there was a disorderly Brexit. While it would be expected that Bank Rate could be cut if there was a significant fall in GDP growth as a result of a disorderly Brexit, so as to provide a stimulus to growth, they warned they could also *raise* Bank Rate in the same scenario if there was a boost to inflation from a devaluation of sterling, increases in import prices and more expensive goods produced in the UK replacing cheaper goods previously imported, and so on. In addition, the Chancellor could potentially provide fiscal stimulus to support economic growth, though at the cost of increasing the budget deficit above currently projected levels.

It is unlikely that the MPC would increase Bank Rate in February 2019, ahead of the deadline in March for Brexit. Getting parliamentary approval for a Brexit agreement on both sides of the Channel will take well into spring 2019. However, in view of the hawkish stance of the MPC at their November meeting, the next increase in Bank Rate is now forecast to be in May 2019, (on the assumption that a Brexit deal is agreed by both the UK and the EU). The following increases are then forecast to be in February and November 2020 before ending up at 2.0% in February 2022.

**Inflation.** The Consumer Price Index (CPI) measure of inflation has been falling from a peak of 3.1% in November 2017 to 2.1% in December 2018. In the November Bank of England quarterly Inflation Report, inflation was forecast to still be marginally above its 2% inflation target two years ahead, (at about 2.1%), given a scenario of minimal increases in Bank Rate.

As for the **labour market** figures in October**,** unemployment at 4.1% was marginally above a 43 year low of 4% on the Independent Labour Organisation measure. A combination of job vacancies hitting an all-time high, together with negligible growth in total employment numbers, indicates that employers are now having major difficulties filling job vacancies with suitable staff. It was therefore unsurprising that wage inflation picked up to 3.3%, (3 month average regular pay, excluding bonuses). This meant that in real terms, (i.e. wage rates less CPI inflation), earnings are currently growing by about 1.2%, the highest level since 2009. This increase in household spending power is likely to feed through into providing some support to the overall rate of economic growth in the coming months. This tends to confirm that the MPC was right to start on a cautious increase in Bank Rate in August as it views wage inflation in excess of 3% as increasing inflationary pressures within the UK economy.

In the **political arena**, the Brexit deal put forward by the Conservative minority government was defeated on 15 January. It is unclear at the time of writing, how this situation will move forward. *(Officers are likely to need to verbally update members as events are constantly evolving.)* However, our central position is that Prime Minister May's government will endure, despite various setbacks, along the route to reaching an orderly Brexit though the risks are increasing that it may not be possible to get full agreement by the UK and EU before 29 March 2019, in which case this withdrawal date is likely to be pushed back to a new date. If, however, the UK faces a general election in the next 12 months, this could result in a potential loosening of monetary and fiscal policy and therefore medium to longer dated gilt yields could rise on the expectation of a weak pound and concerns around inflation picking up.

**USA.** President Trump's massive easing of fiscal policy is fuelling a (temporary) boost in consumption which has generated an upturn in the rate of strong growth which rose from 2.2% (annualised rate) in quarter 1 to 4.2% in quarter 2 and 3.5%, (3.0% y/y), in quarter 3, but also an upturn in inflationary pressures. The strong growth in employment numbers and the reduction in the unemployment rate to 3.9%, near to a recent 49 year low, has fed through to an upturn in wage inflation which hit 3.2% in November. However, CPI inflation overall fell to 2.2% in November and looks to be on a falling trend to drop below the Fed's target of 2% during 2019. The Fed has continued on its series of increases in interest rates with another 0.25% increase in December to between 2.25% and 2.50%, this being the fifth increase in 2018 and the ninth in this cycle. However, they did also reduce their forecast for further increases from three to two. This latest increase compounded investor fears that the Fed is over doing the speed and level of increases in rates and that it is going to cause a US recession as a result. There is also much evidence in previous monetary policy cycles of the Fed's series of increases doing exactly that. Consequently, we have seen stock markets around the world falling under the weight of fears around the Fed's actions, the trade war between the US and China and an expectation that world growth will slow.

The tariff war between the US and China has been generating a lot of heat during 2018, but it is not expected that the current level of actual action would have much in the way of a significant effect on US or world growth. However, there is a risk of escalation if an agreement is not reached soon between the US and China.

**Eurozone.** Growth was 0.4% in quarters 1 and 2 but fell back to 0.2% in quarter 3, though this was probably just a temporary dip. In particular, data from Germany has been mixed and it could be negatively impacted by US tariffs on a significant part of its manufacturing exports e.g. cars. For that reason, although growth is still expected to be in the region of nearly 2% for 2018, the horizon is less clear than it seemed just a short while ago. Having halved its quantitative easing purchases of debt in October 2018 to €15bn per month, the European Central Bank ended all further purchases in December 2018. The ECB is forecasting inflation to be a little below its 2% top limit through the next three years so it may find it difficult to warrant a start on raising rates by the end of 2019 if the growth rate of the EU economy is on a weakening trend.

**China.** Economic growth has been weakening over successive years, despite repeated rounds of central bank stimulus; medium term risks are increasing. Major progress still needs to be made to eliminate excess industrial capacity and the stock of unsold property, and to address the level of non-performing loans in the banking and credit systems. Progress has been made in reducing the rate of credit creation, particularly from the shadow banking sector, which is feeding through into lower economic growth. There are concerns that official economic statistics are inflating the published rate of growth.

**Japan** - has been struggling to stimulate consistent significant GDP growth and to get inflation up to its target of 2%, despite huge monetary and fiscal stimulus. It is also making little progress on fundamental reform of the economy. It is likely that loose monetary policy will endure for some years yet to try to stimulate growth and modest inflation.

**Emerging countries.** Argentina and Turkey are currently experiencing major headwinds

and are facing challenges in external financing requirements well in excess of their reserves of foreign exchange. However, these countries are small in terms of the overall world economy, (around 1% each), so the fallout from the expected recessions in these countries will be minimal.

**INTEREST RATE FORECASTS**

The interest rate forecasts provided by Link Asset Services in paragraph 3.2 are **predicated on an assumption of an agreement being reached on Brexit between the UK and the EU.** On this basis, while GDP growth is likely to be subdued in 2019 due to all the uncertainties around Brexit depressing consumer and business confidence, an agreement is likely to lead to a boost to the rate of growth in 2020 which could, in turn, increase inflationary pressures in the economy and so cause the Bank of England to resume a series of gentle increases in Bank Rate. Just how fast, and how far, those increases will occur and rise to, will be data dependent. The forecasts in this report assume a modest recovery in the rate and timing of stronger growth and in the corresponding response by the Bank in raising rates.

- In the event of an **orderly non-agreement exit**, it is likely that the Bank of England would take action to cut Bank Rate from 0.75% in order to help economic growth deal with the adverse effects of this situation. This is also likely to cause short to medium term gilt yields to fall.
- If there was a **disorderly Brexit**, then any cut in Bank Rate would be likely to last for a longer period and also depress short and medium gilt yields correspondingly. It is also possible that the government could act to protect economic growth by implementing fiscal stimulus.

However, there would appear to be a majority consensus in the Commons against any form of non-agreement exit so the chance of this occurring has now substantially diminished.

**The balance of risks to the UK**

- The overall balance of risks to economic growth in the UK is probably neutral.
- The balance of risks to increases in Bank Rate and shorter term PWLB rates, are probably also even and are broadly dependent on how strong GDP growth turns out, how slowly inflation pressures subside, and how quickly the Brexit negotiations move forward positively.

One risk that is both an upside and downside risk, is that all central banks are now working in very different economic conditions than before the 2008 financial crash as there has been a major increase in consumer and other debt due to the exceptionally low levels of borrowing rates that have prevailed for ten years since 2008. This means that the neutral rate of interest in an economy, (i.e. the rate that is neither expansionary nor deflationary), is difficult to determine definitively in this new environment, although central banks have made statements that they expect it to be much lower than before 2008. Central banks could therefore either over or under do increases in central interest rates.

**Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates currently include:**

- **Brexit** – if it were to cause significant economic disruption and a major downturn in the rate of growth.
- **Bank of England monetary policy** takes action too quickly, or too far, over the next three years to raise Bank Rate and causes UK economic growth, and increases in inflation, to be weaker than we currently anticipate.
- A resurgence of the **eurozone sovereign debt crisis**, possibly in **Italy**, due to its high level of government debt, low rate of economic growth and vulnerable banking system, and due to the election in March of a government which has made a lot of anti-austerity noise. The EU rejected the initial proposed Italian budget and demanded cuts in government spending which the Italian government initially refused. However, a fudge was subsequently agreed, but only by *delaying* the planned increases in expenditure to a later year. This can has therefore only been kicked down the road to a later time. The rating agencies have started on downgrading Italian debt to one notch above junk level. If Italian debt were to fall below investment grade, many investors would be unable to hold it. Unsurprisingly, investors are becoming increasingly concerned by the words and actions of the Italian government and consequently, Italian bond yields have risen – at a time when the government faces having to refinance large amounts of debt maturing in 2019.

- Weak capitalisation of some **European banks**. Italian banks are particularly vulnerable; one factor is that they hold a high level of Italian government debt - debt which is falling in value. This is therefore undermining their capital ratios and raises the question of whether they will need to raise fresh capital to plug the gap.
- **German minority government.** In the German general election of September 2017, Angela Merkel's CDU party was left in a vulnerable minority position dependent on the fractious support of the SPD party, as a result of the rise in popularity of the anti-immigration AfD party. Then in October 2018, the results of the Bavarian and Hesse state elections radically undermined the SPD party and showed a sharp fall in support for the CDU. As a result, the SPD is reviewing whether it can continue to support a coalition that is so damaging to its electoral popularity. After the result of the Hesse state election, Angela Merkel announced that she would not stand for re-election as CDU party leader at her party's convention in December 2018, (a new party leader has now been elected). However, this makes little practical difference as she is still expected to aim to continue for now as the Chancellor. However, there are five more state elections coming up in 2019 and EU parliamentary elections in May/June; these could result in a further loss of electoral support for both the CDU and SPD which could also undermine her leadership.
- **Other minority eurozone governments.** Spain, Portugal, Ireland, the Netherlands and Belgium all have vulnerable minority governments dependent on coalitions which could prove fragile. Sweden is also struggling to form a government due to the anti-immigration party holding the balance of power, and which no other party is willing to form a coalition with. The Belgian coalition collapsed in December 2018 but a minority caretaker government has been appointed until the May EU wide general elections.
- **Austria, the Czech Republic and Hungary** now form a strongly anti-immigration bloc within the EU while **Italy,** in 2018, also elected a strongly anti-immigration government. Elections to the EU parliament are due in May/June 2019.
- Further increases in interest rates in the US could spark a **sudden flight of investment funds** from more risky assets e.g. shares, into bonds yielding a much improved yield. Throughout the last quarter of 2018, we saw sharp falls in equity markets interspersed with occasional partial rallies. Emerging countries which have borrowed heavily in dollar denominated debt, could be particularly exposed to this risk of an investor flight to safe havens e.g. UK gilts.
- There are concerns around the level of **US corporate debt** which has swollen massively during the period of low borrowing rates in order to finance mergers and acquisitions. This has resulted in the debt of many large corporations being downgraded to a BBB credit rating, close to junk status. Indeed, 48% of total investment grade corporate debt is now rated at BBB. If such corporations fail to generate profits and cash flow to reduce their debt levels as expected, this could tip their debt into junk ratings which will increase their cost of financing and further negatively impact profits and cash flow.
- **Geopolitical risks,** especially North Korea, but also in Europe and the Middle East, which could lead to increasing safe haven flows.
-

**Upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates**

- **Brexit** – if both sides were to agree by 29 March a compromise that quickly removed all threats of economic and political disruption and so led to an early boost to UK economic growth.
- **The Fed causing a sudden shock in financial markets** through misjudging the pace and strength of increases in its Fed Funds Rate and in the pace and strength of reversal of QE, which then leads to a fundamental reassessment by investors of the relative risks of holding bonds, as opposed to equities. This could lead to a major flight from bonds to equities and a sharp increase in bond yields in the US, which could then spill over into impacting bond yields around the world.
- The **Bank of England is too slow** in its pace and strength of increases in Bank Rate and, therefore, allows inflation pressures to build up too strongly within the UK economy, which then necessitates a later rapid series of increases in Bank Rate faster than we currently expect.

**UK inflation,** whether domestically generated or imported, returning to sustained significantly higher levels causing an increase in the inflation premium inherent to gilt yields.

**Brexit timetable and process**

- March 2017: UK government notified the European Council of its intention to leave under the Treaty on European Union Article 50 on 29 March 2019.
- 25.11.18 EU27 leaders endorsed the withdrawal agreement
- Dec 2018 vote in the UK Parliament on the agreement was postponed
- 21.12.18 – 8.1.19 UK parliamentary recess
- 15.1.19 Brexit deal defeated in the Commons vote by a large margin
- By 29.3.19 second vote (?) in UK parliament
- By 29.3.19 if the UK Parliament approves a deal, then ratification by the EU Parliament requires a simple majority
- By 29.3.19 if the UK and EU parliaments agree the deal, the EU Council needs to approve the deal; 20 countries representing 65% of the EU population must agree
- 29.3.19 Either the UK leaves the EU, or asks the EU for agreement to an extension of the Article 50 period if the UK Parliament has been unable to agree on a Brexit deal.
- 29.3.19: if an agreement is reached with the EU on the terms of Brexit, then this will be followed by a proposed **transitional period ending around December 2020.**
- UK continues as a full EU member until March 2019 with access to the single market and tariff free trade between the EU and UK. Different sectors of the UK economy may leave the single market and tariff free trade at different times during the transitional period.
- The UK and EU would attempt to negotiate, among other agreements, a bi-lateral trade agreement over that period.
- The UK would aim for a negotiated agreed withdrawal from the EU, although the UK could also exit without any such agreements in the event of a breakdown of negotiations.
- If the UK exits without an agreed deal with the EU, World Trade Organisation rules and tariffs could apply to trade between the UK and EU - but this is not certain.
- On full exit from the EU: the UK parliament would repeal the 1972 European Communities Act.

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services*

## Rhagolygon Graddfeydd Llog 2019/2022
## Interest Rate Forecasts 2019/2022

PWLB rates and forecast shown below have taken into account the 20 basis point certainty rate reduction effective as of the 1st November 2012.

| Link Asset Services Interest Rate View | Mar-19 | Jun-19 | Sep-19 | Dec-19 | Mar-20 | Jun-20 | Sep-20 | Dec-20 | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 | Dec-21 | Mar-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bank Rate View | 0.75% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.25% | 1.25% | 1.25% | 1.50% | 1.50% | 1.75% | 1.75% | 1.75% | 2.00% |
| 3 Month LIBID | 0.90% | 1.00% | 1.10% | 1.20% | 1.30% | 1.40% | 1.50% | 1.50% | 1.60% | 1.70% | 1.80% | 1.90% | 2.00% |
| 6 Month LIBID | 1.00% | 1.20% | 1.30% | 1.40% | 1.50% | 1.60% | 1.70% | 1.70% | 1.80% | 1.90% | 2.00% | 2.10% | 2.20% |
| 12 Month LIBID | 1.20% | 1.30% | 1.40% | 1.50% | 1.60% | 1.70% | 1.80% | 1.90% | 2.00% | 2.10% | 2.20% | 2.30% | 2.40% |
| 5yr PWLB Rate | 2.10% | 2.20% | 2.20% | 2.30% | 2.30% | 2.40% | 2.50% | 2.50% | 2.60% | 2.60% | 2.70% | 2.80% | 2.80% |
| 10yr PWLB Rate | 2.50% | 2.60% | 2.60% | 2.70% | 2.80% | 2.90% | 2.90% | 3.00% | 3.00% | 3.10% | 3.10% | 3.20% | 3.20% |
| 25yr PWLB Rate | 2.90% | 3.00% | 3.10% | 3.10% | 3.20% | 3.30% | 3.30% | 3.40% | 3.40% | 3.50% | 3.50% | 3.60% | 3.60% |
| 50yr PWLB Rate | 2.70% | 2.80% | 2.90% | 2.90% | 3.00% | 3.10% | 3.10% | 3.20% | 3.20% | 3.30% | 3.30% | 3.40% | 3.40% |
| **Bank Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| Link Asset Services | 0.75% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.25% | 1.25% | 1.25% | 1.50% | 1.50% | 1.75% | 1.75% | 1.75% | 2.00% |
| Capital Economics | 0.75% | 1.00% | 1.25% | 1.50% | 1.70% | 1.75% | 2.00% | 2.00% | - | - | - | - | - |
| **5yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| Link Asset Services | 2.10% | 2.20% | 2.20% | 2.30% | 2.30% | 2.40% | 2.50% | 2.50% | 2.60% | 2.60% | 2.70% | 2.80% | 2.80% |
| Capital Economics | 2.03% | 2.15% | 2.40% | 2.65% | 2.70% | 2.75% | 2.80% | 2.85% | - | - | - | - | - |
| **10yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| Link Asset Services | 2.50% | 2.60% | 2.60% | 2.70% | 2.80% | 2.90% | 2.90% | 3.00% | 3.00% | 3.10% | 3.10% | 3.20% | 3.20% |
| Capital Economics | 2.43% | 2.55% | 2.80% | 3.05% | 3.05% | 3.05% | 3.05% | 3.05% | - | - | - | - | - |
| **25yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| Link Asset Services | 2.90% | 3.00% | 3.10% | 3.10% | 3.20% | 3.30% | 3.30% | 3.40% | 3.40% | 3.50% | 3.50% | 3.60% | 3.60% |
| Capital Economics | 2.96% | 3.08% | 3.33% | 3.58% | 3.53% | 3.48% | 3.43% | 3.38% | - | - | - | - | - |
| **50yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| Link Asset Services | 2.70% | 2.80% | 2.90% | 2.90% | 3.00% | 3.10% | 3.10% | 3.20% | 3.20% | 3.30% | 3.30% | 3.40% | 3.40% |
| Capital Economics | 2.78% | 2.90% | 3.15% | 3.40% | 3.40% | 3.40% | 3.40% | 3.40% | - | - | - | - | - |

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services*

| DADANSODDIAD BENTHYCIADAU YN AEDDFEDU 2018/19 YMLAEN GAN PWLB / PWLB LOANS MATURITY ANALYSIS 2018/19 ONWARDS | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **PWLB Aeddefedu/ PWLB Maturity £'000** | **PWLB EIP/ Annuity/ PWLB EIP/ Annuity £'000** | **Benthyciadau Marchnad/ Market Loans £'000** | **PWLB Amrywiol/ PWLB Variable £'000** | **Cyfanswm yn Aeddfedu/ Total Maturing £'000** | **%Yn Aeddfedu o'r Cyfran yn sefyll/ Maturing of Total Outstanding %** |
| 2019/20 | 5,000 | 11 | 0 | 0 | 5,011 | 4.1 |
| 2020/21 | 4,500 | 12 | 0 | 0 | 4,512 | 3.7 |
| 2021/22 | 0 | 14 | 0 | 0 | 14 | 0.0 |
| 2022/23 | 2,285 | 15 | 0 | 0 | 2,300 | 1.9 |
| 2023/24 | 1,854 | 16 | 0 | 0 | 1,870 | 1.5 |
| 2024/25 | 0 | 18 | 0 | 0 | 18 | 0.0 |
| 2025/26 | 0 | 20 | 0 | 0 | 20 | 0.0 |
| 2026/27 | 1,381 | 22 | 0 | 0 | 1,403 | 1.2 |
| 2027/28 | 2,165 | 24 | 0 | 0 | 2,189 | 1.8 |
| 2028/29 | 262 | 26 | 0 | 0 | 288 | 0.2 |
| 2029/30 | 1,539 | 21 | 0 | 0 | 1,560 | 1.3 |
| 2030/31 | 451 | 15 | 0 | 0 | 466 | 0.4 |
| 2031/32 | 1,941 | 9 | 0 | 0 | 1,950 | 1.6 |
| 2032/33 | 315 | 8 | 0 | 0 | 323 | 0.3 |
| 2033/34 | 637 | 0 | 0 | 0 | 637 | 0.5 |
| 2034/35 | 624 | 0 | 0 | 0 | 624 | 0.5 |
| 2035/36 | 611 | 0 | 0 | 0 | 611 | 0.5 |
| 2036/37 | 599 | 0 | 0 | 0 | 599 | 0.5 |
| 2037/38 | 587 | 0 | 0 | 0 | 587 | 0.5 |
| 2038/39 | 225 | 0 | 0 | 0 | 225 | 0.2 |
| 2039/40 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 4.1 |
| 2040/41 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 2.9 |
| 2042/43 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | 0.8 |
| 2043/44 | 1,020 | 0 | 0 | 0 | 1,020 | 0.8 |
| 2044/45 | 1,010 | 0 | 0 | 0 | 1,010 | 0.8 |
| 2045/46 | 11,464 | 0 | 0 | 0 | 11,464 | 9.4 |
| 2050/51 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 1.6 |
| 2052/53 | 28,238 | 0 | 0 | 0 | 28,238 | 23.3 |
| 2054/55 | 3,000 | 0 | 0 | 0 | 3,000 | 2.5 |
| 2055/56 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 2.9 |
| 2056/57 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 4.1 |
| 2057/58 | 8,513 | 0 | 0 | 0 | 8,513 | 7.0 |
| 2059/60 | 1,763 | 0 | 0 | 0 | 1,763 | 1.5 |
| 2066/67 | 6,200 | 0 | 0 | 0 | 6,200 | 5.1 |
| 2068/69 | 15,000 | 0 | 0 | 0 | 15,000 | 12.4 |
| | **121,184** | **236** | **0** | **0** | **121,415** | **100.0** |
| Cyfartaledd bywyd (blynyddoedd)/ Average life (years) | 24.63 | 7.61 | 0.00 | 0.00 | 24.60 | |
| Cyfartaledd graddfa (%)/ Average rate (%) | 5.26 | 9.41 | 0.00 | 0.00 | 5.15 | |

| PROFFIL AD-DALU BENTHYCIADAU ERAILL 2018/19 YMLAEN / OTHER LOANS REPAYMENT PROFILE 2018/19 ONWARDS | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Llywodraeth Cymru / Welsh Government**<br><br>**£'000** | **Benthycaf Salix Loan 1**<br><br>**£'000** | **Benthycaf Salix Loan 2**<br><br>**£'000** | **Benthycaf Salix Loan 3**<br><br>**£'000** | **Benthycaf Salix Loan 4**<br><br>**£'000** | **Cyfanswm / Total**<br><br>**£'000** |
| 2019/20 | 44 | 16 | 46 | 63 | 0 | 169 |
| 2020/21 | 43 | 16 | 46 | 63 | 33 | 201 |
| 2021/22 | 0 | 17 | 46 | 63 | 33 | 159 |
| 2022/23 | 0 | 17 | 46 | 63 | 33 | 159 |
| 2023/24 | 0 | 17 | 45 | 63 | 33 | 158 |
| 2024/25 | 0 | 8 | 45 | 64 | 33 | 150 |
| 2025/26 | 0 | 0 | 45 | 64 | 33 | 142 |
| 2026/27 | 0 | 0 | 0 | 64 | 33 | 97 |
| 2027/28 | 0 | 0 | 0 | 64 | 33 | 97 |
| 2028/29 | 0 | 0 | 0 | 64 | 0 | 64 |

**ATODIAD 6**

**Datganiad Polisi Darpariaeth Refeniw Isafswm 2019/20**

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cyfalaf y Cyngor sydd wedi cronni bob blwyddyn (y GAC) drwy daliad refeniw (y ddarpariaeth refeniw isaf) (DRI), er y caniateir iddo hefyd wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol os yw'n dymuno (darpariaeth refeniw wirfoddol) (DRW).

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo Datganiad GAC ymlaen llaw bob blwyddyn. Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau ar yr amod bod darpariaeth bwylloch. Argymhellir fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad DRI isod:-

Ar gyfer gwariant cyfalaf a ddigwyddodd rhwng 1 Ebril 2008 a 31 Mawrth 2018, a gafodd ei gyllido trwy fenthyca gyda chymorth, polisi DRI fydd i godi tâl DRI ar y dull rhandaliad cyfartal, ar Sail Oes Ased dros 50 mlynedd. Mae'r DRI ar wariant cyfalaf sydd wedi ei gyllido drwy fenthyca di-gefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn wedi cael codi tâl yn defnyddio dull rhandaliad cyfartal, Sail Oes Ased gan ddefnyddio rhagdybiaeth o oes yr ased, yn seiliedig ar wybodaeth oedd ar gael ar yr amser. Mae'r newid yn y polisi yn adlinio y polisiau DRI ar gyfer asedau wedi eu cyllido drwy fenthyca a chefnogaeth ac asedau wedi eu cyllido drwy fenthyciadau di-gefnogaeth.

O'r 1af Ebrill 2018 am yr holl fenthyca gyda cefnogaeth a di-gefnogaeth (gan gynnwys PFI a Lês Cyllid), bydd polisi DRI hefyd yn Ddull Rhandaliad Blwydd-dal Cyfartal, sail oed yr ased. Fodd bynnag, bydd amcangyfrif o gyfnod oes, yn cael ei osod gan y Swyddog Adran 151 yn seiliedig a chyngor a dderbynwyd gan y swyddogion perthnasol a bydd yn ystyried cyfarwyddid Llywodraeth Cymru mewn perthynas a DRI a oes yr ased. Pan fo tir yn cael ei brynnu, bydd oed yr ased yn ddibynnol ar oes yr ased sydd yn cael ei roi ar y tir, yn rhan fwyaf o'r achosion, bydd rhain yn 50 mlynedd yn unol â oed ased adeiladau.

Ni fydd costau DRI yn seiliedig ar oed yr ased yn cael ei godi hyd nes fod blwyddyn yr ased yn dod yn weithredol. Gallai'r Swyddog Adran 151 ohirio cost DRI tan y flwyddyn gyllidol yn dilyn pan mae'r ased yn dod yn weithredol. Bydd amcangyfrif oes yr ased yn cael ei benderfynu yn y flwyddyn bydd y DRI yn dechrau ac ni fydd tâl ar oes yr ased. Bydd amcangyfrif o gyfnod oes yr ased, yn cael ei osod gan y Swyddog Adran 151 yn seiliedig a chyngor a dderbynwyd gan y swyddogion perthnasol a bydd yn talu sylw at Gofynion Statudol a cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â DRI a oes yr ased. Pan fo tir yn cael ei brynnu, bydd oed yr ased yn ddibynnol ar oes yr ased sydd yn cael ei roi ar y tir, yn rhan fwyaf o'r achosion, bydd rhain yn 50 mlynedd yn unol â oed ased adeiladau.

Oherwydd nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor yn rhai y gellir eu cysylltu ag ased unigol, bydd bywydau ased yn cael eu hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol y cyfnodau o fudd y rhagwelir y byddant yn codi o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd yn cael ei rannu ond mewn achosion lle ceir dwy neu fwy o brif elfennau gyda bywydau economaidd defnyddiol sy'n sylweddol wahanol.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol i leihau dyled os yn ddoeth i wneud hynny.

Mae rhan y Cyfrif Refeniw Tai o'r Gofyniad o ran Ariannu Cyfalaf yn gyffredinol yn destun taliad 2% DRI yn seiliedig ar y GAC ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol a hynny'n unol â'r cynllun busnes 30 blynedd a gymeradwywyd.

Bydd unrhyw ad-daliadau eraill sydd wedi eu cynnwys yn y PFI blynyddol neu brydlesau arian yn rhai GAC.

**ATODIAD 7**

**Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig**

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodedig ac amhenodedig.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodedig os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

*"**(a)** the investment is denominated in sterling and any payments or repayments in respect of the investment are payable only in sterling; and*

***(b)** the investment is not a long-term investment (*); and*

***(c)** the making of the investment is not defined as capital expenditure by virtue of regulation 20(1)(d) of the Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) Regulations 2003 [SI 3239 as amended]; and*

***(ch)** the investment is made with a body or in an investment scheme of high credit quality (**); or with one of the following public-sector bodies:*

- ***(i)** the United Kingdom Government*
- ***(ii)** a local authority in England or Wales (as defined in section 23 of the 2003 Act) or a similar body in Scotland or Northern Ireland*
- **(iii)** *a parish or community council."*

Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodedig.

Yn ystod 2019/20 nid yw'r Cyngor yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwledydd tramor, na gyda chyrff credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfranddaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuon gyda banciwr y Cyngor i ddibenion trafodaethol os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 6 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategorïau o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2018/19 ac sydd felly'n sail ar gyfer y rhestr benthyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategorïau o fuddsoddiadau penodedig ac amhenodedig a ddefnyddir ac/neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

**"*** *Section 2.4 of the 'Guidance' defines a long term investment as ''any investment other than (a) one which is due to be repaid within 12 months of the date on which the investment was made or (b) one which the local authority may require to be repaid within that period.''*

****** *For the purposes of high credit quality the 'Guidance' states that ''for the purposes of paragraph 5.1(d), Welsh ministers recommend that the Strategy should define high credit quality (and where this definition refers to credit ratings, paragraph 6.1 (***) is relevant).'*

*** *Paragraph 6.1 of the 'Guidance' recommends that ''the Strategy should set out the authority's approach to assessing the risk of loss of investments, making clear in particular:*

- ***(a)** to what extent, if any, risk assessment is based upon credit ratings issued by one or more credit rating agencies;*
- ***(b)** where credit ratings are used, how frequently credit ratings are monitored and what action is to be taken when ratings change; and*
- ***(c)** what other sources of information on credit risk are used, additional to or instead of credit ratings.''*

*The table in Appendix 6 of this strategy sets out what this Council defines as high credit quality and the associated investment criteria and limits and section 4.2 of this strategy sets out the Council's creditworthiness approach.*

**Meini Prawf Gwrthbartïon**

| Categori | Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's) | Terfyn Arian | Terfyn Amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu sydd wedi eu gwladoli'n rhannol) | **F1+** | **P-1** | **A-1+** | **AAA** | **Aaa** | **AAA** | **£10m** | **5 mlynedd** |
| | **F1+** | **P-1** | **A-1+** | **AA** | **Aa2** | **AA** | **£10m** | **3 mlynedd** |
| | **F1+** | **P-1** | **A-1+** | **AA-** | **Aa3** | **AA-** | **£10m** | **364 diwrnod** |
| | **F1** | **P-1** | **A-1** | **A** | **A2** | **A** | **£7.5m** | **6 mis** |
| Banciau'r Deyrnas Gyfunol sydd wedi eu Gwladoli / wedi eu Gwladoli'n Rhannol | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **£10m** | **364 diwrnod** |
| Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Gyfunol (waeth beth fo'r raddfa credyd) | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **Dim uchafswm** | **Dim uchafswm** |
| Awdurdodau Lleol y Deyrnas Gyfunol ** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **£5m** | **364 diwrnod** |
| Cronfeydd Marchnad Arian | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **AAA** | **AAA** | **AAA** | **£5m** | **6 mis** |

* *fel y diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid a Chyfrifo Cyfalaf) (Cymru) 2003*

** *fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003*

## Nodiadau ac Eglurhad

### (1) Terfyn Arian Parod

**(i)** Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo. (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc), terfyn buddsoddi yn berthnasol i fanciau hynny yn unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);

**(ii)** Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuon dros 364 o ddyddiau yw £15m.

### (2) Terfyn Amser

**(i)** I fyny at, a chan gynnwys y cyfnod a nodwyd.

### (3) Arian Gwledydd Tramor

**(i)** Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau a gyfeirwyd atynt yn adain 4.3 or strategaeth hon) graddfa gredyd sofran (yn seiliedig ar y cyfenwadur lleiaf) a hyd at uchafswm o £10 miliwn fesul gwlad dramor.

**(ii)** Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd pan mae ei raddfa sofran is ddim yn AA- neu'n uwch. Ni fydd unrhyw gyfyngiad gan wlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y Deyrnas Gyfunol waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.

**(iii)** Ni fydd Is-gwmnïau grwpiau bancio tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y sefydliad rhiant. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Bancio Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y Deyrnas Gyfunol oherwydd eu masnach freintiau sylweddol yn y Deyrnas Gyfunol a natur hyd fraich y berthynas rhwng y rhiant a'r is-gwmni.

**(iv)** Ni fydd meini prawf graddfeydd credyd sofran a chyfyngiadau gwledydd tramor yn berthnasol i fuddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog (e.e. Banc Buddsoddi Ewrop a Banc y Byd) na sefydliadau rhyngwladol (e.e. yr Undeb Ewropeaidd).

### 4. Graddfa Credyd yn Gostwng

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bydd yn ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol ar yr adeg gyfleus nesaf.

**ATODIAD 9**

**Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 8 Tachwedd 2018]**

*This list is based on those countries which have sovereign ratings of AA- or higher (we show the lowest rating from Fitch, Moody's and S&P) and also, (except - at the time of writing - for Norway and Luxembourg), have banks operating in sterling markets which have credit ratings of green or above in the Capita Asset Services credit worthiness service.*

**AAA**
- Awstralia
- Canada
- Denmarc
- Yr Almaen
- Lwcsembwrg
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

**AA+**
- Y Ffindir
- U.D.A

**AA**
- Abu Dhabi
- Ffrainc
- Hong Kong
- Y D.U

**AA-**
- Gwlad Belg
- Qatar

**Cynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys**

**(i) Cyngor Sir**

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Buddsoddi Blynyddol a Polisi MRP, Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau Rheoli Trysorlys, arferion a gweithgareddau; ac
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

**(ii) Pwyllgor Gwaith**

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu'r cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar dermau'r apwyntiad;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau Rheoli Trysorlys, arferion a gweithgareddau a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel yn briodol;
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio.

**(iii) Pwyllgor Archwilio**

- Sgriwtini o faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi'r Cyngor a'r Rheoli Trysorlys. Mae'n cynnwys:-
  - sgriwtineiddio Datganiad Strategaeth Blynyddol ar Reoli Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, Polisi Blynyddol MRP, Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel bo'n briodol;
  - sgriwtineiddio cynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, Polisi Blynyddol MRP, Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel bo'n briodol;
  - derbyn a sgriwtineiddio unrhyw gynigion yn ymwneud â Rheoli Trysorlys sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir;
  - derbyn a sgriwtineiddio adroddiadau monitro polisïau Rheoli Trysorlys, arferion a gweithgareddau a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel bo'n briodol.

**Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151**

**Mae rôl y Swyddog (cyfrifol) Adran 151 yn cynnwys:**

- argymell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau polisi rheoli trysorlys rheolaidd;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiaethau cyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth rheoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a'r rhannu effeithiol o gyfrifoldebau o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd archwilio mewnol, a chysylltu ag archwilwyr allanol; ac
- argymell apwyntio darparwyr gwasanaeth allanol.
- Cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthyca, buddsoddi ac ariannu, wedi cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys.

- Paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli trysorlys o fewn llinell amser tymor hir.
- Sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn bwyllog, yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn bwyllog yn y tymor hir ac yn darparu gwerth am arian.
- Sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag awch yr awdurdod o ran risg.
- Sicrhau bod gan yr awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar a chyllido asedau anariannol.
- Sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol.
- Sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir.
- Rhoi i aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol.
- Sicrhau bod aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r awdurdod yn agored iddynt.
- Sicrhau bod gan yr awdurdod yr arbenigedd ddigonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod.
- Creu Arferion Rheoli Trysorlys sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
    - Rheoli risg (TMP1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddiad sylweddol nad ydynt yn ymwneud â thrysorlys;
    - Mesur a rheoli perfformiad (TMP2 a'r atodlenni, gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
    - Gwneud penderfyniadau, llywodraethiant a threfniadaeth (TMP5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad o ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
    - Gwybodaeth adrodd a rheoli (TMP6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
    - Hyfforddiant a chymwysterau (TMP10 ac atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

**DANGOSYDDION PWYLLOG A THRYSORLYS** **ATODIAD 11**
**GOSOD Y GYLLIDEB 2019/20**

| Rhif | Dangosydd | 2017/18 Alldro | 2018/19 Amcangyfrif | 2019/20 Cynnig | 2020/21 Cynnig | 2021/22 Cynnig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Fforddiadwyaeth** | | | | | | |
| **1,2** | Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd refeniw net: | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 6.10% | 4.95% | 5.23% | 5.28% | 5.63% |
| | Cyfrif Refeniw Tai (gan gynnwys y setliad) | 22.36% | 16.86% | 15.57% | 16.08% | 16.16% |
| | Cyfanswm | 7.98% | 6.37% | 6.51% | 6.65% | 7.03% |
| **Pwyll** | | | | | | |
| **3** | Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | *Ydy dyled allanol gros yn llai na'r CFR am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?* | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gwariant Cyfalaf** | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **4,5** | Amcangyfrif o [neu wir] Wariant Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 20,064 | 23,685 | 18,020 | 20,421 | 20,607 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 9,291 | 10,372 | 13,110 | 18,431 | 19,744 |
| | Cyfanswm | 29,355 | 34,057 | 31,130 | 38,852 | 40,351 |
| **6,7** | Amcangyfrif o [neu wir] Gofyniad Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 95,218 | 100,376 | 104,103 | 111,991 | 122,822 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 41,648 | 40,815 | 40,998 | 46,479 | 51,999 |
| | Cyfanswm | 136,866 | 141,191 | 145,101 | 158,469 | 174,821 |
| Dyled Allanol | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **8** | Terfyn Awdurdodedig | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 166,000 | 174,000 | 175,000 | 189,000 | 205,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 |
| | : Cyfanswm | 169,000 | 177,000 | 178,000 | 192,000 | 208,000 |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | Ffin Ymarferol | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 161,000 | 161,000 | 170,000 | 184,000 | 200,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 |
| | : Cyfanswm | 164,000 | 164,000 | 173,000 | 187,000 | 203,000 |
| **10** | Gwir Ddyled Allanol | 117,029 | | | | |
| **Rheoli'r Trysorlys** | | **2017/18 Alldro** | **2018/19 Amcangyfrif** | **2019/20 Cynnig** | **2020/21 Cynnig** | **2021/22 Cynnig** |
| **11** | Fod yr Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **12** | Dyled Gros a Net | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| | *Terfyn uchaf ar y ddyled net fel cyfran o'r ddyled gros* | | | | | |
| **13** | Y terfyn uchaf ar raddfeydd sefydlog : | 149,000 | 157,000 | 158,000 | 172,000 | 188,000 |
| | *(prifswm net neilltuol)* | | | | | |
| **14** | Y terfyn uchaf ar raddfeydd amrywiol: | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| | *(prifswm net neilltuol)* | | | | | |
| **15** | Terfyn cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am gyfnodau dros 364 diwrnod: | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| | *(bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn nherfyn bob blwyddyn)* | | | | | |
| | | | **2019/20 Terfyn uchaf** | | **2019/20 Terfyn isaf** | |
| **16** | Terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu'r benthyca graddfa sefydlog | | | | | |
| | • dan 12 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 12 mis ac o fewn 24 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | | 50% | | 0% | |
| | • 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 75% | | 0% | |
| | • 10 mlynedd a throsodd | | 100% | | 0% | |
| | | | Dim newid | | Dim newid | |

**Gwybodaeth am Ddangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys**

## A) Fforddiadwyaeth

### 1,2. Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyfalaf yn cynnwys ymrwymiadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

## B) Bod yn ddarbodus

### 3. Dyled gros a'r GCC

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2019/20 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Rhoddir hyn peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau ni ymgymerir ag unrhyw fenthyca ar gyfer dibenion refeniw.

## C) Gwariant cyfalaf

### 4,5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenir o 2018/19 i 2021/22 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf 2018/19 a'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2019/20.



### 6,7 Anghenion benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Yr ail ddangosydd darbodus yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi ei dalu amdano ar unwaith, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca, mae'r mathau hyn o gynllun yn cynnwys cyfleuster benthyca ac o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthyca ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor £dim o gynlluniau o'r fath yn y GCC.

## CH) Dyled Allanol

8. **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol**. Mae dangosydd pwyllog allweddol arall yn rheoli uchafswm lefel y benthyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu draw i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o holl gynlluniau'r cyngor neu gynlluniau cyngor penodol er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

   Dywed y Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Cyllid bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n gweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

9. **Y ffin weithredol**. Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol.

**ATODIAD 13**

**Geirfa a gwybodaeth ar Dangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys (Cyfeirio at Atodiad 11)**

**Geirfa**

**GWARIANT CYFALAF**
Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol nad yw'n gyfredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, adnewyddu sylweddol cartref gofal.

**CYLLIDO CYFALAF**
Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF**
Mae cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n ddyledus a heb eu talu'n barod nall a'i o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn hanfodol, dyma fesuriad o fenthyca angenrheidiol y Cyngor.

**RHAGLEN GYFALAF**
Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

**DERBYNIADAU CYFALAF**
Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

**CIPFA**
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

**LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**
Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifiedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhywymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

**ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

**DYLED NET**
Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**
Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca ei hun.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**
Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GRANT CYNNAL REFENIW**
Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**BENTHYCA GYDA CHEFNOGAETH**
Mae'r Cyngor yn benthyca arian i ariannu rhan o'i raglen cyfalaf. Fe adnabyddir y benthycaid gan Lywodraeth Ganolog yn ei glandriad ariannu ar gyfer y Cyngor.

**BENTHYCA DROS DRO**
Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BENTHYCA DI-GEFNOGAETH**
Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca â chefnogaeth y Llywodraeth i ariannu ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer yma gan Gôd Pwyllog CIPFA, a mae'r Cyngor yn lwyr gydymffurfio â hwn.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 CHWEFROR 2019** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB CYFALAF 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>**EST. 2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20, a gyflwynir i'r Cyngor llawn i'w chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019.

## 2. ARGYMHELLION

- Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2019/20 i'r Cyngor llawn:-

| | **£'m** | **£m** |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ymrwymedig a Ddygwyd Ymlaen o 2018/19 | 6.429 | |
| Buddsoddi mewn Asedau presennol | 2.539 | |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 1.359 | |
| Cynlluniau Newydd am 2019/20 | 2.146 | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | <u>4.809</u> | |
| Cyfanswm Cynlluniau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol | | **17.282** |
| Cynlluniau Cyfalaf CRT | | <u>13.110</u> |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2019/20** | | **<u>30.392</u>** |
| **Cyllidir drwy :** | | |
| Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2018/19 | | 1.099 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.026 | |
| Benthyca â Chefnogaeth - Ysgolion 21ain Ganrif | 1.640 | |
| Benthyca Di-gefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif | 0.402 | |
| Benthyca Di-gefnogaeth - CRT | 1.000 | |
| **Cyfanswm Benthyca Newydd** | | **5.068** |
| Grant Cyffredinol Cyfalaf | 1.327 | |
| Grantiau Allannol | 11.671 | |
| Grant Atgyweirio Priffyrdd | <u>0.580</u> | |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | | **13.578** |
| Cyllid wedi ei ailddyrannu o brosiectau eraill a ohiriwyd | | 1.197 |
| Arian wrth gefn CRT | | <u>9.450</u> |
| **CYFANSWM CYLLID** | | **<u>30.392</u>** |

- Cytuno i ddefnyddio'r balans o grant cyfalaf cyffredinol o £893k fel rhan o gyllid y rhaglen gyfalaf am 2020/21 (Atodiad 1 – paragraff 2.4 - 2.6).

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Bydd nifer o gynlluniau ychwanegol yn cael eu hystyried yn y rhaglen gyfalaf gyda'r prif ffactor o gyllid yn fforddiadwyedd a gwneud y mwyaf o gyllid grant allanol. Nid yw'r rhaglen gyfalaf arfaethedig a'r cynlluniau Cyfalaf ychwanegol, os cânt eu cefnogi, yn ymrwymo'r Cyngor i lefel o fenthyca sy'n cynyddu'r ddarpariaeth isafswm refeniw neu daliadau llog i lefel na ellir ei fforddio.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith gynnig y gyllideb cyfalaf.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

d/b

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hon |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Sylwada wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2019/20
Atodiad 2 – Cyllideb Gyfalaf Arfaethedig 2019/20

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad Strategaeth Gyfalaf – Pwyllgor Gwaith 30 Hydref 2017
Cyllideb Gyfalaf 2018/19 – Cyngor llawn 28 Chwefror 2018
Cyllideb Cyfalaf 2019/20 – Pwyllgor Gwaith 12 Tachwedd 2018

## 1. CYFLWYNIAD

Yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2018 cytunodd y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20, gellir ei weld yn Nhabl 1 o'r adroddiad hwn.

**Tabl 1**
**Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig**

| | £'m | |
|---|---|---|
| Cynlluniau ymrwymedig wedi'u dwyn ymlaen o 2018/19 | 13.429 | |
| Buddsoddi mewn Asedau Presennol | 2.539 | |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 1.359 | |
| Cynlluniau Newydd am 2019/20 | 2.146 | |
| Ysgolion 21ain Ganrif | 7.563 | |
| **Cyfanswm Cronfa Gyffredinol Cynlluniau Cyfalaf** | | **27.036** |
| Cynlluniau Cyfalaf CRT | | 13.110 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2019/20** | | **40.146** |
| **Cyllidir drwy:** | | |
| Cyllid a ddygir ymlaen o 2018/19 | | 1.099 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.026 | |
| Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion 21ain Ganrif | 1.943 | |
| Benthyca Di-gefnogaeth – Ysgolion 21ain Ganrif | 1.847 | |
| Benthyca Di-gefnogaeth CRT | 1.000 | |
| Cyfanswm Benthyca Newydd | | 6.816 |
| Grant Cyffredinol Cyfalaf | 1.327 | |
| Grantiau Allannol | 19.677 | |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 0.580 | |
| Cyfanswm Cyllid Grant | | 21.584 |
| Cyllid wedi'i ailddyrannu o brosiectau eraill a ohiriwyd | | 1.197 |
| Arian wrth gefn CRT | | 9.450 |
| **Cyfanswm Cyllid** | | **40.146** |

## 2. GWYBODAETH YCHWANEGOL I GYSIDRO

**2.1** Ni dderbyniwyd unrhyw sylw yn ystod yr ymgynghoriad, ynglyn a'r rhaglen gyfalaf ddrafft.

**2.2** Bydd y cyhoeddiad diweddar am atal prosiect Wylfa newydd yn arwain at oedi yn y prosiect i wella'r A5025 o'r Fali i'r Wylfa. Gan nad yw'n glir pryd y bydd y prosiect yn ail-gychwyn, mae'r gwariant ar y prosiect gwella ffyrdd wedi'i ddileu o'r cynnig terfynol. Roedd y prosiect i gael ei ariannu'n llawn gan grantiau allanol a gwnaed yr addasiad angenrheidiol i'r cyllid hefyd.

**2.3** Adolygir rhaglen ysgolion y 21ain ganrif yn rheolaidd a chytunir ar unrhyw ddiweddariadau gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd ar ymestyn Ysgol y Graig wedi'i ohirio ac mae'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2019/20 wedi'i ddiwygio i lawr am £3.120m (rhaglen ddrafft Tachwedd 18) i £0.666m. Yn ogystal mae gwariant ar ad-drefnu ysgolion yn ardal Amlwch wedi'i ddiwygio i lawr o £0.400m i £ 0.100m. Felly, mae'r rhaglen gyfalaf gyffredinol ar gyfer ysgolion 21ain ganrif ar gyfer 2019/20 wedi'i diwygio i £ 4.809m gyda'r cyllid wedi'i addasu yn unol â hynny.

**2.4** Roedd y setliad dros dro yn cynnwys grant cyfalaf cyffredinol o £ 1.327m. Fodd bynnag, roedd y setliad terfynol yn cynnwys £ 0.738m ychwanegol, gan gymryd y grant diwygiedig i £ 2.065m.

**2.5** Gellid delio â'r grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol mewn 3 ffordd:-

- Gwahodd cynigion pellach gan wasanaethau ar gyfer cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau newydd. Byddai'r rhain yn cael eu hasesu yn y ffordd arferol, gydag unrhyw gynlluniau a gymeradwywyd yn cael eu hychwanegu at y rhaglen gyfalaf 2019/20.
- Cynyddu'r symiau a ddyrennir i'r prosiectau, sy'n cynnal asedau presennol – adeiladau, cerbydau, seilwaith TG.
- Peidio â dyrannu'r grant yn 2019/20 ond ei ddefnyddio fel rhan o'r cyllid ar gyfer y rhaglen gyfalaf 2020/21.

**2.6** O gofio bod y cyllid yn 2020/21 yn debygol o fod yn gyfyngedig a'r ffaith y bydd incwm o dderbyniadau cyfalaf yn ddibwys (ac eithrio gwerthu safleoedd ysgol lle y dyrannwyd y derbyniad cyfalaf eisoes), byddai'n ddoeth ac yn ffordd well o ddefnyddio'r cyllid i ddefnyddio'r cyllid fel rhan o'r rhaglen gyfalaf 2020/21. Gellir defnyddio'r grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol fel rhan o'r cyllid ar gyfer y rhaglen gyfan, yn hytrach na'i ddefnyddio yn 2019/20 ar brosiectau, nad yw efallai'n cyd-fynd â'r strategaeth gyfalaf gyffredinol.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y gyllideb gyfalaf ganlynnol i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, fel y danghosir yn Nhabl 2 isod. (Mae dadansoddiad manylach ynghlwm fel Atodiad 2).

**Tabl 2**
**Cynlluniau Newydd ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf**

| | £'m | |
|---|---|---|
| Committed Schemes Brought Forward from 2018/19 | 6.429 | |
| Investing in Existing Assets | 2.539 | |
| Highway Resurfacing | 1.359 | |
| New Schemes for 2019/20 | 2.146 | |
| 21st Century Schools | 4.809 | |
| **Total General Fund Capital Schemes** | | **17.282** |
| HRA Capital Schemes | | 13.110 |
| **Total Draft Capital Programme 2019/20** | | **30.392** |
| **Funded By:** | | |
| Funding B/F from 2018/19 | | 1.099 |
| Supported Borrowing | 2.026 | |
| Supported Borrowing – 21st Century Schools | 1.640 | |
| Unsupported Borrowing – 21st Century Schools | 0.402 | |
| HRA Unsupported Borrowing | 1.000 | |
| Total New Borrowing | | 5.068 |
| General Capital Grant | 1.327 | |
| External Grants | 11.671 | |
| Highways Refurbishment Grant | 0.580 | |
| Total Grant Funding | | 13.578 |
| Funding Reallocated from other postponed projects | | 1.197 |
| HRA Reserves | | 9.450 |
| **Total Funding** | | **30.392** |

**3.2** Nad yw balans y grant cyfalaf cyffredinol sydd heb ei neilltuo yn cael ei ddefnyddio yn 2019/20 ond yn cael ei gadw tan 2020/21 a'i ddefnyddio fel rhan o'r cyllid ar gyfer y prosiect hwnnw.

**ATODIAD 2**

## RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG 2019/20

| Cynllun | Categori | Cyllideb 2019/20 £'000 | Cyllidwyd gan | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol £'000 | Cyllid D/Y o 2018/19 £ | Grant Cyffredinol Cyfalaf £ | Benthyca â Chefnogaeth £ | Grant Adnewyddu Priffyrdd £ | Cyllid a Ail-ddyrannwyd £ | Benthyca Di-gefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif £ | Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif £ | Benthyca Di-gefnogaeth CRT £ | CRT Refeniw / Arian Wrth Gefn £ |
| Porth Ymwelwyr Ynys Cybi | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 1,000 | 950 | 50 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Isadeiledd Strategol Caergybi a Llangefni | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 3,400 | 3,330 | 70 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 900 | 765 | 100 | - | 35 | - | - | - | - | - | - |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 779 | - | 779 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Neuadd y Farchnad Caergybi | Cynlluniau Ymrwymedig D/Y | 350 | 250 | 100 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU YMRWYMEDIG D/Y** | | **16,429** | **5,295** | **1,099** | **-** | **35** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| Cynllun | Categori | Cyllideb 2019/20 £'000 | Cyllidwyd gan | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Grantiau Allanol £'000** | **Cyllid D/Y o 2018/19 £** | **Grant Cyffredinol Cyfalaf £** | **Benthyca â Chefnogaeth £** | **Grant Adnewyddu Priffyrdd £** | **Cyllid a Ail-ddyrannwyd £** | **Benthyca Di-gefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif £** | **Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif £** | **Benthyca Di-gefnogaeth CRT £** | **CRT Refeniw / Arian Wrth Gefn £** |
| Cyfnewid Cerbydau | Buddsoddi mewn asedau presennol | 150 | - | - | 150 | - | - | - | - | - | - | - |
| Isadeiledd TG | Buddsoddi mewn asedau presennol | 439 | - | - | 427 | 12 | - | - | - | - | - | - |
| Adnewyddu Ysgolion | Buddsoddi mewn asedau presennol | 500 | - | - | - | 500 | - | - | - | - | - | - |
| Adnewyddu heb fod yn ysgolion | Buddsoddi mewn asedau presennol | 400 | - | - | - | 400 | - | - | - | - | - | - |
| Mynediad i'r Anab l-Adeiladau Addysg | Buddsoddi mewn asedau presennol | 300 | - | - | - | 300 | - | - | - | - | - | - |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Buddsoddi mewn asedau presennol | 750 | - | - | 750 | - | - | - | - | - | - | - |
| **CYFANSWM BUDDSODDI MEWN ASEDAU PRESENNOL** | | **2,539** | **-** | **-** | **1,327** | **1,212** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| Cynllun | Categori | Cyllideb 2019/20 £'000 | Cyllidwyd gan | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol<br>£'000 | Cyllid D/Y o 2018/19<br>£ | Grant Cyffredinol Cyfalaf<br>£ | Benthyca â Chefnogaeth<br>£ | Grant Adnewyddu Priffyrdd<br>£ | Cyllid a Ail-ddyrannwyd<br>£ | Benthyca Di-gefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif<br>£ | Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif<br>£ | Benthyca Di-gefnogaeth CRT<br>£ | CRT Refeniw / Arian Wrth Gefn<br>£ |
| Adnewyddu Priffyrdd | Adnewyddu Priffyrdd | 1,359 | - | - | - | 779 | 580 | - | - | - | - | - |
| **CYFANSWM AIL-WYNEBU PRIFFYRDD** | | **1,359** | **-** | **-** | **-** | **779** | **580** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Ysgol Santes Dwynwen | Ysgolion 21ain Ganrif | 85 | - | - | - | - | - | - | 85 | - | - | - |
| Ysgol Rhyd y Llan | Ysgolion 21ain Ganrif | 37 | - | - | - | - | - | - | 37 | - | - | - |
| Estyniad Ysgol y Graig | Ysgolion 21ain Ganrif | 666 | 313 | - | - | - | - | - | 40 | 313 | - | - |
| Ysgol Bro Llangefni | Ysgolion 21ain Ganrif | 3,521 | 2,324 | - | - | - | - | - | - | 1,197 | - | - |
| Ysgol Biwmaris, Llandegfan a Llangoed | Ysgolion 21ain Ganrif | 400 | 130 | - | - | - | - | - | 140 | 130 | - | - |
| Ysgol Syr Thomas Jones Ac Ysgolion Cynradd Cyfagos | Ysgolion 21ain Ganrif | 100 | - | - | - | - | - | - | 100 | - | - | - |
| **CYFANSWM YSGOLION 21 GANRIF** | | **4,809** | **2,767** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **402** | **1,640** | **-** | **-** |
| Adeiladu Tai Cyngor Newydd | CRT | 6,891 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 6,891 |

| Cynllun | Categori | Cyllideb 2019/20 £'000 | Cyllidwyd gan | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol £'000 | Cyllid D/Y o 2018/19 £ | Grant Cyffredinol Cyfalaf £ | Benthyca â Chefnogaeth £ | Grant Adnewyddu Priffyrdd £ | Cyllid a Ail-ddyrannwyd £ | Benthyca Di-gefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif £ | Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif £ | Benthyca Di-gefnogaeth CRT £ | CRT Refeniw / Arian Wrth Gefn £ |
| Gwaith Adnewyddu a Gynlluniwyd a Gwelliannau SATC | CRT | 4,496 | 2,660 | - | - | - | - | - | - | - | 1,000 | 836 |
| Datblygiadau Newydd/ad-brynu hen eiddo hawl i brynu | CRT | 1,723 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1,723 |
| **CYFANSWM CRT** | | **13,110** | **2,660** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **1,000** | **9,450** |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos yn y Meysydd Parcio | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,030 | - | - | - | - | - | 0,030 | - | - | - | - |
| Adnewyddu Plas Mona | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,035 | - | - | - | - | - | 0,035 | - | - | - | - |
| Adnewyddu Plas Crigyll | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,085 | - | - | - | - | - | 0,085 | - | - | - | - |
| Uwchraddio Offer Stafelloedd Cyfarfod | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,025 | - | - | - | - | - | 0,025 | - | - | - | - |
| Diogelwch Ysgolion | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,200 | - | - | - | - | - | 0,200 | - | - | - | - |

| Cynllun | Categori | Cyllideb 2019/20 £'000 | Cyllidwyd gan | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol £'000 | Cyllid D/Y o 2018/19 £ | Grant Cyffredinol Cyfalaf £ | Benthyca â Chefnogaeth £ | Grant Adnewyddu Priffyrdd £ | Cyllid a Ail-ddyrannwyd £ | Benthyca Di-gefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif £ | Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif £ | Benthyca Di-gefnogaeth CRT £ | CRT Refeniw / Arian Wrth Gefn £ |
| Cyllid os bydd cynnig yn hwyr gan LlC ynglŷn â Gwaith Traenio | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,200 | 0,170 | - | - | - | - | 0,030 | - | - | - | - |
| Ynys Môn Cysylltiedig (AC) I'r cyfnod pontio PSBA | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,060 | - | - | - | - | - | 0,060 | - | - | - | - |
| Astudiaethau Traenio a Gwaith Dylunio | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,166 | 0,141 | - | - | - | - | 0,025 | - | - | - | - |
| Amddiffynfa rhag llifogydd Traeth Coch | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,850 | 0,638 | - | - | - | - | 0,212 | - | - | - | - |
| Datblygu Economaidd – Ceisio Cyllid Cyfatebol | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,095 | - | - | - | - | - | 0,095 | - | - | - | - |
| Buddsoddi i Arbed – Effeithlonrwydd Ynni - Adeiladau Corfforaethol | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,250 | - | - | - | - | - | 0,250 | - | - | - | - |
| Buddsoddi i Arbed – Prynu cerbydau newydd | Prosiectau Cyfalaf Newydd | 0,150 | - | - | - | - | - | 0,150 | - | - | - | - |
| **TOTAL NEW CAPITAL PROJECTS** | | **2,146** | **0.949** | **-** | **-** | **-** | **-** | **1,197** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| Cynllun | Categori | Cyllideb 2019/20 £'000 | Cyllidwyd gan | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Grantiau Allanol £'000 | Cyllid D/Y o 2018/19 £ | Grant Cyffredinol Cyfalaf £ | Benthyca â Chefnogaeth £ | Grant Adnewyddu Priffyrdd £ | Cyllid a Ail-ddyrannwyd £ | Benthyca Di-gefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif £ | Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif £ | Benthyca Di-gefnogaeth CRT £ | CRT Refeniw / Arian Wrth Gefn £ |
| | | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN CYFALAF 2019/20** | | **30,392** | **11,671** | **1,099** | **1,327** | **2,026** | **580** | **1,197** | **402** | **1,640** | **1,000** | **9,450** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18 Chwefror 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2019;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

<table>
<tr><th colspan="2">E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</th><th>Beth oedd eu sylwadau?</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)<br>(mandadol)</td><td rowspan="6">Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru.</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Cyllid / Adran 151<br>(mandadol)</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>(mandadol)</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Adnoddau Dynol (AD)</td></tr>
<tr><td>6</td><td>Eiddo</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)</td></tr>
<tr><td>8</td><td>Sgriwtini</td><td>Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.</td></tr>
<tr><td>9</td><td>Aelodau Lleol</td><td>Amherthnasol.</td></tr>
<tr><td>10</td><td>Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill</td><td>Amherthnasol.</td></tr>
</table>

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mawrth - Hydref 2019. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2019

Diweddarwyd 7 Chwefror 2019

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Mawrth - Hydref 2019** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2019

Diweddarwyd 7 Chwefror 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mawrth 2019** | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2017/18**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2019 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 3 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 4 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>27 Chwefror 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

Tudalen 249

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2019

Diweddarwyd 7 Chwefror 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Polisi Taliadau Tai Dewisol** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 6 | **Ymddiriedolaeth Addysg Bellach – Adroddiad Blynyddol** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 7 | **Prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol (LFFN)**<br><br>Dirprwyo i Gyngor arall yr awdurdod i gweithredu'r Prosiect. | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Busnes y Cyngor | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Carwyn Jones<br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019<br>- yn amodol ar gael adroddiad rhanbarthol cytunedig. | |
| 8 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2019

Diweddarwyd 7 Chwefror 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 10 | **Moderneiddio Ysgolion – Adroddiad ar wrthwynebiadau i adnewyddu ac ehangu Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 11 | **Moderneiddio ysgolion – Adroddiad ar wrthwynebiadau i ehangu Ysgol y Graig a chau Ysgol Talwrn** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 12 | **Polisi Cludiant Ysgolion**<br><br>Cymeradwyo polisi newydd. | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | Panel Sgriwtini Cyllid<br>22 Chwefror 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2019

Diweddarwyd 7 Chwefror 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ebrill 2019** | | | | | | |
| 13 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ebrill 2019 | |
| 14 | **Adroddiad ar yr ymgynghori statudol ar ostwng Oed Mynediad yn Ysgol Henblas**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ebrill 2019 | |
| | **Mai 2019** | | | | | | |
| 15 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mai 2019 | |
| | **Mehefin 2019** | | | | | | |
| 16 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2018/19**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2019 | |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

Tudalen 252

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mawrth – Hydref 2019

Diweddarwyd 7 Chwefror 2019

Tudalen 253

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 17 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 18 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Mehefin 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 19 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| | | | | **Gorffennaf 2019** | | | |
| 20 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2019

Diweddarwyd 7 Chwefror 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cydsyniad i'r broses ymgysylltu. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w bennu | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 22 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w bennu | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| | | | | **Medi 2019** | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 24 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2019

Diweddarwyd 7 Chwefror 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| | | | | **Hydref 2019** | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |



** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith / Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **18.02.2018 / 27.02.2018** |
| **Pwnc:** | **Diwygiad arfaethedig i baragraff 4.5.4 y Cyfansoddiad mewn perthynas â chynrychiolwyr addysg ar Bwyllgorau Sgriwtini** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball – Pennaeth Gwasanaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Mared Wyn Yaxley – Cyfreithiwr<br>01248 752566<br>mwycs@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn fater sy'n berthnasol i ward penodol** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| 1. Bod y Cyngor Sir:<br><br>1.1 Yn cytuno i dynnu'r gofyniad i gael "un Cynrychiolydd i gredoau neu enwadau eraill" ar Bwyllgor Sgriwtini pan fydd yn delio â materion Addysg (h.y. pan mae'n cyfarfod fel Pwyllgor Sgriwtini Awdurdod Addysg Lleol) fel sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd ym mharagraff 4.5.4.4. o'r Cyfansoddiad (fel a ddangosir yn **ATODIAD 1**), fel bod paragraff 4.5.4 yn darllen fel yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 2**.<br><br>1.2 Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth y Cyngor (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y gofyniad a nodir yn 1.1 uchod wedi'i ddiddymu. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae Adran 4.5 o'r Cyfansoddiad yn cynnwys y Rheolau Gweithdrefnau Sgriwtini.<br><br>Mae paragraff 4.5.4 o Gyfansoddiad y Cyngor yn delio â'r gofyniad deddfwriaethol i gael cynrychiolydd addysg â hawliau pleidleisio ar Bwyllgorau Sgriwtini wrth ddelio â materion addysg. Mae geiriad presennol 4.5.4 wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.<br><br>Mae gofyniad deddfwriaethol i benodi cynrychiolwyr sy'n Riant Lywodraethwyr a chynrychiolwyr Eglwysig i oruchwylio Pwyllgorau Sgriwtini sy'n delio'n gyfan gwbl neu'n rhannol â materion addysg. Mae'r Deddfau a'r Rheoliadau perthnasol wedi eu nodi yn adran FF o'r adroddiad hwn. |

CC-14562-LB/193934

Yn ychwanegol at y gofynion statudol uchod, penderfynodd y Cyngor Sir hwn gynnwys darpariaeth bellach, drwy ddewis lleol, i gael "un Cynrychiolydd i gredoau neu enwadau eraill" (4.5.4.4 o'r Cyfansoddiad). Ceir ar ddeall mai dim ond un awdurdod lleol arall benderfynodd gynnwys y gofyniad hwn. Y cynnig rŵan yw i wneud i ffwrdd â'r gofyniad hwn drwy ddileu 4.5.4.4 o'r Cyfansoddiad fel bod paragraff 4.5.4 yn darllen yn unol â'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2.**

Mae diddymu 4.5.4.4 yn foddhaol o ran y gofyniad cyfreithiol. Nid yw absenoldeb cynrychiolydd pellach o enwad crefyddol ar y Pwyllgorau Sgriwtini yn niweidio eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol a chyfansoddiadol.

Mae yna Ysgolion Catholig ac Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ar Ynys Môn ac mae yna gynrychiolwyr o'r enwadau hyn ar y Pwyllgorau Sgriwtini (4.5.4.2 a 4.5.4.1 fel ei gilydd). Fodd bynnag, does dim ysgolion o enwadau crefyddol eraill yn y Sir. Does dim ysgolion sy'n dod o dan y categori "credoau neu enwadau eraill" ar Ynys Môn. Byddai felly yn anodd gweld pwy fyddai'n cael eu cynnwys o fewn y diffiniad o "gredoau neu enwadau eraill".

Yn ychwanegol at hyn, o ganlyniad i ychydig iawn o lwyddiant wrth recriwtio i swyddi gwag eraill ar gyfer aelodau cyfetholedig i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini, rhagwelir y byddai yna anawsterau tebyg i recriwtio rhywun o "gredoau neu enwadau eraill".

Mae'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor Sir yn cynnwys:

(a) <u>Parhau gyda'r un sefyllfa h.y. gadael 4.5.4.4. fel ag y mae</u>

Y status quo yw cynnwys y gofyniad yn y Cyfansoddiad ond nid oes cynrychiolydd wedi bod yn eistedd ar gyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini ac felly nid oes budd i'w weld mewn cael gofyniad Cyfansoddiadol nad yw'n cael ei gadw ato.

Os yw'r cymal yn mynd i barhau yn y Cyfansoddiad, byddai angen cynnal proses ddethol er mwyn gallu bodloni'r gofyniad. Gallai brofi'n heriol gweld pwy sy'n gymwys i gael eu cynnwys yn y gronfa o bobl. O brofiad mewn perthynas â phrosesau recriwtio eraill, gallai brofi'n anodd penodi unigolyn.

(b) <u>Tynnu 4.5.4.4 o'r Cyfansoddiad</u>

Does dim gofyniad deddfwriaethol gan fod ei gynnwys yn ddewis lleol beth bynnag. Byddai dileu'r gofyniad hwn yn sicrhau bod y Cyfansoddiad yn adlewyrchu'r arfer. Byddai arbediad o ran cost gan na fyddai angen cynnal proses recriwtio. Mae gan aelodau cyfetholedig hefyd hawl i dderbyn lwfansau ar gyfer y cyfarfodydd y byddant yn eu mynychu.

Yr argymhelliad yw y dylid mabwysiadu opsiwn (b) fel bod y Cyfansoddiad yn darllen fel **Atodiad 2.**

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gan fod yr adroddiad yn argymell diwygio'r Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini, sy'n rhan o'r Cyfansoddiad, rhaid i'r adroddiad hwn gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud gan y Cyngor. |

| CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi, lle bo’n berthnasol |

| D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Does dim goblygiadau cyllidebol |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Adborth â dderbyniwyd yn gefnogol |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cefnogol |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Sylwadau wedi eu cynnwys fel rhan o’r adroddiad |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Ddim yn fater sy’n berthnasol i ward penodol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| **Atodiad 1:** Paragraff 4.5.4 fel y mae’n ymddangos yn y Cyfansoddiad ar hyn o bryd.<br><br>**Atodiad 2:** Paragraff 4.5.4 newydd arfaethedig yn y Cyfansoddiad |

CC-14562-LB/193934

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| --- |
| • Deddf Llywodraeth Leol 2000<br>• Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001 |

CC-14562-LB/193934

**ATODIAD 1**

**4.5.4 Cynrychiolwyr Addysg**
Bydd pob Pwyllgor Sgriwtini perthnasol sy'n ymdrin â materion addysg yn cynnwys yn ei aelodaeth y cynrychiolwyr pleidleisio canlynol:

4.5.4.1 Un Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru;
4.5.4.2 Un Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig;
4.5.4.3 Dau Gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr; a
4.5.4.4 Un Cynrychiolydd i gredoau neu enwadau eraill.

Ystyr Pwyllgor Sgriwtini perthnasol yn y paragraff hwn yw Pwyllgor Sgriwtini Awdurdod Addysg Lleol, pan fo swyddogaethau'r Pwyllgor yn ymwneud yn gyfan gwbl neu yn rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb Pwyllgor Gwaith yr awdurdod. Pan fo'r Pwyllgor Sgriwtini yn ymdrin â materion eraill, ni fydd y cynrychiolwyr hyn yn pleidleisio ar y materion eraill hynny ac ni allant fynychu ond fel Aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor i drafod y materion eraill hynny os gwahoddir hwy i wneud hynny.

**ATODIAD 2**

**4.5.4 Cynrychiolwyr Addysg**
Bydd pob Pwyllgor Sgriwtini perthnasol sy'n ymdrin â materion addysg yn cynnwys yn ei aelodaeth y cynrychiolwyr pleidleisio canlynol:

4.5.4.1 Un Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru;
4.5.4.2 Un Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig;
4.5.4.3 Dau Gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr.

Ystyr Pwyllgor Sgriwtini perthnasol yn y paragraff hwn yw Pwyllgor Sgriwtini Awdurdod Addysg Lleol, pan fo swyddogaethau'r Pwyllgor yn ymwneud yn gyfan gwbl neu yn rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb Pwyllgor Gwaith yr awdurdod. Pan fo'r Pwyllgor Sgriwtini yn ymdrin â materion eraill, ni fydd y cynrychiolwyr hyn yn pleidleisio ar y materion eraill hynny ac ni allant fynychu ond fel Aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor i drafod y materion eraill hynny os gwahoddir hwy i wneud hynny.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18fed Chwefror 2019** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Cynnydd a Chynllun Gweithredu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Mr Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Anwen Le Cras, Swyddog Datblygu Gofal Plant**<br>**01248 352436**<br>**anwenlecras@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Holl Aelodau Etholedig** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r Ddeddf Gofal Plant 2006 yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn:

- Sicrhau, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, fod digon o ofal plant i ddiwallu anghenion lleol rhieni (i rieni sy'n gweithio neu sy'n mynychu addysg neu hyfforddiant) i'w cynorthwyo i gael gwaith;
- Cynnal Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant; a
- rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, darpar rieni a'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal am blentyn, yn ymwneud â gofal plant.

Cynhaliwyd yr asesiad llawn cyntaf a'i gyhoeddi yn 2017.
Dyma'r ail ddiweddariad a'r adroddiad cynnydd ynghyd â chynllun gweithredu diwygiedig.

**Bylchau yn y ddarpariaeth a nodwyd yn 2017**

1. Diffyg gwarchodwyr plant yn ardaloedd gwledig Bro Aberffraw a Bro Rhosyr ac yn ardal Talybolion.
2. Diffyg gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg ar draws y sir.
3. Clybiau brecwast i blant 3 oed mewn lleoliadau addysg rhan amser.
4. Opsiynau prisio hyblyg i rieni sy'n gweithio'n rhan amser yn ystod oriau ysgol.
5. Mae nifer o glybiau ar ôl ysgol ar hyn o bryd heb eu cofrestru. Nid yw rhieni sy'n defnyddio'r lleoliadau hyn yn gallu cael mynediad at gymorth ariannol gyda'u costau gofal plant.
6. Dim Darpariaeth Cofrestredig Ar ôl Ysgol nac yn ystod gwyliau yn Llangefni sydd â phoblogaeth ysgol gynradd o 547 o ddisgyblion.
7. Diffyg darpariaeth reolaidd a dibynadwy y tu allan i oriau ysgol i ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd.

| |
|---|
| **Cynnydd a wnaed 2018**<br><br>1. Mae ardal Bro Aberffraw yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i wasanaethau gofal plant yn yr ysgol newydd, Ysgol Santes Dwynwen a drefnwyd i'w agor yng Ngwanwyn 2019.<br>2. Cofrestrwyd pedwar gwarchodwr plant Cymraeg eu hiaith yn 2018<br>Grant ar gael i warchodwyr plant newydd i brynu adnoddau iaith Gymraeg.<br>3. Gofal plant amlap wedi ehangu mewn rhai ardaloedd. Mae angen gwaith ymchwil pellach wrth i'r cynnig gofal plant 30 awr ehangu.<br>4. Crëwyd gweithgor i gynhyrchu canllawiau i lywodraethwyr a phenaethiaid ysgolion ar redeg gwasanaethau gofal plant ar safleoedd ysgol.<br>5. Ni adroddwyd unrhyw alw am y math hwn o ddarpariaeth. Gwaith mapio gweithgareddau anffurfiol ar ôl ysgol i'w wneud yn 2019 gan Teulu Môn i sicrhau bod gan rieni fynediad i wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael.<br><br>Mae'r cynllun gweithredu diwygiedig yn ystyried bod y galw am wasanaethau gofal plant a'r farchnad gofal plant yn esblygu. Mae'r cynnig gofal plant 30 awr wedi cael effaith ar y galw yn bennaf yn y gwasanaethau Meithrinfeydd Dydd ac Amlap. Ychydig iawn o Warchodwyr Plant sydd wedi adrodd am newid i'r galw.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn yr adroddiad cynnydd a chytuno ar y camau gweithredu yn y cynllun gweithredu diwygiedig. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| I sicrhau fod Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio gyda dyletswydd statudol yn deillio o Orchymyn 22 a 26 Y Deddf Gofal Plant 2006. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Nid yw hyn groes i bolisi'r Cyngor. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Dim ystyriaethau cyllideb ychwanegol |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Adroddiad Cynnydd Digonolrwydd Gofal Plant 2019 |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017 – Adroddiad<br>Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017 – Cynllun Gweithredu 2017 - 20122 |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 – 2022

# Adroddiad Diweddaru a Chynnydd

# Ionawr 2019

DRAFT

**Anwen Le Cras 16.01.19**

**1.Cyflwyniad**

Yn dilyn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn 2015 a'r Canllawiau Statudol Gofal Plant diwygiedig a arweiniodd o hynny yng Ngorffennaf 2016, mae'n ofynnol i gynnal Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant bob 5 mlynedd. Cyhoeddir adroddiadau blynyddol sy'n manylu ynghylch y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir a nodwyd yn y cynllun gweithredu. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu'n agos ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (Teulu Môn) i sicrhau bod gennym ddarlun cywir a chyfredol o'r cyflenwad a'r galw am ofal plant, a fydd yn caniatáu adolygu a diweddaru'r cynllun gweithredu pan fo angen.

Yr adroddiad hwn yw'r ail adolygiad yr ymgymerwyd ag ef ers cyhoeddi'r asesiad llawn a'r cynllun gweithredu yn Ebrill 2017.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad yn 2016 i gyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru fydd yn cynnig 30 awr o ofal plant wedi'i gyllido gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio, ynghyd ag addysg gynnar i rai 3 a 4 oed hyd at 48 wythnos y flwyddyn. O Fedi 2017, cafodd y cynllun ei dreialu mewn 6 ardal ar draws Cymru. Mae Ynys Môn a Gwynedd yn cydweithio fel gweithredwyr cynnar y cynnig. Disgwylir i'r cynnig fod ar gael ledled Cymru gyfan erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

Bydd y farchnad ofal plant, yn enwedig y ddarpariaeth ar gyfer rhai 3 – 4 oed, ynghyd â dewisiadau teuluoedd o ran gofal plant, yn cael eu harchwilio'n fanwl dros y flwyddyn nesaf fel y mae'r cynnig 30 awr o ofal plant yn cael ei ehangu.

Tra bo poblogaeth Ynys Môn yn parhau i fod yn sefydlog, mae'r boblogaeth yn heneiddio a'r nifer o enedigaethau byw yn lleihau. Cafwyd nifer anarferol o uchel o enedigaethau byw, 935, yn 2012, ond cafwyd gostyngiad cyson yn y niferoedd flwyddyn ar ôl blwyddyn, hyd nes y cafwyd cynnydd bach arall yn 2016 (716).

Yn 2017, cafwyd 659 o enedigaethau byw ym Môn.

Bu nifer y genedigaethau yn ardal Llangefni yn uwch mewn blynyddoedd diweddar, o gymharu â gweddill Ynys Môn a Chymru. Gweler y data ar enedigaethau yn Atodiad 1.

## 2. Y Cyflenwad Presennol o Ofal Plant yn Rhagfyr 2018

| Ward | Ardal | Dalgylch Ysgol | Meithrinfa Ddydd | Nifer y Lleoedd | Gwarchodwr Plant | Nifer y Lleoedd | Cylch Meithrin | Nifer y Lleoedd | Gofal Cofleidiol | Nifer y Lleoedd | Clwb ar ôl Ysgol Cofrestredig | Nifer y Lleoedd | Clwb ar ôl Ysgol Heb ei Gofrestru | Nifer y Lleoedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aethwy** | Llanfairpwll | Llanfairpwll | 1 | 34 | 3 | 26 | 1 | 44 | 1 | 20 | | | 2 | 70 |
| | Penmynydd | | | | | | | | | | | | | |
| | Porthaethwy | Porthaethwy | 2 | 119 | 3 | 26 | 1 | 24 | | | | | 1 | 24 |
| **Bro Aberffraw** | Aberffraw | Bodorgan | | | | | | | | | | | | |
| | Bodorgan | Niwbwrch | | | | | | | | | | | | |
| | Rhosyr | Dwyran | | | | | | | | | | | | |
| **Bro Rhosyr** | Llanidan | Brynsiencyn | | | | | 1 | 18 | 1 | 18 | | | | |
| | Llanfihangel Esceifiog | Esceifiog | | | 1 | 4 | 1 | 16 | 1 | 16 | 1 | 24 | | |
| | Llanddaniel Fab | Parc y Bont | 1 | 70 | | | 1 | 24 | 1 | 28 | 1 | 32 | | |
| | Llangristiolus | Henblas | | | | | 1 | 15 | 1 | 15 | | | | |
| | | Llangaffo | | | | | | | | | | | | |
| **Caergybi** | Tref Caergybi | Cybi | 1 | 40 | 2 | 17 | 1 | 19 | 1 | 19 | | | | |
| | Morawelon | Llanfawr | 1 | 52 | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Porthyfelin | Santes Fair | | | | | 1 | 19 | 1 | 19 | 1 | 19 | | |
| | Bryngwran | Bryngwran | | | | | 1 | 13 | | | | | | |
| | Bodffordd | Bodffordd | 1 | 37 | | | 1 | 20 | | | | | | |
| | Llangefni | Y Graig | 2 | 115 | 3 | 22 | 1 | 24 | | | | | 1 | 16 |
| **Canolbarth** | Llangwyllog | Corn Hir | | | | | 1 | 26 | | | 1 (SCS) | 10 | 1 | 35 |
| **Môn** | Tregaean | Y Ffridd | | | 1 | 10 | 1 | 16 | | | 1 | 16 | | |
| | | Talwrn | | | 1 | 9 | 1 | 16 | | | | | | |
| | Llanfaelog | Pencarnisiog | | | | | 1 | 15 | | | | | | |
| | Llanfair yn Neubwll | Rhosneigr | | | | | 1 | 12 | | | | | 1 | 16 |
| **Llifon** | Y Fali | Y Tywyn | 1 | 68 | 1 | 10 | | | | | | | 1 | 16 |
| | | Caergeiliog | 1 | 57 | 4 | 40 | 1 | 26 | 1 | 26 | 1 | 50 | | |
| | | Y Fali | | | 2 | 8 | | | | | | | | |
| | Moelfre | Moelfre | | | 2 | 19 | | | | | | | | |
| | Llaneurgad | Goronwy Owen | | | 5 | 35 | 1 | 21 | 1 | 21 | | | | |
| **Lligwy** | Llanfair M. E. | Pentraeth | | | | | 1 | 16 | | | | | 1 | 16 |
| | Pentraeth | Llanbedrgoch | | | 1 | 10 | | | | | | | 1 | 12 |
| | Llanfihangel Tre'r Beirdd | | | | | | | | | | | | | |

Tudalen 270

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Seiriol** | Biwmares | Biwmares | | | 1 | 6 | 1 | 24 | | | | | | |
| | Cwm Cadnant | Llandegfan | | | 2 | 20 | 2 | 46 | 1 | 22 | 1 | 24 | | |
| | Llanddona | Llanddona | | | | | | | | | | | | |
| | Llangoed | Llangoed | | | | | | | | | | | | |
| **Talybolion** | Bodedern | Bodedern | | | 2 | 12 | 1 | 16 | | | | | | |
| | Llanerchymedd | Llanerchymedd | | | | | | | | | | | 1 | 16 |
| | Llanfaethlu | Rhyd Y Llan | | | | | 1 | 22 | | | | | | |
| | Mechell | Llanfechell | | | | | 1 | 20 | | | | | | |
| | Tref Alaw | Cemaes | | | 1 | 10 | 1 | 13 | | | | | | |
| | | Carreglefn | | | | | 1 | 12 | | | | | | |
| **Twrcelyn** | Amlwch | Amlwch | 1 | 32 | 7 | 56 | 2 | 44 | | | 1 | 20 | | |
| | Llaneilian | Penysarn | | | 3 | 30 | 1 | 20 | | | | | | |
| | Rhosybol | Rhosybol | | | 2 | 13 | 1 | 15 | 1 | 15 | | | | |
| **Ynys Gybi** | Trearddur | | | | | | | | | | | | | |
| | Rhoscolyn | Rhoscolyn | | | | | 1 | 28 | 1 | 28 | 1 | 28 | | |
| | Maes Hyfryd (Caergybi) | Morswyn | | | | | 1 | | | | | | | |
| | Kingsland (Caergybi) | Kingsland | | | 3 | 14 | 1 | 24 | 1 | 24 | | | | |

| Trosolwg | Blwyddyn – cynnydd neu ostyngiad | Meithrinfa Ddydd | Nifer y Lleoedd | Gwarchodwr Plant | Nifer y Lleoedd | Gwarchodwr Plant | Nifer y Lleoedd | Gofal Cofleidiol | Nifer y Lleoedd | Clwb ar ôl Ysgol Cofrestredig | Nifer y Lleoedd | Clwb ar ôl Ysgol Heb ei Gofrestru | Nifer y Lleoedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gostyngiad/ dim darpariaeth | 2018 | **12** | **567** | **44** | **360** | **34** | **666** | **13** | **301** | **8** | **223** | **10** | **221** |
| Aros yr un fath<br>Wedi cynyddu | 2017 | **12** | **569** | **47** | **383** | **34** | **697** | **14** | **282** | **8** | **200** | **11** | **237** |
| | 2016 | **12** | **597** | **50** | **363** | **39** | **836** | **Ddim ar gael** | | **10** | | **10** | |

Tudalen 271

DRAFT

**Dengys yr uchod, ar draws y sector, ac eithrio meithrinfeydd dydd preifat, bod y ddarpariaeth wedi lleihau, sy’n arwain at ostyngiad yn nifer y lleoedd sydd ar gael ar draws cyfanswm y ddarpariaeth o 2,338 yn 2018 o gymharu â 2,368 yn y flwyddyn flaenorol. Yn anffodus, mae’r niferoedd ar gyfer 2016 yn anghyflawn. Ceir gostyngiad cyffredinol o 30 o leoedd.**

**Fodd bynnag, mae’r galw am leoedd ar gyfer rhai rhwng 3-4 oed, er mwyn i rieni fod yn gymwys ar gyfer y 30 awr o ofal plant am ddim a weithredir gan Lywodraeth Cymru, yn dechrau effeithio’r gadwyn gyflenwi. Mae llawer o ddarparwyr, yn enwedig meithrinfeydd dydd a gwasanaethau cofleidiol, yn adrodd eu bod yn llawn. Mae rhai safleoedd ysgol yn llawn, gyda chyfleoedd i ehangu yn cael eu cyfyngu gan adeiladau’r ysgol yn bennaf, ynghyd â’r gallu i recriwtio staff yn y maes hwn.**

## 2.1 Crynodeb o’r Cyflenwad

### 2.1.1 Gofal dydd llawn

Mae’r cyflenwad o ofal plant ym Môn wedi aros yn gymharol sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf o ran y lleoedd gofal dydd llawn sydd ar gael i blant 0 – 12 oed. Fodd bynnag, mewn rhannau o’r sir, nid oes ond ychydig iawn neu ddim darpariaeth gofal plant ar gael. Nid oes gan Fro Aberffraw unrhyw ddarpariaeth gofal plant yn y ward ar gyfer plant o unrhyw oedran ar hyn o bryd, ac nid oes darpariaeth cylch meithrin neu gyn ysgol yn yr ardal. Yn Niwbwrch, ceir darpariaeth gofal plant Dechrau’n Deg ar gyfer plant 2 oed cymwys, a darperir yr Addysg Blynyddoedd Cynnar gan yr ysgol. Gwyddys yn lleol bod darpariaeth cylch meithrin ym Modorgan, Llangaffo a Dwyran wedi cau o ganlyniad i sawl ffactor, fel niferoedd isel o blant, anhawster o ran recriwtio staff a chynnal pwyllgorau gwirfoddol.

Ceir datblygiadau strategol yn yr ardal yn unol â Strategaeth Addysg Ynys Môn i ddarparu gofal plant o fewn ysgol newydd Ysgol Santes Dwynwen, a fydd yn cael ei ddatblygu’n unol â’r anghenion yn yr ardal honno.



Gall fod digon o leoedd gofal plant mewn ardaloedd eraill ond fod diffyg dewis o ran y math o ofal plant. Mae Llangefni mewn ardal a chanddi boblogaeth fawr a lefel uchel o gyflogaeth gyda 2 feithrinfa ofal dydd llawn sy’n cynnig 115 o leoedd gofal plant, ynghyd â meithrinfa arall ym Modffordd sy’n cynnig 37 o leoedd. Dim ond 3 gwarchodwr plant cofrestredig a geir o fewn Llangefni ac 1 yn Nhalwrn, sy’n caniatáu dim ond 9 o leoedd i blant o dan oed ysgol. Mae’r dewis i rieni o ran y math o ofal plant yr hoffent ei gael ar gyfer eu plant yn yr ardal yn gyfyngedig. Mae’r meithrinfeydd dydd yn yr ardal bron yn llawn.

Yn Amlwch, ceir 56 o leoedd gyda gwarchodwyr plant o gymharu â 32 yn y feithrinfa ddydd. Mae digon o leoedd gweigion yn y ddau sector i roi dewis i rieni o ran y math o ofal plant y dymunent ei ddefnyddio.

Mae ward Aethwy wedi gweld gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ceir 153 o leoedd mewn meithrinfa ddydd yn y ward, gyda 70 o leoedd eraill yn Llanedwen, ac er nad yw yn ward Aethwy, nid yw ond yn 2 filltir o Lanfairpwll. Ceir cyfanswm y 52 o leoedd gyda gwarchodwyr plant yn y ward. Mae’r cylch meithrin lleol yn cynnig gwasanaeth cofleidiol ar gyfer plant 3 a 4 mlwydd oed.

DRAFT

## 2.1.2 Darpariaeth Cyn Ysgol

Darpariaeth cyn ysgol ar gyfer plant o 2½ oed, gydag Addysg Blynyddoedd Cynnar ar gyfer rhai 3 oed yn cael ei darparu ar hyn o bryd dim ond yn y cylchoedd meithrin a/neu'r cylchoedd chwarae cyn ysgol ar draws y sir.

Mae pedwar lleoliad wedi cau yn ystod 2018. Mae cynaliadwyedd lleoliadau o'r fath yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys nifer y plant sy'n mynychu, recriwtio a chadw staff sydd wedi'u cymhwyso'n briodol, adeiladau priodol a chyllid grant ychwanegol a gweithgareddau codi arian.

## 2.1.3 Darpariaeth ar ôl Ysgol

Mae ysgolion llai yn ei chael yn anodd cynnal clwb ar ôl ysgol oherwydd niferoedd isel y plant sy'n mynychu. I lawer o deuluoedd, mae cael mynediad i ofal plant ar ôl ysgol yn hanfodol i alluogi rhieni i weithio. Gellir darparu gofal plant ar ôl ysgol gan warchodwyr plant, meithrinfeydd neu glybiau ar ôl ysgol. Mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth ofal dydd mae cael clwb ar ôl ysgol ar safle'r ysgol yn werthfawr.

Mae mwyafrif y clybiau ar ôl ysgol sy'n gweithredu ym Môn yn gwneud hynny fel lleoliadau sydd heb eu cofrestru, am lai na 2 awr y dydd. O ran teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, nid ydynt yn gallu cael cymorth ariannol gyda chostau gofal plant yn ffurf Credydau Treth, Talebau Gofal Plant neu'r Cynnig 30 awr o Ofal Plant.

Ceir enghreifftiau lle mae gan ysgolion leoliadau gofal dydd llawn ar y safle sy'n cynnig darpariaeth cyn ysgol, clwb cinio, gofal cofleidiol a gofal plant ar ôl ysgol i blant o 3 mlwydd oed. Cofrestrir lleoliadau o'r fath ag AGC.



DRAFT

### 3.0 Darpariaeth Newydd a Rhai Sydd Wedi Cau

| <u>**Math o Leoliad**</u> | **Wedi Agor yn 2018** | **Wedi Cau yn 2018** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| **Cylch Meithrin/PPA** | Cylch Meithrin y Tywyn | | Cylch Meithrin Iaith Gymraeg newydd wedi agor ym Medi 2018. Gwnaed cais i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer 19 o blant. |
| | | Darpariaeth Cyn Ysgol Lilypad | Mae Meithrinfa Ddydd Lilypad yn parhau i weithredu fel cyfleuster gofal dydd llawn ond nid yw mwyach yn darparu Addysg Blynyddoedd Cynnar. |
| | | Cylch Meithrin Moelfre | Wedi cau dros dro oherwydd diffyg staff cymwys. |
| | | Cylch Meithrin Llanerchymedd | Wedi cau dros dro oherwydd diffyg staff cymwys. |
| | | Cylch Meithrin Bodorgan | Wedi cau oherwydd anawsterau o ran recriwtio staff. |
| | | Cylch Meithrin Y Fali | Wedi cau. Dim darpariaeth ar hyn o bryd. |



DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cylch Meithrin Cybi | | Cylch Meithrin wedi’i gofrestru o’r newydd yn dilyn cau'r ddarpariaeth o ofal dydd llawn gan Gofal Plant Ynys Môn /Anglesey Childcare Cyf. |
| **Clybiau ar ôl Ysgol** | | Clwb Llanfechell | Lleoliad heb ei gofrestru sydd wedi cau. Yn anghynaliadwy oherwydd niferoedd isel yn mynychu. |
| | | Clwb Rhosyr, Dwyran | Y clwb yn anghynaliadwy oherwydd niferoedd isel yn mynychu ac felly fe’i gorfodwyd i gau. |
| **Gwarchodwyr Plant** | 4 gwarchodwr plant newydd wedi cofrestru yn 2018<br><br>2 x Caergeiliog 20 o leoedd<br><br>1 x Amlwch 10 o leoedd<br><br>1 x Gwalchmai 10 o leoedd | | 40 o leoedd gyda gwarchodwyr plant wedi’u creu yn 2018.<br><br>Mae tri o’r gwarchodwyr plant sydd newydd gofrestru yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Mae un o’r gwarchodwyr plant yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf ac yn siarad Cymraeg fel ail iaith ac yn cynnig gwasanaeth gofal plant dwyieithog. |
| | | 4 gwarchodwr plant wedi rhoi’r gorau i weithredu | Mae tri gwarchodwr plant wedi ymddeol o’u gyrfa gofal plant. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 2 yn Rhosgoch x 12 o leoedd<br><br>1 ym Menllech x 10 o leoedd<br><br>1 yn Llangefni x 6 o leoedd | Nid oedd un gwarchodwr plant yn gweithredu'n rheolaidd ond yn ofalwr wrth gefn ar gyfer ei bartner sy'n warchodwr plant llawn amser. Nid oedd angen ei gofrestru.<br><br>Collwyd cyfanswm o 28 o leoedd gofal plant cofrestredig yn 2018. Yn ymarferol, mae gostyngiad o 18 yn nifer y lleoedd sydd ar gael gyda gwarchodwyr plant. |
| **Gofal Dydd Llawn** | | Gofal Plant Ynys Môn – Ysgol Cybi | Mae'r ddarpariaeth ofal dydd llawn yn Ysgol Cybi wedi cau. Mae'r ddarpariaeth Cylch Meithrin wedi ailagor o dan reolaeth newydd. |
| | | | |



**4.0 Y Galw am Ofal Plant**

Dechreuwyd gweithredu Cynnig 30 awr o Ofal Plant Llywodraeth Cymru mewn rhai ardaloedd o Ynys Môn ym Medi 2017. Roedd ardal gyfan Ynys Môn wedi'i chynnwys erbyn Ebrill 2018. Hyd yma, mae 350 o blant a'u teuluoedd wedi cael budd o'r cynnig ym Môn. Bu'r rhaglen o fudd i'r economi gofal plant lleol, ac ar gyfartaledd, mae lleoliadau gofal plant yn derbyn **£107,147.25 (Mehefin 2018)** y mis fel sector drwy'r Rhaglen. O ganlyniad, cawsom dystiolaeth anecdotaidd gan rieni bod hyn wedi galluogi iddynt gynyddu eu horiau gweithio a/neu fod hyn o fudd iddynt yn ariannol o ran gallu fforddio pethau hanfodol. Mae Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â gwerthusiad o'r rhaglen ac yn ymgynghori â rhieni i asesu buddion y Rhaglen i rieni a darparwyr gofal plant.

Mae 152 yn derbyn eu gofal plant mewn lleoliadau iaith Gymraeg, 118 mewn lleoliadau iaith Saesneg a 113 mewn darpariaeth ddwyieithog (gall rhai plant fod yn mynychu 2 leoliad).

Mae llawer o feithrinfeydd dydd a darpariaeth gofleidiol wedi adrodd cynnydd o ran y galw ers cyflwyno'r cynnig 30 awr ym Medi 2017. Ychydig o warchodwyr plant sydd wedi adrodd cynnydd mewn galw.

Hefyd, bydd safleoedd ysgol yn ganolog i gynyddu'r cyflenwad o ddarpariaeth i gwrdd â'r galw, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel dalgylch Santes Dwynwen, gyda nifer y darparwyr ar hyn o bryd yn ehangu i gwrdd â'r galw. Mae Strategaeth Addysg Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi gyrwyr dros newid sy'n rhan o'r rhaglen foderneiddio ysgolion fel a ganlyn:

- Ehangu'r defnydd cymunedol a wneir o adeiladau ysgol
- Cyfleusterau gofal plant a chymunol ar gyfer rhieni a thrigolion hŷn
- Darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg
- Darpariaeth feithrin
- Sicrhau bod adeiladau ysgol yn ateb y gofyn



**Y defnydd o adeiladau ysgol gan y gymuned**
Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion a chanddynt ddarpariaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, darpariaeth ofal plant, gweithgareddau haf a phenwythnos, yn cyflawni safonau uwch ac yn sicrhau ymgysylltiad â rhieni a'r gymuned. Yn ogystal, disgwylir i ysgolion fod yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hybu gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math hwn o weithgaredd yn bwysig o ran datblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Mae'r strategaeth yn nodi y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i ymgynghori, ymgysylltu â gweithio gyda phartneriaid, yn enwedig o ran datblygu lleoedd mewn ysgolion, ochr yn ochr â digonolrwydd darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r Mudiad Meithrin, y Gymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn Ysgol a phartneriaid yn y sector gofal plant preifat, ar gyfer y plant hynny sydd rhwng 0 a 3 mlwydd oed.

Mae'r strategaeth yn nodi ymhellach bod cyfleusterau gofal plant a chymunedol i rieni a thrigolion hŷn yn bwysig o ran cydlyniant cymunedol. Mae'n pennu mai Uned Cefnogi Teuluoedd Ynys Môn sy'n gyfrifol am sicrhau nifer ddigonol o leoedd gofal plant ym Môn, ac mae'n cymryd rhan o'r peilot cenedlaethol sy'n cynnig 30 awr o ofal plant am ddim. Mae'r Uned yn gweithio'n agos gyda'r rhaglen foderneiddio ysgolion ac yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu achosion busnes cysylltiedig, yn enwedig yn nhermau cyfrifo'r rhagolygon o ran niferoedd disgyblion i'r dyfodol.



DRAFT

Mae strategaeth yr Awdurdod hefyd yn cydnabod bod cyfle i hyrwyddo gweledigaeth o ofal plant cofleidiol ar un safle ar gyfer pob disgybl o dan 11 oed, gan gynnwys brodyr a chwiorydd yn yr adrannau babanod ar rai safleoedd. Rhagwelir bod sicrhau darpariaeth feithrin ar gyfer rhai 0-3 oed ar safleoedd ysgolion newydd neu rheiny sy'n cael eu haddasu (i'w rheoli gyda phartner o'r sector gofal plant lleol), er mwyn darparu gofal rhwng 7.30 o'r gloch y bore a 6.00 o'r gloch yr hwyr ar gyfer teuluoedd, ynghyd ag addysg feithrin, gofal 'cofleidiol' a chlybiau ar ôl ysgol/gofal yn ystod y gwyliau, yn agwedd allweddol.

Mae'r polisi iaith newydd yn cyfeirio at yr amcan o gynyddu cyfran y disgyblion sy'n cyflawni targedau iaith Gymraeg fel iaith gyntaf yn y cyfnod sylfaen, hyd at ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd. Bwriedir hefyd defnyddio'r modelau gofal plant uchod i gynyddu capasiti gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Môn. Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i fod yn gyfrannwr allweddol tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



### 5.0 Cynllun Gweithredu a Chynnydd

| Targed | Pam | Cam Gweithredu | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth ar ôl Ysgol ddigonol yn y sector ysgolion uwchradd | Nid oes unrhyw ddarpariaeth ofal plant ffurfiol y tu allan i'r ysgol i ddisgyblion oedran uwchradd.<br><br>Cynigir ystod o weithgareddau ar ôl ysgol, ar ac oddi ar safleoedd ysgolion, ar ôl oriau ysgol. | Adolygu'r gofal plant sydd ar gael a monitro'r galw drwy Teulu Môn.<br><br>Mapio'r gweithgareddau sydd ar gael ar gyfer rhai 11 - 16 oed ar ôl ysgol. | Dim tystiolaeth o alw am ofal plant ffurfiol ar ôl ysgol ar gyfer y sector ysgolion uwchradd.<br><br>Mae Teulu Môn, sef hyb Gwybodaeth, Cyngor a Gwybodaeth Ynys Môn, yn parhau gyda'r gwaith o drosglwyddo data i gronfa ddata a gwefan Dewis. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, bydd yn haws coladu gwybodaeth am yr amryw gynlluniau a gweithgareddau sydd y tu allan i ddarpariaeth gofal plant sydd wedi'i chofrestru gyda AGC. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cofrestru Clybiau ar ôl Ysgol | Mae nifer o glybiau y tu allan i'r ysgol yn gweithredu ar hyn o bryd sy'n rhoi darpariaeth o dan 2 awr heb gofrestru gydag AGC.<br><br>Byddai cofrestru'n sicrhau bod teuluoedd sy'n gymwys i gael gofal plant di-dreth/Cynnig Gofal Plant Cymru/Credyd Cynhwysol yn gallu cael mynediad i'r gefnogaeth ariannol. | Cyflogi Swyddog Cefnogi Busnes i gefnogi clybiau y tu allan i'r ysgol gyda chynllunio busnes.<br><br>Annog Clybiau y tu Allan i'r Ysgol i gofrestru gydag AGC a fyddai'n rhoi mynediad i gyllid ychwanegol. | Bydd y Swyddog Cefnogi Busnes yn ei swydd tan Hydref 2018.<br><br>Mae'r swydd yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.<br><br>Prin iawn fu'r datblygiadau yn y sector ar ôl ysgol dros y 5 mlynedd diwethaf. Bu clybiau naill ai'n cau neu'n canslo eu cofrestriad ag AGC ac yn gweithredu am lai na 2 awr y dydd.<br><br>Mae gwaith ar fynd o ran datblygu strategaeth sy'n galluogi cyrff llywodraethu a phenaethiaid i ddatblygu gofal plant ar safleoedd ysgol yn unol â'r galw/cyflenwad yn yr ardal honno ynghyd â Strategaeth yr Adran Addysg. |
| Gwella a chefnogi darpariaeth iaith Gymraeg ar draws y sector gofal plant | I gefnogi targed Llywodraeth Cymru o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | Hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg.<br><br>Recriwtio gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg.<br><br>Cefnogi lleoliadau nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac i feithrin hyder ymhlith aelodau staff. | Mae'r Mudiad Meithrin yn rhedeg prosiect Cymraeg i Blant sy'n gweithio gyda rhieni a babis ifanc.<br><br>Bu partneriaid CWLWM yn defnyddio Gwiriwr i asesu gwybodaeth eu staff o'r Gymraeg. Mae pecynnau hyfforddiant a chymorth yn cael eu treialu'n barod ar gyfer eu cyflwyno'n llawn yn Ebrill 2019.<br><br>Mae Swyddogion Cefnogi yn annog yr holl aelodau staff gofal plant i fewngofnodi a defnyddio'r offeryn Gwiriwr.<br><br>Mae'r Mudiad Meithrin wedi derbyn cyllid gan y Llywodraeth i agor dau gylch meithrin newydd mewn ardaloedd dynodedig ar gyfer y 2 flynedd ariannol nesaf. |

DRAFT

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Agorodd Cylch Meithrin Tywyn ym Medi 2018 ac mae'n disgwyl i gofrestru gydag AGC.<br><br>Mae gwarchodwyr plant yn derbyn grant sefydlu ychwanegol i helpu tuag at brynu adnoddau iaith Gymraeg.<br><br>O'r 4 gwarchodwr plant sydd wedi'u recriwtio yn 2018, mae 3 yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ac mae un yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf ond yn gallu siarad Cymraeg.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda'r Strategaeth Addysg i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sector. |
| Cynyddu nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig | Mae nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn lleihau. Nid yw hyn yn unigryw i Ynys Môn ond yn digwydd ar draws y wlad.<br><br>Nid oes ond ychydig neu ddim darpariaeth gofal plant mewn rhai ardaloedd gwledig, yn enwedig yn ne orllewin yr ynys | Hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol fel y Ganolfan Byd Gwaith, Cymunedau Dros Waith a PaCE i recriwtio darpar warchodwyr plant.<br><br>Diogelu darpariaeth gofleidiol ar gyfer ysgolion i blant 3 a 4 | Hyrwyddo gofal plant fel gyrfa mewn digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.<br><br>• Gŵyl Dewin a Doti<br>• Ffeiriau Gwaith y Ganolfan Byd Gwaith x 2<br>• Sioe Môn<br><br>Hyrwyddir hefyd drwy:<br><br>• Anfon posteri i bob Cyngor Tref a Chymuned eu harddangos ar eu hysbysfyrddau/gwefannau<br>• Rhannu taflen wythnosol ar gyfrifon twitter facebook yr Awdurdod.<br>• Swyddogion Cefnogi'r Mudiad Meithrin yn rhannu taflenni yn eu grwpiau Ti a Fi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar hyd ardal y B4080 o Frynsiencyn i Rosneigr. | oed gan ystyried y galw a chynaliadwyedd i'r dyfodol. | Mae 1 darpar warchodwr plant yn Nhŷ Croes wrthi ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gofrestru gydag AGC.<br><br>Cynllunio strategol o amgylch ysgol newydd Ysgol Santes Dwynwen sy'n agor yng ngwanwyn 2019 er mwyn ystyried y ddarpariaeth ofal plant yn yr ardal hon.<br><br>Er mwyn datblygu gofal plant ymhellach ar draws safleoedd ysgol, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud cais am dros 3 miliwn o bunnoedd ar gyfer adnoddau cyfalaf i ddatblygu darpariaeth lle nad yw'n bodoli/lle mae diffyg darpariaeth/angen datblygu ymhellach. Disgwylir penderfyniad gan Lywodraeth Cymru ddechrau mis Ionawr 2019. |
| Sicrhau darpariaeth ddigonol yn ystod y gwyliau ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio | Yn draddodiadol, mae clybiau gwyliau wedi cael anawsterau o ran cynaliadwyedd.<br><br>Nid yw rhieni bob amser yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael.<br><br>Mae darpariaeth ad hoc yn effeithio cynaliadwyedd cyffredinol y ddarpariaeth ofal plant arferol.<br><br>Diffyg cynlluniau chwarae mynediad agored a rhai gyda goruchwyliaeth ar yr ynys. | Mapio'r ddarpariaeth sydd ar gael yn ystod y gwyliau yn nhermau gofal plant cofrestredig a gweithgareddau chwarae a chwaraeon.<br><br>Monitro'r defnydd a'r galw am y gwahanol fathau o ddarpariaeth yn ystod gwyliau ysgol.<br><br>Treialu cynlluniau chwarae gyda | Mae Teulu Môn yn parhau i weithio tuag at uwchlwytho data i gronfa ddata a gwefan Dewis.<br><br>Ymgymerwyd ag arolwg yn nalgylch Ysgol Santes Dwynwen yn 2018.<br><br>Cynhelir arolygon pellach yn ystod Gwyliau Pasg a Haf 2019.<br><br>Fel rhan o'r rhaglen 30 awr o ofal plant a buddsoddiad cyfalaf yn yr ardal hon, bydd darpariaeth wyliau yn cael ei chynllunio ar draws yr ynys mewn lleoliadau strategol. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | goruchwyliaeth yn ystod gwyliau ysgol. | |
| Cynyddu argaeledd gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol/ gofal plant hyblyg | Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn cynnig ei hun yn rhwydd i allu cynnig trefniadau gofal plant hyblyg.<br><br>Mae rhai meithrinfeydd dydd a gwarchodwyr plant yn gallu cynnig peth hyblygrwydd i rieni sydd efallai angen gofal plant ar wahanol ddiwrnodau neu amseroedd bob wythnos.<br><br>Yn gyffredinol, nid oes darpariaeth gofal plant ar gael gyda'r nos ac yn ystod y penwythnos.<br><br>Mae 1 gwarchodwr plant ar hyn o bryd yn cynnig darpariaeth ar benwythnosau ac yn hwyr gyda'r nos.<br><br>Byddai gwarchodwyr plant eraill yn barod i ymestyn oriau yn ôl anghenion eu cwsmeriaid ond ni fyddant yn ymestyn eu horiau agor cyffredinol. | Annog lleoliadau i gynnig hyblygrwydd lle'n bosibl heb effeithio cynaliadwyedd. Dylid cynnal ymarfer costio llawn cyn cynnig gwasanaeth o'r fath.<br><br>Hyrwyddo Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Llywodraeth Cymru ar gyfer nanis. | Nid oes unrhyw dystiolaeth uniongyrchol o angen i leoliadau gofal plant fod ar gael cyn 7 o'r gloch y bore a 6 o'r gloch yr hwyr.<br><br>O ran yr holl ddarpar warchodwyr plant a rhai newydd, fe'u hanogir i gynnig hyblygrwydd yn nhermau'r oriau o ofal plant a gynigir a'r strwythur priodol, lle bynnag y bo modd, ar gyfer y rhieni hynny sy'n gweithio oriau annodweddiadol neu batrymau sifftiau afreolaidd.<br><br>Bydd gwarchodwyr plant yn gweithio gyda theuluoedd unigol i ganfod y modd gorau o ddiwallu eu hanghenion gofal plant.<br><br>Mae Coleg Llandrillo Menai yn aelod o'r Grŵp Gweithredol Gofal Plant ac wedi rhannu gwybodaeth â'i fyfyrwyr ynghylch opsiynau o ran gyrfaoedd mewn gofal plant.<br><br>Hefyd, mae Pacey Cymru wedi ymweld â myfyrwyr GPDD 2il flwyddyn i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal plant. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sicrhau nifer ddigonol o staff sydd wedi'u cymhwyso'n llawn yn y sector | Mae cynaliadwyedd lleoliadau'n dibynnu ar gael staff sy'n gymwys ar gyfer y rolau.<br><br>Mae trosiant staff yn peri risg i leoliadau bach lle dibynnir ar un unigolyn allweddol gyda chymhwyster lefel 3. | Cynnal Dadansoddiad o Anghenion hyfforddiant i fesur lefelau cymwysterau presennol ac i ganfod anghenion hyfforddi i'r dyfodol.<br><br>Gweithredu Rhaglen Hyfforddiant DPP â chymhorthdal gyda'r gweithlu gofal plant. | Cynhaliwyd Arolwg o Anghenion Hyfforddiant yn ddiweddar. Anfonwyd holiaduron at 94 o ddarparwyr. Dychwelwyd 40 ohonynt (42.5%).<br><br>Adroddodd yr ymatebwyr y lefelau cymwysterau a ganlyn:<br><br>Gofal Plant, Dysgu a Datblygu (GPDD)<br><br>Lefel 2 – 18%<br><br>Lefel 3 – 37.5%<br><br>Lefel 5 – 17.5<br><br>Amcangyfrifir fod 370 o staff wedi'u cyflogi yn y sector gofal plant. Er mwyn sicrhau bod hyfforddiant ar gael i'r holl staff o fewn rhaglen dreigl 3 blynedd, mae angen 124 o leoedd ar gyfartaledd ar gyfer Cymorth Cyntaf Pediatrig, sy'n gwrs gorfodol, ac felly'r cwrs a fynychir fwyaf, ac mae angen hyn yn flynyddol. Dengys yr ymatebion i'r arolwg y byddai ar 30% o'r staff a adroddwyd angen y cwrs hwn yn 2019.<br><br>Nid yw cyrsiau Diogelu a Diogelwch Bwyd yn orfodol ar gyfer cofrestru gydag AGC ond anogir staff i'w mynychu i sicrhau y gallant roi tystiolaeth gyfredol o wybodaeth am ddeddfwriaeth ac arferion gorau presennol.<br><br>Ystyried codi ffi o £20 yr un ar gyfer pob cwrs i sicrhau bod rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ar gael. |


DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cytunodd 52% o’r ymatebwyr i’r Dadansoddiad o Anghenion y dylid codi’r ffioedd. Ni wnaed unrhyw wrthwynebiadau i godi’r ffioedd.<br><br>Ystyried codi ffi o £100 am beidio â mynychu heb ganslo.<br><br>Cytunodd 27.5% o’r ymatebwyr gyda chodi ffi am beidio â mynychu.<br><br>Gweithredwyd Rhaglen Hyfforddi Gymorthdaledig Flynyddol yn 2018: Codwyd ffi o £10.00 yr un ar gyfer bob cwrs.<br><br>9 x Cymorth Cyntaf Pediatrig - 96 wedi mynychu<br><br>6 x Diogelu – 89 wedi mynychu<br><br>4 x Diogelwch Bwyd – 47 wedi mynychu<br><br>1 x Codi a Chario – 10 wedi mynychu<br><br>1 x Iechyd a Diogelwch (gan gynnwys Asesu Risg) - 8 wedi mynychu<br><br>1 x L2 Bwyd a Maetheg Cymunedol - 9 wedi mynychu<br><br>1 x Maetheg Cyn Ysgol – 9 wedi mynychu<br><br>1 L3 Trosglwyddo i Waith Chwarae – 12 wedi mynychu |

DRAFT

## Atodiad 1

### Data genedigaethau




Tudalen 285

This page is intentionally left blank